**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 2022/23**

Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn gyfres o ddogfennau sy'n dweud wrthych am ein sefydliad, y gwasanaethau a'r gofal rydyn ni'n eu darparu a'r hyn rydyn ni'n ei wneud i gynllunio, darparu a gwella gofal iechyd i chi. Mae'n darparu gwybodaeth am sut roedden ni wedi perfformio yn 2022/23, beth rydyn ni wedi'i gyflawni, sut rydyn ni'n bwriadu parhau i wella y flwyddyn nesaf a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn egluro pa mor bwysig yw hi i ni weithio gyda chi a gwrando ar eich barn, er mwyn darparu gwasanaethau sy'n diwallu eich anghenion yn well, mor agos â phosibl at eich cartref.

**Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 yn cynnwys:**

- Ein **Hadroddiad Perfformiad** sy'n rhoi manylion am sut rydym wedi perfformio yn erbyn ein targedau a'r camau sydd wedi'u cynllunio i gynnal neu wella ein perfformiad.

- Mae ein **Hadroddiad Atebolrwydd** sy'n rhoi manylion ein prif ofynion atebolrwydd ac yn rhoi gwybodaeth am sut rydym yn rheoli ein hadnoddau, yn nodi ac yn ymateb i'n risgiau, ac yn cydymffurfio â'n trefniadau llywodraethu ein hunain.

- Ein **Datganiadau Ariannol a'n Cyfrifon Blynyddol** sy'n nodi sut rydym wedi gwario ein harian ac wedi cyflawni ein rhwymedigaethau.

## Cysylltu â ni

Gallwch gysylltu â'r Bwrdd Iechyd gan ddefnyddio'r manylion isod:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Pencadlys, Ysbyty St Cadog
Ffordd y Lodj, Caerllion, Casnewydd, NP18 3WQ
Ffoniwch; 01633 436700 neu e-bostio abhb.enquiries@wales.nhs.uk
http://twitter.com/aneurinbevanhb
https://www.facebook.com/AneurinBevanHealthBoard

| Adran Un – Yr Adroddiad Perfformiad | |
|---|---|
| 1. Trosolwg gan y Prif Weithredwr<br>2. Gofynion Adrodd<br>3. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>4. Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022/23 – Cwrs Bywyd<br>• Cyflawni Blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022/23<br>5. Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022/23 – Rhaglenni â Blaenoriaeth<br>6. Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022/23 – Ansawdd a Diogelwch<br>7. Gweithio i Wella<br>8. Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>9. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth<br>10. Gofynion yr Iaith Gymraeg<br>11. Rheolaeth a Pherfformiad Ariannol<br>12. Casgliad ac Edrych Ymlaen | |
| **Adran Dau – Yr Adroddiad Atebolrwydd** | |
| Adroddiad ar Lywodraethiant Corfforaethol<br>• Adroddiad y Cyfarwyddwyr<br>• Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol<br>• Datganiadau Llywodraethiant Blynyddol | |
| Adroddiad ar Gydnabyddiaethau a Staff | |
| Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol | |
| **Adran Tri – Y Datganiadau Ariannol** | |
| Cyfrifon Blynyddol Archwiliedig 2022-23 | |

# Adroddiad Perfformiad

## 1. Trosolwg gan y Prif Weithredwr

Dros y deuddeg mis diwethaf, mae ein sefydliad wedi parhau o dan bwysau gweithredol parhaus ar lefelau na fyddai, cyn Covid 19, ond wedi cael ei weld yn ystod cyfnod y gaeaf. Roedd 2022/23 wedi arwain at gynnydd yn y galw ar draws ein systemau gofal brys a gofal wedi'i gynllunio, mwy o bwysau ar wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol, yn ogystal â gwasanaethau iechyd meddwl. Rydym wedi parhau i weld galw mawr yn ein hadrannau achosion brys, pwysau sylweddol mewn gofal cymdeithasol a lefelau uchel o salwch ac absenoldeb ar draws ein gweithlu. Mae'r pwysau gofal brys parhaus ynghyd â'r heriau a wynebir gan y system gofal cymdeithasol yn parhau i effeithio ar adferiad y gwasanaeth.

Er gwaethaf yr heriau hyn, bu gwelliannau mewn perfformiad, ar draws ehangder ein blaenoriaethau, wrth i ni geisio dychwelyd i lefelau gwasanaeth cyn y pandemig a chyflawni'r trawsnewid gwasanaeth sy'n sail i'n cynlluniau i ddarparu system gynaliadwy o ofal ar gyfer y dyfodol.

Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2022/25 yn nodi ein blaenoriaethau sefydliadol craidd, wedi'u hategu gan ein ffocws ar leihau anghydraddoldebau iechyd a brofir gan ein cymunedau, drwy wella iechyd y boblogaeth. Wrth wneud hynny, mabwysiadodd y cynllun ddull cwrs bywyd a oedd yn optimeiddio iechyd a lles ein poblogaeth, gan adeiladu ar ddull a fabwysiadwyd gyntaf yn 2021. Rydym yn hyderus y bydd y dull hwn, dros y tymor hir, yn arwain at enillion uchel o ran iechyd a datblygu cynaliadwy, drwy gyfyngu ar y risgiau sy'n cronni drwy gydol bywyd a'r salwch cysylltiedig i'n dinasyddion. Mae cynnal y ffocws ar y tymor hir yn heriol yn wyneb pwysau gweithredol ond yn hanfodol wrth gynllunio llwybr at gynaliadwyedd. Roedd ein cynllun yn seiliedig ar dair thema graidd, sef optimistiaeth, realaeth a chynaliadwyedd.

- Mae **optimistiaeth** yn deillio o ddealltwriaeth gynyddol o'n system, rydym yn gwybod ble i ganolbwyntio ein hymdrechion, a gyda'n cryfder o'r newydd o ran gweithio mewn partneriaeth, seilwaith gwell (cyfleusterau a thechnoleg) ynghyd â'n gweithlu, wedi dangos ac yn parhau i ddangos y gallwn gyflawni newid yn gyflym i wella gofal.
- **Realaeth** - datblygwyd ein blaenoriaethau a'n proffiliau cyflawni (a nodir yn y Set Data Sylfaenol) gyda thimau clinigol rheng flaen. Drwy ein dull cynllunio deinamig, mae gennym ddealltwriaeth dda o'r galw, y risgiau a'r gofynion capasiti posibl ar gyfer timau clinigol a'n system.
- **Cynaliadwyedd** – roedd ein cynllun yn canolbwyntio ar gyflawni'r camau gweithredu i gynyddu capasiti cynaliadwy, cefnogi pobl yn y man gofal mwyaf priodol, a chymryd camau ataliol i helpu pobl i fyw'n dda yn ein cymunedau.

Mae ein Strategaeth Dyfodol Clinigol, sy’n mynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd, wedi parhau i fod yn gadarn ac yn berthnasol ers dros ddegawd. Ers agor Ysbyty Athrofaol y Faenor ym mis Tachwedd 2020 (carreg filltir hanfodol wrth gyflawni'r strategaeth ehangach) rydym wedi ail-lunio ein Rhaglen Dyfodol Clinigol i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau sefydliadol allweddol y Bwrdd Iechyd a fydd, ar sail ein dealltwriaeth o'n system, yn cael yr effaith fwyaf ar wella cynaliadwyedd ein system.



Dyfodol Clinigol
Clinical Futures

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - 10 Rhaglen Blaenoriaeth 2022/23**

- Diogelu Iechyd Cyhoeddus a Gwella Iechyd y Cyhoedd
- Datblygiad Clwstwr Cyflym (iechyd a gofal yn seiliedig ar le)
- Ail-ddylunio Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn
- Trawsnewid Gofal Brys ac Argyfwng
- Adfer Gofal a Gynllunnir
- Uchafu Canlyniadau Canser
- Trawsnewid Gofal Iechyd Meddwl
- Ail-ffurfio Rhwydwaith Ysbyty Cyffredinol Lleol gwell
- Datgarboneiddio
- Gweithio Hyblyg

Mae’r meysydd canlynol yn tynnu sylw at rai o’r prif gyflawniadau o 2022/23.

<u>Gwella Iechyd ein Poblogaeth</u>

Yn 2022/23, fe wnaethom lwyddo i sefydlu Gwent fel rhanbarth Marmot (ynghyd â’n partneriaid yn yr Awdurdod Lleol), sy’n cadarnhau ein hymrwymiad i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd a lansio Cynllun Llesiant Pum Mlynedd Gwent 2023-28.

Unwaith eto, cawsom berfformiad eithriadol o ran brechu plant, gyda 94% o blant yn cael y brechiad '6 mewn 1' erbyn eu bod un oed, a 90% o blant yn cael dau ddos o MMR erbyn iddynt fod yn bump oed.

Gwnaethom hefyd barhau i wneud cynnydd mawr o ran lleihau nifer yr achosion o ysmygu ledled Gwent ac mae gennym hefyd lawer o enghreifftiau gwych o gefnogi cleifion a dinasyddion i fyw bywyd iachach.

<u>Gwasanaethau Gofal Sylfaenol</u>

Roedd y cyfraddau ymgynghori wyneb yn wyneb hyd at 58% ym mis Ebrill 2023 (o 25% ym mis Mehefin 2021). Mae’n galonogol bod 46% o feddygfeydd bellach yn defnyddio systemau digidol (fel Attend Anywhere ac E-Consult) ac mae ein Gwasanaethau Deintyddol wedi gweld dros 30,000 o gleifion newydd.

Mae ein fferyllfeydd wedi parhau i chwarae rhan hollbwysig yn ein system gofal sylfaenol, ac mae pob fferyllfa gymunedol bellach wedi cofrestru i ddarparu gwasanaethau allweddol fel y Cynllun Anhwylderau Cyffredin (cynnydd o 76% o 21/22) a brechiadau rhag y ffliw. Yn ogystal, yr ydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y fferyllfeydd sy’n gallu darparu gwasanaeth presgripsiwn yn annibynnol.

System Gofal Brys ac Argyfwng

Parhaodd y flwyddyn ddiwethaf i fod yn flwyddyn eithriadol o brysur, gyda nifer y cleifion sy’n defnyddio ein gwasanaethau gofal brys yn cyrraedd lefelau na welwyd eu tebyg o’r blaen. Er mwyn helpu i leddfu'r pwysau, fe wnaethom sefydlu'r uned Gofal Brys ar yr Un Diwrnod (SDEC) yn Ysbyty Athrofaol y Faenor ac Ysbyty Ystrad Fawr, ochr yn ochr â lansio'r gwasanaethau gofal dydd newydd ym meysydd anadlol, gynaecoleg a gastroenteroleg.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio’n galed gyda’n cydweithwyr yn yr Awdurdodau Lleol ynghylch sut gallwn ni leihau oedi wrth ryddhau cleifion sy’n aros i adael yr ysbyty a sut gallwn ni gefnogi pobl hŷn yn well yn eu cartrefi eu hunain ac osgoi cael eu derbyn i’r ysbyty. Mae ein Gofal gyda GRACE (Clinig Mynediad Cyflym Gwent ar gyfer yr Henoed) yn un enghraifft o hyn; mae’r clinig bellach yn gweithredu yn ystod yr wythnos ac mae’n darparu asesiad cyfannol o fewn 24 i 72 awr ar ôl atgyfeirio.

Gofal wedi’i Gynllunio a Gwasanaethau Canser

Gwnaed cynnydd mawr yn ystod 2022/23 o ran lleihau’r ôl-groniad o gleifion sy’n aros am brofion diagnostig, apwyntiadau cleifion allanol a llawdriniaethau, yn enwedig y rheini a oedd wedi bod yn aros mwy na 2 flynedd am driniaethau.

Rydym wedi cynyddu nifer y llawdriniaethau a’r apwyntiadau cleifion allanol a gynhaliwyd ac rydym nawr yn agosach at y lefelau yr oeddem yn gweithredu arnynt cyn y pandemig neu’n uwch na hynny.

Rydym hefyd wedi gweld gwelliant mewn perfformiad canser ac wedi lleihau nifer y cleifion sy’n aros, er gwaethaf y cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau. Rydym hefyd wedi gwella mynediad at lawdriniaeth cataract, o ganlyniad i waith rhanbarthol gyda Byrddau Iechyd cyfagos.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Mae cyflwyno’r gwasanaeth 111 (Pwyso 2) bellach yn cynnig cymorth a chyngor iechyd meddwl brys i’n cleifion a’n cymunedau 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, gan gefnogi’r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Cafodd ein Gwasanaeth Mentoriaid Cymheiriaid ei gydnabod fel ‘arfer gorau’ gan Lywodraeth Cymru. Mae newidiadau i’r Gwasanaeth Seicoleg hefyd wedi gwella’r dewis i gleifion ac rydym wedi gweld nifer o ddatblygiadau arloesol eraill yn canolbwyntio ar les meddyliol, fel y rhaglen ‘Adfer Drwy Chwaraeon’ a ‘Project Wingman’ (y bws lles).

Bu cynnydd enfawr hefyd yn ein gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS), gyda rhai mentrau gwych yn gweithio gydag ysgolion ac ymdrechion sylweddol i leihau’r amseroedd aros ar gyfer asesiadau.

Datblygiadau Strategol

Cafodd Uned newydd y Fron ei chymeradwyo ac mae wrthi'n cael ei hadeiladu yn Ysbyty Ystrad Fawr, gyda'r gwaith adeiladu i fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2023 a bydd yr uned yn agor yn gynnar yn 2024.

Mae'r gwaith adeiladu hefyd wedi dechrau ar yr Uned Radiotherapi Lloeren yn Ysbyty Nevill Hall, sydd i fod i agor yn 2025.

Mae'r ystafell Endosgopi newydd yn Ysbyty Brenhinol Gwent hefyd yn cael ei datblygu a disgwylir iddi agor yn ddiweddarach eleni, a fydd yn creu cyfleuster pedair ystafell i gefnogi gwell mynediad i gleifion a gostyngiad mewn amseroedd aros.

Agorwyd llety pwrpasol ar gyfer rhieni NICU yn Ysbyty Athrofaol y Faenor yn swyddogol eleni i helpu i ddarparu cymorth ychwanegol i deuluoedd â babanod sâl iawn.

Ein Gweithlu
Cymeradwywyd ein Cynllun Pobl 2022-25 sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles staff, cynaliadwyedd y gweithlu a bod yn gyflogwr o ddewis.
Bu ffocws parhaus ar recriwtio a chadw staff, gostyngiad yn y defnydd o asiantaethau yn ystod y chwarter diwethaf a mwy o ffocws ar les gweithwyr a chydnabod staff.

Cyllid
Er gwaethaf amgylchedd heriol iawn, daeth y flwyddyn ariannol ddiwethaf i ben gyda gorwariant o £37m. Dyma'r flwyddyn gyntaf nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi sicrhau sefyllfa o fantoli. Fodd bynnag, er bod hyn yn siomedig, ym mis chwech roedd y diffyg a ragwelwyd yn llawer mwy ac roedd hynny drwy ymdrechion ein staff a ffocws o'r newydd ar effeithlonrwydd a oedd yn ein galluogi i gadw'r gorwariant i'r £37m.

Er gwaethaf yr holl heriau ariannol a'r pwysau ar wasanaethau yr ydym yn parhau i'w hwynebu, mae'n bwysig cydnabod y cynnydd enfawr a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gan symud ymlaen i 2023/24, mae gennym gynlluniau ar waith i adeiladu ar y cynnydd a wnaed y llynedd ar draws ein meysydd blaenoriaeth a gwella mynediad ac ansawdd gwasanaethau ymhellach. Fodd bynnag, yr ydym yn wynebu'r her ariannol fwyaf a bydd angen inni ddatblygu ein gwasanaethau ymhellach i'w gwneud hyd yn oed yn fwy effeithiol ac effeithlon.

## 2. Gofynion Adrodd

Pwrpas adran Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol 2022/23 hwn, fel y nodir yn y canllawiau a ddarperir yn Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru 2022/23, yw darparu gwybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ei brif amcanion a strategaethau a'r prif risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae'r gofynion yn seiliedig ar y materion y mae'n rhaid delio â hwy fel y nodir ym Mhennod 4A Rhan 15 Deddf Cwmnïau 2006, fel y'u haddaswyd yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a Llawlyfr Cyfarwyddyd GIG Cymru.

Mae prif nodweddion yr adroddiad perfformiad yn deillio o gynllun cytunedig y sefydliad ac yn dangos sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni yn erbyn y rhain.
Dylid nodi bod y ddyletswydd ansawdd yn dod i rym yn gyfreithiol ym mis Ebrill 2023 yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Felly, bydd y gofynion adrodd newydd yn cael eu cofnodi drwy brosesau sydd ar waith ar gyfer 2023/24. Yn y cyfamser, cyflwynwyd gweithrediad anstatudol o'r ddyletswydd ansawdd yn ystod hydref 2022. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer profi'r dangosyddion adrodd ansawdd a'r mesurau ansoddol sy'n cael eu datblygu yn ystod y cam gweithredu dyletswydd ansawdd fel proses adrodd hybrid ar gyfer 2022/23. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr Adroddiad Atebolrwydd Blynyddol, Tudalen 81.

Mae'r Adroddiad Atebolrwydd Blynyddol (Adran 2), Tudalen 90, yn cynnwys trosolwg o waith y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'i Gynlluniau Cynaliadwyedd a Lleihau Carbon, gyda rhywfaint o fanylion wedi'u cynnwys isod hefyd ar dudalen 29.

## 3. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ym mis Hydref 2009 a chafodd statws 'Prifysgol' ym mis Rhagfyr 2013. Prif rôl y Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod ein system GIG leol yn cael ei chynllunio a'i chyflwyno'n effeithiol, o fewn fframwaith llywodraethu cadarn, er mwyn cyflawni'r safonau uchaf o ran diogelwch cleifion a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau a chyflawni'r canlyniadau gorau posibl i'n dinasyddion, ac mewn ffordd sy'n hyrwyddo hawliau dynol. Er mwyn cyflawni'r rôl hon, mae'n ofynnol i ni weithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid er budd gorau'r boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu.

Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn gwasanaethu poblogaeth Gwent sy'n adlewyrchu'r pum ardal awdurdod lleol: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae Demograffeg Gwent yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd cefn gwlad, canolfannau trefol a'r rhan fwyaf dwyreiniol o gymoedd de Cymru.

Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ar gyfer y rhanbarth ar gael yma: Demography - Gwentrpb.

Cyflogodd y Bwrdd Iechyd 12,648 o staff cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2023. Dyma'r cyflogwr mwyaf yng Ngwent. Mae ein gweithlu'n heneiddio, felly hefyd broffil demograffig ein poblogaeth ac mae anghydraddoldebau iechyd ein poblogaeth i'w gweld hefyd yn ein gweithlu. Mae 80% o'n staff yn byw yn ein cymunedau. Felly, mae'n hanfodol bod iechyd a lles staff yn flaenoriaeth allweddol ac yn nodwedd o'n cynlluniau ataliol.

Mae gan y Bwrdd Iechyd gyllideb flynyddol gan Lywodraeth Cymru o ychydig dros £1.6 biliwn y flwyddyn lle rydym yn cynllunio ac yn darparu

gwasanaethau ar gyfer poblogaeth Gwent. Mae'r Bwrdd Iechyd, yn ogystal â darparu gwasanaethau'n lleol, yn gweithio mewn partneriaeth i geisio gwella iechyd a lles yn yr ardal, yn enwedig drwy ein trefniadau partneriaeth i ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Mae manylion am sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cael ei lywodraethu wedi'u nodi yn yr Adroddiad Atebolrwydd (Adran 2 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23).

## 4. Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022/23 – Cwrs Bywyd

Roedd Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022/23 yn nodi blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar fabwysiadu dull cwrs bywyd. Yn wahanol i ddull sy'n canolbwyntio ar glefydau, sy'n canolbwyntio ar ymyriadau ar gyfer un cyflwr sy'n aml ar un cam bywyd, mae'r dull cwrs bywyd yn ystyried y camau allweddol, y trawsnewidiadau a'r lleoliadau lle gellir gwneud gwahaniaethau o ran hyrwyddo neu adfer iechyd a lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r dull hwn yn gofyn am weithio gyda'n dinasyddion (fel unigolion, teuluoedd a chymunedau) i gyflawni'r newid sydd ei angen ar ein cymunedau.

Mae'r dull hwn yn gofyn am strategaethau polisi a buddsoddi holistig, hirdymor sy'n hyrwyddo canlyniadau iechyd gwell i unigolion a mwy o degwch iechyd yn y boblogaeth. Rydym yn hyderus y gall y dull hwn ddarparu enillion da ar gyfer iechyd a datblygu cynaliadwy, drwy gyfyngu ar iechyd gwael a chronni risg drwy gydol bywyd a thrwy gyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd.

Rydyn ni'n gwybod bod niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol Covid-19 wedi cynyddu anghydraddoldebau iechyd i'n poblogaeth, sy'n cael ei waethygu ymhellach gan yr argyfwng costau byw. Mae cydbwyso ein hymdrechion i ymateb i'r galw sylweddol a digynsail am wasanaethau iechyd brys, argyfwng a rheolaidd ac ymgorffori ein dull cwrs bywyd wedi bod yn her allweddol eleni a bydd yn parhau i fod yn her wrth i ni nesáu at 2023/24.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi datblygu cyfres o fesurau ategol ar gyfer pob cam o'r cwrs bywyd, ynghyd â 43 o ddangosyddion cysylltiedig sy'n ein helpu i fonitro a mesur y cynnydd rydym yn ei wneud ac effaith ein gweithredoedd ar iechyd a lles ein poblogaeth.

## Ein Fframwaith Canlyniadau


| Maes Blaenoriaeth | Canlyniadau | Mesurau |
|---|---|---|
| **Blaenoriaeth 1**<br>Mae pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd | • Gwella iechyd da yn ystod beichiogrwydd<br>• Cynyddu potensial hirdymor plentyn<br>• Gwella imiwnedd yn ystod plentyndod ac atal achosion o salwch | Cyfraddau geni isel, statws ysmygu yn ystod geni, cyfraddau bwydo ar y fron, gwiriadau iechyd 8 wythnos a 3.5 mlynedd, cyfraddau brechu |
| **Blaenoriaeth 2**<br>Ei wneud yn iawn i blant ac oedolion ifanc | • Gwella iechyd meddwl a gwytnwch mewn plant ac oedolion ifanc<br>• Bod â phwysau iach<br>• Gwell ymddygiadau ffordd iach o fyw | Sgôr llesiant iechyd meddwl cymedrol, amseroedd disgwyl ar gyfer CAMHS, niwroddatblygiadol, pwysau iach yn 5 mlwydd oed ac yn ystod y glasoed, cyfraddau gweithgareddau dyddiol |
| **Blaenoriaeth 3**<br>Mae oedolion yng Ngwent yn byw'n iach ac yn heneiddio'n dda | • Uchafu amser unigolyn<br>• Gwella ymddygiadau ffordd o fyw iach, gan gynnwys diweddaru rhaglenni sgrinio cenedlaethol<br>• Gwell gwytnwch meddyliol<br>• Uchafu canlyniadau canser | Amseroedd amser ar gyfer gofal a gynllunnir, gofal sylfaenol ac eilaidd brys/mewn argyfwng (gan gynnwys iechyd meddwl), cyfraddau gweithgareddau dyddiol, rhoi'r gorau i ysmygu, pwysau iach, sgorau llesiant, ymgymryd â rhaglenni sgrinio, cydymffurfio â SCP, cyfraddau goroesi canser |
| **Blaenoriaeth 4**<br>Cefnogir oedolion hŷn i fyw yn dda ac yn annibynnol | • Atal, cadw oedolion hŷn yn iach<br>• Darparu gofal yn agosach at adref<br>• Llai o dderbyniadau a threulio llai o amser yn yr ysbyty | Nifer o oedolion hŷn iach, ymateb cyflym o fewn 4 diwrnod, llai o dderbyniadau ar gyfer arosiadau byr, llai o LOS ar gyfartaledd, llai o LOS 21+diwrnod, mwy o achosion o osgoi derbyniadau |
| **Blaenoriaeth 5**<br>Marw'n dda fel rhan o fywyd | • Gwell gofal ar ddiwedd oes<br>• Gwell cynllunio a darpariaeth ar gyfer gofal diwedd oes | % o bobl yn marw yn yr Ysbyty, cyhoeddi tystysgrif marwolaeth o fewn 5 diwrnod, canran o atgyfeiriadau gofal lliniarol o fewn 48 awr o bobl gyda Chynlluniau Gofal Uwch ar waith |

## Cyflawni Blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022/23

**Blaenoriaeth 1**

Mae pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd

Mae profiadau plentyndod cynnar, gan gynnwys cyn geni, yn allweddol i sicrhau gwell canlyniadau iechyd. Roedd Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i fwrw ymlaen â chamau gweithredu a gweithgareddau sy'n cael effaith gadarnhaol ar y 1000 diwrnod cyntaf o fywyd. Rydym yn ceisio cyflawni tri chanlyniad, ac mae trosolwg o'n cynnydd yn 2022/23 i'w weld yn y tabl isod.

| Ein Hymrwymiadau | Ein Mesurau | Ein Perfformiad |
|---|---|---|
| **Gwella Iechyd Da yn ystod Beichiogrwydd**  | Gostwng Cyfraddau Geni Isel | Gwella (5.6% 2020 i 5.1% 2021) |
| | Gostwng cyfraddau ysmygu adeg gwasanaeth | Gwella (16% i 13.7%) |
| | Gostwng genedigaethau marw | Gwella (4.8% i 3.9%) |
| **Uchafu potensial hirdymor plentyn**  | Cynyddu nifer y menywod sy'n bwydo ar y fron | Tebyg (56.6%) |
| | Cynyddu nifer y plant cymwys sy'n cael eu mesur a'u pwyso ar ôl 8 wythnos | Dirywiad (62.5 i 28.3%) |
| | Cynnydd yn nifer y plant cymwys sydd â chyswllt ar ôl 3.5 oed (cyn ysgol) | Dirywiad (64.4 i 42.1%) |
| **Gwella imiwnedd yn ystod plentyndod**  | % y plant a gafodd 2 ddos o MMR erbyn 5 oed | Tebyg (90%) |
| | % y plant a gafodd 3 dos o frechlyn hexavalent '6 mewn 1' erbyn 1 oed | Tebyg (94%) |

Er nad yw ein targedau ar gyfer gwneud y gorau o botensial tymor hir plentyn wedi cael eu cyrraedd, yn bennaf oherwydd heriau sylweddol yn y gweithlu, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da o ran rhoi ei gynlluniau lleol ar waith i gynyddu'r cyswllt yn unol â lefelau Perfformiad cyffredinol Cymru.

**Blaenoriaeth 2**

Ei wneud yn iawn i blant ac oedolion ifanc

Mae meithrin cenedlaethau'r dyfodol yn hanfodol i'n cymunedau. Mae tystiolaeth gref bod ymddygiad iach yn ystod plentyndod yn cael effaith gydol oes; mae

targedu camau gweithredu i wella canlyniadau yn y meysydd hyn yn cael effaith hirhoedlog ar ddarpariaeth a datblygiad. Mae iechyd meddwl oedolion ifanc yn faes blaenoriaeth Gweinidogol, gyda CAMHS yn flaenoriaeth yn y fframwaith perfformiad cenedlaethol. Rydym yn ceisio cyflawni tri chanlyniad, ac mae trosolwg o’n cynnydd yn 2022/23 i’w weld yn y tabl isod.

| Ein Hymrwymiadau | Ein Mesurau | Ein Perfformiad |
|---|---|---|
| Gwell gwytnwch iechyd meddwl  | Gwelliant yn y sgôr iechyd meddwl a lles cymedrig i blant | Dangosydd yn cael ei ddatblygu fel rhan o waith Marmot |
| | Gostyngiad mewn rhestrau aros 4 wythnos CAMHS | 97.4% tebyg ym mis Mehefin 2022, yn methu darparu diwedd blwyddyn oherwydd newid yn y system wybodeg |
| | Mwy o gydymffurfio â’r rhestr aros niwroddatblygiadol (SCAN) | Wedi dirywio (80% i 42.2%) yn ystod y flwyddyn |
| Cefnogi bod â phwysau iach  | Cynyddu pwysau iach plant 5 oed | Gwella (4.8% i 75%) |
| | Cynnydd ym mhwysau iach pobl ifanc | Dangosydd yn cael ei ddatblygu |
| Gwella ymddygiadau ffordd iach o fyw  | Cynnydd yn % y plant (rhwng 2 a 7 oed) sy’n actif am o leiaf 1 awr bob dydd | Tebyg (63%) |
| | Cynnydd yn % y plant sy’n bwyta llysiau bob dydd | Tebyg (68%) |

Mae cynnydd yn y galw, ynghyd ag ailddechrau apwyntiadau wyneb yn wyneb, wedi arwain at ôl-groniad o blant yn cael asesiadau niwroddatblygiadol. Mae’r cynllun adfer sy’n gweithio gyda’r Timau Addysg Lleol, gyda chefnogaeth ein Hysgol mewngymorth, nyrsys ysgol, gwasanaethau cymorth cymunedol lleol a staff ysgolion, wedi gweld gwelliant mewn perfformiad, yn enwedig ar gyfer asesiadau. Rhagwelir adferiad llawn yn Chwarter 2 2023/24.

**Blaenoriaeth 3**


Mae oedolion yng Ngwent yn byw'n iach ac yn heneiddio'n dda

Ein huchelgais yw i ddinasyddion fwynhau ansawdd bywyd uchel a chael eu grymuso i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a’u gofal eu hunain. Mae nifer sylweddol o fesurau yn y maes hwn. Mae’r canlyniadau a’r perfformiad a nodir isod yn sail i waith 4 o Raglenni Blaenoriaeth y Bwrdd Iechyd, sy’n cwmpasu trawsnewid gofal brys ac argyfwng, adferiad gofal wedi’i gynllunio, gwella canlyniadau canser a

thrawsnewid gofal iechyd meddwl.  Mae trosolwg o’n cynnydd yn 2022/23 i’w weld yn y tabl isod.

| Ein Hymrwymiadau | Ein Mesurau | Ein Perfformiad |
|---|---|---|
| Uchafu amser unigolyn  | Gostyngiad yn nifer y cleifion sy’n aros mwy na 36 wythnos am driniaeth | Dirywiad (cynnydd o 6.6%) |
| | Gostyngiad yn nifer y cleifion sy’n aros am apwyntiad dilynol fel claf allanol | Dirywiad (cynnydd o 4.7%) |
| | Cynnydd mewn Cysylltiadau Gofal Sylfaenol Brys | Gwella (cynnydd o 148%) |
| | Cynnydd mewn galwadau Think 111 | Gwella |
| | Gostyngiad yn nifer y trosglwyddiadau ambiwlans dros 1 awr | Dirywiad (737 i 846) |
| | Gostyngiad yn nifer y cleifion sydd byth yn aros dros 16 awr yn yr Adran Achosion Brys | Dirywiad (417 i 498, cynnydd o 19%) |
| | Gostyngiad yn yr amser i gleifion gael eu gweld gan y clinigydd cyntaf | Dirywiad (1.6 i 2.3 awr) |
| | Gostyngiad yn yr amser ar gyfer dyrannu gwelyau o’r cais | Dirywiad (13.9 awr = cynnydd o 20% o’r llinell sylfaen) |
| Oedolion yn byw’n iach ac yn heneiddio’n dda  | Cynnydd yn nifer yr oedolion sy’n actif am o leiaf 150 munud yr wythnos | Tebyg (51%) |
| | Gostyngiad yn % yr oedolion sy’n ysmygu | Gwella (19% i 12%) |
| | Gostyngiad yn nifer yr oedolion sydd dros bwysau neu’n ordew (BMI dros 25) | Tebyg (67%) |
| | Cynnydd mewn oedolion o oedran gweithio mewn iechyd da neu dda iawn | Tebyg (69%) |
| | Cynyddu yn y nifer sy’n dilyn Rhaglenni Sgrinio Cenedlaethol | Gwella (64% i 70.2%) |
| Uchafu canlyniadau canser  | Mwy o gydymffurfio o ran nifer y cleifion sy’n dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf ar gyfer canser o fewn 62 diwrnod i’r pwynt amheuaeth | Tebyg (56%) |
| | Cynnydd mewn goroesiad canser 5 mlynedd | Gwella (49.1% i 54%) |
| Gwella gwytnwch iechyd meddwl  | Cynnydd yn y sgôr Lles Iechyd Meddwl ar gyfer oedolion | Tebyg (50.5%) |
| | Cynnydd yn % preswylwyr y Bwrdd Iechyd sy’n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd sydd â chynllun gofal a thriniaeth dilys (18 oed a hŷn) | Dirywiad (80% i 75%) |


Mae gwasanaethau **Gofal Brys ac Argyfwng** yn parhau i fod o dan bwysau sylweddol yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, gan olygu bod darparu gofal amserol yn heriol. Ddiwedd Chwarter 3 a dechrau chwarter 4 gwelwyd nifer fawr o gleifion yn cyflwyno gyda feirysau anadlol – yn enwedig ffliw a Covid-19. Roedd y cynnydd sylweddol hwn mewn feirysau anadlol ar draws ein cymunedau hefyd wedi achosi lefelau uchel o salwch staff a oedd yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau gofal brys. Yn ogystal â hyn, mae mwy o alw wedi bod am ofal sylfaenol brys, mwy o alw am alwadau ambiwlans, mwy o bobl sy’n hunan-gyflwyno mewn Adrannau Brys ac Unedau Mân Anafiadau, mwy o aciwtedd sy’n gysylltiedig â’r effaith ar ôl y cyfyngiadau symud, mwy o ddefnydd o welyau ar gyfer gofal brys a lefelau uchel o oedi wrth ryddhau cleifion sy’n gysylltiedig â heriau sylweddol yn y gweithlu gofal cymdeithasol.




Mae’r pwysau hwn ar y system gofal brys wedi golygu bod cleifion yn aros yn yr ysbyty am fwy o amser. Mae'r amser cyfartalog rhwng cyrraedd a gadael yn Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor yn parhau i fod yn uwch na'r targed ac yn cynyddu yn ystod mis Ionawr yn unol â'r cyfnodau brig mewn salwch resbiradol. Rydym yn parhau i gael cleifion yn aros mwy na 50 munud i gael eu trosglwyddo i’r Adran Achosion Brys o ambiwlans. Mae hyn o ganlyniad i lif gwael drwy’r system i’r rhai y mae angen eu derbyn. Mae’r niferoedd parhaus sy’n cael eu hatgyfeirio at arbenigedd ond sy’n cael eu rhyddhau o’r Adran Achosion Brys yn ddangosydd allweddol o’r pwysau ar draws y system.

Mae’r pwysau eithafol ar y system gofal brys y gaeaf hwn wedi effeithio ar fesurau perfformiad cleifion sy’n aros llai na 4 awr a dros 12 awr mewn Adrannau Achosion Brys. Ym mis Mawrth 2023, roedd cydymffurfedd yn erbyn cleifion a gafodd eu trin o fewn 4 awr wedi dirywio o 73.7% (Mawrth 22) i 72.5%. Yn ystod 2022/23, Aneurin Bevan oedd y Bwrdd Iechyd a berfformiodd orau ledled Cymru yn gyson, ac eithrio Powys, ac er nad yw’r targed o 95% wedi cael ei gyrraedd, mae ei berfformiad yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Hefyd, yn ystod mis Mawrth, bu cynnydd yn nifer y cleifion a oedd yn aros dros 12 awr o 1,509 (Mawrth 22) i 1,606.


Mae gwneud y gorau o amser unigolyn yn elfen graidd o **ofal wedi'i gynllunio.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol drwy gydol y flwyddyn o ran trin **y cleifion sy'n aros hiraf**, h.y. y rhai sy'n aros dros 104 wythnos. Rydym wedi cyrraedd a rhagori ar y targed 104 wythnos ac mae gennym y gyfran leiaf o gleifion sy'n aros ledled Cymru.




Er gwaethaf cyflawni'r taflwybrau, mae nifer o feysydd arbenigol o hyd gydag amseroedd aros cynyddol (Orthopaedeg, Offthalmoleg, ac ENT). Mae gwaith wedi'i dargedu'n parhau yn y tri arbenigedd i drin y garfan aros hiraf ac eithrio ENT, lle mae cyfanswm y capasiti sydd ar gael ar gyfer gofal ENT yn llai na'r capasiti i gyflawni'r targed. Ar gyfer Offthalmoleg, mae Achos Busnes yn ceisio darparu ateb 14 mis i ddarparu capasiti rhanbarthol ychwanegol ar gyfer camau cleifion cataract allanol a mewnol i weithredu dull rhanbarthol cydweithredol o adfer ac i wneud y defnydd gorau posibl o'n hasedau ar draws y rhanbarth i'w gymeradwyo yn Chwarter 1 23/24.

Mae Arbenigeddau Clinigol yn cydbwyso'r egwyddor o ymgymryd â gweithgarwch a ddiffinnir gan **flaenoriaethu clinigol**, dull seiliedig ar amser ar gyfer y cleifion sy'n aros hiraf; mae hyn yn galluogi gofal amserol ar gyfer y cleifion mwyaf brys a gwneud penderfyniadau dan arweiniad clinigol.


Mae gwella **perfformiad cleifion allanol** yn dal yn un o elfennau craidd y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio. Er bod y llwybr ychydig yn uwch na'r trywydd, mae gan Aneurin Bevan un o'r gyfran leiaf o gleifion sy'n aros mwy na 52 wythnos am apwyntiad newydd fel cleifion allanol.




Mae cynnydd wedi'i wneud gyda'r system **Sylw yn ôl Symptomau** (SoS) newydd. Cynllun Gweithredu '**Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf**' (Pifi) gyda **12 llwybr newydd** wedi'u datblygu. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi gweithio'n galed i gynyddu capasiti triniaeth ar ôl COVID ac ar ôl agor yr Uned Driniaeth i Gleifion Allanol yn Ysbyty Brenhinol Gwent, mae'r capasiti ar hyn o bryd yn 105% o'r lefelau cyn COVID. Mae gan yr uned trin cleifion

allanol ddwy ystafell driniaeth ac er bod y cyntaf wedi'i staffio'n llawn, mae cynllun wedi'i ddatblygu ac mae ar waith i staffio'r ail ystafell.

Mae mynediad at **ddiagnosteg** amserol ac effeithiol yn hanfodol i ddarparu gofal o ansawdd uchel, gan leihau amseroedd aros ar gyfer triniaeth a gwella canlyniadau iechyd. Fel y gwelir yn y graff isod, mae cardioleg wedi gweld gwelliant sylweddol, wedi'i sbarduno gan ddefnydd o gwmni cyflenwi mewnol i ddarparu capasiti eco ychwanegol.






| | Ebr- 22 | Mai- 22 | Meh-22 | Gor-22 | Aws-22 | Med-22 | Hyd-22 | Tach-22 | Rhag-22 | Ion-23 | Chw-23 | Maw-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Endosgopi | 3528 | 3515 | 3247 | 3212 | 2967 | 2836 | 2749 | 2727 | 2599 | 2705 | 2527 | 2061 |
| Radioleg | 220 | 352 | 309 | 325 | 349 | 479 | 1044 | 1180 | 1358 | 897 | 498 | 321 |
| Cardiaidd | 393 | 242 | 165 | 191 | 200 | 266 | 147 | 134 | 146 | 223 | 49 | 78 |
| Urodynameg | 130 | 119 | 108 | 116 | 125 | 125 | 108 | 96 | 85 | 75 | 72 | 81 |

Mae meysydd allweddol eraill mewn diagnosteg yn cynnwys:

- Mae defnyddio capasiti endosgopi ychwanegol yn barhaus wedi cefnogi'r gwaith o gynnal yr ôl-groniad o 8 wythnos gyda gostyngiad bach yn nifer y bobl sy'n aros ddiwedd mis Mawrth (2,061).
- Mae amseroedd aros diagnosteg Radioleg wedi lleihau yn ystod Chwarter 4.
- Mae datblygiadau uned endosgopi RGH i'r dyfodol wedi mynd rhagddynt gyda chymeradwyaeth i recriwtio cyn i'r uned newydd agor yn 2023. Dylid nodi bod hyn er mwyn cynnal gwasanaethau ac mae'n seiliedig ar glirio'r ôl-groniad erbyn adeg agor yr uned newydd.


Mae cydymffurfedd yn erbyn **Llwybr Lle'r Amheuir Canser** (SCP) wedi cynyddu o 55.6% (Tachwedd 2022) i 58% ddiwedd mis Mawrth 2023. Er bod perfformiad yn cydymffurfio â'r lefel adfer gofal wedi'i gynllunio o 55%, mae hyn yn dal yn is na'r targed cenedlaethol. Mae cynnydd sylweddol yn y galw sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau amheuaeth o ganser wedi parhau i fod yn fwy na 2,500 o atgyfeiriadau bob mis ac mae'n parhau i gael effaith ar berfformiad gan greu heriau capasiti drwy gydol y llwybr ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Bwrdd Iechyd a'r rheini sy'n cael eu darparu mewn canolfannau trydyddol.




Mae nifer o ffactorau wedi cael effaith ar berfformiad yn gyffredinol. Un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno hyn yw gostyngiad sylweddol mewn triniaethau croen. Yn hanesyddol, mae'r niferoedd ar gyfer yr arbenigedd hwn wedi cyfrannu at gynyddu'r enwadur perfformiad. Dylanwadwyd ar y gostyngiad hwn gan yr heriau capasiti a wynebir gan histopatholeg ac mae cynllun gweithredu ar waith i wella'r sefyllfa drwy allanoli. Mae'r gallu i gyflawni elfen ddiagnostig y llwybr yn rhwystr sylweddol i gyflawni'r SCP.

Yn gyffredinol, bu gwelliant sylweddol yn y gyfradd goroesi canser 5 mlynedd a gofnodwyd dros y 10 mlynedd diwethaf.





Adroddwyd sgôr debyg ar gyfer llesiant iechyd meddwl oedolion yn y Bwrdd Iechyd, er bod cynnydd bach wedi cael ei weld o 50.3% i 5.5% yn 2018/19, gan gyfrannu at y cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniad gwell cadernid iechyd meddwl mewn oedolion.


**Blaenoriaeth 4**

Cefnogir oedolion hŷn i fyw yn dda ac yn annibynnol

Mae cefnogi **oedolion hŷn** i fyw'n dda ac yn annibynnol yn elfen graidd o gynllun y Byrddau Iechyd ar gyfer system iechyd a gofal gynaliadwy. Rydyn ni'n gwybod bod angen i ni wella ar gyfer boblogaeth hon yn ein gwasanaeth. Mae ailgynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn yn rhaglen flaenoriaeth ar gyfer Dyfodol Clinigol. Rydym yn ceisio cyflawni tri chanlyniad, ac mae trosolwg o'n cynnydd yn 2022/23 i'w weld yn y tabl dros y dudalen.

| Ein Hymrwymiadau | Ein Mesurau | Ein Perfformiad |
|---|---|---|
| Atal a chadw oedolion hŷn yn iach  | Cynnydd mewn pobl hŷn mewn iechyd da | Dangosydd yn cael ei ddatblygu fel rhan o waith Marmot |
| Darparu gofal yn agosach at gartref  | Cynnydd mewn Ymateb Cyflym o fewn 4 awr | Tebyg (38%) |
| | Gostyngiad yn nifer y cleifion arhosiad byr (<7 diwrnod) | Tebyg (12%) |
| | Gostyngiad yn y llwyth achosion LOS cyfartalog | Dirywiad (52.7 diwrnod yn erbyn gwaelodlin 40 diwrnod) |
| Lleihau mynediad ac amser a dreulir yn yr ysbyty  | Cynnydd mewn Osgoi Derbyniadau (mis) | Gwella (ar draws 4 Ardal Awdurdod Lleol) |
| | Gostyngiad yn nifer y cleifion y mae eu LOS dros 21 diwrnod | Gwella (65% (1534/206) i 56% (145/264) |

Mae'r canlyniad 'Darparu Gofal yn Nes at Adref' wedi arwain at ddirywiad yng ngwerth 1 dangosydd; fodd bynnag, mae digwyddiad Seiber ym mis Awst 2022 wedi effeithio ar y system sy'n casglu ac yn cynnal y data felly nid yw'n bosibl darparu diweddariad Chwarter 4 ar gyfer 3 o'r metrigau. Ar ddiwedd Chwarter 1, roedd ymateb cyflym o fewn 4 awr wedi gostwng ar draws y 4 ardal Bwrdeistref a gofnodwyd (nid yw'r data'n cynnwys Sir Fynwy) o 38% i 35%. Adroddwyd hefyd am gynnydd yn hyd arhosiad pobl ar gyfartaledd. Mae hyn yn fwyaf nodedig ym Mwrdeistrefi Blaenau Gwent a Chasnewydd.





Mae gwerth y dangosydd 'lleihau nifer y cleifion arhosiad byr' wedi cael ei gynnal ar tua 12%.

Mae hwn yn faes ffocws ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Integredig a strwythurau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, i gefnogi'r sector cartrefi gofal, gwella ein Model Ymateb Cyflym, a mynediad at glinigau mynediad sydyn, gan ddarparu un pwynt mynediad a llwybrau derbyn uniongyrchol.

**Blaenoriaeth 5**

Marw'n dda fel rhan o fywyd

Mae'r IMTP yn nodi ein hymrwymiad i wella'n barhaus yr hyn a wnawn i ddiwallu anghenion pobl o bob oed sydd ar ddiwedd eu hoes. Mae'r mesurau'n cynrychioli dangosyddion i gefnogi dealltwriaeth y sefydliad o sut mae'n cyflawni yn y maes hwn i gefnogi'r boblogaeth i farw ble maent yn dewis a chael mynediad at ofal da. Rydym yn ceisio cyflawni dau ganlyniad, ac mae trosolwg o'n cynnydd yn 2022/23 i'w weld yn y tabl isod.

| Ein Hymrwymiadau | Ein Mesurau | Ein Perfformiad |
|---|---|---|
| Gwell profiad gofal diwedd oes  | Gostyngiad yn % yr ysbyty fel man marw | Gwella (50%) |
| | Cynnydd mewn cydymffurfiaeth â chyhoeddi Tystysgrifau Meddygol o fewn 5 diwrnod | Gwella (83% o fewn 5 diwrnod) |
| | Llai o gwynion | Dangosydd yn cael ei ddatblygu |
| Gwell cynllunio a darpariaeth gofal diwedd oes  | Cynnydd yng nghyfran yr atgyfeiriadau Gofal Lliniarol Brys a aseswyd o fewn 2 ddiwrnod | Gwella (91% i 99%) |
| | Cynnydd yn nifer y Cynlluniau Gofal Uwch sydd ar waith | Dangosydd yn cael ei ddatblygu |

Ar gyfer y canlyniad 'Cynllunio a darparu gofal diwedd oes yn well', bu cynnydd sylweddol yng nghyfran yr atgyfeiriadau Gofal Lliniarol Brys a aseswyd o fewn 2 ddiwrnod ers mis Gorffennaf 2020 a chynnydd pellach o 97% i 99% yn ystod Chwarter 2 a Chwarter 3.

Mae rhagor o fesurau a dangosyddion canlyniadau yn dal i gael eu datblygu'n genedlaethol a bydd y flaenoriaeth hon yn esblygu i gynnwys y canlyniadau perthnasol.

## 5. Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022/23 – Rhaglenni â Blaenoriaeth

Mae ein meysydd gwaith sy'n flaenoriaeth i'r sefydliad wedi'u cynllunio i greu ac optimeiddio'r capasiti cywir i ddiwallu anghenion ein poblogaeth

drwy ddatblygu gwasanaethau, ailddylunio a/neu drawsnewid ac i gael effaith gadarnhaol ar iechyd y boblogaeth a sicrhau gwelliant drwy gydol oes unigolyn. Mae’r rhaglenni hyn yn seiliedig ar ffocws di-baid ar ansawdd a diogelwch.

Oherwydd eu natur, mae’r rhaglenni blaenoriaeth strategaeth allweddol hyn yn gymhleth, ar draws y system a byddant yn cael eu cyflawni dros oes y Cynllun Tymor Canolig Integredig 3 blynedd a thu hwnt. Mae’r adran hon yn rhoi trosolwg o’r cynnydd sydd wedi cael ei gyflawni yn ystod 2022/23.


**Gwella Gofal Brys ac Argyfwng**

**(6 Gôl)**

Cyn y pandemig, roedd y sefyllfa mewn Adrannau Achosion Brys yn fwyfwy anodd, gyda’r galw’n cynyddu a chanran y bobl oedd yn cael eu gweld o fewn y targed pedair awr yn cyrraedd y lefel isel erioed yn ystod gaeaf 2019/20. Ers i’r cyfyngiadau symud lacio, mae’r galw wedi cynyddu’n raddol, ac mae mwy o bobl â phroblemau difrifol yn cyflwyno eu hunain yn ein system gofal brys.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lawlyfr i helpu Byrddau Iechyd i **wella gofal brys a gofal argyfwng**, gan ganolbwyntio ar gryfhau cyfeirio, dewisiadau clinigol diogel yn lle derbyn, ymateb gofal brys cyflym, arferion rhyddhau da ac atal aildderbyn cleifion. Yn ystod 2022/23, rydym wedi gweld momentwm cadarnhaol ar y cyfan drwy bob un o’r nodau yng nghyd-destun pwysau gweithredol sylweddol.

**Mae rhai meysydd cynnydd yn cynnwys:**




- Mae ‘model gwasanaeth defnyddwyr dwysedd uchel’ yn bodoli, lle mae atgyfeiriadau’n cael eu gwneud i Nyrs Arweiniol sy’n gallu gwneud yr atgyfeiriad cymdeithasol cywir sydd ei angen i gefnogi’r claf i gael ei ryddhau’n ddiogel.
- Ar ôl agor Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod (SDEC) yn Ysbyty Ystrad Fawr, mae cyllid heb fod yn gylchol wedi cael ei sicrhau erbyn hyn.
- Mae sefydlu SDEC yn ychwanegiad pwysig i'n gwasanaethau gofal brys ac mae'n darparu cyfleoedd sylweddol i ffrydio cleifion o'r un diwrnod i'r diwrnod nesaf a gweithredu fel catalydd ar gyfer datblygiad gwasanaeth dydd arbenigol. Ers agor SDEC yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, mae 4,054 o gleifion wedi cael eu gweld (20-25 yn mynychu bob dydd ar gyfartaledd) i gyd yn cael eu rhyddhau ar yr un diwrnod gydag amser aros canolrifol o 3.6 awr. Ers agor SDEC yn YYF, mae 678 o gleifion wedi cael eu gweld.

- Mae Gofal Sylfaenol Brys yn parhau i gael ei gryfhau ac yn derbyn atgyfeiriadau o ailgyfeiriadau, 111 ac uwchgyfeirio gofal sylfaenol y tu allan i oriau.
- Rydym wedi cael cyllid drwy 'Gronfa Arloesi' genedlaethol Chwe Nod i gefnogi'r gwaith o weithredu ateb brysbennu electronig ar gyfer yr Adran Achosion Brys er mwyn gwella gweledgedd clinigol a gwella profiad cleifion.
- Mae cynllun peilot Asesu Eiddilwch yr Henoed bellach wedi'i gwblhau yn GUH gyda nifer o wersi a chamau gweithredu cadarnhaol i'w dilyn.
- Mae gwella trosglwyddiadau ambiwlans yn ffocws allweddol i'r rhaglen ac mae cynlluniau i dreialu model llif gwthio i annog atgyfeirio cleifion yn amserol i arbenigeddau ar adegau penodol o'r dydd.
- Mae achos busnes wedi cael ei gymeradwyo i ddarparu staff Therapïau Drws Ffrynt ychwanegol wedi'u neilltuo ar gyfer ED i gefnogi dull 'cartref yn gyntaf'.
- Mae Bwrdd Rhyddhau Integredig wedi cael ei sefydlu gydag ymgysylltiad gan bartneriaid Awdurdodau Lleol, Ambiwlans Cymru a chydweithwyr meddygol, nyrsio a therapi.
- Mae cynnydd da wedi cael ei wneud gyda chynllun peilot Hyb Rhyddhau Ysbyty Brenhinol Gwent, ac mae timau iechyd a gofal cymdeithasol bellach wedi'u hintegreiddio a'u cyd-leoli.
- Mae Model Tynnu Ysbyty Nevill Hall eisoes wedi darparu gwell cyfathrebu â thimau amlddisgyblaethol, sy'n amlwg o'r cynnydd mewn rhyddhau amserol ac adborth cadarnhaol gan gleifion.

Risgiau a Meysydd Datblygu Pellach

- Fel y nodir yn y wybodaeth am berfformiad, mae datblygu gwasanaethau gofal brys yn cael ei ddarparu ochr yn ochr ag ymateb i bwysau sylweddol. Mae llawer o ddatblygiad y rhaglen hon wedi cefnogi ymateb i'r pwysau yn hytrach na newid sylfaenol yn y gwasanaeth
- Mae nodau 5 a 6 y rhaglen yn canolbwyntio ar ryddhau i'r cartref. Mae angen rhagor o gynnydd yn y maes hwn, a dim ond drwy bartneriaeth y gellir cyflawni hyn.
- Mae'r meysydd y mae'r rhaglen yn canolbwyntio arnynt yn cynnwys datblygu gwasanaethau meddygol SDEC ymhellach, gwasanaeth atal ac ailgyfeirio pellach a blaenoriaethu rhyddhau

**Rhwydwaith Ysbytai Cyffredinol Lleol Uwch**

Roedd y rhwydwaith **Ysbyty Cyffredinol Lleol Uwch** (eLGH) yn bosibl pan agorodd Ysbyty Athrofaol y Faenor ym mis Tachwedd 2020. Newidiodd rolau Ysbyty Brenhinol Gwent (RGH) ac Ysbyty Nevill Hall (NHH) i fod yn debycach i Ysbyty Ystrad Fawr (YYF). Mae'r model eLGH yn darparu gwasanaethau gofal brys lleol, cleifion allanol a diagnosteg, cleifion allanol gofal wedi'u cynllunio a llawdriniaethau cleifion mewnol a/neu gleifion allanol a gwelyau cleifion mewnol meddygol ar bob un o'r 3 safle. Mae ganddynt rolau allweddol o ran darparu gofal brys uniongyrchol a chefnogi cleifion sydd wedi cael gofal brys a gofal cleifion mewnol yn GUH ond nad ydynt yn barod

i gael eu rhyddhau eto oherwydd anghenion gofal parhaus gan gynnwys adsefydlu. Yn ogystal, mae pob eLGH yn datblygu rolau gwasanaethau rhanbarthol neu ar draws y Bwrdd Iechyd, er enghraifft Uned Gofal y Fron yn YYF a'r datblygiadau arfaethedig ar gyfer gwasanaethau canser a radiotherapi lleol yn NHH.

Mae'r ffrwd waith hon yn canolbwyntio ar optimeiddio dyluniad y rhwydwaith ysbytai ar draws y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio ar y modelau clinigol.  Ar ben hynny, mae'r cylch gwaith wedi cael ei ehangu i ystyried model meddygol acíwt y dyfodol ar gyfer safleoedd eLGH ac opsiynau ar gyfer cynaliadwyedd tymor hir darparu gwasanaethau.

**Mae rhai meysydd cynnydd yn cynnwys:**

- Wedi cwblhau ad-drefnu ward A1 yn Ysbyty Athrofaol y Faenor i optimeiddio llif cleifion drwy'r Adran Achosion Brys, Asesiad Llawfeddygol a'r Uned Feddygol Acíwt
- Mae adolygiad o wasanaethau strôc gan y tîm cenedlaethol Ei Gael yn Iawn y Tro Cyntaf wedi'i gynnal, ynghyd â modelu senarios ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau strôc, i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd strôc. Yn gynnar yn 2023/24 bydd elfennau'r gweithlu'n cael eu mapio ar draws gwasanaethau meddygol, nyrsio a therapïau.
- Dechreuodd y gwaith adeiladu ar Uned y Fron yn Ysbyty Ystrad Fawr. Bydd yr uned hon yn cynnig ystod eang o wasanaethau, wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion penodol cleifion. Bydd yn canolbwyntio ar fynediad amserol ac effeithiol at driniaeth, gan sicrhau bod gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn flaenllaw wrth ddarparu ein gwasanaethau gofal y fron.
- Mae'r gwaith wedi dechrau yn barod i adeiladu'r Ganolfan Radiotherapi Lloeren yn Ysbyty Nevill Hall. Rhagwelir y bydd yr uned hon yn agor yn hydref 2024.
- Mae gwerthusiad o'r 'Wardiau Tuag Adref' sy'n adolygu'r cymorth i'r rhai sydd wedi'u hoptimeiddio'n feddygol i'w rhyddhau wedi'i gwblhau.
- Sefydlu ffrwd waith Meddygaeth Acíwt i adolygu llif cleifion a'r gweithlu ers agor GUH a chreu model meddygaeth acíwt eLGH cynaliadwy.
- Sefydlogi staff meddygol iau ar gyfer y model meddygaeth acíwt gyda chydweithrediad gan AaGIC.

Risgiau a Meysydd Datblygu Pellach

- Y risg fwyaf sylweddol i optimeiddio ein model ELGH yw argaeledd gweithlu digonol. Mae prinder cenedlaethol a lleol mewn meysydd arbenigol yn golygu nad yw'n bosibl galluogi pob rhan o'n model.
- Felly, y ffocws ar gyfer y cyfnod nesaf fydd ystyried modelau clinigol yng nghyd-destun datblygiadau'r gweithlu a llwybrau

Ailgynllunio Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn

Mae pwysigrwydd gwella gofal a chymorth i **bobl hŷn** wedi cael ei atgyfnerthu drwy ein dull cynllunio deinamig. Mae'n dangos, ar ei symlaf, y gost i'n system oherwydd bod y cynnig i bobl hŷn yn is na'r hyn sydd ei angen i'w cefnogi i fyw'n dda ac yn annibynnol. Mae angen trawsnewid y system ymhellach ar frys i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar ymyriadau clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n ymateb i'w hanghenion, yng nghyd-destun yr hyn sy'n bwysig iddynt drwy sicrhau bod y gofal a gânt yn helpu i atal dibyniaeth yn awr ac yn ddiweddarach mewn bywyd.

**Mae rhai meysydd Cynnydd yn cynnwys:**

- Cefnogwyd y ffrwd waith ymyrraeth gynnar gan dri chais gaeaf ar gyfer trawsnewid a chynaliadwyedd y gweithlu a oedd yn cynnwys staff ychwanegol y Tîm Adnoddau Cymunedol i gryfhau gofal y tu allan i'r ysbyty ac atal derbyniadau i ysbytai y gellir eu hosgoi a chyflymu rhyddhau, mwy o Ofal Ymatebol Brys (Gofal Brys yn y Cartref); a chanolbwyntio ar gefnogi'r garfan Eiddilwch Rhagweithiol (HRAC) rydym yn gwybod eu bod yn ddefnyddwyr mynych o'n system ysbyty. Mae hyn er mwyn cefnogi diogelwch y system dros y gaeaf a phrofi ymyriadau i gefnogi bylchau mewn capasiti.
- Mae digwyddiadau ymgysylltu wedi dechrau gyda rhanddeiliaid a staff allweddol i lywio'r llwybr gofal gorau posibl a disgrifio'r model gofal ar gyfer pobl hŷn yn y dyfodol.
- Mae'r gwaith o fapio adnoddau i dargedu adnoddau cyfyngedig yn yr ardal iawn wedi dechrau gyda chefnogaeth y tîm Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth. Mae model arfaethedig ar gyfer gofal dydd wedi cael ei ddatblygu erbyn hyn a bwriedir cynnal archwiliad i ganfod anghenion cleifion a nifer y bobl a allai gael mynediad at y llwybr hwn.
- Mae asesiad o angen sydd heb ei ddiwallu wedi cael ei ddatblygu i lywio cynlluniau ar gyfer 'Clinigau Mynediad Sydyn' pellach.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu model Gofal Brys yn y Cartref i gefnogi pobl gartref, gan gynnwys y tu allan i oriau, ar draws pob ardal ac i recriwtio HCSW dros nos.

Risgiau a Meysydd Datblygu Pellach

Mae pwysau'r system wedi effeithio ar gynnydd yn y rhaglen hon, gyda niferoedd uchel mewn ysbytai cymunedol a chyfleusterau ehangach yn cyfyngu ar y gallu i sbarduno trawsnewid.

Mae'r rhaglen wedi nodi rhyngddibyniaethau allweddol gyda'r rhaglen chwe nod, felly bydd mwy o gysoni yn ffocws yn y cyfnod nesaf.

Datblygu Clwstwr Carlam (gofal Seiliedig ar Le)

Mae'r **Model Gofal Sylfaenol** i Gymru yn nodi sut bydd gwasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol yn gweithio o fewn y system sector cyhoeddus gyfan i ddarparu **Gofal Seiliedig ar Le**. Mae gwaith cydweithredol wrth wraidd hyn gan ddod â gwasanaethau iechyd a gofal lleol at ei gilydd i sicrhau bod gofal yn cael ei gydlynu'n well i ddarparu gofal sydd agosaf at y cartref a hyrwyddo lles pobl a chymunedau. Mae gennym dîm rhaglen craidd sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Gofal Sylfaenol, y Gweithlu, Cyllid, Cynllunio a chymorth gan y Rhaglen Dyfodol Clinigol i ddatblygu cynllun rhaglen lleol i ddarparu ymateb rhanbarthol i gerrig milltir gweinidogol sydd wedi'u pennu'n genedlaethol. Y ffocws hyd yma oedd ymgymryd â gwaith briffio ac ymgysylltu craidd i sefydlu'r cydweithrediadau proffesiynol, a swyddfa Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth (NCN) i wella'r gefnogaeth i staff rheng flaen wrth gynllunio a darparu ar gyfer eu poblogaeth leol, ac ymgymryd â'r ymarfer asesu parodrwydd a chyflawni'r camau gweithredu gofynnol.

**Mae rhai meysydd cynnydd yn cynnwys:**

- Cysoni gwaith ein cynlluniau NCN, Cynlluniau ar draws Clystyrau (cynlluniau ISPB) a Chynllun Ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Cynnydd da yn y strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu gan gynnwys cyflwyno'r ymgyrch 'Byddwch yn Garedig' ar draws y cyfryngau cymdeithasol a chontractwyr annibynnol, gan dderbyn adborth cadarnhaol. Mae brandio NCN ychwanegol wedi cael ei ddatblygu ynghyd â gwefan a chylchlythyr sy'n cynnwys fideos rôl Practis Meddygon Teulu
- Ar ôl sefydlu Swyddfa NCN, mae datblygu sefydliadol a chynaliadwyedd wedi bod yn flaenoriaeth allweddol gyda sesiynau datblygu wedi'u cynllunio a'u cyflwyno ar gyfer NCNs a chydweithio proffesiynol.
- Cyflwyno cynlluniau NCN ac ISPB drafft i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Ymgysylltu â phartneriaid i ddatblygu cylch Busnes NCN.
- Fframwaith cynllunio seiliedig ar anghenion y boblogaeth wedi'i ddatblygu a'i gymdeithasoli.
- Ymgysylltu â RPB a Byrddau Partneriaeth Gwasanaethau Integredig ynghylch yr olaf yn mabwysiadu swyddogaeth y Grwpiau Cynllunio ar draws Clystyrau.
- Roedd swyddfa'r NCN yn cefnogi'r NCNs i gyflawni eu cynlluniau, gan gynnwys cefnogi'r gwaith o werthuso a chynyddu prosiectau.
- Sefydlwyd Cydweithrediadau Proffesiynol ac maent wedi dechrau ymateb i asesiadau o anghenion y boblogaeth a gyhoeddwyd ac i nodi eu bylchau gwasanaeth.

Risgiau a Meysydd Datblygu Pellach


- Mae'r rhaglen wedi canolbwyntio ar sefydlu'r sylfeini llywodraethu ar gyfer gweithio integredig ar lefel NCN, y cam nesaf yw symud tuag at ddiffinio camau gweithredu a rhaglenni cyflawni sy'n canolbwyntio ar asesiadau o anghenion.
- Mae creu gofod ac amser ar gyfer gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol prysur yn faes risg allweddol ar gyfer y rhaglen hon yn

ogystal â gweithlu digonol gyda phrinder proffesiynau fel practis cyffredinol.

Adfer Gofal wedi'i Gynllunio

Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun 'Trawsnewid a moderneiddio **gofal wedi'i gynllunio** a lleihau rhestrau aros' i annog ffocws ar feysydd allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys: trawsnewid gwasanaethau cleifion allanol; blaenoriaethu gwasanaethau diagnostig; diagnosis cynnar a thrin cleifion yr amheuir bod canser arnynt; blaenoriaethu cleifion i leihau anghydraddoldebau iechyd; pobl sy'n aros yn hir iawn; meithrin capasiti gofal wedi'i gynllunio cynaliadwy; a gwella cyfathrebu a chymorth. Mae'r amcanion cenedlaethol hyn yn cyd-fynd â'r rhai a nodwyd yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig ac maent yn parhau i ategu ein ffocws ar y meysydd allweddol hyn o ran adferiad. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am fesurau perfformiad ar gael yn y crynodeb o ganlyniadau a pherfformiad.

**Mae rhai meysydd cynnydd yn cynnwys:**




- Cydweithio rhwng clinigwyr a'r tîm Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth i flaenoriaethu llwybrau gofal iechyd cychwynnol ar gyfer lleoleiddio yn seiliedig ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Yn ystod y chwarter diwethaf, cytunwyd ar achos busnes a dyrannwyd cyllid ar gyfer llwybrau iechyd.
- Mae gwefan Iach wrth Aros ABB wedi cael ei lansio i gefnogi cleifion i gadw'n iach cyn llawdriniaeth neu driniaethau wedi'u cynllunio i helpu i roi'r cyfle gorau posibl i gleifion yn ogystal â chefnogi adferiad.
- Mae'r rhaglen trawsnewid cleifion allanol yn parhau i ddatblygu a chyflwyno cynlluniau ymateb gan gynnwys 'Sylw yn ôl Symptomau' a 'Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf'. Gweithredu Cynllun DNA cleifion allanol (6.5% ar hyn o bryd yn erbyn targed o 5%) a Chynllun Canslo Ysbyty (18,950 ar hyn o bryd o'i gymharu â 40,952 yn 21/22).
- Mae Bwrdd Diagnosteg bellach wedi'i sefydlu gyda chysylltiad uniongyrchol â'r cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol. Bydd cynllun diagnostig cenedlaethol a rhanbarthol yn cael ei ddatblygu o Chwarter 1 23/24, gydag ateb lleol i'w gymeradwyo.
- Cynhaliwyd astudiaeth amser a symud a chynhaliwyd digwyddiad i randdeiliaid theatrau, yn manylu ar y gwelliannau sy'n cael eu cyflwyno ar draws timau.

- Rhoddwyd manylion am gysyniad yr Academi Gofal wedi'i Gynllunio i'r Uned Gyflawni, gan dderbyn ymateb cadarnhaol a chynnig cymorth wedi'i sicrhau. Bydd y model yn cael ei fireinio yn ystod y chwarter nesaf gyda chynllun i'w gyflwyno yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Risgiau a Meysydd Datblygu Pellach

- Mae effaith pwysau'r system wedi effeithio ar berfformiad a datblygiad gofal wedi'i gynllunio, gan effeithio ar argaeledd gwelyau a'r angen i symud staff i gefnogi gofal brys ac argyfwng
- Mae cydbwyso pwysau ariannol a mynd i'r afael â rhestrau aros hir hefyd yn dal yn faes risg.

**Gwella Canlyniadau Canser**

Mae angen gwella **canlyniadau canser**. Mae'r Un Llwybr Canser, a gefnogir gan Lwybrau Canser Optimaidd ar gyfer lleoliadau tiwmor unigol, yn darparu'r trywydd ar gyfer cwtogi llwybrau diagnostig a thriniaeth unwaith yr amheuir bod gan unigolyn ganser. Mae'r Strategaeth Canser, 'Gwireddu Gweledigaeth 2020-2025' yn nodi'r cyd-destun ehangach o ran atal, canfod yn gynnar, profiad cleifion, byw a marw gyda chanser, ymchwil canser a mynediad at therapïau newydd, hefyd yn elfennau allweddol o'r dull o drawsnewid gwasanaethau canser ar gyfer ein poblogaeth.

Er ei bod yn rhy gynnar i allu mesur effaith tonnau pandemig olynol ar forbidrwydd a marwoldeb ar gyfer canserau, mae pryder y bydd amharodrwydd gan gleifion i fynd i ofal sylfaenol ac ysbyty, ynghyd ag atal dros dro raglenni sgrinio cenedlaethol ac amseroedd aros hirach ar gyfer profion diagnostig a thriniaeth yn arwain at gleifion yn cyflwyno yn ddiweddarach gyda chanserau a fydd yn gwneud gwella canlyniadau canser yn fwy heriol. Mae cysylltiad annatod rhwng Gofal wedi'i Gynllunio a Gwasanaethau Canser; yr un gweithlu ydyw, sy'n defnyddio'r un capasiti diagnostig a thriniaeth.

**Mae rhai meysydd cynnydd yn cynnwys:**

- Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran sefydlu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser a nodi a gwahaniaethu rhwng meysydd gwaith a gweithgarwch
- Parhau i ganolbwyntio ar gyflawni yn erbyn y llwybr 62 diwrnod, a her weinidogol i gyflawni 70%. Wedi gwella gyda chydymffurfedd o 62.5% â Llwybr Canser Sengl ym mis Mawrth 2023.
- Cytunwyd ar drefniadau adrodd ar gyfer contractau allanol Histopatholeg. Bydd y Bwrdd Diagnosteg newydd yn cael sicrwydd ynghylch cyflawni yn erbyn llwybrau a bydd cynlluniau'n cael eu huwchgyfeirio, ar wahân i'r meysydd hynny sy'n effeithio ar Ganser.
- Mae'r Llywiwr Cleifion ar gyfer Endosgopi wedi arwain at welliant nodedig mewn diwrnodau cyswllt cyntaf, o 68.8% ym mis Ionawr i 85.5% ym mis Ebrill.

- Mae dangosfwrdd galw a chapasiti wedi cael ei greu ac mae bellach wedi cael ei gyflwyno i bob arbenigedd gyda'r nod o'i wreiddio yn y gwaith rheoli o ddydd i ddydd.
- Ar ddechrau Chwarter 4, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad gwerth £38 miliwn i wella gwasanaethau radiotherapi canser gyda chanolfan 'Lloeren' radiotherapi newydd yn Ysbyty Nevill Hall, a fydd ar agor erbyn 2024.

Risgiau a Meysydd Datblygu Pellach

- Mae ôl-groniadau sylweddol a chynnydd mewn atgyfeiriadau wedi herio cynnydd o ran darparu rhaglenni
- Yn yr un modd â rhaglenni eraill, mae heriau allweddol o ran y gweithlu cysylltiedig â lleoliadau tiwmor penodol wedi arafu cynnydd ac wedi golygu bod angen ystyried modelau gofal diwygiedig

Gwarchod Iechyd y Cyhoedd

Mae COVID-19 wedi tynnu sylw at y lefel annigonol o barodrwydd ar gyfer yr heriau sy'n wynebu ein poblogaeth, ein gweithlu a'n gwasanaethau. Rhaid i lefel yr uchelgais ar gyfer **Diogelu Iechyd y Cyhoedd**, gan gynnwys parodrwydd i reoli achosion heintus, olrhain cysylltiadau, diogelu'r poblogaethau a'r gweithlu mwyaf agored i niwed, gwyliadwriaeth effeithiol a mwy o bobl yn manteisio ar frechiadau fod yn gryfach.

Fel sefydliad iechyd y boblogaeth, mae **lleihau anghydraddoldeb iechyd** a gwella iechyd wrth galon popeth a wnawn. Mae ein huchelgais hirdymor i leihau'r galw am ofal iechyd yn hanfodol i system ofal gynaliadwy. Dim ond drwy ymyriadau systematig ar raddfa'r boblogaeth sy'n targedu achosion sylfaenol iechyd gwael y gellir cyflawni hyn, fel dewisiadau ffordd o fyw ac amddifadedd economaidd-gymdeithasol, a defnyddio sgrinio i wella'r broses o ganfod clefydau'n gynnar a'u trin yn y ffordd orau bosibl.

**Mae rhai meysydd cynnydd yn cynnwys:**

- Pigiad atgyfnerthu gwanwyn Covid-19 wedi dechrau ym mis Ebrill 2023. Brechiadau hyd at 25 Ebrill: 2,219 o breswylwyr cartrefi gofal, 1,350 yn gaeth i dŷ, 5,789 o bobl dros 80 oed, 4,142 o breswylfeydd Sir Fynwy drwy feddygon teulu a fferyllfeydd cymunedol.
- Sefydlwyd grŵp llywio aml-asiantaeth i ganolbwyntio ar y rhaglen Dileu Hep B a C gyda blaenoriaeth allweddol i archwilio model allgymorth.
- Mae adolygiad wedi'i ddechrau o'r llwybr ar ôl cyrraedd ar gyfer sgrinio TB cychwynnol ymysg ceiswyr lloches a Firysau a Gludir yn y Gwaed (BBV).
- Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at roi'r broses o drosglwyddo'r Gwasanaethau Diogelu Iechyd ar waith yn llawn, wrth i'r gwaith o ailgynllunio gwasanaethau a strwythurau ddechrau cael ei boblogeiddio. Symudodd y swyddogaeth brofi i Iechyd y Cyhoedd ym mis Ebrill.

- Mae'r gwaith o ddatblygu achosion Busnes y Gwasanaeth Diogelu Iechyd Integredig ar y trywydd iawn ac wedi'i drefnu ar gyfer y panel Cyn-fuddsoddi yn ystod Chwarter 2.
- Trefnu a darparu clinig brechlyn Brech y Mwncïod yn barhaus, gan wreiddio brechlyn Brech y Mwncïod fel busnes fel arfer.
- Cefnogi cynllun dileu Hepatitis B a C drwy adolygu'r cynllun gweithredu ac adolygu data ar lefel y boblogaeth.

Risgiau a Meysydd Datblygu Pellach
Mae datblygu o wasanaeth amddiffyn iechyd ymatebol i ragweithiol wedi bod yn heriol oherwydd gofynion ymateb i'r pandemig ac achosion o frigiadau eraill o ran iechyd y cyhoedd.
Bydd y ffocws yn y cyfnod nesaf ar symud i fodel rhagweithiol o wasanaethau atal.

Ein gweledigaeth yw darparu **gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu** tosturiol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ymdrechu i sicrhau canlyniadau rhagorol i bobl Gwent. Mae 2 Raglen drawsnewidiol (System Gyfan, Trawsnewid Cymorth Argyfwng i Bobl ac Anghenion Cymhleth) a fydd yn gwireddu'r weledigaeth hon. Mae nifer o brosiectau sy'n rhan o'r ddwy Raglen, gan gynnwys:

**Trawsnewid Iechyd Meddwl**

111 Pwyswch 2 ar gyfer iechyd meddwl ▪ Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol ▪ Ail-ddylunio gofal cleifion mewnol (model gwasanaeth, ffurfweddiad, gweithlu ac ystâd) ▪ Llwybr anghenion cymhleth ▪ Cryfhau asesiadau argyfwng a gwasanaethau triniaeth yn y cartref ▪ Gwella cludiant i gleifion mewn argyfwng ▪

Drwy un pwynt mynediad, rydym yn datblygu amrywiaeth o wasanaethau noddfa (yn yr Adran Achosion Brys a'r gymuned), cynllun bywydau rennir, darpariaeth cleifion mewnol acíwt, tenantiaeth tai a chymorth, cymorth iechyd meddwl i swyddogion cymorth cyntaf, asesu argyfwng, triniaeth a chyswllt yn y cartref, a Thŷ Cymorth.

**Mae rhai meysydd cynnydd yn cynnwys:**

- Mae Iechyd Meddwl 111 wedi cael ei lansio ac mae wedi'i wreiddio fel gwasanaeth 24/7.
- Ers rhoi'r cynllun Cysylltu Bywydau Iechyd Meddwl Oedolion ar waith, mae cyfanswm o 166 o leoliadau wedi cael eu cynnal, gyda chyfnod aros o 14 diwrnod ar gyfartaledd, ac roedd 49 o'r rhain yn ddewis arall yn lle derbyniadau i'r ysbyty. Mae rhai o fanteision allweddol y cynllun a gyflawnwyd yn cynnwys darparu gofal yn nes at y cartref ar draws pob un o'r 5 bwrdeistref; gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar draws y system gyda defnyddwyr gwasanaeth, fel y bo'n briodol, yn darparu dewis arall yn lle aros ar y ward; llai o atgyfeiriadau ymlaen i leoliadau cleifion mewnol traddodiadol neu ymyriadau acíwt; gwell canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a phrofiad rhagorol o fod yn lletywr/gofalwr. Mae'r cynllun wedi ennill ac wedi cael ei enwebu ar gyfer

nifer o wobrau gan gynnwys 'Gwobr Arloesi Cynllun' yng ngwobrau Shared Lives Plus 2022. Yn ogystal, mae papur gan Dr Benna Waites, Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol, wedi'i gyhoeddi gan Sefydliad Iechyd y Byd.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Uned Gwasanaethau Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl 65 gwely ac mae wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Mae'r camau nesaf yn cynnwys paratoi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer lleoliad SISU.
- Ers agor Tŷ Argyfwng/Tŷ Cymorth Tŷ Canol ddiwedd 2021/22, mae 90% o'r cleifion sydd wedi cael eu derbyn i Dŷ Canol wedi eu hatal rhag cael eu derbyn i'r wardiau.
- Gwelliannau mewn gwasanaethau anhwylderau bwyta sy'n cefnogi adnabod a thrin yn gynnar er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.
- Mae Gwasanaeth Oedolion Hŷn (OPAL) a'n Gwasanaethau Cyswllt Anabledd Dysgu Gofal Sylfaenol yn cael eu cydnabod fel esiamplau yng Nghymru.
- Gweithredu newidiadau i fodelau o ddarparu therapïau seicolegol i wella mynediad a dewis cleifion.
- Mentoriaid cymheiriaid, deialog agored a gefnogir gan gymheiriaid a llwybr at les staff
- Parhad o wasanaeth noddfa yr Adran Achosion Brys.

Risgiau a Meysydd Datblygu Pellach
- Mae pwysau sylweddol o hyd ar wasanaethau i ddiwallu'r galw emosiynol a lles sy'n deillio o'r pandemig
- Bydd mwy o ffocws yn y cyfnod nesaf ar weithio drwy bartneriaeth i sefydlu gwasanaethau haen 1 cadarn gyda chymunedau ac ar eu cyfer

**Datgarboneiddio**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Hinsawdd yn 2019 a nododd ei huchelgais y dylai'r sector cyhoeddus yng Nghymru fod mewn sefyllfa carbon '**Sero Net**' erbyn 2030. Roedd yr ymateb i'r pandemig wedi dangos sut y gellir ymgorffori newidiadau sylweddol ac effeithiol ym mywyd y cyhoedd o ddydd i ddydd a'r dull o weithio, er enghraifft gweithio o bell. Ein huchelgais, nawr, yw adferiad cynaliadwy ac iach gyda chamau gweithredu ar y cyd o fewn ac ar draws ein system i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

**Mae rhai meysydd cynnydd yn cynnwys:**
- Mae allyriadau carbon y Byrddau Iechyd yn olrhain -3.1% ar ddiwedd y flwyddyn.
- Mae'r holl adroddiadau bioamrywiaeth wedi cael eu derbyn ac yn cael eu hadolygu i'w hymgorffori mewn cynlluniau, ynghyd ag adolygiad o ddata sero net.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r ffrwd waith cyfathrebu, digidol a hyfforddi, gyda chynrychiolaeth ddigidol yn cael ei nodi.

- Ar hyn o bryd mae Endosgopi yn adolygu ac yn ymchwilio i'r defnydd o opsiynau eraill yn lle Entonox ar gyfer tawelyddu/analgesia.
- Mae'r gwaith o gyflwyno pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan wedi'i gwblhau ac mae pwyntiau gwefru ychwanegol ar gyfer RGH fel rhan o gais cyfalaf newydd wedi cael eu darparu.
- Cynnydd o ran canlyniadau'r adroddiad ar baneli solar oedd yn edrych ar ddefnydd amgen o wagleoedd toeau ar gyfer systemau panel solar.
- Mae gwasanaethau Fferylliaeth ac Anadlol yn adolygu cyfleoedd ar gyfer datgarboneiddio wrth ddefnyddio a darparu mewnanadlyddion.
- Mae fformat metrigau wedi cael ei ddiweddaru ac mae'r data sydd ar gael wedi cael ei baratoi a'i rannu â'r bwrdd. Bydd hyn yn cael ei fireinio ymhellach i gefnogi'r gwaith o adrodd ar gyfer ffurflen Carbon Llywodraeth Cymru yn nes ymlaen eleni.





Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu dull o **weithio'n hyblyg** yn dilyn yr angen i weithio'n wahanol drwy'r Pandemig Covid 19 diweddar, yn seiliedig ar anghenion gwasanaeth, gan ddarparu amrywiaeth o opsiynau i weithwyr ynghylch ble, a sut maen nhw eisiau gweithio. Mae'n golygu cynnig mannau defnydd cymysg gydag amrywiaeth o wasanaethau, mannau gwaith ac amgylcheddau. Mae mwy o fannau gwaith hyblyg modern yn golygu mwy na dim ond gweithio gartref, desgiau poeth a rhannu gofod swyddfa, ond newid meddylfryd diwylliannol a sicrhau bod amgylcheddau gwaith yn cefnogi mannau ymgynnull i annog cyfathrebu, gan ddarparu mannau ar gyfer cyfarfodydd byrfyfyr a gwaith cydweithredol.

**Mae rhai meysydd cynnydd yn cynnwys:**


- Mae cynllun cyflawni i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Fframwaith Hyblyg wedi cael ei ddatblygu.
- Mae mapio staff yn St Woolos wedi'i gwblhau i gefnogi'r gwaith o ailasesu'r gofynion presennol ar safle RGH a safleoedd eraill. Disgwylir i'r asesiad gael ei ddilysu yn ystod y chwarter nesaf.
- Cyflwyno gweledigaeth ddiwygiedig ar gyfer gweithio'n hyblyg i'r Tîm Gweithredol a rhoi rhagor o ddiweddariadau i Fwrdd y Rhaglen Hyblyg ym mis Ebrill.
- Ymgysylltu â phob un o'r 5 awdurdod lleol i edrych ar opsiynau gweithio ar y cyd. Ceisiwyd cytundeb i sefydlu rhwydwaith gydag awdurdodau lleol ac iechyd i rannu arferion da ac edrych ar gyfleoedd ystadau ar y cyd.
- Ymgysylltu â staff i hyrwyddo egwyddorion gweithio hyblyg/hybrid drwy ymgysylltu ag Is-adrannau a chaffis cadw staff.
- Gofod ychwanegol yn Nhŷ Caerllion gydag 8 lle hyblyg wedi'u creu yn ardal y cynllun agored a 3 ystafell gyfarfod ychwanegol y gellir eu defnyddio hefyd.


## 6. Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022/23 – Ansawdd a Diogelwch


Mae ansawdd a diogelwch wrth galon ein gwaith i sicrhau gwelliannau yn ansawdd y gofal a’r gwasanaethau rydyn ni’n eu darparu ac i wella canlyniadau i’r boblogaeth rydyn ni’n ei gwasanaethu. Mae’r Bwrdd wedi cymeradwyo ei Strategaeth Ansawdd, gan gadarnhau’r colofnau ansawdd. Mae’r ‘colofnau ansawdd’ hyn yn rhedeg drwy ein sefydliad, gan sicrhau ein bod yn darparu’r safonau gofal uchaf o dan y meysydd hyn.






- Mae Gofal Brys yn parhau i fod yn un o'r prif risgiau sefydliadol, problem sy'n cael ei hadlewyrchu'n genedlaethol, gyda'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor yn gweld tuedd gynyddol yn nifer yr ymweliadau. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i boblogaeth Gwent ac er mwyn gallu nodi lefel y risg yn yr adran, mae ffocws clir wedi cael ei roi ar frysbennu a fydd yn cael effaith ar yr amser a gymerir i glaf gael ei weld gan glinigwr. Mae gwybod categori brysbennu cleifion yn helpu i reoli’r risg i unigolion. Er nad yw’r targed brysbennu o <15 munud wedi cael ei gyrraedd eto, mae’r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithredu naill ai’n unol neu’n is na’r lefelau a ragwelwyd. Mae ffocws wedi bod ar fynd i’r afael â’r duedd gynyddol mewn amseroedd trosglwyddiadau ambiwlansys ac mae adolygiad o feini prawf, sy’n galluogi cleifion i gael eu symud o ambiwlans i eistedd yn yr adran, wedi cael ei gynnal. Ar ben hynny, mae Proses Weithredu Safonol (SOP) wedi cael ei datblygu sy’n cyfeirio at y camau gweithredu sy’n ofynnol pan fydd oedi o ran trosglwyddo cleifion, ac yn benodol, i sicrhau bod ceisiadau coch yn cael eu rhyddhau.
- Ar gyfartaledd, roedd 469 o gleifion y mis yn aros yn yr Adran Achosion Brys am dros 16 awr yn ystod chwarter 4, sef gostyngiad o 674 a gofnodwyd yn ystod Chwarter 3. Mae’r amser rhwng gwneud cais a dyrannu gwelyau hefyd wedi gostwng o 13.6 awr i 10.4 awr. Mae metrigau ansawdd yn cael eu monitro’n rheolaidd gan yr Uwch Dîm Rheoli, y Tîm Rheoli Adrannol (DMT) a’u huwchgyfeirio yn unol â hynny. Mae cwympiadau cleifion, digwyddiadau o ran meddyginiaeth a digwyddiadau trais ac ymddygiad ymosodol yn lleihau.
- Y Bwrdd Iechyd sydd â’r cyfraddau isaf o eColi, S.aureus ac Aeruginosa fesul 100,000 o’r boblogaeth ledled Cymru. Er nad yw cyfraddau targed 22/23 C.difficile wedi’u cyflawni eto, bu gostyngiad yn y cyfraddau o 33.77 (Cwarter 2) i 32.26 (Cwarter 3) fesul 100,000 o’r boblogaeth.








## Codymau

Mae dadansoddi data sy'n gysylltiedig â rheoli codymau cleifion mewnol yn parhau i gael ei fonitro dros gyfnod treigl o ddwy flynedd i roi sicrwydd. Mae'r dull hwn yn nodi unrhyw daflwybrau sy'n newid neu amrywiad ystadegol yn nifer y digwyddiadau codymu. Mae nifer cyfartalog cymedrig

y codymau misol wedi bod yn gyson ar tua 270 y mis. Ar gyfer y flwyddyn 2022/23, mae nifer yr adroddiadau am ddigwyddiadau wedi bod yn fwy amrywiol o'i gymharu â 2021/22, gyda mis Rhagfyr 2022 ychydig yn uwch na'r terfyn rheoli uchaf. Mae chwarter 4 wedi gweld tuedd ar i lawr, gyda'r gwerthoedd ar gyfer mis Chwefror a mis Mawrth yn cyd-fynd yn agosach â'r cyfartaledd cymedrig. Mae 91% o'r digwyddiadau codymu a gofnodwyd yn cael eu categoreiddio fel rhai dim niwed neu ychydig iawn o niwed.




## 7. Gweithio i Wella

Mae profiad y claf a gwrando a dysgu o adborth yn elfen allweddol o werthuso gwasanaethau a chanlyniadau ac yn fesur o effaith y ffordd rydym yn perfformio. Un ffordd o werthuso profiad cleifion yw drwy ddata ar gwynion.

Drwy gydol 2022–2023, cydymffurfiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 ynghylch y broses Gweithio i Wella.

Cafodd y Bwrdd Iechyd 3044 o gwynion ym mlwyddyn ariannol 2022-23 (gan gynnwys, yn achos cyrff GIG Cymru, pryderon a adroddwyd o dan Ran 7 o'r Rheoliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau trawsffiniol). Mae hyn yn ostyngiad o 9% o'i gymharu â 2021/22, pan dderbyniwyd 3,295 o gwynion.

• Dosbarthwyd 1,484 o gwynion fel rhai a Reolir drwy PTR (cwynion ffurfiol).

• Rheolwyd 1,560 dan y broses Datrysiad Cynnar.

O'r 1,117,572 o ryngweithiadau cleifion a gynhaliwyd yn y 5 adran fwyaf (derbyniadau a chleifion allanol), mae'r 3044 o gwynion a godwyd yn cyfateb i 0.2%.

*Y tair prif thema a godwyd yn ystod y cyfnod hwn oedd:*
1. Triniaeth/asesiad clinigol
2. Apwyntiadau
3. Cyfathrebu/Gwybodaeth

**Triniaeth/Asesiad Clinigol**

Mae amseroedd aros yn parhau i fod yn bryder allweddol i gleifion ar gyfer gofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei gynllunio. Mae effaith y pandemig ar restrau aros yn bryder allweddol i'r rheini sy'n aros, ynghyd â'r heriau o ran cael mynediad at ofal brys am resymau Covid a rhesymau nad ydynt yn ymwneud â Covid.

Mae sefydlu Rhaglen ffurfiol ar gyfer goruchwylio adferiad Gofal wedi'i Gynllunio yn parhau i ganolbwyntio ar y mater hwn ac yn darparu cymorth i gleifion wrth iddynt aros am lawdriniaeth, gan gynnwys gwneud y gorau o'u hiechyd cyn llawdriniaeth. Mae cynlluniau rhanbarthol ar gyfer llawdriniaeth cataract yn cael eu hystyried er mwyn gwneud y gorau o gapasiti, asedau ac adnoddau ar draws y rhanbarth. Mae model tebyg yn cael ei fabwysiadu ar draws radioleg ddiagnostig.

Mae'r Bwrdd Gofal Brys yn parhau i ganolbwyntio ar asesiadau cleifion ac amseroedd aros ambiwlansys.

**Apwyntiadau**

Mae adferiad yn dilyn pandemig Covid-19 yn parhau o fewn y Bwrdd Iechyd er mwyn lleihau amseroedd aros a lleihau canslo apwyntiadau cleifion ar restrau aros. Mae hyn wedi dwysáu'r pryderon sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag oedi cyn cael apwyntiad ac oedi pellach cyn dechrau cynlluniau triniaeth. Drwy gydol y cyfnod adrodd, roedd y rhain yn dal yn gyson. Mae mwy o ddefnydd o negeseuon testun/negeseuon atgoffa i gleifion yn ogystal â llythyrau papur traddodiadol.

**Cyfathrebu**

Mae thema sy'n codi dro ar ôl tro, sef pryderon sy'n cael eu datrys drwy 'ddatrys yn gynnar', wedi tynnu sylw at y ffaith bod problemau cyfathrebu'n parhau. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn 313 o'r 392 o gwynion sy'n ymwneud â chyfathrebu sy'n cael sylw o dan Datrysiad Cynnar. Mae prif themâu'r cwynion hyn yn ymwneud â rhwystredigaethau ynghylch rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i deuluoedd am ofal eu perthnasau ar lefel ward a'u rhyddhau ar ôl hynny, a chynnydd a briodolir i'r amseroedd aros hir mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Mae capasiti staff wedi golygu nad ydynt yn aml yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r person yn gyson am eu cynnydd drwy eu llwybr wrth gyrraedd yr adran, a'r perthnasau sy'n aros i glywed am y cynllun derbyn/triniaeth.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau â'r Gwasanaeth Swyddogion Cyswllt Cleifion a dreialwyd yn flaenorol i gefnogi gwaith Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei gynnal rhwng 8am ac 8pm, 7 diwrnod yr wythnos yn y 3 safle acíwt, gan gysylltu â'r ysbytai eraill, gan weithredu fel cyswllt rhwng y galwr a'r wardiau. Anogir perthnasau i ffonio'r wardiau yn gyntaf, ac os nad oes ymateb, i ffonio llinell ffôn benodol.

Mae cynnig y dylai'r Bwrdd Iechyd, er mwyn ffurfioli llwyddiant y gwasanaeth PLO, weithredu gwasanaeth newydd, a lansio'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS). Bydd hwn yn cynnig cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth gyfrinachol am faterion sy'n ymwneud ag iechyd. Bydd y gwasanaeth hwn yn bresenoldeb gweledol ar y safle i gleifion a theuluoedd

gael gafael ar gymorth pellach i fynd i'r afael â materion brys y gellir eu datrys yn anffurfiol ac yn y tarddiad.

Ar ôl i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gael ei nodi fel safle peilot ar gyfer 'SignLive', y llynedd, mae'r gwasanaeth ar gyfer cymuned fyddar BSL y Bwrdd Iechyd bellach ar waith ar bob safle ysbyty. Gall cleifion ddefnyddio gwasanaethau BSL lle nad oes dehonglydd ar gael ar unwaith 24 awr y dydd/365 diwrnod o'r flwyddyn. Cyflwynwyd hyn yn dilyn cwynion cynyddol am ddiffyg darpariaeth Iaith Arwyddion Prydain, oedi cyn i gyfieithwyr fod ar gael ar gyfer ymgynghoriadau wyneb yn wyneb, ac effaith ar apwyntiadau o ganlyniad i hynny, ac mae wedi cael croeso cadarnhaol gan gleifion.

**Gwneud Iawn**

Mae gan y Bwrdd Iechyd Banel Gwneud Iawn sefydledig i wneud y penderfyniadau hyn, sy'n cyfarfod bob mis i sicrhau bod achosion yn cael eu clywed yn brydlon. Mae hwn yn banel lefel uchel gydag aelodaeth â chworwm ar gyfer Swyddogion Gweithredol Meddygol, Nyrsio a Therapïau, neu enwebeion, ynghyd â'r Cadeirydd. Yn ogystal â phenderfyniadau ynghylch atebolrwydd cymwys, mae pwyslais cryf ar sicrhau bod dysgu a chamau gweithredu wedi'u cymryd i geisio atal niwed i gleifion yn y dyfodol. Tynnir sylw hefyd at feysydd o arfer da a'u rhannu.

Cydnabyddir yn genedlaethol bod agwedd Gwneud Iawn 'Rheoliadau Gweithio i Wella' Cymru gyfan wedi darparu dewis arall y mae mawr ei angen yn lle achosion cyfreithiol ffurfiol i gleifion a'u teuluoedd, gan gyflawni datrysiad o fewn amserlenni llawer byrrach, ac arbedion cost mewn achosion cyfreithiol.

Yn ystod 2022/23, clywodd y Panel Gwneud Iawn 68 o achosion. Er mai triniaeth glinigol, gan gynnwys oedi a diagnosis, oedd y dosbarth mwyaf o achosion, mae'r darlun yn dal i fod yn gymysg iawn o ran manylion yr achosion, wedi'i wasgaru dros sawl Is-adran/Cyfarwyddiaeth, safle ac amserlen, heb unrhyw faes amlwg o bryder neu allanolyn wedi'i nodi.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)**

Yn ystod 2022/23, derbyniodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 165 o atgyfeiriadau. O'r rhain, cynhaliwyd 33 fel ymchwiliadau llawn i'r Bwrdd Iechyd ac ni ystyriwyd 35 achos ar gyfer ymchwiliad pellach. Roedd y 97 o atgyfeiriadau a oedd yn weddill yn ddienw, ac nid oedd angen i'r Bwrdd Iechyd weithredu arnynt.

Mae cynnydd wedi bod yn nifer yr achwynwyr sy'n mynd i'r Ombwdsmon ac sy'n wynebu oedi sylweddol cyn cael ymateb gan y Bwrdd Iechyd i'w cwyn wreiddiol. Mae hyn yn arwain at argymhelliad gan OGCC am iawndal ariannol neu ymddiheuriad. Talodd y Bwrdd Iechyd £4550 mewn setliadau OGCC yn 2022/23.

**Gwella Diogelwch - Dysgu o Ddigwyddiadau Difrifol**

O 14 Mehefin 2021 ymlaen, disodlwyd meini prawf adrodd am Digwyddiadau Difrifol Llywodraeth Cymru gan y Fframwaith Adrodd

Cenedlaethol. Ffocws adrodd ar ddigwyddiadau ar lefel genedlaethol yn flaenorol fu archwilio’n fanwl i Ddigwyddiadau Difrifol penodol fel y nodir yn Rheoliadau’r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 (y Rheoliadau), yn bennaf drwy ddefnyddio Dadansoddiad o Wraidd y Broblem. Mae’r Polisi Cenedlaethol ar Adrodd am Ddigwyddiadau Diogelwch Cleifion (Mai 2021) (cam un) wedi arwain at nifer o newidiadau allweddol i’r broses genedlaethol o adrodd am ddigwyddiadau. Mae Cam Dau i fod i gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2023. Bydd hyn yn canolbwyntio ar themâu dysgu.

Mae proses ymchwilio fewnol gadarn, ar y cyd â phartneriaid allanol, yn cael ei chynnal ar draws y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau bod camau gweithredu ac, yn bwysicach fyth, y dysgu’n parhau. Enghraifft o hyn yw sefydlu panel wythnosol cydweithredol y Bwrdd Iechyd/WAST sy’n archwilio ymchwiliadau ar y cyd, yn nodi’r prif sefydliadau adrodd ac ymchwilio, ac yn rhannu gwybodaeth i lywio’r rhain.


Yn 2022/23, roedd 34 o ddigwyddiadau adroddadwy newydd a gafodd eu rheoli drwy’r Broses Digwyddiadau Difrifol fel Ymchwiliadau Coch 1 (dan arweiniad Corfforaethol) neu Goch 2 (dan arweiniad Is-adran).

**Dysgu**

Mae rhaglen waith wedi cael ei datblygu ar gyfer 2023/24 yn seiliedig ar y materion a nodwyd yn 2022/23. Ym mis Gorffennaf 2023, bydd Adroddiad Blynyddol PTR yn cael ei gyhoeddi a fydd yn amlinellu’n fanwl y gwaith a wnaed dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, y gwersi a ddysgwyd a’r gwelliannau ymarfer a wnaed yn yr ymdrech i wneud y gorau o adnoddau a’r gwasanaeth a ddarperir i’r gymuned a wasanaethir gan y Bwrdd Iechyd.

## 8. Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) (2015) (‘y Ddeddf’) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ar yr un pryd â lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy atal hirdymor a darparu gwasanaethau cynaliadwy sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae gan y Ddeddf saith nod llesiant ac mae’n dweud wrth sefydliadau sut mae cydweithio’n fwy cynaliadwy i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf drwy ddilyn pum ffordd o weithio.



Yn ystod 2022/23, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid i gynhyrchu asesiadau cadarn o lesiant ac anghenion y boblogaeth, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Cyhoeddwyd asesiad llesiant Gwent ym mis Mai 2022 ac mae'n asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ardal Gwent. Mae copïau o asesiad llesiant Gwent ac asesiad o anghenion y boblogaeth ar gael yma:

Asesiad Llesiant Gwent: http://www.gwentpsb.org/
Asesiad Poblogaeth Gwent: https:///www.gwentrpb.wales/home

Yn dilyn cyhoeddi asesiad llesiant Gwent, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid i droi canfyddiadau'r asesiad yn gynllun ar gyfer Gwent – Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent. Gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio, mae partneriaid wedi dod at ei gilydd i ddatblygu cynllun a fydd yn cyflawni newidiadau uchelgeisiol a thrawsnewidiol na ellir eu cyflawni gan sefydliadau unigol yn unig. Bydd y cynllun yn cwmpasu'r cyfnod o bum mlynedd rhwng 2023-28, ac mae'n seiliedig ar ddau amcan strategol a phum cam. Sef:

Amcanion strategol Cynllun Llesiant Gwent:
1. Rydym am greu Gwent decach, mwy cyfartal a mwy cynhwysol i bawb.
2. Rydyn ni eisiau Gwent sy'n barod ar gyfer yr hinsawdd, lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu, gan fod o fudd i'n llesiant nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Camau Cynllun Llesiant Gwent:
1. Cymryd camau i leihau'r argyfwng costau byw yn y tymor hwy.
2. Darparu a galluogi cyflenwad o gartrefi fforddiadwy a phriodol o ansawdd da.
3. Gweithredu i leihau ein hallyriadau carbon, helpu Gwent i addasu i'r newid yn yr hinsawdd, ac amddiffyn ac adfer ein hamgylchedd naturiol.
4. Cymryd camau i fynd i'r afael ag annhegwch, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd, drwy fframwaith Egwyddorion Marmot.
5. Galluogi a chefnogi pobl, cymdogaethau a chymunedau i fod yn wydn, yn gysylltiedig, i ffynnu a bod yn ddiogel.

Disgwylir i'r cynllun gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2023. Yn dilyn hyn, bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad o'i amcanion llesiant presennol i sicrhau, lle bynnag y bo modd, eu bod yn gyson â Chynllun Llesiant Gwent. Gellir gweld cynnydd hunan-asesu'r Bwrdd Iechyd yn erbyn ei ddeg Amcan Llesiant presennol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 yn y tabl dros y dudalen.

Mae'r ffyrdd newydd o weithio a nodir yn y Ddeddf wedi parhau i gael eu gwreiddio yn y Bwrdd Iechyd yn ystod 2022/23. Drwy drefniadau partneriaeth rhanbarthol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, dangoswyd **integreiddio** drwy ddulliau gweithredu ar y cyd ar gyfer darparu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae tîm cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu a **chynnwys** y cyhoedd yn ystod 2022/23.

Drwy weithio ar y Cynllun Llesiant a'r Cynllun Ardal, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio mewn partneriaeth i sefydlu gweledigaeth **hirdymor** ar gyfer trawsnewid yng Ngwent. Drwy 'Adeiladu Gwent Decach': Rhaglen Marmot Gwent, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno dull o **atal** sy'n rhan annatod o benderfynyddion cymdeithasol iechyd. Yn olaf, mae gwaith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn dangos sut mae'r Bwrdd Iechyd yn **cydweithio** i sicrhau enillion i boblogaeth Gwent na all sefydliadau unigol eu cyflawni ar eu pen eu hunain. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefannau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent.

| ***Ein Hamcanion Llesiant*** | ***Ble rydym nawr*** |
|---|---|
| 1 – Cefnogi pob rhiant sy'n disgwyl plentyn a rhoi cymorth i bob plentyn yng Ngwent i sicrhau'r dechrau gorau i fywyd | **Bod yn Fwy Anturus** |
| 2 – Cefnogi oedolion a phlant yng Ngwent i fyw'n iach ac i heneiddio'n iach fel eu bod yn gallu byw'n annibynnol a mwynhau ansawdd bywyd da yn ystod eu henaint | **Gwneud Newidiadau Syml** |
| 3 – Hybu Llesiant Meddwl fel Sylfaen i iechyd, creu cymuned bersonol a chymunedol | **Bod yn Fwy Anturus** |
| 4 – Annog cyfranogiad pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'r rhai y maent yn eu cefnogi mewn penderfyniadau ar y cyd am eu hiechyd eu hunain a'u cynlluniau gofal ac mewn cynllunio a gwerthuso gwasanaeth ehangach fel ein bod ni, gyda'n partneriaid, yn cyflenwi'r deilliannau sydd o'r pwys mwyaf i bobl | **Gwneud Newidiadau Syml** |
| 5 - Sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd effeithlon gorau o adnoddau'r GIG wrth gyflawni deilliannau a gynlluniwyd ar gyfer gwasanaethau a chleifion drwy systemau cyfathrebu, monitro ac olrhain rhagorol ym mhob maes clinigol | **Perchnogi ein Huchelgais** |
| 6 - Hyrwyddo Gweithlu amrywiol sy'n gallu arddangos eu traddodiad diwylliannol gyda chyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle | **Gwneud Newidiadau Syml** |
| 7 - Datblygu ein staff i fod y gorau y gallant fod gyda lefelau uchel o lesiant cyflogai ac, fel y cyflogwr mwyaf yng Ngwent, hyrwyddo gyrfaoedd y GIG a darparu cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith | **Bod yn Fwy Anturus** |
| 8 - Lleihau ein heffaith negyddol ar yr amgylchedd drwy raglen adeiladu cyfalaf gyfrifol a dull cynaliadwy o ddarparu gwasanaethau i adeiladau gan gynnwys rheoli carbon a gwastraff, cynnal proses gaffael ar sail cost oes gyfan a chefnogi cyrchu'n | **Gwneud Newidiadau Syml** |

| | |
|---|---|
| lleol, hyrwyddo teithio cynaliadwy a llesol, a gwella iechyd yr amgylchedd. | |
| 9 – Cynllunio a sicrhau gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy a hygyrch yn ymestyn o atal hyd at adsefydlu ac adfer sy'n cyflawni anghenion y presennol a'r dyfodol ac yn delio ag anghyfartaleddau iechyd a lefelau gwahanol o angen ar draws ein cymunedau. | **Perchnogi ein Huchelgais** |
| 10 – Parhau i integreiddio ein camau gyda phartneriaid ehangach y sectorau cyhoeddus, annibynnol a gwirfoddol gyda'r nod o ddatblygu gwasanaethau llyfn system gyflawn ar gyfer pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'r rhai y maent yn eu cefnogi. | **Perchnogi ein Huchelgais** |

## 9. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol wedi'u gwreiddio ym mhob agwedd ar y Bwrdd Iechyd drwy ein Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau a'r Fframwaith Llywodraethu. Ar ben hynny, mae gweithredu Safon 2 Safonau Gofal Iechyd Cymru yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn ymgorffori cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a darpariaeth gwasanaethau, gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod penderfyniadau strategol rydym yn eu gwneud yn cael eu llywio gan y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal, ac mae'n ofynnol iddo adrodd yn flynyddol ar gynnydd yn erbyn y Ddyletswydd Ansawdd gan ddefnyddio dangosyddion a mesurau, profiadau a straeon cleifion a staff, archwiliadau clinigol ac adroddiadau arolygu. Mae'n ofynnol i adrannau a gwasanaethau ddefnyddio gwybodaeth sy'n ymwneud ag ansawdd i adolygu pa mor dda maen nhw'n gwneud. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan arolygon cleifion rheolaidd, gan gynnwys gweithredu system Civica Experience Cymru i gasglu adborth amser real gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal rhaglen gynhwysfawr o ymgysylltu â'r gymuned sy'n sicrhau bod cymunedau'n gallu siarad yn uniongyrchol â staff y Bwrdd Iechyd a rhannu eu barn am wasanaethau iechyd a helpu i roi sicrwydd i ni mewn perthynas â chynnwys y cyhoedd. Sefydlwyd Fforwm Iechyd Cymunedau Amrywiol gan y Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2020 i ymgysylltu'n uniongyrchol â lleisiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml yn ein cymunedau.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio system gynhwysfawr o Ddadansoddi Cydraddoldeb, y cyfeirir ati hefyd fel Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA). Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw wasanaeth, strategaeth, polisi,

swyddogaeth neu gyfarwyddeb debyg arfaethedig yn cael ei dadansoddi'n systematig gennym ni gyda chymorth a chyfarwyddyd gan ein swyddogaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae'r broses yn nodi pa effaith, neu effaith debygol, y gallai ei chael ar y bobl sy'n dod i gysylltiad â'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a chleifion.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau cyfieithu a dehongli i gefnogi unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau sy'n ei chael yn anodd clywed neu weld, neu sy'n ei chael yn anodd deall iaith ei gilydd. Ddechrau 2023, lansiodd y Bwrdd Iechyd wasanaeth SignLive, i gefnogi ein defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain a Byddar i gael mynediad at ein gwasanaethau. Mae defnyddwyr yn gallu defnyddio SignLive i wneud galwadau ffôn a helpu i gyfathrebu wyneb yn wyneb mewn sefyllfaoedd lle nad oes dehonglydd wyneb yn wyneb ar gael.

Rydym yn ymdrechu i adlewyrchu'r boblogaeth leol yn ein gweithlu. Rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau bod gan staff y wybodaeth angenrheidiol i ddeall a gweithio gydag unigolion, grwpiau a phoblogaethau nad ydynt, yn hanesyddol, wedi defnyddio gwasanaethau iechyd priodol, neu sydd wedi ceisio'r gwasanaethau yn ddiweddarach yn ystod eu salwch neu eu cyflwr.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

## 9. Rheoliadau'r Gymraeg

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud cynnydd da yn ein gwaith mewn perthynas â darparu gwasanaethau Cymraeg. Rydyn ni'n cydnabod bod cyfathrebu'n allweddol i ddarparu'r gofal gorau i bawb rydyn ni'n eu gwasanaethu ac felly rydyn ni'n nodi ei bod hi'n bwysig bod ein cymuned sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael gofal a chymorth yn eu mamiaith.

Mae Adroddiad Blynyddol 2021/22 yn mynd i'r afael â dyletswydd statudol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddarparu cyfrif blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Paratowyd yr adroddiad yn unol â Safon Iaith Gymraeg 120. Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg rhwng 01 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22 ar gael ar-lein yn Gymraeg ac yn Saesneg
https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/other-reports/welsh-language-standards-annual-report-2021-22pdf/ Saesneg

https://bipab.gig.cymru/ffeiliau/key-documents/adroddiad-blynyddol-safonaur-gymraeg-2021-22pdf1/ Cymraeg

Bydd yr adroddiad ar gyfer 2022-2023 yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2023.

## 10. Rheolaeth a Pherfformiad Ariannol

Mae Cyfrifon Blynyddol 2022/23, yn Adran 3 yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol 2022/23, Tudalen XX, yn nodi'r cyfrifon manwl ar gyfer y flwyddyn lawn hyd at 31 Mawrth 2023 ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu paratoi o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Mae gan y Bwrdd Iechyd ddwy ddyletswydd ariannol statudol:

- Mantoli'r gyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd; a
- Chyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) i sicrhau cydymffurfiaeth â mantoli'r gyllideb dros dair blynedd.

O dan y ddyletswydd dreigl 3 blynedd, a gyflwynwyd gyda Deddf GIG (Cymru) 2014, cynhaliwyd yr asesiad cyntaf o'r ddyletswydd ariannol statudol gyntaf ddiwedd 2016/17 pan gafodd ei chyflawni. **Nid** yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw dros 3 blynedd 2020-21 i 2022-23.

Mewn perthynas â'r ail ddyletswydd, sicrhaodd y Bwrdd Iechyd gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar 13 Gorffennaf 2022. Mae'r nodyn yn y cyfrifon yn dangos bod y ddyletswydd hon wedi'i chyflawni. *(Nodyn 2.3 o Gyfrifon Blynyddol 2022/23).*

## Perfformiad Adnoddau Refeniw

Nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw dros y 3 blynedd 2020-21 i 2022-23. Dywedodd y Bwrdd ei fod wedi gorwario £36,348k fel y dangosir isod:

| **Dyletswydd Mantoli'r Gyllideb Refeniw Tair Blynedd** | **2020/21** £ 000 | **2021/22** £ 000 | **2022/23** £ 000 | **Cyfanswm** £ 000 |
|---|---|---|---|---|
| Tanwariant yn erbyn Dyraniad | 245 | 249 | - 36,842 | - 36,348 |

## Perfformiad Adnoddau Cyfalaf

Yn ogystal â therfyn adnoddau refeniw, mae gan y Bwrdd Iechyd derfyn adnoddau cyfalaf sy'n gosod y targed ar gyfer gwariant cyfalaf. Llwyddwyd i gyrraedd y targed o £40.723m yn 2022/23 gyda thanwariant bach o £43k. Mesurir y targed dros gyfnod o 3 blynedd fel y dangosir yn y tabl isod:

| Dyletswydd mantoli'r gyllideb cyfalaf 3 blynedd | 2020/21 £000 | 2021/22 £000 | 2022/23 £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Tanwariant yn erbyn dyraniad | 13 | 50 | 43 | 106 |

## Targedau Cysylltiedig Eraill

- Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus
  Mae'r targed hwn ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â thalu 95% o'i gredydwyr masnach o fewn 30 diwrnod. Yn 2022/23, cyflawnwyd y targed gyda ffigur blwyddyn llawn o 95.2%.

- Balans Arian Parod
  Mae Llywodraeth Cymru yn gosod targed tybiannol i Fyrddau Iechyd yng Nghymru gael balansau arian parod diwedd cyfnod heb fod yn fwy na £6m. Ar gyfer 2022/23, roedd gan y Bwrdd Iechyd gwir falans arian parod o £4.704m ac felly roedd o fewn y targed.

## Tuedd Gwariant Tymor Hir

### 3. Dadansoddiad o gostau gweithredu gros

| 3.1 Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Cynradd | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol | 99,491 | 103,343 | 108,993 | 112,524 | 116,217 |
| Gwasanaethau Fferyllol | 24,995 | 22,900 | 27,109 | 25,082 | 25,273 |
| Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol | 36,232 | 36,608 | 33,079 | 38,030 | 39,817 |
| Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol | 8,419 | 8,911 | 8,734 | 9,343 | 8,866 |
| Gwariant Gofal Iechyd Cynradd arall | 2,738 | 2,872 | 2,289 | 2,487 | 2,612 |
| Cyffuriau a dyfeisiau wedi'u presgripsiynu | 95,557 | 102,280 | 106,852 | 106,282 | 114,331 |
| **Cyfanswm** | 267,432 | 276,914 | 287,056 | 293,748 | 307,116 |

| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **3.2 Gwariant gofal iechyd gan ddarparwyr eraill** | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
| Nwyddau a gwasanaethau gan gyrff eraill y GIG | 95,505 | 103,179 | 103,278 | 117,637 | 117,587 |
| Nwyddau a gwasanaethau gan WHSSC / EASC | 136,682 | 144,458 | 161,384 | 177,035 | 198,320 |
| Gofal Parhaus | 71,481 | 71,005 | 81,347 | 83,675 | 86,006 |
| Arall | 46,323 | 61,107 | 71,795 | 85,054 | 72,240 |
| **Cyfanswm** | 349,991 | 379,749 | 417,804 | 463,401 | 474,153 |

| **3.3 Gwariant ar Wasanaethu Iechyd yn yr Ysbyty a'r Gymuned** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
| Costau Staff | 524,092 | 579,760 | 671,972 | 714,255 | 762,081 |
| Di-dâl | 149,022 | 152,277 | 172,611 | 191,827 | 200,118 |
| Dibrisiant ac Amhariadau | 23,596 | 23,197 | 96,361 | 31,056 | 30,804 |
| Colledion, taliadau arbennig a dyledion anadferadwy | 2,024 | 3,154 | 1,886 | 2,831 | 1,526 |
| Treuliadau gweithredu eraill | 7,875 | 7,990 | 8,526 | 11,009 | 9,538 |
| **Cyfanswm** | 706,609 | 766,378 | 951,356 | 950,978 | 1,004,067 |

## Tuedd Perfformiad Refeniw Tymor Hir

### 2. Perfformiad Dyletswyddau Ariannol

#### 2.1 Perfformiad Adnoddau Refeniw

| | Perfformiad ariannol blynyddol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn** | 1,226,261 | 1,319,803 | 1,551,819 | 1,598,803 | 1,676,282 | 4,826,904 |
| Llai o wariant gwasanaethau offthalmig cyffredinol a gwariant cyfyngedig arall nad yw'n arian parod | (2,149) | (161) | (1,423) | (58) | 148 | (1,333) |
| Llai o ganlyniadau refeniw o ddod â chynlluniau PFI ar SoFP | 0 | 0 | 0 | 0 | | 0 |
| Cyfanswm y costau gweithredu | 1,224,112 | 1,319,642 | 1,550,396 | 1,598,745 | 1,676,430 | 4,825,571 |
| Dyraniad Adnoddau Refeniw | 1,224,347 | 1,319,674 | 1,550,641 | 1,598,994 | 1,639,588 | 4,789,223 |
| **Tan/(gor) wariant yn erbyn Dyraniad** | 235 | 32 | 245 | 249 | (36,842) | (36,348) |

Nid yw Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan wedi bodloni ei ddyletswydd ariannol i gwrdd â'i gostau yn erbyn ei Gyfyngiad Adnoddau Refeniw dros y 3 blynedd rhwng 2020-21 i 2022-23

Bydd y Bwrdd Iechyd, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn cadarnhau'r goblygiadau ar gyfer adrodd y diffyg ariannol hwn fel rhan o IMTP 2023/24.

Cafodd y bwrdd iechyd gymorth arian parod strategol gwerth £23m yn 2022-23.

#### 2.2 Perfformiad Adnoddau Cyfalaf

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2020-21 | 2022-23 | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £'000 | £'000 | £000 | £'000 |
| **Gwariant Cyfalaf Gros** | 141,139 | 133,286 | 112,376 | 52,167 | 41,011 | 205,554 |
| Ychwanegu: Colledion wrth waredu ar asedau rhodd | 0 | 7 | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Llai o NBV eiddo, offer a chyfarpar ac asedau annirweddol yn cael eu gwaredu | (81) | (555) | (884) | (3,115) | (61) | (4,060) |
| Llai o grantiau cyfalaf wedi'u derbyn | (45) | (93) | (333) | (22) | (62) | (417) |
| Llai o roddion wedi'u derbyn | (121) | (300) | (201) | (166) | (210) | (577) |
| Codi yn erbyn Dyraniad Adnoddau Cyfalaf | 140,892 | 132,345 | 110,958 | 48,864 | 40,680 | 200,502 |
| Dyraniad Adnoddau Cyfalaf | 140,933 | 132,373 | 110,971 | 48,914 | 40,723 | 200,608 |
| **(Tros)/tan wariant yn erbyn Dyraniad Adnoddau Cyfalaf** | 41 | 28 | 13 | 50 | 43 | 106 |

Yn 2018-19, roedd £120m o'r gwariant gwerth £141 mewn perthynas ag Ysbyty newydd Athrofaol y Faenor.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi bodloni ei ddyletswydd ariannol i gwrdd â'i gostau yn erbyn ei Gyfyngiad Adnoddau Cyfalaf dros y 3 blynedd rhwng 2020-21 i 2022-23.

Mae datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru 2022-23. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y llawlyfr hwnnw yn dilyn Llawlyfr Adrodd Ariannol 2022-23 yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol sy'n cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006, i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r GIG yng Nghymru.

Mae'r Llawlyfr Cyfrifon yn nodi'n glir y dylid paratoi cyfrifon ar sail busnes hyfyw lle rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn parhau yn y dyfodol. Tybiwyd y bydd gwasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn parhau i fod ar waith. O ganlyniad, mae'r sail busnes hyfyw wedi cael ei mabwysiadu.

## 11. Casgliad ac Edrych Ymlaen

Fel sefydliad, ein cenhadaeth yw gwella iechyd y boblogaeth, a thrwy wneud hyn, lleihau'r anghydraddoldeb iechyd sy'n bodoli ar draws ein cymunedau. Mae'r bwlch presennol o 18 mlynedd mewn disgwyliad oes iach rhwng ein cymunedau cyfoethocaf a thlotaf yn sylweddol. Mae canlyniadau anghydraddoldeb yn golygu bod angen ein gwasanaethau ar fwy o ddinasyddion. Yn anffodus, mae pandemig COVID-19 wedi gwaethygu'r bwlch. Felly, wrth inni edrych tua'r dyfodol, rhaid inni ganolbwyntio'n ddi-baid ar leihau anghydraddoldeb iechyd fel rhan o wella iechyd cyffredinol y boblogaeth.

Mae ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 a 2023-26 yn adeiladu ar y dull cwrs bywyd, gan gydnabod y gofynion gweithredol presennol ac yna'n canolbwyntio ar adferiad realistig a chynaliadwy.

Mae'r cynllun yn seiliedig ar asesiad realistig o'r ddarpariaeth dros y tair blynedd nesaf; mae'n optimistaidd o ran ei agwedd, gan gydnabod yr angen i adeiladu ar y newidiadau i'r gwasanaeth a gyflawnwyd dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n canolbwyntio ar wneud y newidiadau hynny'n gynaliadwy, er mwyn diwallu anghenion hirdymor ein cymunedau.
Mae gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ganolog i'r holl waith o ddarparu gwasanaethau. Rydym wedi ymrwymo o hyd i wella profiad a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â chleifion ymhellach, gan ddysgu a gwrando ar ein staff a'n cleifion.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
**Adran 2: Adroddiad Atebolrwydd**
**1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023**

## CYFLWYNIAD I'R ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

Mae'n ofynnol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gyhoeddi Adroddiad Atebolrwydd fel rhan o'n hadroddiad blynyddol. Mae adran Adroddiad Atebolrwydd yr Adroddiad Blynyddol wedi cael ei dylunio i ddangos sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bodloni ei ofynion atebolrwydd ac adrodd allweddol.

Mae tair adran i'r Adroddiad Atebolrwydd hwn:

### 1. Adroddiad ar Lywodraethiant Corfforaethol

Mae hyn yn egluro cyfansoddiad y Bwrdd Iechyd, ei strwythurau a'i drefniadau llywodraethu a sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio cyflawni ei amcanion a'i gyfrifoldebau i ddiwallu anghenion y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys:

A. Adroddiad y Cyfarwyddwyr
B. Datganiad y Prif Weithredwr fel y Swyddog Atebol a Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r Cyfrifon
C. Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

### 2. Adroddiad Tâl a Staff

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am staff y sefydliad, gan ganolbwyntio'n benodol ar dâl ei Fwrdd a'i uwch reolwyr, cymarebau cyflog teg a gwybodaeth arall am staff, fel cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch.

### 3. Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru

Mae'r adran hon yn cynnwys amrywiaeth o ddatgeliadau ar gysondeb gwariant, ffioedd, codi tâl, cydymffurfio â dyraniad costau, rhwymedigaethau digwyddiadol sylweddol o bell, tueddiadau gwariant tymor hir a gofynion codi tâl a nodir yng nghanllawiau Trysorlys EM.

# Adroddiad ar Lywodraethiant Corfforaethol

# 2022/23

## Yn cynnwys:

**A.** **Adroddiad y Cyfarwyddwyr**

**B.** **1. Datganiad y Prif Weithredwr fel y Swyddog Atebol**

**B.** **2. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r Cyfrifon**

**C.** **Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

# ADRAN A: ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan yn gorff statudol a sefydlwyd ar 1 Mehefin 2009 ac a ddaeth yn weithredol ar 1 Hydref 2009 o dan *Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/778), "y Gorchymyn Sefydlu".*

Mae *Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/779) ("Rheoliadau'r Cyfansoddiad")* yn nodi cyfansoddiad a threfniadau aelodaeth Byrddau Iechyd Lleol, gofynion penodi a chymhwysedd aelodau, cyfnod swydd aelodau nad ydynt yn swyddogion ac aelodau cyswllt. Yn unol â'r Rheoliadau hyn, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cynnwys:

- cadeirydd;
- is-gadeirydd;
- aelodau sy'n swyddogion; a
- aelodau nad ydynt yn swyddogion.

Mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu hadnabod gyda'i gilydd fel "y Bwrdd" neu "aelodau'r Bwrdd"; cyfeirir at yr aelodau sy'n swyddogion a'r aelodau nad ydynt yn swyddogion (sy'n cynnwys y Cadeirydd) fel Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol yn y drefn honno. Mae gan bob aelod hawliau pleidleisio llawn.

Yn ogystal, caiff Gweinidogion Cymru benodi hyd at dri aelod cyswllt. Nid oes gan aelodau cyswllt unrhyw hawliau pleidleisio.

Cyn y gellir penodi unigolyn yn aelod neu'n aelod cyswllt rhaid iddo fodloni'r gofynion cymhwyster perthnasol, a nodir yn *Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/779) ("Rheoliadau'r Cyfansoddiad")*, a pharhau i gyflawni'r gofynion perthnasol drwy gydol y cyfnod y mae'n dal swydd. Gellir gweld y Rheoliadau ar wefan deddfwriaeth y Llywodraeth:
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/779/contents/made

Mae rhagor o fanylion am aelodaeth a chyfansoddiad y Bwrdd yn ystod 2022/23 ar gael yn Adran C: Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## Buddiannau Aelodau'r Bwrdd

Mae manylion am gyfarwyddiaethau cwmnïau a buddiannau sylweddol eraill a ddelir gan aelodau'r Bwrdd a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau yn cael eu cynnal a'u diweddaru'n rheolaidd.

Mae'r ddogfen, sydd ar gael drwy ddilyn y ddolen isod, yn dangos manylion am gyfarwyddiaethau sefydliadau eraill neu fuddiannau eraill sydd wedi cael

eu datgan gan aelodau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a staff ar draws y sefydliad, yn unol â'r Polisi Safonau Ymddygiad Busnes, ar 31 Mawrth 2023. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd ac mae ar gael drwy ddilyn y ddolen hon.

## Digwyddiadau sy'n ymwneud â Data Personol

Mae gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol a adroddir yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a "digwyddiadau anffafriol difrifol" sy'n ymwneud â cholli data neu dorri cyfrinachedd wedi'u nodi ar dudalen 41 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn Adran C.

## Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r effaith bosibl y mae gweithrediad y Bwrdd Iechyd yn ei chael ar yr amgylchedd ac mae wedi ymrwymo i'r canlynol lle bynnag y bo modd:

- Sicrhau y cydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a Chyfarwyddebau Llywodraeth Cymru;
- Gweithio mewn ffordd sy'n diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy sicrhau bod materion amgylcheddol tymor hir a thymor byr yn cael eu hystyried; ac
- Atal llygredd a lleihau'r effaith amgylcheddol bosibl.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n ceisio gwella cydnerthedd a bioamrywiaeth ar draws ystâd y Bwrdd Iechyd.

Mae Adroddiad Blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2022/23 a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 (a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2022) yn nodi blaenoriaethau strategol y Bwrdd sydd wedi cael eu gosod yn y cyd-destun (materion amgylcheddol, cymdeithasol a chymunedol) y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ynddo.

Mae Adroddiad Perfformiad (Rhan A) Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2022/23 yn rhoi rhagor o fanylion am lwyddiannau'r Bwrdd Iechyd o ran cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn ystod 2022/23.

## Datganiad ar gyfer Deiliaid Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

Yn unol â'r gofynion datgelu a nodir gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM, mae'r Bwrdd Iechyd yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofynion dyrannu costau a chodi tâl a nodir yng nghanllawiau Trysorlys EM yn ystod blwyddyn 2022/23.

## Adran B(1): DATGANIAD Y PRIF WEITHREDWR FEL SWYDDOG ATEBOL BWRDD IECHYD PRIFYSGOL ANEURIN BEVAN

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo y dylai'r Prif Weithredwr fod yn Swyddog Atebol ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan. Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y maent yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol, wedi'u nodi ym Memorandwm y Swyddog Atebol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a nodir yn fy llythyr penodi fel Swyddog Atebol yn briodol.
Fel Swyddog Atebol, rwy'n cadarnhau, hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw Archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol ohoni, ac rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylid bod wedi'u cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a bod archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Fel Swyddog Atebol, rwy'n cadarnhau bod Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23 yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, cytbwys a dealladwy.

Fel Swyddog Atebol, rwyf yn gyfrifol am awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar y dyddiad y cânt eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a nodir yn fy llythyr penodi fel Swyddog Atebol yn briodol.

Nicola Prygodzicz

Enw: Nicola Prygodzicz, Prif Weithredwr **Dyddiad**: 19 Gorffennaf 2023

## Adran B(2): DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR MEWN PERTHYNAS Â'R CYFRIFON AR GYFER 2022/23

O dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cyfarwyddo bod y cyfrifon hyn yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac o incwm a gwariant y Bwrdd Iechyd am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- cymhwyso ar sail gyson egwyddorion cyfrifyddu a bennir gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ddarbodus
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrif.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr awdurdod yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg ac i'w galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd uchod gan Weinidogion Cymru.

**Drwy Orchymyn y Bwrdd**

**Llofnodwyd:**

Ann Lloyd
Ann Lloyd, Cadeirydd
Dyddiedig: 19 Gorffennaf 2023

Nicola Prygodzicz
Nicola Prygodzicz, Prif Weithredwr
Dyddiedig: 19 Gorffennaf 2023

Robert Holcombe
Robert Holcombe, Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael
Dyddiedig: 19 Gorffennaf 2023

# ADRAN C: DATGANIADAU LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL, 2022/23

## CWMPAS Y CYFRIFOLDEB

Mae'r Bwrdd yn atebol am Lywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol. Fel Prif Weithredwr y Bwrdd, rwy'n gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol yn ogystal â system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad, gan ddiogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt. Mae'r rhain yn cael eu cyflawni yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo gan Swyddog Atebol GIG Cymru.


Mae'r adroddiad blynyddol yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd y mae'r sefydliad wedi gorfod gweithio'n fewnol a chyda phartneriaid mewn ymateb i'r pwysau digyffelyb wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'n egluro'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod safonau llywodraethu'n cael eu cynnal, bod risgiau'n cael eu nodi a'u lliniaru a bod sicrwydd wedi cael ei geisio a'i ddarparu. Lle bo angen, darperir gwybodaeth ychwanegol yn y Datganiad Llywodraethu, ond y bwriad yw lleihau dyblygu lle bo hynny'n bosibl. Felly, mae angen adolygu adrannau eraill yn yr Adroddiad Blynyddol ochr yn ochr â'r Datganiad Llywodraethu hwn.

Mae Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru yn nodi'r trefniadau ar y cyd sydd ar waith rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff adolygu allanol ar gyfer nodi ac ymateb i faterion difrifol sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau'r GIG, ansawdd a diogelwch gofal, ac effeithiolrwydd sefydliadol. Yn 2022/23, roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn parhau o dan drefniadau arferol.

## EIN FFRAMWAITH LLYWODRAETHU A SICRWYDD

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cytuno ar Reolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes y sefydliad. Bwriedir i'r rhain drosi'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau BILl (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn ymarfer gweithredu o ddydd i ddydd, ac ynghyd â mabwysiadu cynllun o faterion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd, cynllun dirprwyo i swyddogion ac eraill a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maent yn darparu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer cynnal busnes y Bwrdd Iechyd ac yn diffinio ei 'ffyrdd o weithio'. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac amrywiaeth o bolisïau corfforaethol a bennir gan y Bwrdd Iechyd, yn ffurfio'r Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd a threfniadau'r sefydliad.

Mae'r diagram dros y dudalen yn amlinellu'r fframwaith llywodraethu a sicrwydd sydd ar waith yn ystod 2022/23:




## Aelodaeth y Bwrdd Iechyd a'i Bwyllgorau

Mae **Atodiad 1** yn darparu aelodaeth y Bwrdd yn ystod 2022/23 a phresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor yn y drefn honno ar gyfer y cyfnod hwn.

Bu newid sylweddol i aelodaeth y Bwrdd yn ystod 2022/23, fel yr amlinellir yn Nhabl 1 isod:

| TABL 1 | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Dynodiad** | **Dyddiadau (os yw'n llai na blwyddyn lawn)** |
| **Cyfarwyddwyr Gweithredol** | | |
| Nicola Prygodzicz | Prif Weithredwr | O 05/09/2022 |
| Nicola Prygodzicz | Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad, Digidol a TG/ Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro | Tan 04/09/2022 |
| Glyn Jones | Prif Weithredwr Dros Dro | Tan 04/09/2023 |
| Glyn Jones | Dirprwy Brif Weithredwr | 05/09/2022 i 23/09/2022 |
| Christopher Dawson-Morris | Cyfarwyddwr Dros Dro Cynllunio a Pherfformiad | Rhwng 05/09/2022 a 03/04/2023 |
| Hannah Evans | Cyfarwyddwr Strategaeth, Cynllunio a Phartneriaethau | O 01/04/2023 |
| Rob Holcombe | Cyfarwyddwr Dros Dro Cyllid, Caffael a Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth | Tan 13/11/2022 |
| Rob Holcombe | Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael | O 14/11/2022 |

| | | |
|---|---|---|
| Dr James Calvert | Y Cyfarwyddwr Meddygol | Tan 23/09/2022 |
| Dr James Calvert | Cyfarwyddwr Meddygol / Dirprwy Brif Weithredwr | O 24/09/2022 |
| Sarah Simmonds | Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol | Blwyddyn Lawn |
| Rhiannon Jones | Cyfarwyddwr Nyrsio | Tan 05/07/2022 |
| Jennifer Winslade | Cyfarwyddwr Nyrsio | O 08/08/2022 |
| Linda Alexander[3] | Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro | 25/06/22 i 14/08/2022 |
| Peter Carr | Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd | Blwyddyn Lawn |
| Dr Sarah Aitken[1] | Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau Strategol | Tan 05/01/2023 |
| Tracy Daszkiewicz[1] | Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd | O 01/04/2023 |
| Dr Chris O'Connor | Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl | Blwyddyn Lawn |
| **Aelodau Annibynnol** | | |
| Ann Lloyd | Cadeirydd | Blwyddyn Lawn |
| Pippa Britton | Is-gadeirydd Dros Dro | Blwyddyn Lawn |
| Katija Dew[2] | Aelod Annibynnol (Trydydd Sector) | Blwyddyn Lawn |
| Shelley Bosson | Aelod Annibynnol (Cymunedol) | Blwyddyn Lawn |
| Louise Wright | Aelod Annibynnol (Undeb Llafur) | Blwyddyn Lawn |
| Richard G Clarke | Aelod Annibynnol (Awdurdod Lleol) | Blwyddyn Lawn |
| Yr Athro Helen Sweetland | Aelod Annibynnol (Prifysgol) | Blwyddyn Lawn |
| Paul Deneen | Aelod Annibynnol (Cymunedol) | Blwyddyn Lawn |
| Iwan Jones | Aelod Annibynnol (Cyllid) | O 04/04/2022 |
| Dafydd Vaughan | Aelod Annibynnol (Digidol) | O 09/05/2022 |
| Gwag (Swydd mamolaeth Pippa Britton) | Aelod Annibynnol (Cymunedol) | Blwyddyn Lawn |
| **Cyfarwyddwyr sy'n Mynychu**** | | |
| Leanne Watkins | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | Blwyddyn Lawn |
| **Ymgynghorwyr Arbennig i'r Bwrdd***** | | |
| Phil Robson | Ymgynghorydd Arbennig i'r Bwrdd | Blwyddyn Lawn |
| **Aelodau Cyswllt****** | | |
| Keith Sutcliffe | Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid | Tan 30/11/2022 ac yn wag wedi hynny |
| Yn wag | Cadeirydd, Fforwm Gweithwyr Iechyd Proffesiynol | Blwyddyn Lawn |
| Yn wag | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | Blwyddyn Lawn |
| **Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol******* | | |

| | | |
|---|---|---|
| Rani Dash (nee Mallison) | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol | Blwyddyn Lawn |

** Ym mis Hydref 2021, dechreuodd Emrys Elias, Is-gadeirydd, rôl dros dro fel Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ym mis Hydref 2021. Er bod trefniadau dros dro wedi cael eu rhoi ar waith, mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori'r Bwrdd Iechyd i beidio â phenodi rhywun parhaol i gymryd ei le am 18 mis. Felly, mae Pippa Britton wedi cael ei phenodi'n Is-gadeirydd Dros Dro, gan adael ei swydd barhaol fel Aelod Annibynnol (Cymunedol) yn wag dros dro. Mae'r broses benodi ar gyfer Is-gadeirydd wedi'i chynnal erbyn hyn a disgwylir penodiad gan y Gweinidog.*

***Nid yw'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn Swydd Weithredol. Felly, nid yw'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn Aelod o'r Bwrdd ac mae'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd heb hawliau pleidleisio.*

****Mae gan y Bwrdd ddisgresiwn i benodi Ymgynghorwyr Arbennig i'w gefnogi i gyflawni ei gyfrifoldebau. Nid yw Ymgynghorwyr Arbennig yn Aelodau o'r Bwrdd ac felly maent yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd heb hawliau pleidleisio.*

*****Mae Aelodau Cysylltiol yn Aelodau o'r Bwrdd ond nid oes ganddynt hawliau pleidleisio.*

*****Yn annibynnol ar y Bwrdd, mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yn gweithredu fel gwarcheidwad llywodraethu da yn y BILl. *Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yn gyfrifol am roi cyngor i'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd ac i aelodau unigol y Bwrdd ar bob agwedd ar lywodraethu.*
*Ar 14 Mawrth 2022, cymeradwyodd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth newid teitl gweithredu ar gyfer rôl Ysgrifennydd y Bwrdd i Gyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol.*

*[1] Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd - Yn ystod cyfnod y swydd wag o 05/01/23 i 01/04/2023, rhoddodd Stuart Bourne ac Eryl Powell, Dirprwy Gyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, gyngor i'r Bwrdd a mynychu cyfarfodydd yn eu rolau fel dirprwyon.*

*[2] Katija Dew – Daeth cyfnod y swydd i ben ar 31/3/2023*

*[3] Linda Alexander – Mae Linda Alexander yn ysgwyddo cyfrifoldebau dros dro fel cyfarwyddwr gweithredol o 25/06/22 oherwydd bod Rhiannon Jones wedi cymryd gwyliau blynyddol rhwng 25/06/22 a 05/07/22. Roedd gan Linda Alexander gyfrifoldebau cyfarwyddwr gweithredol dros dro tan 07/08/22 pan ddechreuodd Jennifer Winslade yn ei swydd fel Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio ar 08/08/22. Defnyddiwyd y cyfnod rhwng 08/08/22 a 15/08/22 fel cyfnod trosglwyddo.*

Ar 31 Mawrth 2023, yn dilyn ymgyrchoedd Penodiad Cyhoeddus Gweinidogol, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthi'n ystyried penodi Is-gadeirydd ac Aelod Annibynnol (y Trydydd Sector).

Oherwydd nifer y swyddi dros dro yn y Bwrdd yn ystod 2022/23, gweithiodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol, gyda'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth, i sefydlogi newidiadau yn y Tîm Gweithredol a sicrhau proses gynefino, datblygu a chynllunio olyniaeth gadarn ar gyfer Aelodau'r Bwrdd. Roedd hyn yn cynnwys recriwtio parhaol i rolau'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael a'r Cyfarwyddwr Nyrsio yn ystod 2022/23. Ar ben hynny, dechreuodd y Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a'r Cyfarwyddwr Strategaeth, Cynllunio a Phartneriaethau yn eu rôl ar 1 Ebrill 2023.

## Rôl y Bwrdd

Sefydlwyd y Bwrdd, dan gadeiryddiaeth Ann Lloyd CBE, i gydymffurfio â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009. Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff gwneud penderfyniadau corfforaethol, gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol yn aelodau llawn a chyfartal ac yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol dros holl benderfyniadau'r Bwrdd.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys unigolion o amrywiaeth o gefndiroedd, disgyblaethau a meysydd arbenigedd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a naw Aelod Annibynnol arall, y Prif Weithredwr ac wyth Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae yna hefyd swyddi Aelodau Annibynnol Cyswllt, Ymgynghorwyr Arbennig ac uwch reolwyr eraill sy'n mynychu Cyfarfodydd Bwrdd fel mater o drefn. Amlinellir aelodaeth lawn y Bwrdd a'u rolau arweiniol a'u cyfrifoldebau pwyllgor yn **Atodiad 1**.

Mae'r Bwrdd ar frig systemau llywodraethu a sicrwydd y sefydliad. Ei brif rôl yw defnyddio arweinyddiaeth effeithiol, darparu cyfeiriad a rheolaeth strategol. Mae'r Bwrdd yn atebol am lywodraethu a rheolaeth fewnol yn y sefydliad ac mae'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol yn gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol.

I grynhoi, mae'r Bwrdd yn:

- Gosod cyfeiriad strategol y sefydliad o fewn polisïau a blaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru;
- Sefydlu a chynnal safonau uchel o lywodraethu corfforaethol;
- Sicrhau bod nodau ac amcanion y sefydliad yn cael eu cyflawni drwy herio a chraffu'n effeithiol ar berfformiad ar draws pob maes cyfrifoldeb;
- Monitro cynnydd yn erbyn cyflawni amcanion strategol a blynyddol; a
- Sicrhau stiwardiaeth ariannol effeithiol drwy weinyddu effeithiol a defnyddio adnoddau'n ddarbodus.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gytuno ar Reolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes sydd wedi'u cynllunio i drosi'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau BILl (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn arferion gweithredu o ddydd i ddydd, ac, ynghyd â mabwysiadu cynllun o faterion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd; cynllun dirprwyo i swyddogion ac eraill; a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maent yn darparu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer cynnal busnes y Bwrdd Iechyd ac yn diffinio ei 'ffyrdd o weithio'. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â'r ystod o bolisïau corfforaethol a bennir gan y Bwrdd, yn ffurfio'r Fframwaith Llywodraethu.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae Adran 3 Rheolau Sefydlog Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn darparu "*y gall ac, os yw Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo hynny, rhaid i'r Bwrdd benodi Pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd naill ai i ymgymryd â swyddogaethau penodol ar ran y Bwrdd neu i ddarparu cyngor a sicrwydd wrth arfer ei swyddogaethau*". Yn unol â'r gofynion hyn, roedd gan y Bwrdd Iechyd Strwythur Pwyllgorau ar gyfer 2022/23.

I gydnabod blaenoriaethau strategol y Bwrdd ar gyfer 2022/23 a'r risgiau strategol sydd ganddo, cafodd strwythur pwyllgor diwygiedig ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2022 a'i roi ar waith o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Ni fu unrhyw newidiadau i'r strwythur hwn yn 2022/23. Mae strwythur y pwyllgor wedi galluogi cydbwysedd priodol rhwng strategaeth, darpariaeth a pherfformiad, a diwylliant ac mae'n ystyried adborth gan Aelodau'r Bwrdd ac Archwilio Cymru mewn perthynas ag effeithiolrwydd.

Yn ystod 2022/23, roedd y Pwyllgorau canlynol ar waith:

- Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd
- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion
- Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
- Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad
- Pwyllgor Partneriaethau, Iechyd y Boblogaeth a Chynllunio
- Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth
- Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Grŵp Ymgyfreitha

Mae'r Cylch Gorchwyl a'r Trefniadau Gweithredu, agendâu cyfarfodydd a phapurau ar gyfer pob un o'r Pwyllgorau hyn ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Pwyllgorau hyn yn cael eu cadeirio gan Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd. Mae Cadeirydd pob Pwyllgor yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd ar weithgareddau'r pwyllgor. Mae hyn yn cyfrannu at asesiad y bwrdd o risg, lefel y sicrwydd a'r craffu yn erbyn cyflawni amcanion. Yn ogystal, ac yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol i bob pwyllgor gynhyrchu adroddiad blynyddol.

Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd a chyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor, sefydlwyd y trefniadau anffurfiol canlynol i gefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau:

- Sesiynau Datblygu'r Bwrdd, a gynhelir bob deufis (6 gwaith y flwyddyn), i ganolbwyntio ar ddatblygiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd fel Bwrdd cydlynol ac unedol;
- Sesiynau Briffio'r Bwrdd, a gynhelir bob deufis (6 gwaith y flwyddyn), i ganolbwyntio ar faterion allweddol lle mae angen trafodaeth anffurfiol ac i godi ymwybyddiaeth o faterion fel newidiadau mewn polisi neu ddeddfwriaeth; a

- Sesiynau Cynllunio Strategol y Bwrdd, a gynhelir bob chwarter, i ganiatáu amser datblygu anffurfiol i’r Bwrdd drafod datblygiadau strategol ar y cyd a chynllunio’r gorwel.

## Cynnal Busnes mewn modd Agored a Thryloyw

Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, mae’n ofynnol i’r Bwrdd a’r Pwyllgorau gyfarfod yn gyhoeddus. Yn dilyn pandemig COVID-19 lle roedd y risg i iechyd y cyhoedd wedi arwain at gyfyngiadau ar gynulliadau cyhoeddus, symudodd y Bwrdd a’i Bwyllgorau i gyfarfod ar-lein gan olygu nad oedd yn bosibl caniatáu i’r cyhoedd fynychu cyfarfodydd y Bwrdd a’r Pwyllgorau.

Ailddechreuodd aelodau’r Bwrdd gyfarfodydd wyneb yn wyneb i gynnal cyfarfodydd y Bwrdd ym mis Mai 2022. Ar y pryd, nid oedd gan y Bwrdd Iechyd y capasiti i alluogi arsylwyr i fod yn bresennol, a oedd yn golygu nad oedd aelodau o’r cyhoedd yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb.  Penderfynodd y Bwrdd hynny ar y pryd er lles y cyhoedd, ein staff ac aelodau’r Bwrdd.

Ers mis Tachwedd 2022, mae’r ddolen Microsoft Teams wedi cael ei chyhoeddi gyda’r agenda ac ar sianeli cyfryngau cymdeithasol er mwyn galluogi aelodau o’r cyhoedd i arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd mewn amser real.  Mae aelodau o’r cyhoedd wedi gallu bod yn bresennol ers mis Ionawr 2023. Cafodd holl gyfarfodydd y Bwrdd yn 2022/23 eu cofnodi a’u cyhoeddi ar Sianel You Tube y Bwrdd Iechyd o fewn 24 awr, i’w gwylio gan y cyhoedd.

Yn ystod 2022/23, mae pwyllgorau’r Bwrdd wedi parhau i gwrdd yn rhithiol ac, oherwydd cyfyngiadau capasiti, nid yw’r Bwrdd Iechyd wedi gallu ffrydio’r rhain mewn amser real i’r cyhoedd eu gwylio. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i’r afael â hyn yn 2023/24 i sicrhau bod busnes y Bwrdd Iechyd yn gweithredu’n dryloyw ac yn agored.

Gan nad yw’r Bwrdd Iechyd wedi gallu caniatáu i’r cyhoedd fynychu holl gyfarfodydd ei bwyllgorau yn ystod 2022/23, nid yw’r Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â’i Reolau Sefydlog yn hyn o beth.

Cydnabyddir y bydd angen dull hybrid o gynnal cyfarfodydd yn y dyfodol a bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio i sicrhau bod aelodau o’r cyhoedd yn gallu mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb a/neu’n rhithiol.

Er mwyn sicrhau bod busnes y Bwrdd a’r Pwyllgor yn cael ei gynnal mewn ffordd mor agored a thryloyw â phosibl, cymerwyd y camau canlynol:

- Mae holl becynnau agenda cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau wedi cael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd cyn y cyfarfodydd;
- Mae cyfarfodydd y Bwrdd wedi cael eu cofnodi a’u cyhoeddi ar Sianel You Tube y Bwrdd Iechyd o fewn 24 awr;
- Cafodd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Bwrdd Iechyd ym mis Gorffennaf 2022 ei ffrydio’n fyw;

Mae'r Bwrdd Iechyd a'i Bwyllgorau wedi ceisio cynnal cyn lleied â phosibl o'i fusnes mewn sesiynau preifat a sicrhau bod busnes, lle bynnag y bo modd, yn cael ei gyhoeddi. Mae'r Pwyllgorau nad ydynt yn cyhoeddi gwybodaeth yn gyhoeddus yn peidio â gwneud hynny naill ai oherwydd natur gyfrinachol eu busnes, fel y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth (RATS), neu maen nhw'n gyfarfodydd datblygu anffurfiol fel Sesiynau Cynllunio Strategol y Bwrdd sy'n trafod cynlluniau a syniadau yn aml yn eu camau ffurfiannol.

Mae cyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael eu cofnodi'n ffurfiol ac mae'r cofnodion yn cael eu hystyried i'w cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael, yn y drefn honno. Yn ogystal, mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yn cadw Logiau Penderfyniadau ar gyfer yr holl benderfyniadau a wneir gan y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol.

## Eitemau a ystyriwyd gan y Bwrdd yn 2022-23

Yn ystod 2022-23, cynhaliodd y Bwrdd 7 cyfarfod:

- 6 cyfarfod deufisol sy'n cael eu trefnu'n rheolaidd
- 1 cyfarfod ychwanegol ym mis Mehefin 2022 i gymeradwyo'n ffurfiol yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2021/22, ar ôl ystyriaeth fanwl gan Bwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd.

Ar ben hynny, cynhaliodd y Bwrdd ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 27 Gorffennaf 2022.

Roedd gan holl gyfarfodydd y Bwrdd yn 2022/23 gyfansoddiad priodol a chworwm. Mae'r materion busnes a risg allweddol a ystyriwyd gan y Bwrdd yn ystod 2022/23 wedi'u hamlinellu isod.

Gellir cael rhagor o wybodaeth o bapurau cyfarfodydd y Bwrdd a gyhoeddwyd ar wefan y Bwrdd Iechyd drwy ddilyn y ddolen ganlynol.

### a) Achosion Busnes:

- Cymeradwywyd cyflwyno **Achos Busnes yr Uned Radiotherapi Lloeren** i Lywodraeth Cymru.
- CYMERADWYWYD cyflwyno **Achos Busnes Amlinellol Uned Gwasanaethau Cleifion Mewnol Arbenigol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Oedolion (SISU)** i Lywodraeth Cymru.
- Cefnogwyd, mewn egwyddor, yr achos dros newid ar gyfer **Canolfan Ganser Felindre.** Fodd bynnag, gofynnwyd i Ymddiriedolaeth GIG Felindre ailystyried yr achosion ariannol ac economaidd i'r Bwrdd eu hystyried ymhellach.

### b) Cynlluniau/Strategaethau/Polisïau/Newid Gwasanaeth

- Cymeradwywyd **Cynllun Pobl** y Bwrdd Iechyd a'r dogfennau cysylltiedig.

- Cymeradwywyd argymhelliad i sefydlu **Gwasanaeth i Oedolion ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD)** ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gan nodi y byddai hyn yn cael ei werthuso ar adeg briodol.
- Cymeradwywyd **Chwe Nod ar gyfer Cynllun y Rhaglen Gofal Brys ac Argyfwng.**
- Cymeradwywyd **Strategaeth Celfyddydau mewn Iechyd** Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 2022-2027.
- Cymeradwywyd gweithredu **Llwybr MSK Therapi Cymunedol**, gan gydnabod bod angen trafodaethau parhaus i gefnogi'r broses o'i roi ar waith.
- Derbyniwyd **gwerthusiad Cynllun y Gaeaf 2021/22**.
- Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r **Strategaeth Ddigidol**, camau gweithredu parhaus i liniaru risgiau a sicrhau cynnydd.
- Cymeradwywyd yr ymgysylltu arfaethedig a dargedwyd mewn perthynas â ffurfweddiad **Gwasanaeth Mewnblaniad yn y Cochlea a Mewnblaniad Dyfais Clywed Dargludiad Asgwrn De Cymru** i'r dyfodol.
- Adolygwyd trefniadau presennol ar gyfer **Gwasanaethau dan Arweiniad Bydwragedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan** a chefnogi cynnig i ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch gwneud newid gwasanaeth dros dro yn barhaol, gydag ymgynghoriad pellach â staff.
- Cymeradwywyd **Strategaeth Ymchwil a Datblygu'r** Bwrdd Iechyd.
- Cytunwyd i ddatblygu a gweithredu **cynllun gweithredu Gwrth-hiliaeth** ar gyfer y Bwrdd Iechyd.
- Cymeradwywyd **Rhaglen Gyfalaf** Agoriadol Ddrafft ar gyfer 2023/24.
- Cymeradwywyd **Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26**.
- Cymeradwywyd y **Strategaeth Ansawdd**.
- Cymeradwywyd y **Strategaeth Profiad a Chyfranogiad Cleifion.**
- Cymeradwywyd **Strategaeth Offthalmoleg Ranbarthol De Ddwyrain Cymru.**
- Cymeradwywyd **Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent.**

## c) Llywodraethu a Sicrwydd

- Derbyniwyd adroddiad **Adolygiad Blynyddol y Bwrdd o Effeithiolrwydd 2021/22.**
- Derbyniwyd sicrwydd mewn perthynas â threfniadau ar gyfer cydymffurfio â **Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru).**
- Cymeradwywyd **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22.**
- Cymeradwywyd **Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol y Cronfeydd Elusennol 2021-22**
- Derbyniwyd yr **Adroddiadau Blynyddol** canlynol:
    - Fforwm Partneriaeth Undebau Llafur
    - Gwasanaethau Canser
    - Safonau'r Iaith Gymraeg
    - Adroddiad Cydraddoldeb
    - Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd

- Derbyniwyd **Adroddiad Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru ac Asesiad Strwythuredig.**
- Cymeradwywyd **trefniadau llywodraethu'r rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam a chymeradwywyd y dull arfaethedig o lywodraethu Rhwydweithiau Gofal yn y Gymdogaeth**.

## d) Busnes Arferol

- Cadarnhawyd camau a gymerwyd gan y Cadeirydd, ar ran y Bwrdd, i selio dogfennau â Sêl Gyffredin y Bwrdd Iechyd.
- Wedi ystyried a thrafod perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd a'r risgiau cysylltiedig sy'n cael eu rheoli gan y sefydliad.
- Wedi ystyried perfformiad y Bwrdd yn erbyn targedau lleol a chenedlaethol allweddol a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella perfformiad.
- Derbyniwyd adroddiadau sicrwydd gan Bwyllgorau a Grwpiau Cynghori'r Bwrdd.
- Derbyniwyd adroddiadau diweddaru gan y Tîm Gweithredol mewn perthynas â materion allweddol yn lleol, yn rhanbarthol ac o fewn GIG Cymru.
- Adolygwyd y Gofrestr Risg Gorfforaethol a cheisio sicrwydd ynghylch rheoli camau lliniaru.

## e) Profiad Cleifion ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Ym mis Mawrth 2023, cymeradwyodd y Bwrdd ei Strategaeth Profiad a Chynnwys Cleifion. Nodau ac amcanion y Strategaeth yw gwella gwasanaethau a'u heffeithiolrwydd a'u diogelwch a gwella profiadau pobl. Mae'n cynnwys bwriad y Bwrdd Iechyd i ymgysylltu â chleifion, teuluoedd, gofalwyr, staff a'r gymuned ehangach, gydag ymrwymiad i wrando ar adborth, dysgu ac felly gwella gofal iechyd ar draws ein holl wasanaethau.

Prif egwyddorion y Bwrdd Iechyd, fel y nodir yn y Strategaeth, yw:

- Gweithio mewn partneriaeth â chleifion, teuluoedd, gofalwyr, staff a chymunedau, a gwrando ar eu safbwyntiau.
- Gwella ein hymdrechion i gael adborth amser real.
- Defnyddio adborth pobl yn rhagweithiol i nodi cyfleoedd i wella ansawdd.
- Cywiro pethau a allai fod wedi mynd o chwith, gan helpu pobl i rannu eu profiadau ac adfer eu hyder.
- Drwy wrando a dysgu, datblygu arferion gorau a chefnogi staff i ddarparu gofal rhagorol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i ymrwymo i wrando a dysgu o brofiad staff a chleifion. Yn ystod 2022/23, derbyniodd y Bwrdd straeon cleifion/staff mewn perthynas â'r canlynol:

- **COVID Hir – Adferiad –** profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth ac effaith COVID hir ar iechyd a lles yr unigolyn

- **Ward Rithiol** - sgwrs strwythuredig, wyneb yn wyneb neu ar-lein rhwng amrywiaeth o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol ac aml-sector, lle mae pobl/cleifion sydd ag amrywiaeth o faterion cymhleth a rhyng-gysylltiedig yn cael eu trafod a lle mae cynllunio gofal yn digwydd.
- **'Stori Bob – Beth sy'n Bwysig i Mi'** – yn tynnu sylw at bwysigrwydd urddas a pharch i gleifion.

Drwy gydol 2022/23, aeth **Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan** i gyfarfodydd y Bwrdd i roi trosolwg o faterion diweddar sy'n peri pryder ac mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn mynd i'r afael ag arsylwadau cadarnhaol neu adborth gan y cyhoedd mewn perthynas â chynllunio a darparu gwasanaethau iechyd yng Ngwent. Yn ogystal, cynhaliodd y Bwrdd gyfarfodydd ar y cyd â thîm rheoli'r Cyngor Iechyd Cymuned a'r Cyngor llawn.

## Eitemau a ystyriwyd gan Bwyllgorau'r Bwrdd

Yn ystod 2022/23, bu Pwyllgorau'r Bwrdd yn ystyried ac yn craffu ar amrywiaeth o adroddiadau a materion, yn unol â'r materion a ddirprwywyd iddynt gan y Bwrdd.  Roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth o adroddiadau archwilio mewnol ac allanol ac adroddiadau gan gyrff adolygu a rheoleiddio eraill, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Fel y digwyddodd mewn blynyddoedd blaenorol, mae ystyriaeth a dadansoddiad y Pwyllgorau o wybodaeth o'r fath wedi chwarae rhan allweddol yn yr asesiad o effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, trefniadau rheoli risg a mecanweithiau sicrwydd. Bu'r Pwyllgorau hefyd yn ystyried ac yn cynghori ar feysydd datblygiadau strategol lleol a chenedlaethol a meysydd polisi newydd.

Mae trosolwg o'r prif feysydd a ystyriwyd gan Bwyllgorau'r Bwrdd i'w weld isod:

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor Archwilio, Cyllid a Risg** | Ymhlith y materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2022-23, fel yr amlinellwyd yn Rhaglen Waith y Pwyllgor, ystyriwyd y canlynol hefyd:<br><br>• Diweddariad ar Brosiect Trawsnewid Cleifion Allanol y Bwrdd Iechyd<br>• Diweddariad ar y Fframwaith Effeithlonrwydd Ystadau<br>• Diweddariad ar Ddilysu Asedau<br>• Adroddiad ar Draciwr Cylchlythyr Iechyd Cymru (WHC)<br>• Adroddiad ar Weithredu'r Blaenoriaethau Llywodraethu a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25<br>• Adroddiad Tracio Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (ar gyfer yr argymhellion hynny sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd)<br>• Adolygiad Archwilio Cymru o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd |

| | |
|---|---|
| | • Archwilio Cymru – Adroddiad ar y Strategaeth Pum Mlynedd 'Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli'<br>• Archwilio Cymru - Adroddiad System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru<br>• Archwilio Cymru – Mynd i'r Afael ag ôl-groniad Gofal wedi'i Gynllunio yn Adroddiad GIG Cymru<br>• Archwilio Cymru - Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030: Adroddiad Tystiolaeth<br>• Archwilio Cymru - Ymateb parhaus i COVID-19 ochr yn ochr ag Adroddiad ar y galw cynyddol gan gleifion<br>• Archwilio Cymru – Ymgynghoriad ar Raddfa Ffioedd 2023 -2024<br>• Archwilio Cymru - £6.5 miliwn o dwyll a gordaliadau a nodwyd gan y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru<br>• Archwilio Cymru - Gwneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn fwy na dim ond adroddiad ymarfer ticio blychau<br>• Adroddiad Adolygiad Archwilio Cymru o Drefniadau Arbedion Effeithlonrwydd<br>• Archwilio Cymru – Adroddiad Archwilio'r Cyfrifon 2021/22<br><br>Adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y strategaethau a'r cynlluniau archwilio gan Archwilio Cymru a'r Archwilwyr Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd NWSSP a derbyniodd adroddiadau archwilio a gynhyrchwyd i'w ategu yn ystod 2022-23.<br><br>Wrth gymeradwyo'r strategaethau a'r cynlluniau, sicrhaodd y Pwyllgor eu bod yn gadarn ac yn gysylltiedig â phroffil risg y bwrdd iechyd.<br><br>Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau Archwilio Mewnol yn unol â'r rhaglen y cytunwyd arni ar gyfer 2021-22 a 2022-23, gan gynnwys ymateb rheolwyr gan y Cyfarwyddwr Gweithredol perthnasol.<br><br>Cynhaliwyd cyfanswm o 32 o adolygiadau archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys chwech a gariwyd drosodd o 2021/22. Mae rhagor o fanylion am waith archwilio mewnol ac allanol yn 2022/23 ar gael yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, o dan yr adran ar Reolaeth Fewnol. |
| **Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion** | Ymhlith y materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2022-23, fel yr amlinellwyd yn Rhaglen Waith y Pwyllgor, ystyriwyd y canlynol hefyd:<br>• Trosolwg o'r **Safonau Dementia** newydd a lansio Siarter Dementia Ysbytai Cymru Gyfan ar 6 Ebrill 2022<br>• Trosolwg o gydymffurfiaeth a pherfformiad yn erbyn **Trefniadau Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Archwilio Clinigol Lleol**<br>• Cydymffurfio â **Safonau Glanhau**, gan gynnwys Data Meincnodi, a Chamau ar y gweill i fynd i'r afael â materion a risgiau cysylltiedig<br>• Diweddariad ar gynnydd yn dilyn y cyflwyniad cychwynnol ym mis Medi 2021 o'r adolygiad o'r **Trefniadau Mynediad mewn** |

| | |
|---|---|
| | **Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS)** a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2021<br>• Diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud mewn theatrau a gofal wedi'i amserlennu, sy'n ymwneud â **diogelwch theatrau**, yn dilyn pryderon ynghylch cynnydd mewn 'Digwyddiadau Byth Bythoedd' mewn cyfarwyddiaethau llawfeddygol a theatrau.<br>• Trosolwg o **fframwaith ymchwilio Covid-19**<br>• **Adroddiad Dysgu o Farwolaeth** a'r gofyniad statudol i bob marwolaeth yng Nghymru, mewn gofal sylfaenol ac eilaidd, fod yn destun craffu gan yr Arholwr Meddygol.<br>• Agwedd y Bwrdd Iechyd at ddysgu sefydliadol parhaus mewn perthynas ag **Ymgyrch Jasmine**.<br>• Trosolwg o Ofal Uwch: cysylltu darpariaeth, cost a chanlyniadau<br>• Cynllun a chynnydd y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i '**Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng**' Llywodraeth Cymru a sut mae'r cynlluniau hyn bellach wedi'u halinio â Chynllun Rhaglen 'Chwe Nod' y Bwrdd Iechyd.<br>• Sicrwydd mewn perthynas â gwaith a wnaed i fynd i'r afael â'r gwelliannau gofynnol a amlinellir yn yr **Archwiliad Clinigol Cenedlaethol o Seicosis** mewn perthynas â'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar (EIS) (2020/2021).<br>• **Perfformiad canser** gan gynnwys camau gwella a nodwyd i fynd i'r afael â'r heriau presennol.<br>• Adroddiad yn amlinellu cynllun gweithredu'r Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r **adolygiad cenedlaethol o Thrombo-emboledd Gwythiennol**.<br>• **Adroddiad Diogelu Blynyddol**, gan gynnwys cynnydd, perfformiad, risg a dysgu ynghyd â throsolwg o themâu a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg.<br>• **Adroddiad Blynyddol Atal a Rheoli Heintiau**, sy'n amlinellu'r gwaith atal heintiau a wnaed yn 2021/22, trefniadau rheoli a chynnydd yn erbyn targedau perfformiad.<br>• Diweddariad ar yr adolygiad o ofal ar gyfer unigolion ag **Anableddau Dysgu**<br>• Trosolwg o drefniadau cytundebol y Bwrdd Iechyd ar gyfer **trosglwyddiadau rhwng safleoedd WAST.**<br>• Sefyllfa bresennol y Bwrdd Iechyd a'i drefniadau llywodraethu mewn perthynas â **Chydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch.**<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau allanol amrywiol hefyd, gan gynnwys:<br>• Adroddiadau rheolaidd yn amlinellu cynnydd y cyflawni yn erbyn argymhellion a chamau gweithredu sy'n weddill o **arolygiadau AGIC** a gynhaliwyd ar draws y Bwrdd Iechyd.<br>• **Adolygiad Archwilio Mewnol, Sicrhau Ansawdd Ysbyty Athrofaol y Faenor**<br>• **Adolygiad Archwilio Mewnol, Rheoli Codymau**<br>• **Adolygiad Archwilio Cymru o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**, a ddaeth i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi mynegi trefniadau |

| | |
|---|---|
| | corfforaethol clir ar gyfer llywodraethu ansawdd a meysydd ansawdd a diogelwch allweddol; fodd bynnag, roedd angen gwella ymhellach ar lefel Is-Adrannol a Chyfarwyddiaeth.<br>• **Ymweliad Dirybudd AGIC ag Ysbyty Athrofaol y Faenor**, wedi'i sbarduno gan bwysau parhaus yn y system gofal brys. Yn gyffredinol, nid oedd AGIC wedi cael sicrwydd bod yr holl systemau a phrosesau sydd ar waith yn ddigonol i sicrhau bod pob claf yn cael safonau derbyniol o ofal diogel ac effeithiol yn gyson, er bod gwaith caled staff yn cael ei gydnabod. Parhaodd y Pwyllgor i ganolbwyntio ar gynnydd mewn perthynas â'r materion a nodwyd.<br>• Trafod prif bwyntiau **Adolygiad Ockenden** a nodi'r camau sy'n cael eu cymryd yng Nghymru i adolygu'r adroddiad ac echdynnu'r gwersi.<br>• **Hunanasesiad Gwasanaethau Carchardai EF**, yn seiliedig ar argymhellion a gymerwyd o adolygiad AGIC o'r Trefniadau Llywodraethu Ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd i Garchar Ei Fawrhydi Abertawe.<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor y **Strategaeth Archwilio Clinigol** hefyd – i gefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglen archwilio ystyrlon sydd wedi'i dylunio i ddarparu sicrwydd a llywio'r gwaith o wella ansawdd ar draws y Bwrdd Iechyd. |
| **Pwyllgor Cronfeydd Elusennol** | • Wedi craffu ar geisiadau am gronfeydd elusennol<br>• Wedi adolygu incwm a gwariant cronfeydd elusennol<br>• Wedi ystyried a chymeradwyo Cyfrifon Cronfeydd Elusennol ac Adroddiad Blynyddol 2021/22<br>• Wedi derbyn Adroddiad Archwilio Cymru – Archwilio'r Cyfrifon 2021/22 |
| **Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl** | Rôl Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl (MHAMC) yw monitro ac adolygu'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Felly, mae'r Pwyllgor yn cael adroddiad chwarterol sy'n rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol y Ddeddf Iechyd Meddwl.<br><br>Drwy gydol 2022/23, mae'r Pwyllgor wedi trafod yn barhaus yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar y galw a lefel aciwtedd mewn gwasanaethau iechyd meddwl.<br><br>Trafododd y Pwyllgor yr angen i gynyddu nifer y Rheolwyr Deddf Iechyd Meddwl a'r angen i gryfhau prosesau recriwtio yn y maes hwn. Mae Polisi diwygiedig ar gyfer Rheolwyr Deddf Iechyd Meddwl wedi cael ei ddatblygu i'w roi ar waith ddechrau 2023/24.<br><br>Mae **Is-bwyllgor Pŵer Rhyddhau** wedi cael ei sefydlu fel is-bwyllgor ffurfiol i'r MHAMC. Mae aelodaeth y Pwyllgor hwn yn |

| | |
|---|---|
| | cynnwys Rheolwyr Ysbyty Cyswllt ac mae'n rhoi cyngor a sicrwydd bod y prosesau sy'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion o bwerau gorfodol, a ddefnyddir gan yr Is-bwyllgor, yn cael eu cyflawni'n gywir ac yn unol â gofynion cyfreithiol.<br><br>Mae'r Is-bwyllgor yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor at ddibenion sicrwydd a datblygu.<br><br>Yn ogystal, cafodd MHAMC drosolwg o'r prosiectau peilot a'r gwaith i gefnogi pobl yn ardal Gwent sy'n wynebu argyfwng iechyd meddwl. |
| **Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant** | Ymhlith y materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2022-23, fel yr amlinellwyd yn Rhaglen Waith y Pwyllgor, ystyriwyd y canlynol hefyd:<br>• **Adroddiadau rheolaidd gan Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol**, gan gynnwys trosolwg o faterion sy'n ymwneud â chysylltiadau gweithwyr.<br>• Trosolwg o **Ymgysylltu ac Ailgysylltu Staff Pobl yn Gyntaf**, gan gynnwys crynodeb o ddau gam cyntaf y cynllun.<br>• Diweddariadau Cynllun Pobl<br>• **Adolygiad o Broses yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA)** (*Mwy na Dim ond Ymarferiad Ticio Blychau*), gan gynnwys y cynnig ar gyfer sefydlu grŵp EQIA integredig.<br>• **Diweddariadau Gweithio'n Hyblyg** rheolaidd, gan gynnwys trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Fwrdd Cyflawni Hyblyg y Bwrdd Iechyd.<br>• Adroddiad Risg Strategol y Pwyllgor, gan gynnwys **Cofrestr Risg Adrannol y Gweithlu**, sy'n rhoi trosolwg o'r cynnydd yn erbyn lliniaru risg.<br>• **Dangosfwrdd Perfformiad y Gweithlu** sy'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol.<br>• **Diweddariad ar yr Arolwg Lles Gweithwyr**, gan gynnwys canlyniadau'r arolygon i helpu i lywio rhaglenni gwaith ac ymyriadau llesiant.<br>• Trosolwg o gydymffurfiaeth y Byrddau Iechyd â menter **Mwy na Geiriau 2022-2027** Llywodraeth Cymru.<br>• Sicrwydd ynghylch Cyflawni Camau Gweithredu a Chyflawni sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Iechyd fel **Cyflogwr Delfrydol**.<br>• Diweddariad ar **Gynllun Gweithredu Cyflog Amrywiol** y Byrddau Iechyd, gan gynnwys trosolwg o'r gwaith a gyflawnwyd drwy Fwrdd Rhaglen Lleihau Asiantaeth.<br>• Trosolwg o **Gofrestr Risg Hyfforddiant Meddygol** y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cysoni â safonau penodedig y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), fel y'u monitrwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).<br>• Trosolwg o broses **Arfarnu Meddygol ac Ail-ddilysu'r** Bwrdd Iechyd.<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau allanol hefyd, fel y nodir isod; - |

| | |
|---|---|
| | • Adroddiad Archwilio Cymru, '**Gofalu am Ofalwyr**' ac Ymateb Rheolwyr y Bwrdd Iechyd. |
| **Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad** | Ymhlith y materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2022-23 roedd y canlynol:<br><br>**Cyllid**<br>• Diweddariadau **Perfformiad Ariannol** yn amlinellu perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, targedau ariannol, dyletswyddau ariannol statudol a'r sefyllfa a ragwelir.<br>• Dull y Bwrdd Iechyd o ran **cynaliadwyedd** i sicrhau cydbwysedd ariannol fel rhan o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.<br>• Trosolwg o 'Adolygiad Effeithlonrwydd 2022/2023' y Bwrdd Iechyd, a chyflwyniad o'r '**Compendiwm Cyfleoedd Effeithlonrwydd**', a oedd yn casglu gwybodaeth am fusnes i gefnogi Is-adrannau i wella effeithlonrwydd, yn seiliedig ar arferion gorau.<br>• Trosolwg o'r defnydd o **gyllid Adferiad Covid** a dderbyniwyd ym mlwyddyn ariannol 2021-22.<br>• **Adroddiad Blynyddol Cyflawniad Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth 2021/22**, a oedd yn dangos y gwaith cydweithredol rhwng y timau gofal iechyd Seiliedig ar Werth a thimau gweithredol i ddarparu gofal iechyd Seiliedig ar Werth ar draws amrywiaeth o raglenni blaenoriaeth.<br>• Cyflwyno'r **Cynllun Arbedion Cyflog Amrywiol** (Lleihau Asiantaeth), a fyddai'n cael ei fonitro a'i adrodd i Grŵp Gweithlu Nyrsio Strategol y Bwrdd Iechyd<br>• Dealltwriaeth Ariannol o **Wasanaethau a Gomisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd**, gan gynnwys asesu anghenion, cynllunio a blaenoriaethu, prynu a monitro gwasanaethau iechyd, gan ddarparu'r canlyniadau iechyd gorau i boblogaeth y Bwrdd Iechyd.<br>• Diweddariad ar y **sefyllfa adnoddau refeniw a ragwelir** ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.<br>• **Gweithdrefn Rheolaeth Gyllidebol a Rheolaeth Ariannol**, sy'n disgrifio rheolaethau ariannol allweddol a rheolau ac ymddygiadau llywodraethu yr oedd y sefydliad wedi'u sefydlu i sicrhau bod gwariant yn cael ei reoli o fewn yr adnoddau sydd ar gael.<br>• Rhagolwg Ariannol a Llythyr Briffio Dyraniad 2023/24<br>• Rhagolwg o Sefyllfa Danategol Derfynol 2022/23<br>• 2023/24 Egwyddorion Cynllunio Cyllideb (Dirprwyo)<br>• Cyfleoedd Effeithlonrwydd 2023/24<br>**Perfformiad**<br>• Arddangosiad byw o fersiwn awtomataidd y Bwrdd Iechyd o'r **Dangosfwrdd Rheoli Perfformiad**.<br>• Adrodd am Eithriadau Perfformiad:<br>  o **Canser**, gan ddangos y perfformiad canser presennol a nodi gwelliannau i fynd i'r afael ag unrhyw heriau. |

| | |
|---|---|
| | ○ **Chwe Nod Gofal Brys ac Argyfwng**, sy'n amlinellu Rhaglen "Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng" y Bwrdd Iechyd a pherfformiad a statws ariannol cysylltiedig.<br>• **Dangosyddion Perfformiad Rheoli Gwybodaeth** sy'n darparu gwybodaeth am berfformiad o ran cydymffurfiad y Bwrdd Iechyd â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.<br>• Adolygiadau Ei Gael yn Iawn y Tro Cyntaf (GIRFT):<br>• Trosolwg o **Adroddiad yr Adolygiad o Wasanaethau Strôc**<br>• a'r dull o optimeiddio gofal a chanlyniadau cleifion.<br>• Diweddariad ar y **Rhaglen Gwelliannau Orthopaedig**, gan nodi 3 maes ffocws allweddol - lleihau amrywiadau clinigol, lleihau'r ôl-groniad a gwerth am arian. |
| **Pwyllgor Partneriaethau, Iechyd y Boblogaeth a Chynllunio** | Ymhlith y materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2022-23 roedd y canlynol:<br>• Trosolwg o Waith **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (PSB)**, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu Rhanbarth Marmot drwy'r Gwasanaethau Cyhoeddus, i leihau anghydraddoldebau iechyd ar draws Gwent.<br>• Trosolwg o **Gynllun Tymor Canolig Integredig 2022-2026** y Byrddau Iechyd.<br>• Trosolwg o **Strategaeth Datgarboneiddio'r** Byrddau Iechyd a'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Fframwaith Datgarboneiddio 2022/23.<br>• Diweddariad ar gynnydd **Cynllunio Rhanbarthol** mewn perthynas â rhaglenni gwaith cynllunio gwasanaethau rhanbarthol sy'n cael eu cynnal ar y cyd â chydweithwyr yn y byrddau iechyd ledled De-ddwyrain Cymru.<br>• Y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu a chyflawni **Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl yng Ngwent**.<br>• Diweddariad ar fodelau gofal Dyfodol Clinigol allweddol y Byrddau Iechyd a dolenni i Flaenoriaethau'r **Rhaglen Dyfodol Clinigol** ddiwygiedig.<br>• Diweddariad ar ddatblygu a chyflawni **Strategaeth ar gyfer Gweithio'n Hyblyg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**.<br>• Trosolwg o sut mae Tîm Iechyd y Cyhoedd Gwent yn cydlynu'r gwaith o gyflawni **rhaglen Rhanbarth Marmot Gwent**, mewn partneriaeth â sefydliadau yng Ngwent, ac o dan drefniadau llywodraethu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent.<br>• Trosolwg o gyfarfodydd y **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**, gan gynnwys trafodaeth ynghylch pynciau a godwyd fel pryder.<br>• Diweddariad ar y **Rhaglen Ailgynllunio Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn**, gan gynnwys trosolwg o'r adolygiad o lwybrau Gofal yr Henoed/Eiddilwch a modelau darparu gwasanaethau sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. |

| | |
|---|---|
| | • Diweddariad ar y **6 Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng**, gan gynnwys gwerthusiad o'r cynlluniau ar gyfer **Gofal Brys yr Un Diwrnod (SDEC).**<br>• Trosolwg o gyflawni **Rhaglen Gyfalaf 2021-2022** y Bwrdd Iechyd yn llwyddiannus.<br>• Adroddiad ynghylch **Trydydd Arolwg Lles Cymru**<br>• Adroddiad Risg y Pwyllgor<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau allanol amrywiol hefyd, gan gynnwys:<br>• **Adroddiad y Gynghrair Iechyd a Lles, 'Mind the gap: What's stopping change**', gan ganolbwyntio ar yr argyfwng costau byw a'r cynnydd mewn anghydraddoldebau yng Nghymru.<br>• Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad Archwilio Cymru, '**Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030; adroddiad tystiolaeth'** |

## Datblygu a Briffio'r Bwrdd

Cymerodd aelodau'r Bwrdd ran mewn nifer o sesiynau datblygu a briffio drwy gydol 2022/23. Roedd y pynciau a drafodwyd yn y sesiynau hyn yn cynnwys:

- Ymgyrch Jasmine
- System a Phwysau Gofal Brys ac Argyfwng
- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Rhaglen Celfyddydau ar gyfer y Faenor a Strategaeth y Celfyddydau mewn Iechyd
- Datganiad Parhad Busnes – Myfyrio a chamau gweithredu dilynol
- Prosiect Adsefydlu Cardiaidd Methiant y Galon
- Dyletswydd Ansawdd a Dyletswydd Gonestrwydd
- Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam
- Gwella ansawdd
- Cydnerthedd Seiber
- PGIAC - Strategaeth 10 Mlynedd ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol a throsolwg o Berfformiad
- Cynaliadwyedd, Risg a Materion Gofal Sylfaenol
- Cyfranogiad y Claf a'r Cyhoedd mewn Newidiadau i Wasanaeth Iechyd
- Datblygu Diwylliannau Gofal o Ansawdd Uchel, gan gynnwys Arweinyddiaeth Dosturiol
- Strategaeth Ansawdd a Phrofiad Cleifion
- Datblygu Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Uned Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu i Gleifion Mewnol
- Risg a Sicrwydd, gan gynnwys datblygu Datganiad Parodrwydd am Risg
- Cynllunio Gweithlu Meddygol, Risg a Materion

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol i'r Bwrdd gyflwyno proses o hunan-asesu a gwerthuso trylwyr a rheolaidd o'i weithrediadau a'i berfformiad ei hun a pherfformiad ei Bwyllgorau a'i Grwpiau Cynghori. Ym mis Chwefror 2023, gofynnwyd i'r Bwrdd gynnal asesiad unigol o'i

effeithiolrwydd yn ystod 2022/23, gan ddefnyddio Fframwaith Arweiniad Da NHS England a NHS Improvement (NHSE a NHSI) ar gyfer Adolygiadau Datblygiadol Arweinyddiaeth a Llywodraethu. Bydd canlyniad yr hunanasesiadau hyn yn cael ei drafod ar y cyd gan y Bwrdd ddiwedd mis Mai 2023.

Mae'r Fframwaith Arweiniad Da yn cefnogi byrddau i gynnal a datblygu effeithiolrwydd eu trefniadau arwain a llywodraethu ac mae'n canolbwyntio'n gryf ar lywodraethu ac arweinyddiaeth integredig ar draws ansawdd, cyllid a gweithrediadau yn ogystal â phwyslais ar ddiwylliant sefydliadol, gwella a gweithio mewn systemau.

O 2023/24 ymlaen, bydd Pwyllgorau'n cynnal hunanasesiad canol blwyddyn o'u heffeithiolrwydd i lywio asesiad diwedd blwyddyn y Bwrdd.

## GRWPIAU CYNGHORI A CHYD-BWYLLGORAU

### Grwpiau Cynghori

Mae Rheolau Sefydlog Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd sefydlu tri grŵp cynghori. Mae'r rhain yn caniatáu i'r Bwrdd geisio cyngor gan staff a rhanddeiliaid allweddol ac ymgynghori â nhw. Y rhain yw:

- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid;
- Fforwm Partneriaeth Lleol; a
- Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol.

Mae gwybodaeth am rôl a chylch gorchwyl pob Grŵp Cynghori ar gael yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd ar wefan y Bwrdd Iechyd.

### Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (SRG)

Sefydlodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ei Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn 2010.

Rôl y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid fu darparu cyngor annibynnol ar fusnes y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys: Ymgysylltu a chyfranogi'n gynnar wrth bennu cyfeiriad strategol cyffredinol y Bwrdd Iechyd; darparu cyngor ar gynigion gwasanaeth penodol cyn ymgynghori ffurfiol; yn ogystal ag adborth ar effaith gweithrediadau'r Bwrdd Iechyd ar y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Dylai'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ddarparu fforwm i hwyluso ymgysylltu llawn a thrafodaeth weithredol ymysg rhanddeiliaid ar draws y cymunedau a wasanaethir gan y Bwrdd Iechyd, gyda'r nod o gyrraedd a chyflwyno safbwynt rhanddeiliaid cydlynol a chytbwys i lywio penderfyniadau'r Bwrdd Iechyd.

Ers ei sefydlu, mae trefniadau ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd wedi esblygu ac yn parhau i ddatblygu ac aeddfedu. Yn benodol, mae pandemig COVID-19

wedi ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a'n cymunedau mewn ffyrdd newydd a gwahanol.

O ystyried y trefniadau ymgysylltu esblygol hyn ac o ystyried bod y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid wedi cyfarfod ddiwethaf ym mis Hydref 2021, penderfynwyd diddymu'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn ei ffurf bresennol ym mis Hydref 2022, wrth i'r Bwrdd Iechyd adolygu ac ailgynllunio rôl a chyfansoddiad y Grŵp, gan sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac yn gwbl effeithiol. Mae cynnig i ailsefydlu'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn cael ei baratoi ar hyn o bryd i'w ystyried gan y Bwrdd.

Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio ochr yn ochr â phartneriaid i ymgysylltu a chynnwys pobl y mae eraill hefyd yn ceisio ymgysylltu â nhw. Mae hyn yn galluogi gweithio mewn partneriaeth gadarn, rhannu adnoddau a'r gallu i gydweithio ar atebion ar y cyd i heriau a rennir. Mae llawer o fudiadau wedi bod yn hynod o hael o ran ein galluogi i gymryd rhan yn eu gweithgareddau presennol. Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi mynychu'r canlynol:

- Sesiynau Siarad â Ni y Gymuned Awdurdodau Lleol, Mannau Cynnes a Digwyddiadau Costau Byw;
- Cyfadeiladau a digwyddiadau Preswylwyr Cymdeithasau Tai;
- Digwyddiadau Iechyd a Lles a Ffeiriau Glasfyfyrwyr ar Gampws Coleg Gwent; a
- Nosweithiau Rhieni Ysgol, boreau coffi a digwyddiadau Cymdeithas Rhieni ac Athrawon.

Cynrychiolir y Bwrdd Iechyd hefyd ar Banel Dinasyddion Gwent, Fforwm Mynediad Torfaen ac mae'n gweithio gyda mudiadau'r trydydd sector, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Chynghrair Gwirfoddol Torfaen.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnal rhaglen gynhwysfawr o ymgysylltu â'r gymuned sy'n sicrhau bod cymunedau'n gallu siarad yn uniongyrchol â staff y Bwrdd Iechyd a rhannu eu barn am wasanaethau iechyd. Yn 2022/23, siaradodd y Bwrdd Iechyd yn uniongyrchol â dros 4300 o breswylwyr ar draws 149 o leoliadau.
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i weithio'n adeiladol mewn partneriaeth ag eraill i gynllunio a sicrhau bod dull system gyfan, teg o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu ar gyfer iechyd, lles a gofal cymdeithasol i boblogaeth Gwent. Mae hyn yn cael ei gyflawni yn unol â dyletswyddau statudol y Bwrdd Iechyd ac unrhyw ofynion neu gyfarwyddiadau penodol a wneir gan Weinidogion Cymru, sy'n cynnwys datblygu asesiadau poblogaeth a chynlluniau ardal.

## Fforwm Partneriaeth Lleol (sy'n cael ei adnabod fel y Fforwm Partneriaeth Undebau Llafur [TUPF])

Y TUPF yw'r mecanwaith ffurfiol i'r Bwrdd Iechyd a Chynrychiolwyr Undebau Llafur/Sefydliadau Proffesiynol gydweithio i wella gwasanaethau

iechyd. Dyma'r fforwm lle bydd rhanddeiliaid allweddol yn ymgysylltu â'i gilydd i lywio, trafod a cheisio cytuno ar flaenoriaethau lleol ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu a'r gwasanaeth iechyd. Mae'r Fframwaith yn cael ei gyd-gadeirio gan Gadeirydd Cynrychiolwyr Staff a Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd. Mae'r aelodau'n Gynrychiolwyr Staff (gan gynnwys yr Aelod Annibynnol ar gyfer Undebau Llafur), y Tîm Gweithredol a'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, Cyfarwyddwyr Cynorthwyol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a Phennaeth Llywodraethu'r Gweithlu. Mae'r Fforwm yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn ac mae'r Bwrdd yn derbyn Adroddiad Blynyddol ar waith y Fforwm.

### Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol (HPF)

Pwrpas y Fframwaith yw hwyluso ymgysylltiad a thrafodaeth ymysg yr ystod eang o ddiddordebau clinigol ym maes gweithgarwch y Bwrdd Iechyd, gyda'r nod o gyrraedd a chyflwyno safbwynt proffesiynol cydlynol a chytbwys i lywio penderfyniadau'r Bwrdd Iechyd.

Yn ystod 2022/23, nid oedd gan y Bwrdd ei Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol. Yn absenoldeb y Grŵp hwn, mae'r Bwrdd wedi parhau i ymgysylltu â gweithwyr clinigol proffesiynol drwy ei gyfarwyddwyr gweithredol proffesiynol (Cyfarwyddwr Meddygol, Cyfarwyddwr Nyrsio, Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd a Chyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd) a grwpiau rheoli proffesiynol presennol, fel y Fforwm Cyfarwyddwyr Clinigol a'r Grŵp Arweinyddiaeth Systemau. Mae'r Bwrdd hefyd yn ymgysylltu â darparwyr gofal sylfaenol drwy ei drefniadau clwstwr. Y bwriad yw bwrw ymlaen â threfniadau mewn perthynas â Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yn 2023/24.

### Cyd-bwyllgorau

Fel y nodir yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i'r Bwrdd sefydlu, o leiaf, y Cyd-bwyllgorau canlynol:

- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) a'r
- Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

### Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC)

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) yn gyfrifol am gyd-gynllunio Gwasanaethau Arbenigol a Thrydyddol ar ran Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru.

Sefydlwyd WHSSC yn 2010 gan y Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) yng Nghymru i sicrhau bod gan boblogaeth Cymru fynediad teg a chyfartal at yr ystod lawn o wasanaethau arbenigol. Wrth sefydlu WHSSC i weithio ar eu rhan, cydnabu'r saith BILl mai'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o gynllunio'r gwasanaethau hyn oedd cydweithio i leihau dyblygu a sicrhau cysondeb.

Mae WHSSC yn cael ei gynnal gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor gan y Prif Weithredwr ac mae adroddiadau am weithgarwch y Cyd-bwyllgor yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd.

Mae rhagor o fanylion am Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar gael ar wefan WHSSC

### Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC)

Darperir Gwasanaethau Ambiwlans Brys yng Nghymru gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) ac mae comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru yn broses gydweithredol sy'n seiliedig ar fframwaith ansawdd a chyflawni. Mae'r fframwaith yn darparu atebolrwydd clir ar gyfer darparu gwasanaethau ambiwlans brys gyda'r Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans (CASC) a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC) yn gweithredu ar ran Byrddau Iechyd ac yn dal WAST i gyfrif fel darparwr gwasanaethau ambiwlans brys. Mae EASC yn cael ei gynnal gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor gan y Prif Weithredwr ac mae adroddiadau am weithgarwch y Cyd-bwyllgor yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd.

Mae rhagor o fanylion am y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ar gael ar wefan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

## PARTNERIAETHAU STATUDOL A STRATEGOL

### Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent (RPB) wedi'i sefydlu o dan Ran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, lle mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i reoli a datblygu gwasanaethau i sicrhau cynllunio strategol a gweithio mewn partneriaeth. Mae angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd sicrhau bod gwasanaethau effeithiol a gofal a chymorth ar gael er mwyn diwallu anghenion eu poblogaeth yn y ffordd orau. Amcanion Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent yw sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn cydweithio'n effeithiol i:

- Ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth a gynhaliwyd yn unol ag adran 14 y Ddeddf;
- Datblygu, cyhoeddi a gweithredu'r Cynlluniau Ardal ar gyfer pob rhanbarth sy'n gynwysedig fel sy'n ofynnol o dan adran 14A y Ddeddf;
- Sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn darparu adnoddau digonol ar gyfer y trefniadau partneriaeth, yn unol â'u pwerau o dan adran 167 y Ddeddf; a
- Hyrwyddo sefydlu cronfeydd cyfun lle bo hynny'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dosbarthu Cronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol ledled Cymru i'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) yng Nghymru. Nod y gronfa yw hybu a galluogi gweithio integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai a'r trydydd sector a darparwyr annibynnol i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy.

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) yn cael ei chynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar ran Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent ac mae'n eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd misol y Bartneriaeth Ranbarthol. Trafodir a chymeradwyir pob mater sy'n ymwneud â'r Gronfa Risg Gymdeithasol o fewn y fforwm partneriaeth. Mae gwybodaeth yn cael ei rhaeadru drwy'r holl strwythurau partneriaeth ar gyfer tryloywder. Lle bo angen, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn darparu ar gyfer cyfarfodydd arbennig i gymeradwyo cynlluniau buddsoddi'r Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol lle nad yw amserlenni cyfarfodydd yn cyd-fynd ag amserlenni adrodd neu ddatblygu.

Aelodau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sydd wedi'u cynnwys yn aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw:

- Ann Lloyd, Cadeirydd y Bwrdd Iechyd
- Nicola Prygodzicz, Prif Weithredwr
- Tracey Daszkiewicz, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau Strategol
- Hannah Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Phartneriaethau
- Phil Robson, Cynghorydd Arbennig i'r Bwrdd Iechyd
- Katija Dew, Aelod Annibynnol

Mae rhagor o fanylion am Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent ar gael ar wefan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

### Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) Gwent yw'r corff statudol a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n dod â'r cyrff cyhoeddus yng Ngwent at ei gilydd i ddiwallu anghenion dinasyddion Gwent nawr ac yn y dyfodol. Nod y grŵp yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Gwent. Gan weithio'n unol â'r pum ffordd o weithio, mae'r Bwrdd wedi cyhoeddi ei Asesiad Llesiant a'i Gynllun Llesiant.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion hyn drwy gyflawni'r Strategaeth Dyfodol Clinigol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP).

Aelodau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sydd wedi'u cynnwys yn aelodaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw:

- Ann Lloyd, Cadeirydd y Bwrdd Iechyd
- Nicola Prygodzicz, Prif Weithredwr
- Tracey Daszkiewicz, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau Strategol

Mae rhagor o fanylion am Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent ar gael ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

### Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Sefydlwyd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ym mis Tachwedd 2010 i sicrhau arbedion maint; arbedion effeithlonrwydd a chysondeb o ran ansawdd a phrosesau ar gyfer y gwasanaethau busnes a phroffesiynol a oedd yn cael eu rheoli a'u darparu'n uniongyrchol gan gyrff GIG lleol.

Fel sefydliad a letyir, mae PCGC yn gweithredu o dan y fframwaith cyfreithiol a Gorchymyn Sefydlu Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Y Rheolwr Gyfarwyddwr yw'r Swyddog Atebol dynodedig ar gyfer Gwasanaethau a Rennir yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012 ac mae'n atebol i Gyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru a Byrddau Iechyd, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau drwy Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau (Pwyllgor y Bartneriaeth). Mae'r Pwyllgor Partneriaeth yn cyfarfod bob deufis ac mae'n cael ei gadeirio gan yr Athro Tracy Myhill OBE. Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o bob sefydliad GIG, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae'r Pwyllgor Partneriaeth yn gyfrifol am arfer swyddogaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre mewn perthynas â gwasanaethau a rennir, gan gynnwys pennu polisi a strategaeth a rheoli a darparu gwasanaethau a rennir i Fyrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae nifer o bwyllgorau a grwpiau cynghori wedi'u sefydlu i helpu i gefnogi'r trefniadau llywodraethu sy'n sail i'r ffordd y mae PCGC yn gweithredu.

Mae rhagor o fanylion am Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gael ar wefan PCGC.

## PWRPAS Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg; felly dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd y gall ei ddarparu.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni'r polisïau, y nodau a'r amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

## Y GALLU I DDELIO Â RISG

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Atebol, mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol dros reoli risg ac adrodd i'r Bwrdd ar effeithiolrwydd rheoli risg ar draws y

Bwrdd Iechyd. Mae fy nghyngor i'r Bwrdd wedi cael ei lywio gan swyddogion gweithredol ac adborth a gafwyd gan Bwyllgorau'r Bwrdd, yn enwedig y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion.

Mae cyfarfodydd y Tîm Gweithredol yn gyfle i gyfarwyddwyr gweithredol ystyried, gwerthuso a mynd i'r afael â risg, ac ymgysylltu'n weithredol â'r Bwrdd a'i bwyllgorau ac adrodd iddynt ar broffil risg y sefydliad. Arweinydd y Bwrdd Iechyd ar gyfer risg yw'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyfrifol am sefydlu'r fframwaith polisi a'r systemau a'r prosesau sydd eu hangen i reoli risgiau yn y sefydliad. Yn dibynnu ar natur y risg, bydd Cyfarwyddwyr eraill yn cymryd perchnogaeth dros reoli a lliniaru, er enghraifft, mae risgiau diogelwch cleifion yn dod o dan gyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Meddygol, y Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd.

## Y Fframwaith Rheoli Risg

Adolygodd y Bwrdd Iechyd ei ddull o reoli risg yn 2021 a arweiniodd at ddiwygio'r Strategaeth Rheoli Risg yn sylweddol. Mae'r dull hwn yn fodel hybrid o fframweithiau rheoli risg arfer gorau gan gynnwys Fframwaith Rheoli Risg Menter COSO, ISO 31000 a dulliau rheoli risg systemau Iechyd arferol.

I gefnogi hyn ymhellach, cyflwynwyd cynllun gwireddu buddion strategaeth rheoli risg i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Ebrill 2022, a oedd yn mapio'r amcanion a amlygwyd yn y Strategaeth Rheoli Risg gyda diweddariadau cynnydd ac eglurder ynghylch sut bydd y Bwrdd Iechyd yn pennu mesuriadau llwyddiant. Bydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn parhau i fod yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y cynllun i sicrhau bod y sefydliad yn cyrraedd ei lawn botensial mewn perthynas â'r Strategaeth Rheoli Risg ddiwygiedig. Wrth fonitro'r gweithredu parhaus, gellir nodi unrhyw risgiau i'r ddarpariaeth neu fylchau mewn sicrwydd, a chytuno ar gamau unioni a'u rhoi ar waith i liniaru a sicrhau bod y cynllun yn parhau i symud ymlaen.

Ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd, mae'r Bwrdd Iechyd yn cael Adroddiad Risg Strategol sy'n rhoi cyfrif lefel uchel o'r holl risgiau sydd wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi, gan sicrhau ein bod yn dryloyw ac agored ynghylch y risgiau strategol y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u nodi fel effeithiau posibl ar gyflawni blaenoriaethau strategol y Bwrdd. Mae aelodau'r cyhoedd ac unrhyw randdeiliaid eraill yn cael cyfle i wneud sylwadau neu ymholiadau am yr adroddiadau risg hyn, yn unol â Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd.

Mae system rheoli risg electronig y Bwrdd Iechyd a'r swyddogaethau cysylltiedig yn darparu mecanwaith defnyddiol i dimau gweithredol gofnodi risgiau, codi ac uwchgyfeirio risgiau i lefel Strategol drwy roi rhybudd i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ac wedyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, Risg a Sicrwydd. Yn ogystal â hyn, mae Cyfarwyddwyr Gweithredol y Bwrdd Iechyd yn cynnal cyfarfodydd sicrwydd gyda'u his-

adrannau perthnasol i drafod rheoli risgiau parhaus i Is-adrannau'n ac yn rhoi cyfle pellach i uwchgyfeirio risgiau. Mae ymgysylltiad rheolaidd yn cael ei gynnal â pherchnogion risg Gweithredol i ddiweddaru risgiau a sicrhau bod y sgorio'n aros yn gyson ac yn gytbwys.

Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, Risg a Sicrwydd yn darparu adroddiad risg strategol i bob Pwyllgor y Bwrdd ac mae pob adroddiad yn cynnwys asesiadau risg manwl ar gyfer y risgiau y mae'r Pwyllgor wedi dirprwyo cyfrifoldeb amdanynt i geisio sicrwydd.

O ran risgiau Ansawdd, Diogelwch Cleifion, mae gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion sefydledig sy'n adrodd i Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion y Bwrdd. Cadeirir y cyfarfod hwn gan y Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd ac mae'n ymestyn ei aelodaeth i gydweithwyr gweithredol clinigol eraill.

Mae gan y Bwrdd Iechyd gymuned Ymarfer Rheoli Risg (CoP) sydd wedi'i hen sefydlu. Mae'r gynrychiolaeth wedi cynyddu'n gyson, ac mae'r CoP yn parhau i gyfarfod bob yn ail fis. Mae'r pynciau yn y CoP yn cynnwys archwaeth a hyblygrwydd risg, cynllunio parhad busnes, diweddariadau rheolaidd ar y risgiau strategol a adroddir i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau ochr yn ochr ag adran 'agored' i staff rannu meysydd arfer da a dysgu sefydliadol ehangach ar reoli risg neu aeddfedrwydd sefydliadol.

## Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn rhoi trosolwg i'r Bwrdd o'r Prif Risgiau er mwyn cyflawni ei Amcanion Strategol, ynghyd â safbwynt ar lefel y sicrwydd y gall ei gymryd yn rhesymol mewn perthynas â phob risg.

Ym mis Mehefin 2022, cafodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd adolygiad Archwilio Mewnol o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) a oedd ar waith yn ystod 2021/22. Roedd yr adolygiad hwn yn rhoi lefel resymol o sicrwydd i'r Bwrdd, er bod camau gweithredu ar gyfer gwella wedi cael eu nodi.

Ym mis Awst 2022, cafodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd gyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a oedd yn amlinellu dull gweithredu wedi'i ddiweddaru ar gyfer datblygu'r BAF, gan ganiatáu ar gyfer alinio ac adrodd yn agosach â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Ystyriodd y Pwyllgor y sefyllfa bresennol a chydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i ddarparu mwy o eglurder, perchnogaeth a dealltwriaeth o'r BAF a'i brosesau. Cydnabuwyd yr angen i ddatblygu synergedd rhwng y BAF a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ogystal â chyflwyno prosesau i alluogi mwy o sicrwydd ar draws y system rheolaeth fewnol ar lefel weithredol.

Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2023, cafodd y Bwrdd fersiwn cyntaf adroddiad sicrwydd a risg integredig, ynghyd â mapio sicrwydd a chynlluniau gweithredu wedi'u nodi i fynd i'r afael â bylchau mewn sicrwydd. Disgwylir y bydd datblygiad pellach o ran cyflwyno'r adroddiad yn cyd-fynd â rhesymoli'r risgiau strategol presennol a Strategaeth Rheoli

Risg ddiwygiedig. Disgwylir i hyn gael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ystod Chwarter 2 2023/24.

## Proffil Risg y Bwrdd Iechyd

Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd **25** o risgiau strategol wedi cael eu disgrifio yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol sy'n cynrychioli'r risgiau mwyaf sylweddol i'r Bwrdd Iechyd o ran effeithio o bosibl ar gyflawni blaenoriaethau strategol y Bwrdd.

| | |
|---|---|
| **Uchel** | **18** |
| **Cymedrol** | **7** |
| **Isel** | **0** |

Mae copi o'r Adroddiad Risg Strategol diweddaraf a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2023 ar gael yma. Mae'r risgiau sydd wedi'u cynnwys yn hyn wedi bod yn destun craffu, herio ac adolygu gan berchnogion risgiau gweithredol. Cynhaliwyd asesiadau cadarn o system rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd hefyd, ochr yn ochr ag adolygiad o'r holl ffynonellau sicrwydd sy'n ymwneud â phob risg. Ar sail cyfrifiad o fethodoleg cyfartaleddau, rhoddwyd arwydd cychwynnol o bob risg ar lefel sicrwydd gradd RAG. Roedd hyn yn unol â methodoleg yr Archwiliad Mewnol wrth bennu lefelau sicrwydd ar gyfer adolygiadau archwilio.

Mae arwydd lefel uchel cyffredinol o lefel y sicrwydd y gallai'r Bwrdd ei gael o'r fersiwn hwn o'r adroddiad risg strategol wedi'i nodi isod:

| **Dim** | **Boddhaol** | **Sylweddol** |
|---|---|---|
| | **X** | |

Mae hyn yn golygu y gallai'r Bwrdd gymryd lefel gyffredinol o sicrwydd **boddhaol** bod y risgiau strategol sy'n rhan o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (ym mis Mawrth 2023), ac sy'n cynrychioli risgiau sylweddol o beidio â chyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn cael eu rheoli'n effeithiol. Gallai'r Bwrdd hefyd gymryd sicrwydd bod y system rheolaeth fewnol i reoli'r risgiau hyn yn cael ei hystyried yn **foddhaol**.

Ym mis Ebrill 2023, dechreuodd y Tîm Gweithredol ar y gwaith o gynnal adolygiad manwl o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan sicrhau bod risgiau'n cael eu mynegi, eu sgorio a'u cymedroli'n briodol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ystod Chwarter 2, 2023/24.

## Archwaeth Risg

Mae Datganiad Archwaeth Risg y Bwrdd wedi'i gynnwys yn ei Strategaeth Rheoli Risg. Fel rhan o'i drefniadau rheoli risg, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar set o ddiffiniadau mewn perthynas ag archwaeth ac agwedd risg, a amlinellir yn y tabl isod. Gellir cymhwyso'r **Archwaeth** risg i risgiau tymor byr a gall fod yn fwy deinamig; fodd bynnag, mae **Agwedd** at risg

fel arfer yn cael ei chymhwyso i risgiau tymor hwy ac mae'n tueddu i fod yn fwy sefydlog. Fodd bynnag, nodir y bydd y diffiniadau o Agwedd ac Archwaeth Risg yn cael eu hadolygu er mwyn i'r Bwrdd Iechyd fwrw ymlaen â'i ddull sefydliadol o reoli risg.

| Asesu | Disgrifiad o'r effaith bosibl |
|---|---|
| Uchel Iawn ('barod' am risg) Archwaeth Risg Lefel 5 | Mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn ac yn goddef rhai risgiau oherwydd y manteision tymor byr a thymor hir posibl a allai godi. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y gallai hyn arwain at niwed i enw da, effaith ariannol neu amlygiad, methiant mawr mewn gwasanaethau, problemau gyda systemau gwybodaeth neu uniondeb, digwyddiadau sylweddol o ran materion cydymffurfio rheoleiddiol a/neu ddeddfwriaethol, effaith bosibl ar staff/defnyddwyr gwasanaeth. |
| Uchel (agored i risg) Archwaeth Risg Lefel 4 | Mae'r Bwrdd Iechyd yn barod i Oddef neu Drin risgiau a allai arwain at niwed i enw da, effaith ariannol neu amlygiad, methiant mawr mewn gwasanaethau, systemau gwybodaeth neu uniondeb, digwyddiadau sylweddol o ran cydymffurfio rheoleiddiol a/neu ddeddfwriaethol, risg bosibl o niwed i staff/defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r lefel hon o awydd yn seiliedig ar y disgwyliad y bydd y manteision o fantais sylweddol i'r Bwrdd Iechyd. |
| Cymedrol (cymryd risgiau yn bwyllog) Archwaeth Risg Lefel 3 | Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon Trin, Goddef, Trosglwyddo (ar ôl cydbwyso risgiau gweddilliol) risgiau mewn rhai amgylchiadau a allai arwain at niwed i enw da, colled ariannol neu amlygiad, methiant mawr mewn gwasanaethau, systemau gwybodaeth neu uniondeb, digwyddiadau sylweddol o ran cydymffurfio rheoleiddiol a/neu ddeddfwriaethol, risg bosibl o niwed i staff/defnyddwyr gwasanaeth. |
| Isel (gwrthwynebol i risg) Archwaeth Risg Lefel 2 | Mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu at Drin, Trosglwyddo neu Ddileu risgiau (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol iawn) a allai arwain at niwed i enw da, effaith ariannol neu amlygiad, methiant mawr mewn gwasanaethau, systemau gwybodaeth neu uniondeb, digwyddiadau sylweddol o ran cydymffurfio rheoleiddiol a/neu ddeddfwriaethol, risg bosibl o niwed i staff/defnyddwyr gwasanaeth. |
| Sero (osgoi cymryd risgiau) Archwaeth Risg Lefel 1 | Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio Dileu risgiau o dan unrhyw amgylchiadau a allai arwain at niwed i enw da, effaith ariannol neu amlygiad, methiant mawr mewn gwasanaethau, systemau gwybodaeth neu uniondeb, digwyddiadau sylweddol o ran cydymffurfio rheoleiddiol a/neu ddeddfwriaethol, risg bosibl o niwed i staff/defnyddwyr gwasanaeth neu'r cyhoedd. |

Mae newidiadau i dempledi adrodd safonol wedi galluogi'r Bwrdd i ddod yn fwy ymwybodol o'r archwaeth risg mewn perthynas â'r proffiliau risg y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae'r templed diwygiedig ar gyfer adroddiadau cwmpasu ar gyfer Pwyllgorau a'r Bwrdd yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r risgiau sy'n cael eu rheoli ym mhortffolio'r Pwyllgor neu'r Bwrdd ac a ydynt yn cael eu rheoli o fewn y lefel archwaeth risg y cytunwyd arni, a lle nad yw risgiau'n cael eu rheoli o fewn terfynau y cytunwyd arnynt, bod cynlluniau ac amcanion cadarn ar waith i'w lleihau.

Ym mis Ebrill 2023, dechreuodd y Bwrdd waith datblygu i adolygu ac ail-ddylunio ei archwaeth risg yn erbyn meysydd busnes neu 'themâu' allweddol. Roedd y themâu hyn yn deillio o adborth a gafwyd gan y Bwrdd ar y risgiau mwyaf sylweddol i'r Bwrdd Iechyd o ran cyflawni ei amcanion strategol. Cam nesaf y gwaith o ddatblygu'r gwaith hwn fydd trosi'r lefelau archwaeth risg sydd wedi'u diffinio'n glir sy'n gysylltiedig â meysydd risg penodol, yn sgoriau risg wedi'u mynegi'n glir. Bydd hyn yn galluogi cydweithwyr gweithredol i gymhwyso'r lefelau archwaeth risg yn uniongyrchol i'w meysydd gwasanaeth ac mae'n hyrwyddo dull gweithredu cyson o'r 'Ward i'r Bwrdd'. Bydd y dull hwn yn cael ei ddisgrifio mewn Strategaeth Rheoli Risg Bwrdd Iechyd ddiwygiedig a fydd yn cael ei chwblhau yn Chwarter 2, 2023/24.

### Adolygiadau Archwilio Mewnol sy'n gysylltiedig â Risg a Sicrwydd

Dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cafodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd sgoriau sicrwydd rhesymol ar gyfer adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd ar y BAF ac mewn perthynas â Rheoli Risg.

### Llywodraethu Corfforaethol, Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

Ym mis Gorffennaf 2022, derbyniodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yr adolygiad archwilio mewnol ar y BAF, gan ddarparu lefel resymol o sicrwydd. Pwrpas yr adolygiad oedd "*gwerthuso proses y Fframwaith Sicrwydd a'r trefniadau ategol sydd wedi'u gwreiddio yn strwythur llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan*." Daeth yr adroddiad i'r casgliad y gellid cymryd lefel resymol o sicrwydd a gwnaeth 4 argymhelliad (2 ganolig, 2 isel) i ddatblygu, gwreiddio a chryfhau'r BAF ymhellach i sicrhau bod busnes y Bwrdd a'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd sicrwydd gwannaf a'r risg uchaf. Mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o adrodd bod cynnydd yn erbyn yr argymhellion a ysgogwyd gan yr adolygiad archwilio mewnol yn cael ei ddatblygu gyda therfynau amser diwygiedig neu wedi cael eu cwblhau.

### Rheoli Risg

Ym mis Ebrill 2023, cafodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd adolygiad archwilio mewnol ar Reoli Risg, gan ddarparu lefel resymol o sicrwydd. Pwrpas yr adolygiad oedd rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod trefniadau rheoli risg priodol ar waith yn yr Is-adrannau (ar lefel weithredol).

Gwnaeth yr adroddiad 4 argymhelliad, 2 ganolig a 2 isel i gryfhau trefniadau rheoli risg. Bydd y camau hyn yn cael eu datblygu yn 2023/24, ochr yn ochr â datblygu trefniadau rheoli risg y sefydliad ymhellach.

## Trefniadau Llywodraethu Adferiad Ariannol

Ym mis 06, 2022/23, adroddodd y Bwrdd Iechyd sefyllfa gyfredol o ddiffyg o £22.785m, gyda rhagolwg o alldro o ddiffyg o £37m ar ddiwedd y flwyddyn. Mae rhagor o fanylion am y sefyllfa ariannol hon wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad ar Berfformiad Ariannol, gyda'r sefyllfa ddiweddaraf ym mis 07, 2022/23, wedi'i chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2022.

Wrth asesu'r sefyllfa a ragwelir, aeth y Tîm Gweithredol ati i edrych yn fanwl ar y sefyllfa ariannol, gyda'r cyfleoedd allweddol i leihau'r rhagolwg a nodwyd fel ffocws blaenoriaeth rhaglen adfer ar gyfer y chwe mis sy'n weddill o'r flwyddyn ariannol. Roedd yr adferiad yn canolbwyntio ar ddatblygu dull gweithredu deuol i ddarparu cyfleoedd tymor byr ar gyfer lleihau costau ariannol yn ogystal â pharhau i ddatblygu cyfleoedd trawsnewidiol ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Roedd disgwyl i'r rhaglen adfer hon ddarparu cyfleoedd i sicrhau na fyddid yn mynd dros y diffyg disgwyliedig o £37M, a lle bynnag y bo modd, lleihau'r diffyg a ragwelwyd.

O ganlyniad, cafodd llythyr atebolrwydd Prif Swyddog Gweithredol ei anfon at Gyfarwyddwr Cyffredinol GIG Cymru i gyd-fynd â datganiad monitro misol Llywodraeth Cymru ar 13 Hydref 2022.

Gan ystyried y sefyllfa a ragwelir, a lefel y risg gysylltiedig, penderfynodd y Bwrdd gadw iddo ei hun y gwaith monitro, goruchwylio a'r craffu ar yr adferiad ariannol ar gyfer gweddill blwyddyn ariannol 2022/23. Wrth wneud hynny, cytunodd y Bwrdd i wneud y canlynol:

- Cymeradwyo a goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r rhaglen adferiad ariannol a'r cynlluniau lliniaru risg ariannol sy'n cynnwys yr holl gamau gweithredu, y trefniadau llywodraethu ac sy'n nodi cynlluniau cyflawni cyffredinol ar gyfer pob un o'r ffrydiau gwaith adferiad ariannol;
- Sicrhau dealltwriaeth glir o'r risg ariannol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen adferiad ariannol. Bydd y Bwrdd yn adolygu'r risg ariannol yn fisol, ar sail gwir berfformiad ariannol;
- Cael sicrwydd gan Arweinwyr Gweithredol a nodwyd bod ffrydiau gwaith adferiad ariannol cadarn ar waith, bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni;
- Pan na fo'r ddarpariaeth ariannol a ragwelir yn cyrraedd y targed ac nad yw'n lliniaru'r risg yn ddigonol, bydd y Bwrdd yn cytuno ar y dull o nodi'r cynlluniau pellach sy'n angenrheidiol i ddatrys y bwlch, gan gynnwys adolygu a chymeradwyo unrhyw fesurau ychwanegol i leihau costau ac osgoi costau.

- Ystyried capasiti a gallu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni camau adferiad ariannol ac ystyried cynigion i fynd i'r afael â nhw lle bo angen;
- Ystyried y gwersi a ddysgwyd a sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu mewn mecanweithiau cynllunio a darparu yn y dyfodol.

O ran rheolaeth ariannol a pherfformiad ariannol, gofynnodd y Bwrdd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ganolbwyntio ar gynllunio ariannol ar gyfer 2023/24, ac yn benodol i geisio sicrwydd ar gamau gweithredu sy'n mynd rhagddynt i ddatblygu cynllun ariannol tymor canolig cadarn i'w gynnwys yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26 y Bwrdd.

Sefydlodd y Pwyllgor Gweithredol Fwrdd Rhaglen Adferiad Ariannol, a gyfarfu'n ffurfiol bob mis (yn unol â'r amserlen adrodd ariannol) i sicrhau monitro ac olrhain cadarn, yn ogystal â diweddariadau wythnosol ar gynnydd a risgiau. Wrth wneud hynny, mae Bwrdd y Rhaglen Adferiad Ariannol wedi:

- Datblygu, er cymeradwyaeth y Bwrdd, y rhaglen adferiad ariannol a'r cynlluniau lliniaru risg ariannol sy'n cynnwys yr holl gamau gweithredu, y trefniadau llywodraethu ac sy'n nodi cynlluniau cyflawni cyffredinol ar gyfer pob un o'r ffrydiau gwaith adferiad ariannol;
- Pennu templed perfformiad ariannol safonol i sicrhau bod gwybodaeth gyson a phriodol yn cael ei hadrodd i'r Bwrdd, yn seiliedig ar y rhaglen adferiad ariannol y cytunwyd arni;
- Asesu a monitro'r risg ariannol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen adfer ariannol, yn seiliedig ar wir berfformiad ariannol, ac ystyried y camau lliniaru sy'n ofynnol;
- Cael diweddariadau a chynigion gan Arweinwyr Gweithredol a nodwyd bod ffrydiau gwaith cadarn ar waith ar gyfer adferiad ariannol, rheoli risgiau'n effeithiol a chyflawni camau gweithredu y cytunwyd arnynt;
- Lle'r oedd y ddarpariaeth ariannol a ragwelwyd yn is na'r targed ac nad oedd yn lliniaru'r risg yn ddigonol, ystyried, er mwyn cytundeb Bwrdd, y dull gweithredu ar gyfer nodi'r cynlluniau pellach sy'n angenrheidiol i ddatrys y bwlch, gan gynnwys adolygu a chymeradwyo unrhyw ostyngiad cost ychwanegol, a mesurau osgoi costau.

Roedd Bwrdd y Rhaglen Adferiad Ariannol hefyd yn canolbwyntio ar gynllunio ariannol ar gyfer 2023/24 a'r cynllun ariannol tymor canolig.

Mae'r Datganiadau Ariannol, Adran 3, yn rhoi rhagor o fanylion am berfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd yn 2022/23.

## Cynllunio ar gyfer Argyfwng

Yn unol â dyletswyddau statudol Deddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) a'r Canllawiau Cynllunio at Argyfwng a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi cynlluniau argyfwng, trefniadau parhad busnes a dogfennau ategol ar waith ac wedi cyflwyno adroddiad blynyddol sy'n nodi lefel y cydymffurfio o ran bodloni'r gofynion ar gyfer 2022.

## Y FFRAMWAITH RHEOLI

### Diogelwch, Ansawdd a Phrofiad Cleifion

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar sefydliadau Iechyd a Gofal yng Nghymru. Gan wella ansawdd, gonestrwydd a thryloywder, mae'r ddeddfwriaeth a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2023 yn rhoi Dyletswydd Gonestrwydd a Dyletswydd Ansawdd i'r Bwrdd Iechyd. Mae'n sefydlu Llais y Dinesydd - Llais, sy'n cyfoethogi ymgysylltiad â'n cleifion ac aelodau'r gymuned. Mae Llais yn gorff annibynnol a gall ei wasanaeth Eiriolaeth rhad ac am ddim ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i aelodau'r cyhoedd.

Mae'r **Ddyletswydd Gonestrwydd** yn ofyniad cyfreithiol i Sefydliadau'r GIG yng Nghymru fod yn agored ac yn onest gyda chleifion sy'n cael gofal a thriniaeth. Drwy'r Ddyletswydd hon, rhaid i'r Bwrdd Iechyd fod yn onest wrth roi gwybod i gleifion a'u teuluoedd os yw'r gofal a ddarperir wedi, neu y gallai fod wedi cyfrannu at, niwed cymedrol neu ddifrifol annisgwyl, neu farwolaeth. Mae angen iddynt wybod beth ddigwyddodd a beth y gellir ei wneud i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto. Mae diwylliant o fod yn agored, yn dryloyw ac yn onest yn cael ei gysylltu'n eang â gofal o ansawdd da. Rhaid i hyn annog dysgu a chael ei gyflawni heb roi bai.

Mae'r **Ddyletswydd Ansawdd** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu systemau arwain a rheoli gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau. Drwy wella gwasanaethau'n barhaus dros amser, sicrhau bod heriau ansawdd yn cael eu gwella. Adrodd ar ddysgu drwy adroddiadau ansawdd blynyddol. Mae 12 o Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal a fydd yn ein helpu i ddisgrifio sut beth yw gofal o ansawdd da yn ein gwasanaethau unigol.




Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall pwysigrwydd darparu gofal tosturiol, diogel ac o ansawdd uchel yn y gwasanaethau mae'n eu darparu a'u comisiynu. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y gall digwyddiadau ddigwydd mewn amgylchedd cymhleth er gwaethaf ein bwriadau gorau. Mae'n hanfodol ein

bod yn ymwybodol o arwyddocâd ein gweithredoedd a'n hymateb wrth ddelio â'r sefyllfaoedd hyn. Gall bod yn agored ac yn onest gael effaith gadarnhaol fawr ar brofiadau ein cleifion, ein staff, ein gofalwyr a'n teuluoedd, gan gefnogi eu dealltwriaeth pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le ac yn y pen draw ar eu hyder parhaus yn y system gofal iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo ei Strategaeth Ansawdd sydd wedi cael ei rhoi ar waith ledled Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ers mis Ebrill 2023. Ein nod yw gwella a dysgu'n barhaus, ac mae gofynion deddfwriaethol newydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu ein strategaeth. Mae bwrw ymlaen â'r hyn yr ydym eisoes wedi'i gyflawni ac adeiladu ar y strwythurau presennol ar draws y sefydliad yn ffocws allweddol wrth ddatblygu'r Strategaeth hon.

Mae ansawdd wedi'i wreiddio yn ein diwylliant, ac rydym wedi ymrwymo i wella'n barhaus. Darparu gofal iechyd o ansawdd uchel i'n cymunedau lleol gan roi Ansawdd, Diogelwch, Profiad a Dysgu wrth galon popeth a wnawn.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu, ar raddfa fawr, y model 'Nodau Gofal' ar draws timau amlddisgyblaethol drwy wreiddio egwyddorion 'beth sy'n bwysig', gan wella profiad cleifion, llais, gwerth a dewis. Bydd hyn yn rhoi metrigau gwell i ni ar gyfer profiad y claf, a thystiolaeth o adborth yn dylanwadu ar gynlluniau gwasanaeth, darparu a gwella. Drwy wella ein gwasanaethau'n barhaus dros amser, gan sicrhau bod heriau ansawdd yn cael eu gwella, byddwn yn adrodd ar ein dysgu drwy ein hadroddiad ansawdd blynyddol.

Rydym yn addo cyflawni'r Ddyletswydd Ansawdd drwy sicrhau bod ein gwasanaethau'n darparu gofal o'r ansawdd uchaf i'n cleifion, ein gofalwyr a'n teuluoedd. Rydym wedi ymrwymo i wella'r profiad o ofal a byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddarparu profiadau cadarnhaol i gleifion drwy daith y claf ar draws ein gwasanaethau. Mae ein gweledigaeth yn seiliedig ar ansawdd, a byddwn yn sicrhau y bydd data'n ysgogi gwelliannau a dysgu drwy brofiad. Byddwn yn datblygu ac yn darparu ein gwasanaethau o amgylch y meysydd ansawdd a galluogwyr ansawdd:

**Chwe maes ansawdd a chwe galluogwr ansawdd**

| Y chwe maes ansawdd | Galluogwyr Ansawdd |
|---|---|
| Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn | Arweinyddiaeth |
| Gofal diogel | Diwylliant |
| Gofal amserol | Gweithlu |
| Gofal effeithlon | Gwybodaeth |
| Gofal effeithiol | Dull systemau cyfan |
| Gofal teg | Dysgu, gwella ac ymchwil |

Bydd gweledigaeth Ansawdd Bwrdd Ysbyty Prifysgol Aneurin Bevan yn cael ei "gydnabod yn eang am gyflawni'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal". Ein hymrwymiad cyntaf a phwysicaf i'n cleifion yw eu cadw'n ddiogel. Dros y

tair blynedd nesaf, bydd y Strategaeth Ansawdd hon yn gwella'r ddarpariaeth o fewn y Safonau Ansawdd hyn, gan barhau i wella profiad a chanlyniadau cleifion a staff.

Bydd profiadau ein staff a'n cleifion yn parhau i fod y mesur pwysicaf o'n cynnydd. Drwy gyflawni'r Strategaeth hon, ynghyd â'r strategaethau ategol o ran profiad a chyfranogiad cleifion, rheoli risg, effeithiolrwydd clinigol a lles gweithwyr, gallwn ddarparu gofal o ansawdd uchel, gwasanaethau iechyd a gofal effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer ein poblogaeth leol.

Er mwyn cyflawni ein Strategaeth Ansawdd, bydd angen ymrwymiad cryf i newid diwylliant ar draws y Bwrdd Iechyd, lle mae cleifion yn cael eu hysbysu a'u haddysgu am ein gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion, gan warantu mynediad teg at wasanaethau. Mae gan ein sefydliad sylfaen gadarn i adeiladu arni, a byddwn yn gwella drwy wrando, dysgu a gweithio gyda'n gilydd ar daith i wella'n barhaus.

Ein nod yw creu strategaeth y gellir ei defnyddio fel siarter i rymuso pobl i fyw bywydau da ac atal niwed. Byddwn yn creu diwylliant lle mae staff yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt, yn seiliedig ar dryloywder, atebolrwydd, ymddygiad moesegol, ymddiriedaeth a 'Ddiwylliant Teg'. Byddwn yn parhau i wrando'n astud ar ddefnyddwyr ein gwasanaeth ac yn ymateb i'w wneud yn brofiad da i bawb.

Drwy ddatblygu'r Strategaeth Ansawdd hon, rydym yn egluro ein hymrwymiad a'n dull o rymuso'r bobl sydd wrth galon ein gwasanaethau. Bydd gan staff y rhyddid, y sgiliau, y cyfarpar a'r adnoddau i weithio mewn partneriaeth â'r bobl rydym yn eu gwasanaethu i wella ac arloesi'n ddiogel tuag at nodau ansawdd diffiniedig.

Rydym wedi ymrwymo o hyd fel sefydliad i fod yn sefydliad sy'n dysgu go iawn. Byddwn yn canolbwyntio ar ddarparu gofal o'r ansawdd gorau posibl, diwallu anghenion iechyd a gofal pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, a gwella canlyniadau iechyd y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu. Mae'r strategaeth hon yn tynnu sylw at ein creadigrwydd, ein hangerdd, ein harbenigedd a'n hymrwymiad i ddysgu o brofiadau. Nod ein haddewid o ran ansawdd a'n huchelgeisiau yw rhoi ansawdd, cydraddoldeb a dysgu wrth galon ein gwasanaeth.

Byddwn yn dod yn sefydliad sy'n dysgu drwy:

- Sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod profiad iechyd a gofal pawb cystal ag y gall fod, gan ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol.
- Sicrhau bod ein cydweithwyr yn cael eu gwerthfawrogi, eu bod yn gweithio mewn amgylcheddau diogel, a'u bod yn cael eu cefnogi a'u grymuso i weithredu pan fydd modd gwella pethau.
- Sicrhau bod y bobl rydym yn eu gwasanaethu yn cael eu clywed, eu cynnwys, eu grymuso ac yn cyfranogi;

- Byddwn yn croesawu tryloywder, atebolrwydd a gwybodaeth, yn dathlu llwyddiant, yn rhannu dysgu ac yn mynd ati i geisio gwella.

Ein nod yw dod yn sefydliad dysgu go iawn i wella diogelwch, profiad ac effeithiolrwydd clinigol cleifion. Byddwn yn ymateb i ddysgu ac arweiniad gan ein System Rheoli Ansawdd, grwpiau lleol a chenedlaethol, gan addasu ein cynlluniau a'n blaenoriaethau i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn.
Yr allwedd i gyflawni ein cynlluniau yw datblygu dull 'System Rheoli Ansawdd' i wreiddio diwylliant o ddysgu: diwylliant lle mae pobl yn gwrando, yn meddwl, yn teimlo ac yn gweithredu ar sail 'ansawdd' – gan hyrwyddo gonestrwydd a dysgu, gwelliant parhaus a thrawsnewid gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gwaith i wreiddio diwylliannau cadarnhaol o welliant parhaus a chydweithio.
Byddwn yn datblygu ein System Rheoli Ansawdd ymhellach i osod targedau ystyrlon fel mater o drefn a monitro, mesur ac adrodd ar berfformiad i sicrhau ein bod yn darparu safonau gofal rhagorol ac yn gosod nodau ansawdd i wella'r gwasanaethau a ddarparwn yn barhaus.

Gelwir ein nodau ansawdd yn 'golofnau ansawdd', sy'n rhedeg drwy ein Bwrdd Iechyd, gan sicrhau ein bod yn darparu'r safonau gofal uchaf o dan y meysydd hyn. Byddwn yn adolygu ein perfformiad drwy ddarparu data yn y Colofnau Ansawdd hyn, a rhaid i ni flaenoriaethu ansawdd a diogelwch ein gwasanaethau iechyd uwchlaw popeth arall. Mae'r strategaeth hon yn arwydd o'n bwriad i ddatblygu'r colofnau ansawdd hyn er mwyn pennu llinell sylfaen a meincnodi lefel ein perfformiad. Y colofnau hefyd fydd ein Marcwyr Ansawdd yn ein system Rheoli Ansawdd. Mae cryfhau ein system rheoli ansawdd yn ein helpu i wneud yn siŵr bod ein penderfyniadau'n canolbwyntio ar wella ansawdd gwasanaethau iechyd.
Colofnau ansawdd:

- Profiad a straeon cleifion a staff
- Cofnodi digwyddiadau – codymau, briwiau pwyso, rheoli meddyginiaethau a marwoldeb
- Cwynion, pryderon a chanmoliaeth
- Iechyd, diogelwch a diogeledd
- Rheoli ac Atal Heintiau
- Diogelu

Ein nodau strategol yw datblygu a grymuso ein gweithlu i ddarparu gofal rhagorol. Mae ein staff a'n gwasanaethau yn awyddus i ddysgu, gan gydweithio â theuluoedd ac arbenigwyr drwy brofiad i wella gwasanaethau. Ein nod yw galluogi ein gweithlu i fod yn hapus, yn hyderus ac yn gymwys. Byddwn yn grymuso ein gweithlu i ddarparu gofal rhagorol drwy gefnogi datblygiad proffesiynol cydweithwyr, gan roi'r mandad, yr offer a'r adnoddau iddynt arloesi a gwella. Byddwn yn datblygu 'Diwylliant Teg' sy'n hyrwyddo diogelwch drwy gefnogi pobl i ddweud eu dweud. Byddwn yn annog staff i fod yn fwy agored a thryloyw am ddigwyddiadau, camgymeriadau neu gwynion a'r camau rydym yn eu cymryd i wneud newidiadau.

Byddwn yn mesur ein cynnydd ac yn arwain ein camau gweithredu tuag at ddod yn sefydliad sy'n dysgu. Byddwn yn tyfu ac yn aeddfedu ein dull Gwella Ansawdd fel ein methodoleg ar gyfer datrys problemau cymhleth, ac i ddarparu dull cyson o brofi syniadau newid a llywio ein penderfyniadau.

Er mwyn gyrru a gwella ansawdd y gofal a ddarperir ar draws ein cymunedau, bydd y Bwrdd Iechyd yn dibynnu fwyfwy ar bartneriaethau ar draws ein cymunedau. Byddwn yn datblygu ein rôl ymhellach fel rhan o Fwrdd Iechyd integredig, gan weithio'n agosach gyda'n comisiynwyr a darparwyr lleol eraill, gan gynnwys Gofal Sylfaenol, y Sector Annibynnol, Elusennau a chydweithwyr ym maes Gofal Cymdeithasol. Mae gosod ansawdd drwy ein strwythur sefydliadol yn bwysig o ran integreiddio cyfathrebu o'r Ward/Timau i'r Bwrdd.

Fel rhan o Strategaeth Ansawdd y Bwrdd Iechyd, mae Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn cael ei ddatblygu i fod yn elfen hanfodol o'r system gyffredinol. Y diben yw lliniaru a rheoli risg sy'n gysylltiedig â chyflawni ein hamcanion a'n blaenoriaethau strategol fel yr amlinellir yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd. Mae'r Fframwaith yn cyd-fynd â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac mae ganddo gysylltiadau cynhenid â'r Strategaeth Rheoli Risg.

Mae Strwythur Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys amrywiaeth o grwpiau, pob un yn canolbwyntio ar agwedd wahanol ar ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion ac yn y pen draw mae'n adrodd i Bwyllgor Canlyniadau Diogelwch Cleifion, Ansawdd y Bwrdd Iechyd, drwy'r Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu'r Datganiad Ansawdd a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o'r gwaith o weithredu ein Strategaeth Ansawdd, gyda'r nod o ailffocysu fframwaith llywodraethu'r Datganiad Ansawdd a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Rheoli Gwybodaeth

Mae gwybodaeth yn ased hanfodol, o ran rheolaeth glinigol cleifion unigol a rheoli gwasanaethau ac adnoddau yn effeithlon. Mae Rheoli Gwybodaeth yn ymwneud â gosod safonau uchel ar gyfer ymdrin â'r wybodaeth hon a rhoi'r arfau i'r sefydliad gyflawni'r safonau hynny.

Mae gan y Bwrdd Iechyd amrywiaeth o rolau allweddol sydd â chyfrifoldebau mewn perthynas â'r wybodaeth y mae'n ei chadw, yn ei defnyddio ac yn ei rhannu. Y Cyfarwyddwr Meddygol yw'r Gwarcheidwad Caldicott, y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yw'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) a'r Pennaeth Rheoli Gwybodaeth yw'r Swyddog Diogelu Data (DPO).

Yn ystod 2022/2023 parhaodd y Bwrdd Iechyd i ddatblygu'r fforymau i'r sefydliad ystyried gofynion rheoli gwybodaeth a darparu ffordd gyson o reoli hynny. Mae'r fforymau hyn yn caniatáu hwyluso prosesau a chyfathrebu sy'n sicrhau bod yr holl rwymedigaethau Diogelu Data yn cael eu cyflawni. Cynhyrchir dangosfyrddau i ddarparu cefnogaeth a chymorth

gan sicrhau cydymffurfiad â hyfforddiant, delio â chwynion, rheoli digwyddiadau a thor-amod. Cynhyrchir adroddiadau blynyddol ar y cynnydd a wnaed drwy gydol y flwyddyn ac fe'u rhannir â'r is-adrannau a'r byrddau perthnasol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth ddefnyddio Pecyn Cymorth Rheoli Gwybodaeth GIG Cymru i sicrhau cysondeb o ran polisi, safonau a dehongli'r gyfraith a rheoleiddio ar draws sefydliadau GIG Cymru. Cafodd y Bwrdd Iechyd sgôr o 95% am y flwyddyn ddiwethaf.

Mae fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) wedi'i wreiddio yn y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn rhannu gwybodaeth berthnasol â'i sefydliadau partner.

Yn ystod 2022/2023 bu cynnydd o 10% yn nifer y Ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cyfreithwyr a gwasanaethau cyfreithiol sy'n dal i wneud y gyfran fwyaf o geisiadau a dderbynnir.

Yn ystod y flwyddyn hon gwelwyd gostyngiad o 31% yn nifer y digwyddiadau Rheoli Gwybodaeth a adroddwyd gan staff o'r flwyddyn flaenorol.

Cafwyd 6 cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) gan achwynwyr, gyda 5 heb eu cadarnhau ac un yn aros am ganlyniad terfynol.

Yn 2022/23, nid oedd unrhyw achosion difrifol o ran diogelwch data a adroddwyd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gan y Bwrdd Iechyd, ac eithrio digwyddiad yn ymwneud ag ymosodiad seiber ar system Adastra. Cafodd y digwyddiad hwn ei adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gan bob Bwrdd Iechyd, ond ni chafodd unrhyw ddata sy'n ymwneud â chleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ei beryglu.

## Y Cod Llywodraethiant Corfforaethol

Y Cod Llywodraethiant Corfforaethol sy'n berthnasol i gyrff y GIG ar hyn o bryd yw 'Llywodraethiant corfforaethol mewn adrannau'r llywodraeth ganolog: cod ymarfer da' (cyhoeddwyd 21 Ebrill 2017). Nid yw'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd, fel sefydliadau eraill GIG Cymru, gydymffurfio â holl elfennau'r Cod, fodd bynnag, mae prif egwyddorion y Cod yn berthnasol i bob corff yn y sector cyhoeddus. Mae'r cod Llywodraethiant Corfforaethol yn cael ei adlewyrchu mewn polisïau a gweithdrefnau allweddol. Ar ben hynny, yn ein system rheolaeth fewnol, mae amrywiaeth o fecanweithiau ar waith sydd wedi'u dylunio i fonitro ein cydymffurfiad â'r Cod. Mae'r rhain yn cynnwys Hunanasesiad; Archwilio Mewnol ac Allanol; ac Adolygiadau Annibynnol.

Mae'r Bwrdd yn glir ei fod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod a'i fod yn cynnal ei fusnes yn agored ac yn unol â'r Cod, ac nad oedd unrhyw wyro oddi wrth y Cod fel y mae'n berthnasol i gyrff y GIG yng Nghymru. Darperir copi o'r hunanasesiad presennol yn erbyn y cod fel **Atodiad Tri.**

## TREFNIADAU CYNLLUNIO

Mae Deddf Cyllid GIG Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i'w cymeradwyo.

Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2022, cymeradwyodd y Bwrdd ei Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2022-25 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Roedd Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 y Bwrdd Iechyd yn ddilyniant naturiol o Gynllun Blynyddol 2021/22, gan adeiladu ar y dull cwrs bywyd, tra'n cydnabod bod y cyd-destun y bu'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ynddo yn wahanol i'r un a gydnabuwyd yn 2020/21. Mae hyn yn golygu canolbwyntio o'r newydd ar adferiad cynaliadwy, sy'n cael ei nodweddu gan newid sylfaenol sy'n cwmpasu rôl ehangach Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ran lleihau anghydraddoldebau iechyd, darparu'r economi sylfaenol, a diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol gydag uchelgais Sero Net 2030.

Ar 22 Gorffennaf 2022, cafodd y Bwrdd Iechyd gadarnhad ysgrifenedig bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 2022-25.

Ar 28 Tachwedd 2022, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer cylch cynllunio 2023/2024– 2025/2026.

Cafodd Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023/26 y Bwrdd Iechyd, ynghyd â thempledi ac atodiadau ategol, eu cymeradwyo gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 29 Mawrth 2023. Roedd y cyflwyniad yn cydnabod yr heriau a'r risgiau sylweddol wrth symud ymlaen a'r cyd-destun ariannol yr ydym yn gweithredu ynddo i gyflawni'r cynllun. Mae'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn flaenllaw yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, ochr yn ochr â'r angen i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol.

Roedd y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnal ffocws tair blynedd o ystyried y pwyslais ar gynaliadwyedd tymor hir, ond gyda mwy o fanylion am gyflawni blwyddyn un (2023/24) o ystyried maint yr her a disgwyliadau'r gweinidogion.

Ar ôl ei gyflwyno, cafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 21 Ebrill 2023, gan nodi nad oedd Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, ac nad oedd ychwaith yn cyflawni'r holl ofynion fel y nodir yn y Blaenoriaethau Gweinidogol. O ganlyniad, nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu cyflwyno'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a gyflwynwyd ar gyfer y broses "adolygiad cyfunol" fewnol lawn.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Bwrdd Iechyd ymgymryd â rhagor o waith yn nodi gwelliant yn y sefyllfa o ran cyflawni blaenoriaethau Gweinidogol, a gwelliant yn yr asesiad ariannol erbyn 31 Mai.

Mewn ymateb i'r adborth, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd waith manwl i brofi cyfleoedd i wneud gwelliannau i ymrwymiadau cyflawni.

Ystyriodd y Bwrdd Iechyd mai'r cynllun ariannol a'r rhagolwg yw'r asesiad mwyaf priodol ar sail y wybodaeth bresennol sydd ar gael gan gydnabod yr uchelgais a'r ystyriaeth o risg o ran cyflawni.

Ail-gyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Gynllun Tymor Canolig Integredig i Lywodraeth Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei gymeradwyo ar 24 Mai 2023, a disgwylir y canlyniad. Felly, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2023/26.

## DATGANIADAU DATGELIAD GORFODOL

### Cynllun Pensiynau

Gallaf gadarnhau, fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i fod yn aelod o Gynllun Pensiwn y GIG, bod mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r cyflogwr yn rheoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau o gyflog, cyfraniadau cyflogwyr a thaliadau i'r Cynllun yn unol â rheolau'r Cynllun a bod cofnodion Cynllun Pensiwn yr aelodau yn cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Rheoliadau. Mae rhagor o fanylion yn y cyswllt hwn wedi'u cynnwys yn y nodyn darpariaethau yn Natganiadau Ariannol 2022/23 (Nodyn 20).

### Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ystyried pob unigolyn yn ei waith o ddydd i ddydd, wrth lunio polisïau ac wrth ddarparu gwasanaethau. Mae hyn yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Bwrdd Iechyd yn nodi ein huchelgeisiau ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant rhwng 2020 a 2024, o ran staff a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae'r strategaeth hon yn sicrhau ein bod ni, fel Bwrdd Iechyd, yn parhau i hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhopeth a wnawn, boed hynny'n ymwneud â'n staff, ein cleifion neu'r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020 – 2024 wedi cael eu hintegreiddio i Gynllun Tymor Canolig Integredig a Chynllun Pobl y Bwrdd Iechyd, gan fabwysiadu dull prif ffrydio, drwy ymgorffori Cydraddoldeb,

Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ein cynlluniau, ein prosesau, ein gwerthoedd a'n hymddygiad.

Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig yn cael ei gyhoeddi yn 2024.

Mae Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Bwrdd Iechyd yn amlinellu'r gwaith a wnaed rhwng 01 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 i gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol. Mae gennym ddyletswyddau hefyd i gyhoeddi gwybodaeth am ein gweithlu a sut rydym yn defnyddio'r data hwn ac mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y data Monitro Cydraddoldeb sy'n seiliedig ar giplun ar 31 Mawrth 2022.

Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am ein Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau bob blwyddyn. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi ymrwymo, o ganlyniad i Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru, i ddarparu adroddiad i ddisgrifio'r bwlch cyflog posibl a brofir gan staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r adroddiad hwn yn darparu asesiad sylfaenol cychwynnol, yn nodi unrhyw fylchau cyflog ac yn galluogi datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau cyflog o ran ethnigrwydd dros y blynyddoedd nesaf.

Yn ogystal â'n cylch adrodd blynyddol, mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sicrhau bod bwrdd y cyfarwyddwyr yn cael sicrwydd rheolaidd bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni ei ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED).
Yn unol ag argymhellion yr Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Ticio Blychau? Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2022, ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein proses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb bresennol i gefnogi dadansoddiad cydraddoldeb ystyrlon; gan sicrhau ein bod yn nodi lle gallai polisi, dogfen weithdrefnol, gwasanaeth, datblygiadau gwasanaeth neu newid sefydliadol gael effaith negyddol ar unigolion neu grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a bod cynlluniau gweithredu cadarn yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r effeithiau posibl hyn. Rhagwelir y bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn mis Medi 2023.

Mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r sefydliad o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol cydlynol a Pholisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi cael eu datblygu i sicrhau bod arferion gweithio ar draws y sefydliad yn cefnogi diwylliant cynhwysol sy'n croesawu gwahaniaeth. Cefnogir y rhain gan werthoedd sefydliadol ac ymddygiad arweinwyr a rheolwyr sy'n adlewyrchu pwysigrwydd EDI ac fe'u hadolygir fel mater o drefn drwy wiriadau, archwiliadau ac ymgynghori.

Mae adolygiad sylweddol o amcanion cydraddoldeb y byrddau iechyd a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae'r fframwaith polisi cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael ei gefnogi gan raglen

hyfforddi i godi ymwybyddiaeth a meithrin gallu mewn perthynas â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) ac i gefnogi staff i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Mae mesurau eraill yn cynnwys:

- Mae gan y Bwrdd Iechyd Arweinydd Gweithredol ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Sesiynau datblygu cydraddoldeb wedi'u hwyluso ar gyfer y Bwrdd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u dyletswydd i roi 'sylw dyledus' i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- Mae ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cofnodi yn y tabl llywodraethu ar holl bapurau'r Bwrdd a'r pwyllgor sy'n gofyn am benderfyniad
- Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn dangos sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a hawliau dynol a'r trefniadau ar gyfer asesu'r effaith ar gydraddoldeb (EqIA).
- Mae cyfleoedd yn cael eu nodi i ymgorffori'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol mewn mecanweithiau cynllunio a darparu gwasanaethau a'r system ar gyfer gwella
- Mae Cynllun Pobl y Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar wybodaeth am gydraddoldeb y gweithlu ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Mae Hyfforddiant Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn orfodol i'r holl staff
- Mae'r gwaith o graffu ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei atgyfnerthu eleni
- Bydd risgiau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio yn cael eu nodi a'u cynnwys yn y gofrestr risg gorfforaethol
- Mae'r Grŵp Cynghori ar Hil yn monitro cydymffurfiad â'r Cynllun Cymru Wrth-hiliol
- Mae'r Grŵp Cynghori ar LGBTQ+ yn monitro cydymffurfiad â'r Cynllun Gweithredu LGBTQ+
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i adeiladu ar y cysylltiadau presennol a sefydlu rhai newydd gyda grwpiau cymunedol a phartneriaid. Ymgysylltir yn rheolaidd â'r Fforwm Iechyd Cymunedau Amrywiol. Mae'r Fforwm hwn yn cynnwys cynrychiolaeth gan aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn materion cydraddoldeb
- Mae'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd drwy lwybr llywodraethu'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant; mae'n cael ei gyhoeddi ac yn hygyrch i'r cyhoedd

## Materion gwrth-dwyll, gwrth-lygredd a gwrth-lwgrwobrwyo.


Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi ymrwymo i leihau lefel y twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn y GIG i'r eithaf a'i gadw ar y lefel honno, gan ryddhau adnoddau cyhoeddus ar gyfer gofal gwell i gleifion.
Mae Tîm Atal Twyll y Bwrdd Iechyd yn ymgymryd â gwaith rhagweithiol/ataliol gyda'r bwriad o ddiogelu'r sefydliad rhag troseddau economaidd. Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith gwerthfawr sy'n cael ei wneud ar gael yn Adroddiad Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022/23.

## Cynlluniau Cynaliadwyedd a Lleihau Carbon

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gysoni ei weithgareddau i ategu a gwneud cynnydd tuag at yr amcanion a'r targedau a nodir yng Nghynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021. Mae'r Cynllun yn ymateb i'r datganiad argyfwng hinsawdd yn 2019 ac uchelgais Gweinidogion Cymru i sector cyhoeddus Cymru fod yn sero net erbyn 2030. Yn ystod 2022/23, sefydlodd y Bwrdd Iechyd ei Fwrdd Rhaglen Datgarboneiddio, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Chaffael. Mae pedwar gweithgor wedi'u sefydlu, ac mae gan bob is-grŵp nifer o gynlluniau cenedlaethol wedi'u neilltuo iddynt i fwrw ymlaen â hwy a datblygu prosiectau cysylltiedig Yn 2023/24, bydd y Bwrdd Iechyd yn sefydlu ei Fframwaith Datgarboneiddio mewn ymateb i'r cynllun cenedlaethol.

Yn ystod y degawd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cyson o ran lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon o'i ystâd. Gydag agor Ysbyty Athrofaol y Faenor ym mis Tachwedd 2020, mae llinell sylfaen allyriadau adeiladau newydd wedi cael ei phennu gan ddefnyddio data blwyddyn gyfan 2021/22.

Rhwng 2009/10 a 2021/22, cafodd yr allyriadau o ddefnyddio ynni mewn adeiladau eu torri 37%, sy'n cyfateb i arbediad o 14,161 tunnell o garbon. Yn naturiol, wrth agor GUH, mae allyriadau carbon y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu. Yn gadarnhaol, yn ystod 2022/23 mae arbedion effeithlonrwydd wedi cael eu rhoi ar waith ac mae arbedion carbon o 3.1% o flwyddyn i flwyddyn wedi cael eu gwireddu.




Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n cwblhau manylebau tendro ar gyfer Contract Perfformiad Ynni ReFit Cymru. Mae hwn yn fframwaith wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru lle bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â darparwr gwasanaeth i ddylunio a gweithredu prosiectau datgarboneiddio ar raddfa fawr ar draws yr ystâd dros y blynyddoedd nesaf; gyda phwyslais ar dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel. Lle mae'r

darparwr gwasanaeth yn gwarantu arbedion refeniw ynni yn ariannol fel rhan o'r contract.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio tuag at gyflwyno dulliau mwy cynaliadwy ac effeithlon o ran adnoddau o brosesu gwastraff a gynhyrchir o weithgareddau gofal iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi gweithredu dull dim gwastraff i safleoedd tirlenwi, ar y cyd â chontractwyr allanol. Mae gwastraff yn mynd yn awr i weithfeydd ynni-o-wastraff i gynhyrchu trydan cynaliadwy.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu System Reoli Amgylcheddol (EMS) wedi'i hardystio gan drydydd parti i safon ryngwladol ISO 14001:2015. Mae'r System Reoli Amgylcheddol wedi cael ei datblygu i fod yn ganolbwynt ar gyfer bwrw ymlaen â gwelliannau amgylcheddol a chynaliadwyedd parhaus. Mae'n darparu dull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer rheoli cynlluniau lleihau gwastraff, ailgylchu, rheoli ynni a charbon, caffael cynaliadwy a chynlluniau teithio cynaliadwy. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi pwys mawr ar ardystiad ISO14001:2015 parhaus a'r sicrwydd y mae'n ei roi i'r Bwrdd ac i'n rhanddeiliaid.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n ceisio gwella cydnerthedd a bioamrywiaeth ar draws ystâd y Bwrdd Iechyd. I'r perwyl hwn, mae nifer o fentrau lleol ar waith gan gynnwys plannu blodau gwyllt ar y cyd â gosodiadau celf allanol yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, llwyddiant parhaus a datblygiad yr Ardd Furiog ym Maenor Llanfrechfa gan y sefydliad elusennol 'Cyfeillion Gardd Furiog Maenor Llanfrechfa'.

Mae astudiaethau bioamrywiaeth wedi cael eu cwblhau ar 5 o safleoedd y Bwrdd Iechyd ar ôl sicrhau cyllid gan y rhaglen genedlaethol argyfwng hinsawdd iechyd a gofal cymdeithasol yn 2022/23. Bydd yr astudiaethau hyn yn cael eu defnyddio i lywio cyfleoedd bioamrywiaeth i'r dyfodol ar y safleoedd penodol hyn.

Sicrhawyd yr ail ffrwd gyllido gan HSCCENP fel y nodwyd uchod ar gyfer Cymrawd Clinigol mewn Cynaliadwyedd i gyflawni prosiect dileu nwy Desflurane ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a chafodd ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2022. BIP Aneurin Bevan oedd y Bwrdd Iechyd cyntaf i dynnu'r nwy hwn yn llwyr o'i weithrediadau

Mae rhagor o waith ar y gweill i gefnogi'r broses carthu Ocsid Nitraidd yn ystod chwarter 1 a 2 2023.

Mae Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu cadarnhau ei fod yn cydymffurfio â'r datganiad canlynol:

*Mae’r sefydliad wedi cynnal asesiadau risg ac mae Cynlluniau Cyflawni Lleihau Carbon ar waith yn unol â gofynion parodrwydd argyfwng a pharatoadau sifil fel sy’n seiliedig ar amcanestyniadau tywydd UKCIP 2009 i sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaeth y sefydliad o dan y Ddeddf newid hinsawdd a’r gofynion Adrodd ar Addasu.*

Mae’r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno Cynlluniau Parhad drwy fframweithiau adrodd arferol.  Mae ymrwymiad i edrych ar hyn yn 2023/24, ac mae angen gwneud mwy o waith yn genedlaethol i gefnogi hyn.

## Ansawdd y Data

Mae’r Bwrdd Iechyd yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ansawdd a chadernid ei ddata ac mae ganddo archwiliadau rheolaidd ar waith i sicrhau cywirdeb y wybodaeth y dibynnir arni. Fodd bynnag, cydnabyddir bod nifer y systemau a’r data sy’n cael eu mewnbynnu ar draws y sefydliad yn golygu bod potensial bob amser am amrywiadau mewn ansawdd, ac felly bod lle i wella bob amser. Mae gennym ddull parhaus o wella ansawdd data sy’n asesu ansawdd ein data yn rheolaidd ar draws systemau clinigol allweddol. Mae data o ansawdd da sydd wedi’i godio’n glinigol yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o reoli ysbytai a gwasanaethau. Mae data codedig yn sail i lawer o’r wybodaeth reoli a ddefnyddir o ddydd i ddydd yn y GIG ac fe’i defnyddir i gefnogi cynllunio gofal iechyd, dyrannu adnoddau, dadansoddi costau, asesu effeithiolrwydd triniaethau a gall fod yn fan cychwyn amhrisiadwy ar gyfer llawer o archwiliadau clinigol.

Mae’r Bwrdd yn dibynnu ar sicrwydd annibynnol a gwrthrychol, fel y rhai a ddarperir gan archwilwyr ac arolygwyr, i roi sylwadau ar effeithiolrwydd system sicrwydd y Bwrdd. Mae’r system sicrwydd hon yn cynnwys adrodd ar berfformiad ariannol, perfformiad gweithredol ac ansawdd a chanlyniadau cysylltiedig.

## Cyfarwyddiadau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru

Yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Offerynnau Anstatudol ac wedi ailgyflwyno Cylchlythyrau Iechyd Cymru (WHC) yn 2014/15. Mae manylion y rhain a chofnod o unrhyw gyfarwyddiadau gweinidogol a roddir ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae **Atodiad 2** yn cynnwys manylion llawn y Cylchlythyrau a’r Cyfarwyddiadau Gweinidogol a roddwyd i’r Bwrdd Iechyd yn 2022/23 a chamau ymateb y Bwrdd Iechyd.

Cyhoeddwyd un Cyfarwyddyd Gweinidogol ym mis Rhagfyr 2019, i fynd i’r afael â’r heriau gweithredol sy’n codi o ganlyniad i drefniadau treth pensiwn. Mae rhagor o fanylion yn y cyswllt hwn wedi’u cynnwys mewn darpariaethau yn Natganiadau Ariannol 2022/23 (Nodyn 20).

# ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Fel Swyddog Atebol, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o’r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar waith yr archwilwyr mewnol, a’r swyddogion gweithredol yn y sefydliad

sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu dull strwythuredig o reoli risg, lle mae risgiau'n cael eu nodi, eu hasesu a'u rheoli, ac os yw'n briodol, yn cael eu huwchgyfeirio neu eu hisgyfeirio drwy fecanweithiau llywodraethu'r sefydliad.

Yn ystod 2022/23, roedd Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o fonitro effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a'r broses ar gyfer rheoli risg. Bydd gwaith yn parhau yn 2023/24 i gryfhau'r broses o adrodd ar risgiau i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau. Bydd cymeradwyo Strategaeth Ansawdd y Bwrdd ym mis Mawrth 2023, a datblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn barhaus, yn sicrhau bod gwaith yr holl reoleiddwyr, arolygwyr a chyrff sicrwydd yn cael ei fapio a'i ddangos yn ein fframwaith sicrwydd fel bod y Bwrdd yn gwbl ymwybodol o'r gweithgarwch hwn a lefel y sicrwydd y mae'n ei ddarparu. Byddwn hefyd yn parhau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gynnydd wrth weithredu argymhellion sy'n deillio o waith archwilwyr.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn defnyddio adroddiadau gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Cronfa Risg Cymru ac arolygiaethau a chyrff rheoleiddio eraill i lywio'r dulliau llywodraethu a sicrwydd a sefydlwyd gan y sefydliad. Mae mecanwaith tracio ar gyfer yr argymhellion hyn ar waith hefyd ac mae'r cynnydd o ran cyflawni'r argymhellion hyn yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion drwy ddiweddariadau mewn perthynas ag Arolygiadau.

## ARCHWILIO MEWNOL

Mae archwilio mewnol yn darparu llif o sicrwydd i'r Prif Weithredwr/Swyddog Atebol a'r Bwrdd, drwy'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ynghylch y system rheolaeth fewnol. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio sydd wedi cael ei chyflawni yn unol â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunir ar gwmpas y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn un o swyddogaethau'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg ac mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch i wella'n barhaus.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon bod digon o sylw wedi bod i'r archwiliad mewnol yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn rhoi Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth ffurfio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio

Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd adroddiadau Archwilio Mewnol yn unol â'r rhaglen y cytunwyd arni ar gyfer 2021-22 a 2022-23, gan gynnwys yr ymateb rheolwyr gan y Cyfarwyddwr Gweithredol perthnasol.

Adroddwyd ar gyfanswm o 34 o adolygiadau wedi'u graddio â sicrwydd a 7 adroddiad cynghori i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd drwy gydol 2022/2. O'r 41 a dderbyniwyd, roedd 16 wedi dod o Gynllun Archwilio 2021/22. Mae'r rhain wedi'u nodi yn yr adrannau sgoriau sicrwydd.

Ar ddiwedd mis Mai, mae'r Pwyllgor yn dal i dderbyn yr adroddiadau terfynol canlynol o Gynllun Archwilio Mewnol 2022-23. Disgwylir i'r rhain ddod i law yn ystod chwarteri 1 a 2 blwyddyn ariannol 2023-24.

- Gweithio i Wella
- Adolygiad o Staff Swyddfa Banc a Staff Dros Dro

Mae'r adrannau sicrwydd sy'n dilyn yn rhoi crynodeb byr o gwmpas yr Adolygiadau Archwilio Mewnol sydd wedi cael eu cwblhau a'u derbyn gan y Pwyllgor yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23.

## Sicrwydd Sylweddol

Yn y meysydd adolygu canlynol, dywedwyd y gallai'r Bwrdd gael **sicrwydd sylweddol** bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn cael eu dylunio a'u cymhwyso'n effeithiol.

Roedd yr ychydig faterion yr oedd angen rhoi sylw iddynt yn ymwneud â chydymffurfio neu ymgynghori, gydag effaith isel ar amlygiad i risg weddilliol.

**Ysbyty Athrofaol y Faenor (2021-22)**
**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Digidol a TG**
Roedd yr adolygiad yn ceisio rhoi sicrwydd ynghylch Sicrhau Ansawdd, gan ganolbwyntio ar asesiad o ddarpariaeth Ysbyty Athrofaol y Faenor gan adeiladu yn erbyn yr amcanion achos busnes allweddol.

**Ysbyty Athrofaol y Faenor: Sicrwydd Ariannol (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol - Prif Weithredwr**
Yr amcan cyffredinol oedd penderfynu pa mor ddigonol oedd y wybodaeth a ddarparwyd i gefnogi costau diffiniedig Cam 4 (adeiladu) a hawliwyd gan Bartner y Gadwyn Gyflenwi (drwy brofi'r cyfrif yn ddetholus)

**Gwireddu Buddion Digidol (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol - Prif Weithredwr**

Roedd yr adolygiad yn ceisio ystyried a oes gan y sefydliad fframwaith a phroses briodol i sicrhau bod buddsoddiad mewn atebion digidol yn arwain at fanteision.

**Sicrwydd Rhesymol**

Yn y meysydd adolygu canlynol, dywedwyd y gallai'r Bwrdd gael **sicrwydd rhesymol** bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn cael eu dylunio a'u cymhwyso'n effeithiol.

Roedd rhai materion angen sylw rheolwyr naill ai o ran dylunio rheolaeth neu gydymffurfio gweithredol ac roedd y rhain yn cael effaith isel i ganolig ar amlygiad i risg weddilliol nes iddynt gael eu datrys.

**Rheoli Codymau (2021-22)**
**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd**
Roedd yr adolygiad yn ceisio rhoi sicrwydd bod y Polisi Codymau ar gyfer Cleifion Mewnol mewn Ysbytai yn cael ei ddilyn gan staff a'i fonitro'n briodol.

**Brechiad rhag y ffliw (2021-22)**
**Arweinydd Gweithredol - Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau Strategol**
Roedd yr adolygiad yn ceisio rhoi sicrwydd bod y rhaglen brechu rhag y ffliw sydd ar waith ar gyfer staff, a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y rhaglen gymunedol, yn gweithio'n effeithlon i ddarparu'r amddiffyniad gorau posibl yn ystod yr ymgyrch ffliw tymhorol.

**Rheoli Risg (2021-22)**
**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol**
Roedd yr adolygiad yn ceisio rhoi barn ar effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg sydd ar waith yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod amcanion strategol yn cael eu cyflawni.

**Cyfleusterau - Gofal ar ôl Marwolaeth (2021-22)**
**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Gweithrediadau**
Roedd yr adolygiad yn ceisio rhoi sicrwydd ynghylch y gwasanaeth gofal ar ôl marwolaeth yn yr adran Cyfleusterau, a ddechreuodd weithredu yn ystod mis Ionawr 2021.

**Canolfan Llif (2021-22)**
**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Gweithrediadau**
Roedd yr adolygiad yn ceisio asesu'r prosesau yn Nhîm y Ganolfan Llif ar gyfer sicrhau bod cleifion yn cael gofal yn y lle iawn, ar yr adeg iawn, gan sicrhau cydlyniant lleol gyda phartneriaid eraill; a darparu un pwynt cyswllt ar gyfer trosglwyddo cleifion i safleoedd ysbytai a rhyngddynt.

**Llywodraethiant Corfforaethol (2021-22)**
**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol**

Roedd yr adolygiad yn ceisio gwerthuso proses Fframwaith Sicrwydd Risg a Bwrdd (B&RAF) a threfniadau ategol sydd wedi'u gwreiddio yn strwythur llywodraethu'r Bwrdd Iechyd.

**Ailddechrau Gwasanaethau'n Weithredol (2021-22)**
**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Gweithrediadau**
Roedd yr adolygiad yn ceisio gwerthuso digonolrwydd y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith ar gyfer ailddechrau gwasanaethau'n weithredol.

**Cynaliadwyedd Ariannol (2021-22)**
**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Cyllid, Caffael a Gwerth**
Roedd yr adolygiad yn ceisio gwerthuso'r rheolaethau rheoli ariannol allweddol yn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys datblygu a monitro'r arbedion sydd eu hangen ar gyfer cynaliadwyedd ariannol.

**Rheoli Meddyginiaethau (2021-22)**
**Arweinydd Gweithredol - Cyfarwyddwr Meddygol**
Roedd yr adolygiad yn ceisio rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd bod trefniadau digonol ar waith ar gyfer rheoli, gweinyddu a storio cyffuriau a reolir.

**Cyfarwyddeb NIS (Diogelwch Seiber) (2021-22)**
**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG**
Roedd yr archwiliad yn ceisio adolygu'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer gweithredu Cyfarwyddeb NIS (Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth) yn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y Fframwaith Seiberasesu, cynllun gwella a llywodraethiant cyffredinol.

**Rheoli Gwastraff (2021-22)**
**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Gweithrediadau**
Roedd yr adolygiad yn ceisio asesu cydymffurfiad y Bwrdd Iechyd â deddfwriaeth a chanllawiau rheoli gwastraff perthnasol, a chynnydd tuag at dargedau lleihau gwastraff cenedlaethol a lleol y cytunwyd arnynt.

**Gwasanaeth Nyrsio Cymunedol i Blant – Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc (2022-23)**

**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Gweithrediadau**
Roedd yr adolygiad yn ceisio asesu cadernid trefniadau llywodraethu Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc yng Ngwasanaeth Nyrsio Cymunedol Plant y Bwrdd Iechyd (y CCNS, sy'n rhan o'r Adran Teulu a Therapïau). Gan ganolbwyntio ar fecanweithiau ar gyfer sicrhau ansawdd a diogelwch y ddarpariaeth Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc.

**Y Broses Gwerthuso Swyddi (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol - Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol**
Roedd yr adolygiad yn ceisio rhoi sicrwydd bod y broses Gwerthuso Swyddi yn bodloni gofynion Llawlyfr Gwerthuso Swyddi'r GIG a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol gan y Bwrdd Iechyd.

Roedd hefyd yn ceisio rhoi sicrwydd bod yr holl swyddi sy'n cael eu bandio drwy'r broses gwerthuso swyddi yn cael eu gwneud mewn ffordd deg a chyson i sicrhau cydraddoldeb i bob aelod o staff.

**Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth (NCN) (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl**
Rhoi barn ar effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i wella mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol drwy'r NCNs.

**Cynlluniau Archwilio Integredig – Gwasanaethau Gofal y Fron YYF (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol: Cyfarwyddwr Gweithrediadau**
Ceisiodd yr archwiliad adolygu'r trefniadau rheoli sydd ar waith i symud Uned y Fron Unedig Ysbyty Ystrad Fawr yn ei blaen.

**Cynlluniau Archwilio Integredig – Dwyrain Casnewydd (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol: – Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl**
Cynhaliwyd yr archwiliad i adolygu'r trefniadau cyflenwi a rheoli sydd ar waith i symud prosiect Canolfan Iechyd a Lles Dwyrain Casnewydd yn ei flaen, a'r perfformiad hyd yma yn erbyn ei amcanion cyflawni allweddol h.y. amser, cost ac ansawdd.

**Rheoli Risg (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol: Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol**
Ceisiodd yr adolygiad roi barn ar effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg sydd ar waith o fewn sampl o Is-adrannau. Er mwyn pennu effeithiolrwydd, ystyriwyd adrannau allweddol y Fframwaith (y 'Fframwaith') a'r Strategaeth Rheoli Risg.

**Cynaliadwyedd Ariannol (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol: Cyfarwyddwr Cyllid, Caffael a Gwerth**
Cynhaliwyd yr archwiliad i adolygu'r rheolaethau rheoli ariannol allweddol yn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys datblygu a monitro'r rhaglenni arbedion sydd eu hangen ar gyfer cynaliadwyedd ariannol.

**Cynlluniau Gweithredu Monitro (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol: Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol**
Nod yr archwiliad oedd adolygu'r trefniadau sydd ar waith yn y Bwrdd Iechyd ar gyfer cofnodi, tracio a rhoi camau gweithredu ar waith sy'n deillio o arolygiaethau allanol (yn benodol Arolygiaeth Iechyd Cymru (HIW) a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch HSE)).

**Rheoli Awtomeiddio Prosesau Robotig (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol: Y Prif Weithredwr**
Pwrpas yr adolygiad oedd sicrhau bod gan y sefydliad broses briodol ar waith i ddatblygu'r swyddogaeth Awtomeiddio Prosesau Robotig (RPA) yn ddiogel.

**Strategaeth TG (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol: Y Prif Weithredwr**
Pwrpas yr adolygiad oedd sicrhau bod y sefydliad wedi datblygu model gweithredu targed priodol er mwyn gallu cyflawni'r Strategaeth Ddigidol.

**Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc (2021-22)**
**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Nyrsio**
Pwrpas yr adolygiad oedd sicrhau bod gan yr Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu drefniadau comisiynu cadarn ar waith, gyda ffocws ar ansawdd a diogelwch ar gyfer comisiynu Gofal Iechyd Parhaus (CHC) a gofal Adran 117.

**Datblygu Canolfan Radiotherapi Lloeren Ranbarthol yn Ysbyty Nevill Hall (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol: Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Phartneriaethau**
Roedd yr archwiliad yn ceisio adolygu'r trefniadau cyflenwi a rheoli sydd ar waith i symud ymlaen â'r gwaith o ddatblygu Canolfan Lloeren Radiotherapi Ranbarthol yn Ysbyty Nevill Hall, a'r perfformiad hyd yma yn erbyn ei amcanion cyflawni allweddol.

**Datblygu Canolfan Radiotherapi Lloeren Ranbarthol yn Ysbyty Nevill Hall**
**Arweinydd Gweithredol: Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Phartneriaethau**
Roedd yr archwiliad yn ceisio adolygu'r trefniadau cyflenwi a rheoli sydd ar waith i symud ymlaen â'r gwaith o ddatblygu Canolfan Lloeren Radiotherapi Ranbarthol yn Ysbyty Nevill Hall, a'r perfformiad hyd yma yn erbyn ei amcanion cyflawni allweddol.

**Trawsnewid Iechyd Meddwl (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol: Y Prif Swyddog Gweithredu**
Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i adolygu'r rheolaethau sydd ar waith ar gyfer y prosiectau sy'n cefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl yn y Bwrdd Iechyd.

**Gwasanaethau Dementia (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol: Cyfarwyddwr Nyrsio**
Roedd yr archwiliad hwn yn edrych ar y gwasanaethau dementia a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd, ar draws sampl o wardiau.

**Atal a Rheoli Heintiau (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol: Cyfarwyddwr Nyrsio**
Roedd yr archwiliad yn asesu lefel y cydymffurfiad â pholisïau a gweithdrefnau allweddol drwy sampl o wardiau, o ran rheoli heintiau.

**Rhwydweithiau Llesiant Integredig (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol: Y Prif Swyddog Gweithredu**
Roedd yr archwiliad yn ceisio adolygu'r trefniadau sydd ar waith i wella a chryfhau lles yn y gymuned drwy ddefnyddio asedau cymunedol presennol

**Rheoli Contractau (2022-23)**

**Arweinydd Gweithredol: Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Cyllid a Chaffael**

Roedd yr archwiliad hwn yn archwilio rheolaeth weithredol sampl o gontractau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo iddynt. I ddechrau, cafodd tri chontract eu samplu, ond cafodd hyn ei ymestyn i bum contract, er mwyn asesu ymhellach sut mae prosesau'n cael eu gwreiddio yn y Bwrdd Iechyd.

**Sicrwydd Cyfyngedig**

Yn y meysydd adolygu canlynol, nodwyd mai **dim ond sicrwydd cyfyngedig** y gallai'r Bwrdd ei gael bod trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, yn cael eu dylunio a'u cymhwyso'n effeithiol.

Roedd angen rhoi sylw rheoli i faterion mwy sylweddol, gydag effaith gymedrol ar amlygiad i risgiau gweddilliol nes iddynt gael eu datrys.

Mae ymateb y Rheolwyr a'r cynllun gweithredu i ymateb i'r materion a'r gwendidau a nodwyd, sy'n rhan o'r adroddiadau terfynol, yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Mae'r Pwyllgor yn monitro cynnydd yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt drwy'r Adnodd Tracio Argymhellion Archwiliad.

Yn ogystal â'r holl adroddiadau sicrwydd cyfyngedig, mae arweinwyr gweithredol yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i roi sicrwydd ar y camau gweithredu a nodwyd.

**Archwiliad Clinigol (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol - Cyfarwyddwr Meddygol**
Cynhaliwyd yr archwiliad i adolygu'r broses ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol, gan gynnwys sut mae'r Bwrdd Iechyd yn eu defnyddio i gefnogi sicrwydd.

Nodwyd yr argymhellion canlynol:

- Dylid gweithredu Strategaeth Archwilio Clinigol yn llawn, ac mae'r drafft sydd ar gael angen adolygiad sylweddol.
- Nid oes cynllun archwilio clinigol lleol. Felly, ni all y Bwrdd Iechyd gynllunio'n effeithiol i gwblhau archwiliadau mewn meysydd sydd â'r risg fwyaf. Efallai na fydd archwiliadau y dylid eu cwblhau yn cael eu nodi, gan arwain at risgiau clinigol ychwanegol.
- Mae'r gwaith o olrhain / monitro'r camau gweithredu a godwyd a chyflawni archwiliadau clinigol yn gyfyngedig.

Cymeradwywyd Strategaeth Archwilio Clinigol gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion ym mis Awst 2022, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu'r strategaeth archwilio clinigol a diweddaru polisi'r Bwrdd Iechyd ar archwilio clinigol.

Mae strwythur cadarn bellach ar waith sy'n sail i adrodd ar Archwilio Clinigol, gydag Arweinyddiaeth Weithredol yn cael ei dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Meddygol. Darperir sicrwydd drwy adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion, gan graffu ar berfformiad yr Archwiliad Clinigol Cenedlaethol gyda chynlluniau gwella'n cael eu datblygu a'u monitro'n gadarn. Bydd y Cynllun Archwilio Clinigol yn cael ei fonitro gan CSEG, i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ar draws y Bwrdd Iechyd a bod y cynllun yn cael ei gyflawni'n effeithiol. Bydd camau gweithredu a chanfyddiadau archwiliadau clinigol cenedlaethol a lleol yn cael eu monitro gan y Grŵp hwn a byddant yn cael eu defnyddio i lywio cynlluniau yn y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol.

Bydd gweithio ochr yn ochr â Risg a Llywodraethiant yn sicrhau bod y strwythurau llywodraethu a'r trefniadau priodol ar waith ar gyfer Archwilio Clinigol. Bydd datblygu Strategaeth Rheoli Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn mynd i'r afael â sut mae risgiau Archwilio Clinigol yn cael eu huwchgyfeirio. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd gan bob is-adran / cyfarwyddiaeth berthnasol. Mae hyn yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r Strategaeth Ansawdd a bydd yn cael ei gwblhau yn y chwe mis nesaf.

**Llywodraethiant Corfforaethol (Rheoli Polisïau) (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol**
Cynhaliwyd yr archwiliad i adolygu'r broses ar gyfer rheoli polisïau ar draws y Bwrdd Iechyd.

Daeth yr Archwiliad i'r casgliad, yn gyffredinol, fod fframwaith a dogfen ganllaw briodol a chyfredol ar gyfer rheoli polisïau ar waith. Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o bolisïau a dogfennau eraill yn hwyr ar gyfer eu hadolygu (316 o 881 o bolisïau, 36%).

Mae cynllun gwella 12 mis trosfwaol ar waith, sy'n canolbwyntio ar y fframwaith polisi, y systemau rheoli, a'r gronfa ddata ganolog.

**Defnyddio Asiantaethau heb gontract (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Nyrsio**
Asesu a yw prosesau asiantaethau heb gontract yn cael eu dilyn, a bod gwariant cysylltiedig yn cael ei fonitro'n briodol.

Nododd yr archwiliad wendidau o ran dyluniad rheoli yn y prosesau sydd ar waith i leihau'r defnydd o asiantaethau heb gontract, ac wrth brofi sampl sylweddol o shifftiau a lenwir gan nyrsys asiantaeth heb gontract, canfu achosion o arferion nad ydynt yn gydnaws â chyflawni'r amcan hwn.

Dadansoddodd yr archwilwyr hefyd amseroldeb y camau gweithredu a nodwyd yn y broses a oedd yn cael ei chwblhau e.e. cwblhau sampl o restrau. Mae'r materion sydd angen sylw'r rheolwyr yn cynnwys: • Mynd i'r afael â pholisïau/gweithdrefnau sy'n dod i ben; • Diffyg tystiolaeth bod yr holl opsiynau eraill o ran adnoddau wedi cael eu disbyddu cyn cymeradwyo defnyddio asiantaethau heb gontract; • Sefydlu safon llinell amser uwchgyfeirio shifftiau o'r dechrau i'r diwedd; a • Mynd i'r afael ag anghysondebau yn y broses ynghylch banc ac asiantaethau

Roedd protocol newydd wedi'i roi ar waith yn fuan ar ôl i'r archwiliad ddod i ben, a oedd wedi arwain at ostyngiad yn y defnydd o asiantaethau heb gontract.

Mae'r defnydd o asiantaethau heb gontract wedi lleihau o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys rheolau archebu newydd ar gyfer asiantaethau, y rhaglen lleihau cyflog newidiol a digwyddiadau recriwtio dilynol.

Er mwyn parhau i leihau'r defnydd o asiantaethau heb gontract, mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio a nyrsys adrannol wedi cytuno i weithio tuag at ddileu defnyddio asiantaeth heb gontract, gan ddechrau ar 01 Mawrth 2023, gyda thargedau a phrosesau uwchgyfeirio y cytunwyd arnynt ar waith.

**Rheoli Cofnodion (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol - Prif Swyddog Gweithredu**
Roedd yr adolygiad yn ceisio rhoi sicrwydd bod gan y Bwrdd Iechyd broses briodol ar gyfer rheoli cofnodion sy'n sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth.

Yn gyffredinol, cododd yr archwiliad faterion ynghylch storio a diogelwch cofnodion mewn rhai safleoedd; y gallu cyfyngedig i olrhain cofnodion penodol, pryderon ynghylch arferion rheoli cofnodion ar rai wardiau a'r oedi o ran argaeledd cofnodion.

Mae cynllun gweithredu ar waith i ymateb i'r argymhellion ac roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran storio cofnodion papur a'r prosiect digideiddio. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan oedd yr unig Fwrdd Iechyd a oedd

wedi digideiddio 0.5 miliwn o gofnodion. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen gwneud rhagor o waith i wella'r gwaith o reoli cofnodion ar draws y Bwrdd Iechyd.

**Cynllunio ar gyfer Rhyddhau (2022/23)**
**Arweinydd Gweithredol: – Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl**
Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i roi barn ar broses cynllunio rhyddhau'r Bwrdd Iechyd. Mae wedi canolbwyntio ar reoli a chyflawni rhyddhau wedi'i gynllunio ac mae wedi cynnwys profi samplau o gleifion a gafodd eu derbyn yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2022.

Canfu'r adolygiad nad oedd arferion cynllunio ar gyfer rhyddhau yn cael eu cefnogi gan y Polisi Rhyddhau sydd wedi dyddio, nid oedd rhaglen archwilio ac adrodd ar gydymffurfio. Ar ben hynny, nid oedd digon o dystiolaeth i gefnogi'r broses ryddhau, ar sail canlyniadau'r profion sampl.

Yn ogystal, nododd yr Archwilwyr Mewnol sylwadau ar y dull llwybrau syml a chymhleth, y defnydd o restrau gwirio, a gwelliant yn yr adroddiadau, y dadansoddiadau a'r camau gweithredu i fynd i'r afael ag aildderbyniadau y gellir eu hosgoi.

Mae Cynllun Gweithredu ar waith i roi sylw i'r argymhellion. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio wedi cael ei nodi fel yr arweinydd gweithredol ar gyfer rhyddhau ac mae Bwrdd y Rhaglen Rhyddhau nawr yn rhan o'r Rhaglen Chwe Nod.

Mae cydweithio â chydweithwyr mewn awdurdodau lleol wedi cael ei sefydlu i ganiatáu i'r Bwrdd Iechyd ddechrau adrodd yn ffurfiol ar set ddata newydd Llywodraeth Cymru a oedd yn ofynnol mewn perthynas ag oedi cyn rhyddhau; fodd bynnag, roedd angen dilysu'r data gyda chydweithwyr yn yr ALl.

Mae dau gynllun peilot wedi cael eu cynnal, un yn Ysbyty Brenhinol Gwent, ar y cyd â Gwasanaethau Cymdeithasol Casnewydd a Sir Fynwy, sy'n canolbwyntio ar ddychwelyd cleifion i'r gymuned, ac un arall yn Nevill Hall, gan archwilio ffyrdd gwahanol i Dimau Adnoddau Cymunedol dynnu cleifion yn ôl i'r gymuned.

**Canolfan Iechyd a Lles Tredegar (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol: – Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl**
Ceisiodd yr archwiliad adolygu'r trefniadau rheoli a llywodraethu sydd ar waith i symud Canolfan Iechyd a Lles Bevan yn ei blaen.

Roedd yr asesiad hwn yn cydnabod yn bennaf yr oedi sylweddol wrth gyflawni'r prosiect (tua 30 wythnos ar adeg yr adolygiad), a'r pwysau cost cyfredol cysylltiedig. Er mai'r rhagolwg ar y pryd oedd bod y prosiect i gael ei gwblhau £380k (2%) dros y gyllideb gymeradwy, roedd risgiau sylweddol pellach yn dal i fodoli. Ni ddarparwyd ar gyfer y rhain yn yr

amcanestyniadau costau alldro a ragwelwyd, a'r oedi cysylltiedig o ran cyflawni amcanion yr achos busnes a ragwelwyd. Wrth nodi'r un peth, cydnabuwyd nad oedd yr oedi'n cael ei briodoli ar hyn o bryd i gamau gweithredu'r Bwrdd Iechyd.

Roedd llai o sicrwydd mewn meysydd eraill, yn enwedig arfogi, oherwydd diffyg cydymffurfio â Rheolau Sefydlog / Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd a therfynau awdurdodedig dirprwyedig.

Mae cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion yn cael ei roi ar waith, gan nodi bod oedi gyda'r prosiect oherwydd dyluniad sylfeini a gwaith brics.

## Dim Sicrwydd

Nid oedd unrhyw feysydd wedi'u harchwilio a oedd yn adrodd am **ddim sicrwydd**.

## Sgôr Sicrwydd Ddim yn Berthnasol

Cynhaliwyd yr adolygiadau canlynol fel rhan o'r cynllun archwilio a chawsant eu hadrodd neu eu cau drwy ohebiaeth heb y dangosydd sgôr sicrwydd safonol, oherwydd natur y dull archwilio.

**Datix (Cefnogi Rheoli Digwyddiadau) (2021-22)**
**Arweinydd Gweithredol - Amh**
Roedd yr adolygiad yn ceisio rhoi trosolwg i'r Bwrdd Iechyd o'r profion a gwblhawyd mewn archwiliadau eraill bod sampl o ddigwyddiadau a gofnodwyd ar Datix yn cael eu rheoli'n briodol ac yn unol â'r Polisi Adrodd am Ddigwyddiadau.

**Mynd ar Drywydd Argymhellion Blaenoriaeth Uchel (2021-22)**
**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol**
Roedd yr adolygiad yn ceisio penderfynu a oedd sampl o argymhellion blaenoriaeth uchel wedi cael eu gweithredu neu eu cydnabod fel rhai heb eu cyflawni o hyd ar yr Adnodd Tracio Argymhellion Archwilio.

**Offer a Dyfeisiau Meddygol (2021-22)**
**Arweinydd Gweithredol – Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd**
Roedd yr archwiliad yn asesu'r gwaith o gynnal a chadw'r gronfa ddata offer a dyfeisiau meddygol electronig (EBME) a rheoli offer/dyfeisiau meddygol eraill a gofynion hyfforddi cysylltiedig. Roedd yr amcanion archwilio yn cyd-fynd ag archwiliad Offer Meddygol a Dyfeisiau 2017/18 (a gafodd radd 'sicrwydd cyfyngedig'), a oedd yn golygu bod modd cwblhau adolygiad lefel uchel o'r cynnydd.

**Darpariaeth Hyblyg (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol - Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol**

Roedd yr adolygiad yn ceisio asesu cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran datblygu arferion gweithio'n hyblyg a nodi arferion da.

**Datgarboneiddio (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol - Amh**
Rhoi sicrwydd i gyrff GIG Cymru perthnasol ynghylch eu trefniadau i leihau allyriadau carbon a rheoli newid yn yr hinsawdd.

**Seiberddiogelwch (2022/23)**
**Arweinydd Gweithredol - Prif Swyddog Gweithredu**
Roedd yr adolygiad yn ceisio rhoi sicrwydd bod y sefydliad yn gweithio i wella ei sefyllfa seiberddiogelwch, a bod adroddiadau priodol ar waith sy'n dangos y statws presennol.

**Mynd ar Drywydd Argymhellion Blaenoriaeth Uchel (2022-23)**
**Arweinydd Gweithredol: Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol**
Roedd yr adolygiad yn ceisio penderfynu a oedd sampl o argymhellion blaenoriaeth uchel wedi cael eu gweithredu neu eu cydnabod fel rhai heb eu cyflawni o hyd ar yr Adnodd Tracio Argymhellion Archwilio.

***Dyfodol Clinigol - Gofal yn Nes at y Cartref (2022-23)***
**Arweinydd Gweithredol: Y Prif Swyddog Gweithredu**
Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb cyfunol o waith archwilio a gwblhawyd ynghylch Dyfodol Clinigol – Gofal yn Nes at Adref, ond o fewn tri archwiliad arall sy'n cwmpasu'r un maes.

## MONITRO A RHOI ARGYMHELLION ARCHWILIO AR WAITH

Yn y cyfarfod ym mis Ebrill 2022, cafodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd Weithdrefn Gweithredu Safonol (SOP) a oedd yn amlinellu pwrpas y broses tracio argymhellion mewnol ac allanol ac yn darparu sail resymegol glir o ran sut mae hyn o fudd i'r sefydliad. Mabwysiadodd y Pwyllgor y SOP hwn ac ers mis Ebrill 2022, mae adroddiad ar argymhellion archwilio wedi cael ei gyflwyno i bob cyfarfod. Mae'r cynnydd yn parhau drwy'r Bwrdd Iechyd ac mae perthynas allweddol ag arweinwyr gwasanaeth yn datblygu er mwyn cwblhau terfynau amser estynedig neu gwblhau'r argymhellion.

Yn ystod mis Mai 2023, bydd y Pwyllgor yn cael adolygiad archwilio mewnol o fonitro a thracio argymhellion lefel uchel. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r Pwyllgor wedi cael yr adroddiad archwilio mewnol yn ffurfiol eto. Fodd bynnag, roedd canfyddiadau'r adroddiad wedi casglu bod yna lefel **resymol** o sicrwydd.

Oherwydd yr heriau parhaus ar draws y system iechyd a gofal, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gorfod cydbwyso risg ar draws y system sydd, ar adegau, wedi arwain at oedi wrth weithredu argymhellion archwilio. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd wedi ymrwymo i gynnal ffocws ar gynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilio fel blaenoriaeth yn 2023/24.

## Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23

Pwrpas barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yw cyfrannu at y sicrwydd sydd ar gael i'r Swyddog Atebol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sy'n sail i asesiad y Bwrdd ei hun o effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y sefydliad.
Mae'r farn gyffredinol yn seiliedig yn bennaf ar ganlyniad y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn archwilio 2022/23. Rydym hefyd yn ystyried gwybodaeth arall sydd ar gael i ni, fel ein gwybodaeth gyffredinol am y sefydliad, canfyddiadau darparwyr sicrwydd ac arolygwyr eraill, a'r gwaith rydym yn ei wneud mewn sefydliadau eraill yn GIG Cymru. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn ystyried canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ac yn defnyddio barn broffesiynol i lunio'r farn fwyaf priodol ar gyfer pob sefydliad.

Mae'r Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd a'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi defnyddio proses adolygu sicrwydd ansawdd yn y broses adrodd flynyddol i sicrhau bod y farn gyffredinol yn gyson â'r dystiolaeth archwilio sylfaenol.

Mae cwmpas fy marn wedi'i gyfyngu i'r meysydd hynny a archwiliwyd yn y cynllun archwilio seiliedig ar risg y cytunwyd arno gydag uwch reolwyr ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Dylid dehongli'r asesiad y Pennaeth Archwilio Mewnol yn y cyd-destun hwn wrth adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol a dylid ei ystyried yn sbardun mewnol ar gyfer gwelliant parhaus. Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad wedi'i nodi isod.

| | | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd Rhesymol** | <br>- +<br>Melyn | Gall y Bwrdd gael **sicrwydd rhesymol** bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, yn cael eu dylunio a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae rhai materion yn gofyn am sylw rheolwyr wrth ddylunio rheolaeth neu gydymffurfio, gydag effaith isel i ganolig ar amlygiad i risg weddilliol hyd nes y caiff eu datrys. |

## ARCHWILIO MEWNOL: ASESIAD STRWYTHUREDIG ARCHWILIO CYMRU

Roedd Adroddiad Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru ar gyfer 2022 yn edrych ar y trefniadau sydd gan y Bwrdd Iechyd ar waith i gefnogi llywodraethu da ar draws meysydd allweddol busnes y Bwrdd Iechyd a'r defnydd effeithlon, effeithiol ac economaidd o adnoddau. Daeth yr Adroddiad i ben gyda'r asesiad canlynol:

> *"Yn gyffredinol, er bod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei drefniadau llywodraethu, gwelsom fod lle i'w gwella ymhellach er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sylweddol y mae angen iddo fynd i'r afael â nhw yn y tymor byr a'r tymor canolig."*

Aeth yr adroddiad ymlaen i ddweud:

*"Mae trefniadau'r bwrdd a'r pwyllgor yn cryfhau, ond bydd angen eu gwella ymhellach er mwyn galluogi'r Bwrdd Iechyd i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau ariannol a pherfformiad cynyddol y mae'n eu hwynebu. Er ei bod yn ymddangos bod newidiadau diweddar i strwythurau pwyllgorau yn arwain at lwythi gwaith cytbwys, mae lle i fireinio maint a threfn agendâu a mireinio rhai papurau i sicrhau bod mwy o ffocws iddynt."*

*"Mae'r Bwrdd Iechyd yn meithrin mwy o sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth ar lefel weithredol drwy benodiadau parhaol i swyddi allweddol. Mae hefyd yn datblygu ac yn gwreiddio ei systemau sicrwydd yn briodol, yn enwedig ei fframweithiau sicrwydd, rheoli risg a chanlyniadau. Mae'r fframwaith canlyniadau yn benodol yn dechrau helpu'r Bwrdd Iechyd i fonitro'r gwaith o gyflawni amcanion strategol yn well. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i gryfhau adroddiadau perfformiad sy'n ymwneud ag effaith ei gamau gwella."*

Mae Asesiad Strwythuredig 2022, ynghyd ag ymateb y Bwrdd Iechyd, ar gael ar ein gwefan.

## Casgliad

Fel Swyddog Atebol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar sail y broses sicrwydd a amlinellir uchod, rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a'r sicrwydd perthnasol mewn perthynas â rheolaeth fewnol. Gallaf gadarnhau bod y bwrdd a'i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn effro i'w hatebolrwydd o ran rheolaeth fewnol a bod gan y Bwrdd system yn ystod y flwyddyn o ddarparu sicrwydd sy'n cyd-fynd ag amcanion corfforaethol i helpu i nodi a rheoli risg. Rwy'n falch o nodi bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, o ganlyniad i'n trefniadau rheolaeth fewnol, yn parhau i fod ar fonitro 'arferol' fel rhan o drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth GIG Cymru.

Yn ystod 2022/23, nododd y Bwrdd Iechyd yn rhagweithiol feysydd y mae angen eu gwella a gofynnodd i'r tîm Archwilio Mewnol gynnal asesiadau manwl er mwyn rheoli a lliniaru risgiau cysylltiedig. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn 2023/24 i sicrhau bod argymhellion sy'n deillio o adolygiadau archwilio yn cael eu rhoi ar waith, yn enwedig pan fydd sgôr sicrwydd gyfyngedig yn cael ei defnyddio. Bydd gwaith hefyd yn parhau yn 2023/24 i wreiddio rheoli risg a'r fframwaith sicrwydd ar lefel gorfforaethol a gweithredol. Bydd gweithredu Blaenoriaethau Llywodraethu Blynyddol y Bwrdd, a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26, yn golygu bod effeithiolrwydd y Bwrdd a'r system rheolaeth fewnol yn cael eu cryfhau ymhellach yn 2023/24.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn cadarnhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi parhau i aeddfedu fel sefydliad ac, er bod meysydd i'w cryfhau, nid oes unrhyw faterion llywodraethu na rheolaeth fewnol arwyddocaol wedi cael eu nodi. Mae'r Bwrdd a'r Tîm

Gweithredol wedi sefydlu system gadarn ac effeithiol o reolaeth fewnol sy’n darparu sicrwydd rheolaidd sy’n cyd-fynd ag amcanion strategol a risgiau strategol y sefydliad. Ar y cyd â’r Bwrdd, byddaf yn parhau i sbarduno gwelliannau a byddaf yn ceisio rhoi sicrwydd i’n dinasyddion a’n rhanddeiliaid bod y gwasanaethau a ddarparwn yn effeithlon, yn effeithiol ac yn briodol, a’u bod wedi’u cynllunio i ddiwallu anghenion a disgwyliadau cleifion.

Mae’n hysbys bod y galw ar y system iechyd a gofal yn parhau dan bwysau sylweddol, gan gynyddu anghydraddoldebau iechyd, a heriau economaidd a chostau byw parhaus. Felly, bydd angen i’r Bwrdd Iechyd fyfyrio’n barhaus ac ymateb i’r gofynion a’r heriau y mae’n eu hwynebu yn 2023/24 a thu hwnt. Byddaf yn sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu yn ystyried yr angen hwn ac yn ymateb iddo.

**Llofnodwyd:**

Nicola Prygodzicz
Nicola Prygodzicz
Prif Weithredwr
Dyddiedig: 19 Gorffennaf 2023

## DEDDF CAETHWASIAETH FODERN 2015 – TRYLOYWDER MEWN CADWYNI CYFLENWI –

Mae’r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo’n llwyr i God Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi’r gwaith o ddatblygu cadwyni cyflenwi mwy moesegol i ddarparu contractau ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a sefydliadau’r trydydd sector sy’n cael arian cyhoeddus.

Mae’r cod ymarfer yn nodi nifer o ymrwymiadau ac mae’r Gwasanaethau Caffael ar ran y Bwrdd Iechyd wedi dechrau paratoi cynllun gweithredu fel y gall fonitro cynnydd yn erbyn y rhain. Er enghraifft, mae’r Bwrdd Iechyd wedi cynnwys y gofyniad i bob cyflenwr fodloni’r Ddeddf yn Nhelerau ac Amodau contract safonol y GIG.

Hefyd, yn dilyn yr ymgynghoriad Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (2019), mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ymestyn adran 54 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 i gyrff cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr gyda chyllideb o £36m neu fwy – Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gynhyrchu datganiadau blynyddol erbyn 30 Medi ym mhob blwyddyn ariannol, sy’n rhoi manylion y camau a gymerwyd i atal caethwasiaeth fodern yn eu gweithrediadau a’u cadwyn gyflenwi. Mae datganiad drafft yn cael ei lunio gan y Gwasanaeth Caffael a Chyfreithiol/Risg yn barod ar gyfer y dyddiad cau ar 30 Medi, gan adlewyrchu’r gwaith hyd yma, unrhyw risgiau pellach a rhai sy’n dod i’r amlwg a mesurau lliniaru priodol.

Mae’r swyddogaeth gaffael yn faes allweddol ar gyfer cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi. Mae hwn yn cael ei redeg gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) sy’n cael ei gynnal gan

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith sy’n cael ei wneud ar ran y Bwrdd Iechyd gan NWSSP ar wefan y Bartneriaeth Cydwasanaethau.

**Atodiad Un**

Sefydlwyd y Bwrdd i gydymffurfio â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd a nodir yn y telerau ac amodau penodi, mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn cyflawni rolau Hyrwyddwr lle maent yn gweithredu fel llysgenhadon ar gyfer y materion hyn.

| Enw | Swydd a Maes Arbenigedd | Dyddiadau (os nad blwyddyn lawn) | Aelodaeth o Bwyllgor y Bwrdd | Presenoldeb | Rôl Hyrwyddwr |
|---|---|---|---|---|---|
| **Aelodau Annibynnol** | | | | | |
| Ann Lloyd | Cadeirydd | | Cadeirydd y Bwrdd | 7 o 7 | |
| | | | Cadeirydd, Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth | 6 o 6 | |
| | | | Cadeirydd, Pwyllgor Partneriaethau, Iechyd y Boblogaeth a Chynllunio | 3 o 3 | |
| | | | | | |
| Pippa Britton | Is-gadeirydd Dros Dro | O 18 Hydref 2021 ymlaen | Aelod o'r Bwrdd | 5 o 7 | Iechyd Meddwl |
| | | | Cadeirydd, Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion | 5 o 5 | |
| | | | Cadeirydd, Y Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl | 4 o 4 | |
| | | | Is-gadeirydd, Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth | 6 o 6 | |
| | | | | | |
| Katija Dew | Aelod Annibynnol (Trydydd Sector) | | Aelod o'r Bwrdd | 7 o 7 | Pobl Hŷn |
| | | | Aelod, Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd | 6 o 7 | |
| | | | Is-gadeirydd, Pwyllgor Partneriaethau, Iechyd y Boblogaeth a Chynllunio | 3 o 3 | |
| | | | I-gadeirydd, Y Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl | 3 o 4 | |

| Enw | Swydd a Maes Arbenigedd | Dyddiadau (os nad blwyddyn lawn) | Aelodaeth o Bwyllgor y Bwrdd | Presenoldeb | Rôl Hyrwyddwr |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cadeirydd, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol | 4 o 4 | |
| | | | | | |
| Shelley Bosson | Aelod Annibynnol (Cymunedol) | | Aelod o'r Bwrdd | 5 o 7 | Atal a rheoli heintiau |
| | | | Cadeirydd, y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (tan 1/10/22) | 4 o 4 | |
| | | | Aelod, Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (o 2/10/22) | 3 o 3 | |
| | | | Aelod, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion (tan 1/1/2) | 2 o 3 | |
| | | | Aelod, Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad | 3 o 3 | |
| | | | Aelod, Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth (tan 1/11/22) | 2 o 3 | |
| | | | | | |
| Louise Wright | Aelod Annibynnol (Undeb Llafur) | | Aelod o'r Bwrdd | 6 o 7 | Plant a Phobl Ifanc |
| | | | Is-gadeirydd, Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion | 4 o 5 | |
| | | | Cadeirydd, Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant | 3 o 3 | |
| | | | Aelod, Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth | 6 o 6 | |
| | | | Is-gadeirydd, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol | 3 o 4 | |
| | | | | | |
| Richard G Clarke | Aelod Annibynnol (Awdurdod Lleol) | | Aelod o'r Bwrdd | 5 o 7 | |
| | | | Is-gadeirydd, Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd | 6 o 7 | |
| | | | Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad | 3 o 3 | |

| Enw | Swydd a Maes Arbenigedd | Dyddiadau (os nad blwyddyn lawn) | Aelodaeth o Bwyllgor y Bwrdd | Presenoldeb | Rôl Hyrwyddwr |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Aelod, Pwyllgor Partneriaethau, Iechyd y Boblogaeth a Chynllunio | 3 o 3 | |
| | | | | | |
| Yr Athro Helen Sweetland | Aelod Annibynnol (Prifysgol) | | Aelod o'r Bwrdd | 5 o 7 | |
| | | | Aelod, Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion | 4 o 5 | |
| | | | Aelod, Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant | 1 o 3 | |
| | | | | | |
| Paul Deneen | Aelod Annibynnol (Cymunedol) | | Aelod o'r Bwrdd | 7 o 7 | Cydraddoldeb |
| | | | Aelod, Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd | 7 o 7 | |
| | | | Aelod, Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion | 5 o 5 | |
| | | | Is-gadeirydd, Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant | 3 o 3 | |
| | | | Aelod, Y Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl | 4 o 4 | |
| | | | | | |
| Iwan Jones | Aelod Annibynnol (Cyllid) | O 04/04/2022 | Aelod o'r Bwrdd | 6 o 7 | |
| | | | Cadeirydd, y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (o 1/10/22) | 3 o 3 | |
| | | | Is-gadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad | 3 o 3 | |
| | | | Aelod, Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth (o 1/11/22) | 3 o 3 | |
| | | | Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (o 1/1/2) | 2 o 2 | |

| Enw | Swydd a Maes Arbenigedd | Dyddiadau (os nad blwyddyn lawn) | Aelodaeth o Bwyllgor y Bwrdd | Presenoldeb | Rôl Hyrwyddwr |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| Dafydd Vaughan | Aelod Annibynnol (Digidol) | O 09/05/2022 | Aelod o'r Bwrdd | 5 o 7 | |
| | | | Aelod, Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant (o 1/11/22) | 1 o 1 | |
| | | | Aelod, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (o 1/1/2) | 1 o 1 | |
| | | | Aelod, Pwyllgor Partneriaethau, Iechyd y Boblogaeth a Chynllunio (o 1/11/22) | 0 o 1 | |
| **Aelodau Cyswllt** | | | | | |
| Keith Sutcliffe | Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid | Tan 30/11/2022 | Aelod Cyswllt o'r Bwrdd | 4 o 5 | Y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr |
| | | | Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (tan 1/11/22) | 0 o 2 | |
| | | | | | |

| Enw | Swydd a Maes Arbenigedd | Dyddiadau (os nad blwyddyn lawn) | Aelodaeth o Bwyllgor y Bwrdd | Presenoldeb | Rôl Hyrwyddwr |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr Gweithredol** | | | | | |
| Nicola Prygodzicz | Prif Weithredwr | O 05/09/2022 | Aelod o’r Bwrdd | 4 o 4 | |
| | | | Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (o 5/9/22) | 3 o 3 | |
| | | | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau’r Bwrdd | | |
| | | | | | |
| Nicola Prygodzicz | Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad, Digidol a TG / Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro | Tan 04/09/2022 | Aelod o’r Bwrdd | 3 o 3 | |
| | | | Mynychwr Gofynnol: Pwyllgor Partneriaethau, Iechyd y Boblogaeth a Chynllunio | | |
| | | | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau’r Bwrdd | | |
| | | | | | |
| Glyn Jones | Prif Weithredwr Dros Dro | Tan 5/9/2022 | Aelod o’r Bwrdd | 3 o 3 | |
| | | | Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (tan 5/9/22) | 0 o 1 | |
| | | | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau’r Bwrdd | | |
| | | | | | |
| Rob Holcombe | Cyfarwyddwr Dros Dro Cyllid, Caffael a Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth | Tan 13/11/2022 | Aelod o’r Bwrdd | 7 o 7 | |
| | | | Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol | 4 o 4 | |
| | | | Mynychwr Gofynnol: Pwyllgor Archwilio, Cyllid a Risg | | |
| | Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael | O 14/11/2022 | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau’r Bwrdd | | |

| Enw | Swydd a Maes Arbenigedd | Dyddiadau (os nad blwyddyn lawn) | Aelodaeth o Bwyllgor y Bwrdd | Presenoldeb | Rôl Hyrwyddwr |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Dr James Calvert | Cyfarwyddwr Meddygol<br><br>Cyfarwyddwr Meddygol / Dirprwy Brif Weithredwr | Tan 23/09/2023<br><br>O 24/09/2023 | Aelod o’r Bwrdd | 6 o 7 | Caldicott |
| | | | Mynychwr Gofynnol: Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion | | |
| | | | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau’r Bwrdd | | |
| | | | | | |
| Sarah Simmonds | Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol | | Aelod o’r Bwrdd | 7 o 7 | Codi Pryderon<br>Yr Iaith Gymraeg |
| | | | Mynychwr Gofynnol: Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant | | |
| | | | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau’r Bwrdd | | |
| | | | | | |
| Chris Dawson-Morris | Cyfarwyddwr Dros Dro Cynllunio a Pherfformiad | O 05/09/2022 – 3/04/2023 | Aelod o’r Bwrdd | 4 o 4 | Cynllunio ar gyfer Argyfwng |
| | | | Mynychwr Gofynnol: Pwyllgor Partneriaethau, Iechyd y Boblogaeth a Chynllunio | | |
| | | | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau’r Bwrdd | | |
| | | | | | |
| Hannah Evans | Cyfarwyddwr Strategaeth, Cynllunio a Phartneriaethau | O 01/04/2023 | Aelod o’r Bwrdd | | Cynllunio ar gyfer Argyfwng |
| | | | Mynychwr Gofynnol: Pwyllgor Partneriaethau, Iechyd y Boblogaeth a Chynllunio | | |
| | | | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau’r Bwrdd | | |

| Enw | Swydd a Maes Arbenigedd | Dyddiadau (os nad blwyddyn lawn) | Aelodaeth o Bwyllgor y Bwrdd | Presenoldeb | Rôl Hyrwyddwr |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Rhiannon Jones | Cyfarwyddwr Nyrsio | Tan 05/07/2022 | Aelod o'r Bwrdd | 1 o 2 | Plant a Phobl Ifanc<br>Atal a rheoli heintiau<br>Gweithio i Wella |
| | | | Mynychwr Gofynnol: Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion | | |
| | | | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd | | |
| | | | | | |
| Linda Alexander | Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro | 25/06/2022 i 15/08/2022 | Aelod o'r Bwrdd | 1 o 1 | Plant a Phobl Ifanc<br>Atal a rheoli heintiau<br>Gweithio i Wella |
| | | | Mynychwr Gofynnol: Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion | | |
| | | | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd | | |
| | | | | | |
| Jennifer Winslade | Cyfarwyddwr Nyrsio | O 08/08/2022 | Aelod o'r Bwrdd | 4 o 4 | |
| | | | Mynychwr Gofynnol: Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion | | |
| | | | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd | | |
| | | | | | |
| Peter Carr | Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd | | Aelod o'r Bwrdd | 6 o 7 | Diogelwch Tân<br>Trais ac Ymddygiad Ymosodol |
| | | | Mynychwr Gofynnol: Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion | | |

| Enw | Swydd a Maes Arbenigedd | Dyddiadau (os nad blwyddyn lawn) | Aelodaeth o Bwyllgor y Bwrdd | Presenoldeb | Rôl Hyrwyddwr |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd | | |
| | | | | | |
| Dr Sarah Aitken* | Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau Strategol | Tan 05/01/2023 | Aelod o'r Bwrdd | 4 o 5 | |
| | | | Mynychwr Gofynnol: Pwyllgor Partneriaethau, Iechyd y Boblogaeth a Chynllunio | | |
| | | | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd | | |
| | | | | | |
| Tracy Daszkiewicz* | Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd | O 01/04/2023 | Aelod o'r Bwrdd | | |
| | | | Mynychwr Gofynnol: Pwyllgor Partneriaethau, Iechyd y Boblogaeth a Chynllunio | | |
| | | | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd | | |
| | | | | | |
| Dr Chris O'Connor | Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl | | Aelod o'r Bwrdd | 5 o 7 | |
| | | | Mynychwr Gofynnol: Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl | | |
| | | | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd | | |
| **Cyfarwyddwyr sy'n Mynychu** | | | | | |
| Leanne Watkins | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | O 17 Mawrth 2022 | Mynychwr yn y Bwrdd | 6 o 7 | |
| | | | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd | | |
| **Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol** | | | | | |
| Rani Dash (nee Mallison) | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol | | Mynychwr yn y Bwrdd | 7 o 7 | |
| | | | Mynychwr ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd | | |

**Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd - Yn ystod cyfnod y swydd wag o 05/01/23 i 01/04/2023, rhoddodd Stuart Bourne ac Eryl Powell, Dirprwy Gyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, gyngor i'r Bwrdd a mynychu cyfarfodydd yn eu rolau fel dirprwyon.*

**Cworwm y Cyfarfodydd**

| Â chworwm | Dim-cworwm |
|---|---|

- **Cyfarfod wedi'i fynychu gan IM ychwanegol i sicrhau cworwm**

| Bwrdd/Pwyllgor | Dyddiad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd | 25 Mai 2022 | 14 Mehefin 2022 | 27 Gorffennaf 2022 | 28 Medi 2022 | 30 Tachwedd 2022 | 25 Ionawr 2023 | 29 Mawrth 2023 |
| Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion | 5 Ebrill 2022 | 7 Mehefin 2022 | 16 Awst 2022 | 18 Hydref 2022 – Wedi'i canslo | 6 Rhagfyr 2022 | 7 Chwefror 2023 | |
| Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd | 7 Ebrill 2022 | 17 Mai 2022 | 13 Mehefin 2022 | 2 Awst 2022 | 6 Hydref 2022 | 1 Rhagfyr 2022 | 2 Chwefror 2023 |
| Pwyllgor Cronfeydd Elusennol | 2 Awst 2022* | 27 Hydref 2022 | 19 Ionawr 2023 | 2 Mawrth 2023 | | | |
| Pwyllgor Partneriaethau, Iechyd y Boblogaeth a Chynllunio | 25 Ebrill 2022 | 7 Gorffennaf 2022 | 16 Tachwedd 2022 | | | | |
| Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl | 13 Mehefin 2022 | 6 Medi 2022 | 8 Rhagfyr 2022 | 9 Mawrth 2023 | | | |
| Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad | 6 Gorffennaf 2022 | 5 Hydref 2022 | 11 Ionawr 2023 | | | | |
| Pwyllgor Pobl a Diwylliant | 14 Ebrill 2022* | 13 Medi 2022 | 10 Ionawr 2023 | | | | |
| Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth | 6 Mehefin 2022 | 5 Gorffennaf 2022 | 7 Medi 2022 | 29 Tachwedd 2022 | 14 Chwefror 2023 | 29 Mawrth 2023 | |

**Atodiad Dau**

**Cyfarwyddiadau Gweinidogol**

| Cyfarwyddeb Weinidogol | Dyddiad Cyhoeddi | Cam gweithredu i ddangos gweithredu/ymateb | Gradd |
|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddiadau Datganiad o Hawliau Ariannol Gwasanaethau Deintyddol Personol (Diwygiad) 2022** | 07/04/2022 | Gweithredwyd | **Cyflawn** |
| **Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddiadau Datganiad o Hawliau Ariannol Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (Diwygiad) 2022** | 07/04/2022 | Gweithredwyd | **Cyflawn** |
| **Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad o Hawliau Ariannol (Diwygiad) (Rhif 2) 2022** | 09/06/2022 | Gweithredwyd | **Cyflawn** |
| **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygiad) (Rhif 3) (Cymru) 2022** | 29/06/2022 | Mae rheoleiddio wedi cael ei roi ar waith. Mae brech y mwncïod wedi cael ei ychwanegu at y categori clefydau 'anhaladwy'. | **cyflawn** |
| **Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Amodau) (Cymru) (Diwygiad) 2022** | 29/07/2022 | Cyhoeddir y diwygiadau yn y tariff cyffuriau ac maent ar gael i'r cyhoedd. Yn yr achos hwn, nid yw'r cyfarwyddiadau'n rhoi tasg i'r Bwrdd Iechyd weithredu unrhyw beth gan ei fod yn diweddaru'r trefniadau presennol, felly nid oes unrhyw beth i'w ledaenu.<br>Ar ben hynny, er ein bod yn cynnal darpariaeth ar gyfer fferyllfeydd neu gontractwyr cyfarpar i gomisiynu Adolygiadau Addasu a Defnyddio cyfarpar stoma (a drafodir yn ein PNA), nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth nac unrhyw gontractwyr cyfarpar ar ein rhestr. | **cyflawn** |

| Cyfarwyddeb Weinidogol | Dyddiad Cyhoeddi | Cam gweithredu i ddangos gweithredu/ymateb | Gradd |
|---|---|---|---|
| Y Gwasanaeth Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw a Niwmococol) (Gwasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) | 08/08/2022 | Gweithredwyd | Cyflawn |
| Cyfarwyddiadau Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau dan Gontract:Cynllun Rhestr Aros Cleifion Allanol) 2022 | 12/08/2022 | Arwain gyda'r Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio. Gofynnwyd i bractisau a ydynt yn dymuno cymryd rhan – ni chymerwyd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd | Cyflawn |
| Gwasanaethau Gofal Sylfaenol dan Gontract:Cyfarwyddiadau Diwygio Imiwneiddio (PCCS:I) Awst 2022 | 25/08/2022 | Gweithredwyd | Cyflawn |
| Deddf Erthylu 1967 – Dirymu Cymeradwyaeth i Ddosbarth Lle ar gyfer Triniaeth ar gyfer Terfynu Beichiogrwydd (Cymru) 2022 | 26/08/2022 | Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes yn caniatáu i gleifion gymryd meddyginiaethau i beri erthyliad cyfreithiol yn eu cartref eu hunain. Bydd y meddyginiaethau wedi cael eu presgripsiynu gan feddyg yn yr ysbyty ar ôl llenwi'r ffurflen 'las' briodol. | cyflawn |
| Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygiad) (Rhif 4) (Cymru) 2022 | 22/11/2022 | Mae rheoleiddio wedi cael ei roi ar waith. Mae Guernsey a Malta wedi cael eu hychwanegu at y rhestr o wledydd lle mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cyfatebol. | cyflawn |
| Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad o Hawliau Ariannol (Diwygiad) (Rhif 4) 2022 | 30/11/2022 | Mae PCGC wedi rhoi'r rheoliad hwn ar waith yn ôl yr angen. | cyflawn |
| Cyfarwyddiadau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygiad) (Rhif 2) 2022 | 08/12/2022 | Cyfarwyddyd Gweinidogol a roddwyd ar waith gan PCWC ar ran Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) – Mae Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru wedi ysgrifennu at holl fuddiolwyr presennol Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru i dynnu eu sylw at hyn ac mae hefyd wedi cynnwys cyfeiriad ato yng Nghylchlythyr Rhagfyr 2022. Ar 31 Mawrth 2023 roedd 18 o geisiadau wedi cael eu prosesu mewn perthynas â 31 o blant; yn cyfateb i ymrwymiad o £69,600 | Cyflawn |

| Cyfarwyddeb Weinidogol | Dyddiad Cyhoeddi | Cam gweithredu i ddangos gweithredu/ymateb | Gradd |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddiadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2022 | 15/12/2022 | Gweithredwyd | **Cyflawn** |
| Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddiadau Datganiad o Hawliau Ariannol Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (Diwygiad) 2023 | 13/01/2023 | Gweithredwyd | **Cyflawn** |
| Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddiadau Datganiad o Hawliau Ariannol Gwasanaethau Deintyddol Personol (Diwygiad) 2023 | 13/01/2023 | Gweithredwyd | **Cyflawn** |
| Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad o Hawliau Ariannol (Diwygiad) 2023 | 21/02/2023 | Gweithredwyd | **Cyflawn** |
| Byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn adrodd ar gyflwyno meddyginiaethau newydd yng Nghyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru 2023 | 24/03/2023 | Gweithredwyd | **Cyflawn** |

**Cylchlythyrau Iechyd Cymru**

| Dyddiad Cyhoeddi | Enw a Rhif CIC | Cynnydd | Gradd |
|---|---|---|---|
| 15/02/2022 | **WHC/2022/007** **Cofnodi Codau Read Dementia** | Cyhoeddwyd a Gweithredwyd | **cyflawn** |
| 01/03/2022 | **WHC/2022/014** **Heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a nodau gwella ymwrthedd gwrthficrobaidd** | Adroddir ar ddisgwyliadau HCAI Llywodraeth Cymru yn erbyn yr heintiau sy'n adroddadwy yn genedlaethol ym mhob Pwyllgor PQSO, gyda pherfformiad yn cael ei oruchwylio drwy RNTG. | **cyflawn** |
| 24/03/2022 | **WHC/2022/011** **Fframwaith profi cleifion COVID-19** | Cyhoeddwyd a Gweithredwyd | **cyflawn** |
| 29/03/2022 | **WHC/2022/010** **Brechlynnau ad-daladwy a charfannau cymwys ar gyfer rhaglen brechu ffliw tymhorol y GIG 2022 i 2023** | Cyhoeddwyd a Gweithredwyd | **cyflawn** |
| 24/03/2022 | **WHC/2022/005** **Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru: gofynion data** | Cyhoeddwyd a Gweithredwyd | **cyflawn** |
| 04/04/2022 | **WHC/2022/09** **Adrannau codio clinigol GIG Cymru yn blaenoriaethu cyfnodau cleifion COVID-19** | Parhau i flaenoriaethu'r gwaith o godio cleifion COVID-19 yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. | **cyflawn** |
| 21/04/2022 | **WHC/2022/006** **Atgyfeirio parafeddygon yn uniongyrchol at ofal argyfwng yr un diwrnod: Polisi Cymru Gyfan** | Ar hyn o bryd mae'r Ganolfan Llif yn rheoli atgyfeiriadau SDEC. Llawfeddygol ar gyfer GUH a Meddygol ar gyfer YYF.<br><br>Ar hyn o bryd mae WAST wedi'i gynnwys yn hyn ar gyfer YYF ond nid ar gyfer GUH.<br><br>Mae atgyfeiriadau WAST yn cael eu brysbennu wrth gyrraedd GUH a byddant yn cael eu hystyried ar gyfer SDEC o dan y Llwybr ED-i-SDEC. | **Ar waith** |
| 27/04/2022 | **WHC/2022/13** **Canllawiau monitro ariannol byrddau iechyd, awdurdodau iechyd arbennig ac ymddiriedolaethau 2022 i 2023** | Cyhoeddwyd a Gweithredwyd | **cyflawn** |

| Dyddiad Cyhoeddi | Enw a Rhif CIC | Cynnydd | Gradd |
|---|---|---|---|
| 01/06/2022 | **WHC/2022/015** **Newidiadau i'r brechlyn ar gyfer y rhaglen imiwneiddio HPV** | Mae gwybodaeth am newidiadau i amserlenni yn cael ei rhaeadru'n ganolog gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru | **cyflawn** |
| 01/06/2022 | **WHC/2022/16** **Rhaglen Genedlaethol Imiwneiddio rhag y Ffliw 2022 i 2023** | Cynnig deuol ar gael ochr yn ochr â covid mewn canolfannau brechu torfol. | **cyflawn** |
| 14/06/2022 | **WHC/2022/002** **Rhaglen Dreigl Flynyddol Cynllun Canlyniadau ac Adolygu Archwiliad Clinigol Cenedlaethol GIG Cymru ar gyfer 2022 i 2023** | Mae'r cynllun archwilio clinigol newydd (sydd i'w gyhoeddi cyn bo hir) yn cynnwys rhestr lawn o'r holl archwiliadau clinigol cenedlaethol a'r adolygiadau o ganlyniadau sydd wedi'u rhestru yng Nghynllun Blynyddol yr Adolygiad o Ganlyniadau ac Archwilio Clinigol Cenedlaethol. Mae cyfranogiad yn orfodol ac mae'r rhestr wedi'i rhannu â phob Is-adran.<br>Cyhoeddir y rhestr gyda rhaglen dreigl naw mis.<br>Bydd y cynllun archwilio clinigol yn cael ei ddiweddaru'n barhaus i gofnodi'r holl gamau gweithredu a gwelliannau. Mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch Cleifion wedi cyflwyno'r Strategaeth Archwilio Clinigol i holl gyfarfodydd yr Uwch Adran. Roedd hyn yn cynnwys newid diweddariadau cofnodi i'r system olrhain archwilio ar y we (AMaT). Wrth i bob Archwiliad Clinigol Cenedlaethol (NCA) gael ei gyhoeddi, mae'r canlyniadau'n cael eu llwytho i fyny i AMaT a'u neilltuo i Arweinydd Clinigol. Bydd yr Arweinydd Clinigol yn mynychu'r Grŵp Safonau ac Effeithiolrwydd Clinigol i gyflwyno'r canlyniadau. Mae templed safonol ar gyfer y canlyniadau'n cael ei gynhyrchu er mwyn i'n hadroddiad archwilio blynyddol allu cyflwyno canfyddiadau a chamau gweithredu pob archwiliad.<br>Mae AMaT yn cael ei ddefnyddio i gofnodi canlyniadau archwiliadau, olrhain cynnydd a dogfennu llwyddiannau a heriau. Mae'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu cynllun gweithredu o fewn amcanion SMART. Mae hyfforddiant AMaT wedi cael ei gynnal ledled Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan dros y chwe mis diwethaf. | **Cyflawn** |

| Dyddiad Cyhoeddi | Enw a Rhif CIC | Cynnydd | Gradd |
|---|---|---|---|
| 16/06/2022 | **WHC/2022/12** **Cynllun rhoddion a thrawsblannu 2022 i 2026** | Cyfrifir am y cynllun fel rhan o brosesau cynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. | **cyflawn** |
| 16/06/2022 | **WHC/2022/17** **Cynllun gweithredu Cymru ar glefydau prin 2022 i 2026** | Mae cyhoeddi'r RDAP wedi cael sylw, ac wedi'i rannu ag arweinwyr clinigol ar draws sawl arbenigedd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cadw at y pedair blaenoriaeth allweddol a amlinellir yn y cynllun. | **cyflawn** |
| 21/06/2022 | **WHC/2022/019** **Gwasanaethau orthopedig pediatrig GIG Cymru nad ydynt yn arbenigol** | Profforma ymateb rhanddeiliaid a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2022 yn amlinellu'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer gwasanaethau lefel 1 a lefel 2. Mae modd cynnal y ddau wasanaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gyda'r lefel bresennol o anesthetig pediatrig, radioleg a darpariaeth feddygol gyffredinol. Trafodaethau rhyng-sefydliadol rhwng Ymgynghorwyr yn parhau i gytuno ar lefelau trosglwyddo yn ôl y capasiti sydd ar gael. | **cyflawn** |
| 30/06/2022 | **WHC/2022/18** **Llwybr lle'r amheuir canser: canllawiau** | Cydymffurfio'n llawn | **cyflawn** |
| 22/07/2022 | **WHC/2022/20** **Digwyddiadau byth: polisi a rhestr digwyddiadau Gorffennaf 2022** | Rhannodd tîm SI y Cylchlythyr gyda'r is-adrannau a'i gyhoeddi ar y fewnrwyd hefyd | **cyflawn** |
| 28/07/2022 | **WHC/2022/21** **Llwybrau delfrydol cenedlaethol ar gyfer canser** | Cyhoeddwyd a Gweithredwyd | **cyflawn** |
| 29/07/2022 | **WHC/2022/008** **Cod ymarfer newydd ar gyfer rheoli cofnodion ar gyfer iechyd a gofal 2022** | Cyhoeddwyd a Gweithredwyd | **cyflawn** |
| 22/08/2022 | **WHC/2022/022** **Rôl y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol** | Trafodwyd yn yr Uwch Dîm Arwain Gofal Sylfaenol a bodlonwyd bod cynnydd yn cael ei wneud yn unol â'r WHC | **Ar waith** |
| 09/09/2022 | **WHC/2022/023** **Newidiadau i'r brechlyn ar gyfer y rhaglen imiwneiddio HPV** | Mae gwybodaeth am newidiadau i amserlenni yn cael ei rhaeadru'n ganolog gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru | **cyflawn** |

| Dyddiad Cyhoeddi | Enw a Rhif CIC | Cynnydd | Gradd |
|---|---|---|---|
| 11/10/2022 | **WHC/2022/026** **Dull ar gyfer Firysau Anadlol – Canllawiau Technegol ar gyfer Cynllunio Gofal Iechyd** | Wedi'i anfon ymlaen i rannau perthnasol o'r sefydliad. | **cyflawn** |
| 24/10/2022 | **WHC/2022/027** **Rhaglen dal i fyny brys polio ar gyfer plant dan 5 oed** | Wedi'i weithredu – wedi rhagori ar y gofynion: Roedd Canolfannau Brechu Cymunedol yn cynnig brechiadau wedi'u trefnu i blant mewn 17 practis meddyg teulu a oedd yn optio allan o wasanaeth ychwanegol, gan gynnwys ymweliadau brechu yn y cartref. | **cyflawn** |
| 31/10/2022 | **WHC/2022/003** **Canllawiau ar gyfer darparu cynhyrchion ymataliaeth ar gyfer Oedolion yng Nghymru 2022** | Cyhoeddwyd a Gweithredwyd | **cyflawn** |
| 31/10/2022 | **WHC/2022/004** **Canllawiau ar gyfer gofalu am blant a phobl ifanc sydd â phroblemau ymataliaeth** | Cyhoeddwyd a Gweithredwyd | **cyflawn** |
| 22/11/2022 | **WHC/2022/029** **Cyngor dilynol ar raglen dal i fyny polio i blant dan 5 oed** | Fel yr uchod: ers mis Ebrill rydym wedi ceisio cael meddygon teulu sy'n darparu gwasanaeth ychwanegol i roi gwybod am y niferoedd sy'n manteisio ar y rhaglen. Ar hyn o bryd mae MVCs yn gwerthuso'r nifer sy'n manteisio mewn 17 o bractisau sydd wedi optio allan. | **cyflawn** |
| 08/12/2022 | **WHC/2022/031** **Brechlynnau ad-daladwy a charfannau cymwys ar gyfer rhaglen brechu ffliw tymhorol y GIG 2023 i 2024** | Cyhoeddwyd a Gweithredwyd: cymeradwywyd y sefyllfa gan LMC Gwent. | **cyflawn** |
| 16/12/2022 | **WHC/2022/025** **Canllawiau Cymru Gyfan ar gyfer cyfnodau rhagnodi** | Anfonwyd neges at bob practis ar 6/5/22 . Mae'r thema hon hefyd wedi'i chynnwys yn y rhaglen waith ar gyfer y tîm rheoli meddyginiaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf. | **cyflawn** |
| 22/12/2022 | **WHC/2022/035** **Cyflwyno'r rhaglen brechu rhag y ffliw yn 2022 i 2023** | Cyhoeddwyd a Gweithredwyd: Roedd MVCs yn cynnig gwasanaeth galw i mewn o ddiwedd mis Rhagfyr 2022 ac erbyn diwedd y tymor roeddent wedi rhoi dros 7,000 o frechlynnau ychwanegol. | **cyflawn** |

| Dyddiad Cyhoeddi | Enw a Rhif CIC | Cynnydd | Gradd |
|---|---|---|---|
| 16/01/2023 | **WHC/2023/001** **Dileu hepatitis (B ac C) fel bygythiad iechyd y cyhoedd: camau gweithredu ar gyfer 2022 i 2023 a 2023 i 2024** | Grŵp llywio aml-asiantaeth wedi'i sefydlu, sefyllfa sylfaenol yn ei lle, ac adolygu blaenoriaethau i lywio cynllun adfer ar y cyd. Dyddiad cyflwyno'r JRP wedi'i ymestyn gan Lywodraeth Cymru i ganol mis Gorffennaf. | **Ar waith** |
| 31/01/2023 | **WHC/2023/002** **Profion imiwnocemegol ar ysgarthion (FIT) mewn atgyfeiriadau canser y colon a'r rhefr symptomatig** | Rhoddwyd hyn ar waith yn y Bwrdd Iechyd cyn i WHC gael ei gylchredeg a'i drafod yn y Bwrdd Canser ar 18 Ionawr | **cyflawn** |
| 15/02/2023 | **WHC/2022/034** **Dyraniadau byrddau iechyd ar gyfer 2023 i 2024** | Wedi'i gwblhau ac wedi cyfrannu at y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r broses o bennu cyllideb / cymeradwyo dirprwyaethau | **cyflawn** |
| 24/03/2023 | **WHC/2022/032** **Ymestyn ymhellach y defnydd o Bluteq mewn gofal eilaidd** | Trafodwyd yng nghyfarfod y Prif Fferyllwyr ar 3/4/23 gyda chynrychiolwyr AWTTC. Bwriad i'w drafod yn MMPB 13/4/23. "Yn dilyn mandad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio Blueteq ym mhob Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth, mae nifer o gwestiynau wedi cael eu codi. Bydd y gweithredu'n digwydd fesul cam a'r nod yw dechrau gyda Rhiwmatoleg ac yna Haematoleg.<br>Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnal cynllun peilot mewn rhiwmatoleg a bydd Byrddau Iechyd yn gallu dysgu o hyn a rhannu sut maen nhw wedi mynd ati e.e. hyfforddiant ac ati. Mae templedi wedi cael eu cynhyrchu a'r cynllun yw cael templed generig y gellir ei ddefnyddio ledled Cymru fel nad oes angen i Fyrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau unigol ddatblygu rhai eu hunain. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wrthi'n gweithio drwy'r materion IG a DPIA, ac mae'n gobeithio dechrau'r cynllun peilot ym mis Mai. Ar gyfer Haematoleg, bwriedir edrych ar yr holl gyffuriau sydd â chytundebau mynediad masnachol sy'n gysylltiedig â nhw a datblygu templedi. Bwriedir defnyddio rhai o dempledi GIG Lloegr ac addasu ar gyfer Cymru, ond wrth i ni symud ymlaen o flaen Lloegr bydd angen i ni ddatblygu ein templedi ein hunain. Gofynnodd CPG, wrth i ragor o fanylion fod ar gael, bod hyn yn cael ei rannu ag ef er mwyn i CPG allu asesu'r llwyth gwaith cynyddol ar | **cyflawn** |

| Dyddiad Cyhoeddi | Enw a Rhif CIC | Cynnydd | Gradd |
|---|---|---|---|
| | | gyfer staff a dechrau rhoi'r prosesau perthnasol ar waith." | |
| 08/03/2023 | **WHC/2023/004** **Pigiad atgyfnerthu rhag COVID-19 yn ystod y gwanwyn 2023** | Gweithredwyd yn ôl yr angen ac yn unol â'r targed ar gyfer cyflawni, a'r defnydd yn unol â'r cynllun | **Ar waith** |
| 31/03/2023 | **WHC/2023/007** **Fframwaith profi cleifion, canllawiau wedi'u diweddaru** | Gweithredwyd a dehonglwyd yn lleol. Mae trafodaethau parhaus ar waith gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch cymorth gan AWARe mewn perthynas â phrofion mewn cartrefi gofal. | **cyflawn** |
| 31/03/2023 | **WHC/2023/006** **Cychwyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020** | Strategaeth Ansawdd a Strategaeth Profiad a Chynnwys Cleifion wedi'i chymeradwyo a'i rhoi ar waith. Cynnal sesiwn hyfforddi ar gyfer aelodau'r Bwrdd | **Ar waith** |

**Atodiad Tri**

Llywodraethu corfforaethol yn adrannau llywodraeth ganolog: cod ymarfer da 2017

# Asesiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 2022/23

| Para | Egwyddorion Cod Llywodraethiant Corfforaethol | Tystiolaeth o Sicrwydd Mewnol/ Naratif Ategol | Cydymffurfio neu Egluro | Dogfennau ategol / Tystiolaeth |
|---|---|---|---|---|
| 2.1<br>2.2 | Dylai fod gan bob sefydliad fwrdd effeithiol, sy'n darparu arweinyddiaeth i'r busnes, gan ei helpu i weithredu mewn modd tebyg i fusnes. Dylai'r bwrdd weithredu ar y cyd, gan ganolbwyntio ar gynghori ar faterion strategol a gweithredol sy'n effeithio ar berfformiad yr adran, yn ogystal â chraffu ar bolisïau a pherfformiad adrannol a'u herio, gyda golwg ar iechyd a llwyddiant hirdymor yr Ymddiriedolaeth. | Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn gyhoeddus bob deufis.<br><br>Mae blaenraglen waith o Fusnes y Bwrdd ar waith ac fe'i cymeradwywyd yn flynyddol. Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei arwain a'i bennu gan ei Reolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Dirprwyo. Mae hyn yn darparu'r fframwaith ar gyfer dirprwyo a gwneud penderfyniadau o fewn y Bwrdd Iechyd.<br><br>Mae'r Bwrdd, fel eitemau sefydlog i bob cyfarfod, yn derbyn adroddiadau ariannol, perfformiad a risg gorfforaethol. | Cydymffurfio | Cofnodion y Bwrdd a'r Pwyllgor – dangos craffu a chefnogaeth<br><br>Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2022 |
| 2.3 | Nid yw'r Bwrdd yn penderfynu ar bolisi nac yn arfer pwerau'r gweinidogion. Gweinidogion yn unig sy'n penderfynu ar bolisi'r adran ar sail cyngor gan swyddogion. Mae'r bwrdd yn cynghori ar oblygiadau gweithredol ac effeithiolrwydd cynigion polisi.<br><br>Bydd y Bwrdd yn gweithredu yn unol ag egwyddorion llywodraethu corfforaethol da mewn busnes:<br>• Arweinyddiaeth – mynegi gweledigaeth glir ar gyfer yr adran a rhoi eglurder ynghylch sut mae gweithgareddau polisi yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth hon, gan gynnwys pennu archwaeth risg a rheoli risg<br>• Effeithiolrwydd – defnyddio ystod eang o brofiad perthnasol, gan gynnwys drwy gynnig her gadarn a chraffu ar berfformiad<br>• Atebolrwydd – hyrwyddo tryloywder drwy adrodd yn glir ac yn deg.<br>• Cynaliadwyedd – cymryd golwg tymor hir ar yr hyn y mae'r adran yn ceisio'i gyflawni a'r hyn y mae'n ei wneud i gyrraedd y nod. | Mae'r Bwrdd yn darparu arweiniad a chyfeiriad i'r sefydliad ac mae ganddo rôl allweddol o ran sicrhau bod gan y sefydliad drefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r Bwrdd yn ceisio diwylliant agored a safonau uchel yn y ffyrdd y mae ei waith yn cael ei wneud. Mae Aelodau'r Bwrdd yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol dros bob penderfyniad ac yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o fonitro perfformiad y sefydliad.<br><br>Mae cynnydd yn erbyn Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-2025 y Bwrdd Iechyd, sy'n mabwysiadu dull cwrs bywyd, yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd bob chwarter.<br>Mae Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd wedi'u cynllunio i drosi'r gofynion statudol yn arferion gweithredu o ddydd i ddydd, ac, ynghyd â mabwysiadu Rhestr o Benderfyniadau a gedwir i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr; Cynllun o Benderfyniadau i Swyddogion ac Eraill; a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFI), maent yn darparu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer cynnal busnes y Bwrdd Iechyd. Mae'r dogfennau hyn yn sail ar gyfer datblygu fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd y Bwrdd Iechyd ac, ynghyd â | Cydymffurfio | Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog<br><br>Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2022<br><br>Cynllun Tymor Canolig Integredig<br><br>Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | mabwysiadu Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad y Bwrdd Iechyd, maent wedi'u cynllunio i sicrhau y cyflawnir y safonau llywodraethu da a osodwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru. | | |
| 2.4<br>3.10 | Dylai'r Bwrdd gyfarfod bob chwarter o leiaf; fodd bynnag, yr arfer gorau yw y dylai byrddau gyfarfod yn amlach.<br><br>Mae'r Bwrdd yn cynghori ar bum prif faes:<br>• Eglurder Strategol<br>• Synnwyr Masnachol<br>• Pobl Dalentog<br>• Canolbwyntio ar ganlyniadau<br>• Gwybodaeth reoli | Mae'r Bwrdd yn cyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn ac mae hefyd yn cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.<br><br>Mae trafodaethau, camau gweithredu a phenderfyniadau holl gyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael eu cofnodi'n ffurfiol fel cofnodion neu nodiadau gweithredu.<br><br>Rôl y Bwrdd, fel y nodir yn ei Reolau Sefydlog, yw:<br>• Pennu cyfeiriad strategol y sefydliad<br>• Dal y sefydliad i gyfrif am berfformiad a chyflawni<br>• Gosod naws a diwylliant y Bwrdd a'r sefydliad<br><br>Felly, mae busnes y Bwrdd wedi'i strwythuro fel hyn ac mae'n cwmpasu'r pum prif faes a nodir ym mhwynt 2.4. | Cydymffurfio | Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog<br><br>Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2022<br><br>Agenda a Phapurau Cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor |
| 2.7 | Mae'r Bwrdd hefyd yn cefnogi'r swyddog cyfrifyddu i gyflawni'r rhwymedigaethau a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus ar gyfer cynnal busnes yn briodol a chynnal safonau moesegol. | Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo'r Adroddiad Atebolrwydd, yn dilyn craffu gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, yn flynyddol, sy'n cynnwys y Datganiad gan y Swyddog Atebol sy'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch y System Rheolaeth Fewnol. | Cydymffurfio | Adroddiad Atebolrwydd |
| 2.12 | Os oes gan aelodau'r Bwrdd bryderon, na ellir eu datrys, ynghylch rhedeg yr adran neu weithredu arfaethedig, dylent sicrhau bod eu pryderon yn cael eu cofnodi yn y cofnodion. | Mae unrhyw bryderon a godir yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor yn cael eu cofnodi'n ffurfiol yn y cofnodion. | Cydymffurfio | Agenda a Phapurau'r Bwrdd a'r Pwyllgor |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol yn gyfrifol am sicrhau bod y materion hyn yn cael eu rheoli, eu cofnodi a'u datrys yn effeithiol lle bo hynny'n bosibl. | | Rôl y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol |
| 3.1<br>3.11<br>3.12<br>3.13 | Dylai'r Bwrdd feddu ar gydbwysedd o sgiliau a phrofiad sy'n briodol i gyflawni ei gyfrifoldebau. Dylai aelodaeth y bwrdd fod yn gytbwys, yn amrywiol ac yn hylaw o ran maint. | Mae'r cyfansoddiad wedi'i nodi yng Ngorchmynion Sefydlu'r Bwrdd Iechyd ac mae'r Bwrdd Iechyd yn glynu wrth y cyfansoddiad hwn.<br><br>Mae Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd hefyd yn amlinellu cyfansoddiad y Bwrdd.<br><br>Mae gan y Bwrdd amrywiaeth o sgiliau ac arbenigedd. Penodir unigolion i rolau Aelodau Annibynnol neu Swyddogion Gweithredol yn seiliedig ar eu cefndiroedd penodol a'u gwybodaeth arbenigol.<br><br>Mae'r holl Aelodau Annibynnol sy'n cael eu penodi, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru a rheolir y prosesau penodi gan Adran Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Bydd gan y paneli penodi ar gyfer pob penodiad Gweithredol, er eu bod yn benodiadau sefydliadol, aseswyr annibynnol allanol a chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru.<br>Penodir yr holl Gyfarwyddwyr Gweithredol i gontractau parhaol y GIG. Penodir Aelodau Annibynnol am hyd at bedair blynedd ar unrhyw un adeg a gellir eu hailbenodi hyd at uchafswm o wyth mlynedd yn y sefydliad. Llywodraeth Cymru sy'n rheoli hyn gan mai penodiadau Gweinidogol ydynt.<br><br>Cydnabyddir y bu nifer o newidiadau i aelodaeth y Bwrdd, o ran Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol yn ystod 2022/23. | Cydymffurfio | Gorchmynion Sefydlu Byrddau Iechyd<br><br>Rheolau Sefydlog<br><br>Rhestr wirio Anwytho Aelodau o'r Bwrdd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Darperir amrywiaeth o wybodaeth i'r Bwrdd gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad yng Nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor. Mae fformat a chynnwys y rhain yn seiliedig ar safonau a gofynion cenedlaethol a hefyd ar wybodaeth y gofynnir amdani'n lleol.<br><br>Mae aelodaeth Aelodau Annibynnol ar Bwyllgorau'r Bwrdd yn cael ei chylchdroi ar adegau priodol i sicrhau bod cymysgedd a chydbwysedd profiad ar draws pob cyfarfod | | |
| 3.2 | Dylai rolau a chyfrifoldebau holl aelodau'r bwrdd gael eu diffinio'n glir yn fframwaith gweithredu bwrdd yr adran. | Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi yn unol â Rheolau Sefydlu a Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd | Cydymffurfio | Gorchmynion Sefydlu Byrddau Iechyd<br><br>Rheolau Sefydlog |
| 3.3 | Dylai'r Cyfarwyddwr Cyllid fod â chymwysterau proffesiynol. | Mae gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael gymwysterau proffesiynol | Cydymffurfio | Dogfennau recriwtio a phenodi ar gyfer y Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael |
| 3.5 | Bydd Aelodau Annibynnol yn ymarfer eu rôl drwy ddylanwadu a chynghori, gan gefnogi yn ogystal â herio'r weithrediaeth | Mae'r Asesiad Strwythuredig yn tynnu sylw at y ffaith bod *"Aelodau Annibynnol yn parhau i ymgysylltu a chymryd rhan lawn mewn cyfarfodydd ac yn craffu ac yn cwestiynu'r wybodaeth a gyflwynir yn rhesymol effeithiol. Fodd bynnag, mae lle i Aelodau Annibynnol ganolbwyntio'n fwy ar ba wahaniaeth sy'n cael ei wneud ac i gryfhau eu her o ran y risgiau a allai effeithio ar gyflawni cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn llwyddiannus."*<br><br>*"Bu penodiadau newydd i'r Bwrdd, ac mae'n dod yn fwy cydlynol."* | Cydymffurfio | Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2022<br><br>Pecyn Anwytho Aelodau Annibynnol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ceir rhaglen gynefino genedlaethol, lle gofynnir i bob aelod gymryd rhan. Academi Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n trefnu hyn. Mae rhaglenni anwytho wedi'u teilwra wedi dechrau ar gyfer Aelodau Annibynnol newydd, ond mae rhagor o waith i'w wneud ar greu rhaglen gynhwysfawr i'w defnyddio yn y dyfodol. Mae rhaglen hefyd o Sesiynau Datblygu'r Bwrdd a Sesiynau Briffio'r Bwrdd a hyfforddiant arall ar gael i'r Bwrdd. | | |
| 3.15 | Dylai'r Bwrdd gytuno a dogfennu yn ei fframwaith gweithredu bwrdd drothwy *de minimis* a mecanweithiau ar gyfer cyngor y bwrdd ar weithredu a chyflawni cynigion polisi. | Mae blaenraglen waith o Fusnes y Bwrdd ar waith ac fe'i cymeradwywyd yn flynyddol.<br><br>Mae'r Cylch Gorchwyl Trefniadau Gweithredu ar gyfer Pwyllgorau'r Bwrdd yn mynegi eu cylch gwaith.<br><br>Mae blaenraglen waith ar gyfer pob Pwyllgor ar waith ac fe'i cymeradwyir yn flynyddol. | | Blaenraglen Waith y Bwrdd<br><br>Blaenraglen Waith y Pwyllgor<br><br>Cylch Gorchwyl y Pwyllgor |
| 4.1 | Dylai'r Bwrdd sicrhau bod trefniadau ar waith i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol, gan gynnwys:<br>1. gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer penodi aelodau newydd o'r bwrdd, deiliadaeth a chynllunio olyniaeth ar gyfer aelodau'r bwrdd ac uwch swyddogion<br>2. rhoi digon o amser i'r bwrdd gyflawni ei gyfrifoldebau ar y cyd yn effeithiol<br>3. anwythiad wrth ymuno â'r bwrdd, wedi'i ategu gan ddiweddariadau rheolaidd i sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth aelodau'r bwrdd yn gyfredol<br>4. darparu gwybodaeth yn amserol ar ffurf ac o ansawdd sy'n galluogi'r bwrdd i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol | Mae'r holl Aelodau Annibynnol sy'n cael eu penodi, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru a rheolir y prosesau penodi gan Adran Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Pob penodiad Gweithredol, er bod gan benodiadau mewnol aseswyr annibynnol allanol ar y paneli a chynrychiolaeth Llywodraeth Cymru hefyd.<br><br>Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol yn monitro telerau swydd Aelodau Annibynnol i sicrhau bod cynllunio olyniaeth yn amserol ac yn cael ei reoli ar y cyd â'r uned penodiadau cyhoeddus. | | Cylch Gorchwyl a Threfniadau Gweithredu ar gyfer y Bwrdd a'r Pwyllgorau<br><br>Blaenraglen Waith y Bwrdd a'r Pwyllgor |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 5. mecanwaith ar gyfer dysgu o lwyddiannau a methiannau yn y gorffennol o fewn teulu'r adran a sefydliadau allanol perthnasol<br>6. gwerthusiad blynyddol ffurfiol a thrwyadl o berfformiad y bwrdd a pherfformiad ei bwyllgorau, ac aelodau unigol y bwrdd<br>7. ysgrifenyddiaeth bwrpasol gyda sgiliau a phrofiad priodol | Cynhelir cyfarfodydd Gosod Agenda gyda'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol i gynllunio'r agenda a sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i'r pethau iawn yng nghyfarfodydd y Bwrdd.<br><br>Rhaglen Anwytho'r Bwrdd ar waith (fel y cyfeiriwyd ati'n flaenorol), wedi'i hategu gan Sesiynau Briffio'r Bwrdd a sesiynau Datblygu'r Bwrdd.<br><br>Mae'r Cadeirydd yn cynnal Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Personol rheolaidd un i un gyda'r holl Aelodau Annibynnol.<br><br>Cyhoeddir agenda a phapurau cyfarfodydd y Bwrdd wythnos cyn y cyfarfod. Mae templedi adroddiadau wedi cael eu diwygio i sicrhau eu bod yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwybodaeth briodol a pherthnasol.<br><br>Mae'r swyddogaeth Llywodraethiant Corfforaethol yn cefnogi Busnes y Bwrdd a'r Pwyllgor. Mae proses ymgynghori wedi'i chynnal a disgwylir y canlyniad terfynol mewn perthynas â'r swyddogaeth hon er mwyn cynyddu capasiti o fewn y tîm a sicrhau bod sgiliau ac arbenigedd priodol ar waith.<br><br>Mae Strategaeth Ansawdd a Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Bwrdd yn sicrhau bod dysgu'n elfen allweddol o ansawdd, wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad.<br><br>Mae'r Bwrdd yn cynnal asesiad o'i effeithiolrwydd gan ddefnyddio Fframwaith Arweiniad Da NHS | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | England a NHS Improvement (NHSE a NHSI) ar gyfer Adolygiadau Datblygiadol Arweinyddiaeth a Llywodraethiant.<br>O 2023/24 ymlaen, bydd Pwyllgorau'n cynnal hunanasesiad canol blwyddyn o'u heffeithiolrwydd i lywio asesiad diwedd blwyddyn y Bwrdd. | | |
| 4.5 | Bydd cylch gorchwyl y pwyllgor enwebiadau yn cynnwys o leiaf y tair elfen ganolog ganlynol:<br>• craffu ar systemau ar gyfer nodi a datblygu arweinyddiaeth a photensial uchel<br>• craffu ar gynlluniau ar gyfer olyniaeth drefnus o benodiadau i'r bwrdd a'r uwch reolwyr, er mwyn cynnal cydbwysedd priodol o sgiliau a phrofiad<br>• craffu ar gymhellion a gwobrau ar gyfer aelodau'r bwrdd gweithredol ac uwch swyddogion, a chynghori ynghylch i ba raddau y mae'r trefniadau hyn yn effeithiol o ran gwella perfformiad | Mae'r Cylch Gorchwyl a'r trefniadau gweithredu yn seiliedig ar y Rheolau Sefydlog enghreifftiol ac yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau Pwyllgorau'r Bwrdd yn cynnwys rolau craffu a sicrwydd.<br><br>Mae'r Cadeirydd yn adolygu aelodaeth y Pwyllgorau yn flynyddol i sicrhau cydbwysedd priodol o sgiliau ac arbenigedd a chefnogi cynllunio ar gyfer olyniaeth. | Cydymffurfio | Cylch Gorchwyl ar gyfer Pwyllgorau'r Bwrdd<br><br>Rheolau Sefydlog |
| 4.6 | Dylai cofnod presenoldeb aelodau unigol o'r bwrdd gael ei ddatgelu yn y datganiad llywodraethu a dylai gynnwys cyfarfodydd y bwrdd a'i bwyllgorau a gynhelir yn y cyfnod y mae'r cyfrifon adnoddau'n berthnasol iddo. | Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn rhoi manylion am aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor a chofnod presenoldeb unigolion yn y cyfarfodydd hyn. | Cydymffurfio | Datganiadau Llywodraethiant Blynyddol |
| 4.10 | Lle bo angen, dylai aelodau'r bwrdd ofyn am eglurhad neu ymhelaethiad ar faterion y bwrdd neu bapurau'r bwrdd drwy ysgrifennydd y bwrdd. Bydd ysgrifennydd y bwrdd yn ystyried y ffordd orau i swyddogion gefnogi gwaith aelodau'r bwrdd; gall hyn gynnwys rhoi mynediad uniongyrchol i aelodau'r bwrdd at swyddogion lle bo hynny'n briodol. | Mae gan Aelodau Annibynnol y Bwrdd fynediad uniongyrchol at aelodau'r tîm gweithredol er mwyn ceisio rhagor o wybodaeth neu eglurhad ar faterion pan fyddant yn codi.<br><br>Mae sesiynau Datblygu Bwrdd rheolaidd a sesiynau briffio'r Bwrdd hefyd yn cael eu cynnal i sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am amrywiaeth y materion.<br>Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol yn gweithredu fel llais annibynnol yn y sefydliad i | Cydymffurfio | Proffil rôl Ysgrifennydd y Bwrdd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gynghori a chefnogi'r Bwrdd ar faterion llywodraethiant a'i ddull o fod yn agored ac yn dryloyw. Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol yn gyfrifol am ddatblygu'r rhaglenni gwaith ar gyfer Bwrdd a Phwyllgorau'r sefydliad. Sicrhau bod agendâu a phapurau'n cael eu datblygu a'u hadolygu cyn eu cyhoeddi er mwyn sicrhau ansawdd adroddiadau a bod mor dryloyw ac agored â phosibl yn y ffordd y mae'r sefydliad yn cynnal ei fusnes. | | |
| 4.11 | Mae ysgrifennydd bwrdd effeithiol yn hanfodol ar gyfer bwrdd effeithiol. O dan gyfarwyddyd yr ysgrifennydd parhaol, dylai cyfrifoldebau ysgrifennydd y bwrdd gynnwys:<br><br>• datblygu a chytuno ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd bwrdd gyda'r cadeirydd a'r aelod anweithredol arweiniol o'r bwrdd, gan sicrhau bod yr holl eitemau perthnasol yn cael eu dwyn i sylw'r bwrdd<br>• sicrhau llifoedd gwybodaeth da o fewn y bwrdd a'i bwyllgorau a rhwng uwch reolwyr ac aelodau anweithredol o'r bwrdd, gan gynnwys:<br>• herio a sicrhau ansawdd papurau'r bwrdd a gwybodaeth y bwrdd<br>• sicrhau bod aelodau'r bwrdd yn derbyn papurau'r bwrdd yn unol ag amserlen y cytunwyd arni gan y bwrdd<br>• darparu cyngor a chefnogaeth ar faterion llywodraethu a helpu i roi gwelliannau ar waith yn y strwythur llywodraethu a'r trefniadau<br>• sicrhau bod y bwrdd yn dilyn y broses briodol<br>• rhoi sicrwydd i'r bwrdd bod yr adran yn:<br>• cydymffurfio â pholisi'r llywodraeth, fel y nodir yn y cod | Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol yn ymgymryd â'r rolau hyn fel Ysgrifennydd y Bwrdd Iechyd | Cydymffurfio | Disgrifiad o rôl Ysgrifennydd y Bwrdd<br><br>Rheolau Sefydlog |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • glynu wrth egwyddorion y cod a'r darpariaethau ategol ar sail cydymffurfio neu egluro (a ddylai fod yn rhan o'r adroddiad sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon adnoddau)<br>• bod yn ganolbwynt ar gyfer rhyngweithio rhwng aelodau anweithredol o'r bwrdd a'r adran, gan gynnwys trefnu briff manwl ar gyfer aelodau anweithredol o'r bwrdd a chyfarfodydd rhwng aelodau anweithredol o'r bwrdd a swyddogion, yn ôl y gofyn, neu gofnodi penderfyniadau priodol y bwrdd yn gywir a sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu dilyn<br>• trefnu anwytho a datblygiad proffesiynol aelodau'r bwrdd (gan gynnwys gweinidogion) | | | |
| 4.14 | Dylai gwerthusiadau o berfformiad aelodau unigol o'r bwrdd ddangos a yw pob un yn parhau i gyfrannu'n effeithiol ac yn gorfforaethol ac yn dangos ymrwymiad i'r rôl (gan gynnwys ymrwymo amser ar gyfer cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau a dyletswyddau eraill). | Cynhelir asesiad blynyddol unigol o Gyfarwyddwyr Gweithredol y Bwrdd gan y Prif Weithredwr, ac Aelodau Annibynnol gan y Cadeirydd, gyda'r cyntaf yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth. | Cydymffurfio | Dogfennau a phroses arfarnu |
| 4.15 | Dylid ystyried pob gwrthdaro posibl rhwng buddiannau ar gyfer aelodau anweithredol o'r bwrdd fesul achos. Lle bo angen, dylid rhoi mesurau ar waith i reoli neu ddatrys gwrthdaro posibl. Dylai'r bwrdd gytuno ar system briodol a'i dogfennu i gofnodi a rheoli gwrthdaro a gwrthdaro posibl rhwng buddiannau aelodau'r bwrdd. Dylai'r bwrdd gyhoeddi, yn ei ddatganiad llywodraethu, holl fuddiannau perthnasol aelodau unigol y bwrdd a sut mae unrhyw wrthdaro a ganfuwyd, a gwrthdaro posibl, rhwng buddiannau aelodau'r bwrdd wedi cael eu rheoli. | Mae Aelodau'r Bwrdd yn llenwi Datganiadau o Fuddiant blynyddol ac mae'r gofrestr hon ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd. Gofynnir hefyd am ddatganiadau o Fuddiant mewn perthynas ag eitemau ar yr agenda ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd a'r Pwyllgor ac fe'u cofnodir yn ffurfiol yn y cofnodion.<br><br>Safonau Ymddygiad Busnes ar gyfer Gweithwyr yn eu lle a manylion cyfrifoldebau ar gyfer datgan buddiannau. | Cydymffurfio | Cofrestr Datgan Buddiannau<br><br>Polisi Safonau Ymddygiad Busnes ar gyfer Gweithwyr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.1<br>5.8 | Dylai'r bwrdd sicrhau bod yna drefniadau effeithiol ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar gyfer holl deulu'r adran. Mater i'r bwrdd, nid pwyllgor, yw cynghori a chraffu ar risgiau allweddol. Dylai'r bwrdd gael ei gefnogi gan:<br>• bwyllgor archwilio a sicrhau risg, wedi'i gadeirio gan aelod anweithredol o'r bwrdd sydd â phrofiad addas<br>• gwasanaeth archwilio mewnol sy'n gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus1<br>• timau noddi ALBs allweddol yr adran | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, dan gadeiryddiaeth arweinydd Cyllid yr Aelod Annibynnol.<br><br>Penodir Gwasanaethau Archwilio Mewnol PCWC yn Archwilwyr Mewnol y Bwrdd Iechyd<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd a'i Bwyllgorau yn monitro'r gwaith o reoli risg gan ystyried proffil y risgiau ac yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o'u rheoli. | Cydymffurfio | Cylch Gorchwyl a Threfniadau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd<br><br>Adroddiad Atebolrwydd<br><br>Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru |
| 5.2<br>5.13 | Dylai'r bwrdd arwain a goruchwylio'r gwaith o baratoi datganiad llywodraethu'r adran i'w gyhoeddi gyda'i gyfrifon adnoddau bob blwyddyn.<br><br>Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol (sy'n cynnwys meysydd a arferai gael eu cynnwys yn y datganiad ar reolaeth fewnol) yn cael ei gyhoeddi gyda'r cyfrifon adnoddau bob blwyddyn. Wrth ei baratoi, dylai'r bwrdd asesu'r risgiau sy'n wynebu'r adran a sicrhau bod systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol yr adran yn effeithiol. Dylai'r pwyllgor archwilio a sicrhau risg fel arfer arwain yr asesiad hwn ar ran y bwrdd. | Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn gyfrifol am adolygu'r system llywodraethu a sicrwydd a sefydlwyd yn y Bwrdd Iechyd a'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol, gan gynnwys rheoli risg ar gyfer y sefydliad ac, yn benodol, cynghori ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a lofnodwyd gan y Prif Weithredwr.<br><br>Mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Atebolrwydd sy'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd cyn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd. | Cydymffurfio | Adroddiad Atebolrwydd |
| 5.3<br>5.10 | Dylai agenda reolaidd y bwrdd gynnwys craffu a chynghori ar reoli risg. | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd a'i Bwyllgorau yn monitro'r gwaith o reoli risg gan ystyried proffil y risgiau ac yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o'u rheoli. | | Agendâu a phapurau'r Bwrdd a'r Pwyllgor<br><br>Strategaeth Rheoli Risg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae Cofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei chynnal a'i hystyried ym mhob Cyfarfod Bwrdd, a chan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Mae pob Pwyllgor yn monitro'r risgiau sy'n gysylltiedig â'i bortffolio ac yn darparu adroddiadau sicrwydd ar y rhain i'r Bwrdd. | | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd<br><br>Cofrestr Risgiau Corfforaethol |
| 5.4<br>5.9<br>5.11<br>5.12<br>5.14<br>5.15 | Mae prif gyfrifoldebau aelodau anweithredol y bwrdd yn cynnwys ffurfio pwyllgor archwilio a sicrhau risg.<br><br>Dylai'r bwrdd a'r swyddog cyfrifyddu gael eu cefnogi gan bwyllgor archwilio a sicrhau risg, sy'n cynnwys o leiaf dri aelod.<br><br>Ni ddylai pwyllgor archwilio a sicrhau risg fod ag unrhyw gyfrifoldebau gweithredol na bod yn gyfrifol am wneud neu gymeradwyo unrhyw benderfyniadau. Dylai gymryd gofal i gynnal ei annibyniaeth. Dylid sefydlu a gweithredu'r pwyllgor archwilio a sicrhau risg yn unol â llawlyfr y pwyllgor Archwilio a sicrhau risg.<br><br>Dylai'r bwrdd sicrhau bod digon o gefnogaeth i'r pwyllgor archwilio a sicrhau risg, gan gynnwys swyddogaeth ysgrifenyddol.<br><br>Dylai cylch gorchwyl y pwyllgor archwilio a sicrhau risg, gan gynnwys ei rôl a'r awdurdod a ddirprwywyd iddo gan y bwrdd, fod ar gael yn gyhoeddus. Dylai'r adran adrodd yn flynyddol ar waith y pwyllgor wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hynny<br><br>Dylai Byrddau sicrhau craffu ar drefniadau llywodraethu, boed hynny yn y bwrdd neu yn un o'i is-bwyllgorau (fel y pwyllgor archwilio a sicrwydd risg neu bwyllgor | Mae Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd wedi'i sefydlu.<br><br>Mae'r Cylch Gorchwyl a'r Trefniadau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor ARA yn glir mewn perthynas â chyfrifoldebau dirprwyedig ac awdurdod. Cyhoeddir y Cylch Gorchwyl hwn ar wefan y Bwrdd Iechyd.<br><br>Darperir cefnogaeth ysgrifenyddol lawn gan y Tîm Llywodraethiant Corfforaethol.<br><br>Mae 5 Aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.<br><br>Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn craffu ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. | Cydymffurfio | Cylch Gorchwyl a Threfniadau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd<br><br>Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | enwebiadau). Bydd hyn yn cynnwys cynghori ar bolisi llywodraethu corfforaethol a chraffu arno. | | | |
| 5.5 | Dylid gwahodd y pennaeth archwilio mewnol o bryd i'w gilydd i fynychu cyfarfodydd bwrdd, lle trafodir materion allweddol sy'n ymwneud â llywodraethu, prosesau rheoli risg neu reolaethau ar draws yr adran a'i Chyrff Hyd Braich. | Mae rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi'i nodi'n glir yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd.<br><br>Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn mynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.<br><br>Mae Archwilio Cymru a'r Archwilwyr Mewnol yn cael gwahoddiad rheolaidd i holl gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor. | Cydymffurfio | Rheolau Sefydlog<br><br>Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd |
| 5.6<br>5.7<br>5.10 | Dylai'r bwrdd sicrhau ei hun bod system a gweithdrefnau rheoli risg yr adran a'i reolaethau mewnol yn effeithiol. Dylai'r bwrdd roi arweiniad clir ar yr archwaeth risg a ddymunir ar gyfer yr adran a sicrhau:<br>• bod yna fframwaith priodol o reolaethau darbodus ac effeithiol, fel y gellir asesu, rheoli a chymryd risgiau'n ddoeth<br>• mae atebolrwydd clir dros reoli risgiau<br>• Mae gan swyddogion adrannol y sgiliau a'r canllawiau perthnasol i gyflawni eu rolau penodedig yn effeithiol ac yn effeithlon.<br><br>Dylai'r bwrdd hefyd sicrhau bod gan Gyrff Hyd Braich yr adran brosesau rheoli risg priodol ac effeithiol drwy dimau noddi'r adran.<br><br>Mae rhoi cyngor ar risgiau allweddol yn rôl i'r bwrdd. Dylai'r pwyllgor archwilio a sicrhau risg gefnogi'r bwrdd yn y rôl hon. | Mae gan y Bwrdd Iechyd Strategaeth Rheoli Risg y cytunwyd arni. Mae gwaith datblygu yn parhau i adolygu a mireinio'r Strategaeth Rheoli Risg, gyda sesiwn Datblygu'r Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2022 yn canolbwyntio ar drefniadau sicrwydd a rheoli risg strategol, gan gynnwys archwaeth risg a goddefgarwch risg a fydd yn elfen allweddol o'r Strategaeth Rheoli Risg ddiweddaraf.<br><br>Mae'r Strategaeth Rheoli Risg yn cyfleu llwybr clir ar gyfer uwchgyfeirio risg.<br><br>Mae Cymuned Ymarfer Rheoli Risg ar waith, dan arweiniad y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, Risg a Sicrwydd. | Cydymffurfio | Strategaeth Rheoli Risg<br><br>Cofrestr Risgiau Corfforaethol |

# Adroddiad ar Dâl a Staff 2022/23

Mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) y Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG baratoi Adroddiad Tâl sy'n darparu gwybodaeth o dan y penawdau yn Offeryn Statudol 2008 Rhif 410, i'r graddau y maent yn berthnasol. Mae'r Adroddiad Tâl yn cynnwys gwybodaeth am dâl uwch reolwyr. Y diffiniad o 'Uwch Reolwr' yw: "y personau hynny mewn swyddi uwch sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb dros gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau corff y GIG. Mae hyn yn golygu'r rheini sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r endid yn ei gyfanrwydd yn hytrach na phenderfyniadau cyfarwyddiaethau neu adrannau unigol."

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Atebolrwydd yn bodloni'r gofynion hyn.

### Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth

Cytunir ar Dâl a Thelerau Gwasanaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Prif Weithredwr, ac maent yn cael eu hadolygu'n gyson gan Bwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth y Bwrdd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn monitro ac yn gwerthuso perfformiad blynyddol y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr unigol (gyda chyngor y Prif Weithredwr). Yn 2022/23, cadeiriodd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, Ann Lloyd CBE, y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth, ac roedd yr aelodau'n cynnwys yr Aelodau canlynol:

- Pippa Britton, Is-gadeirydd y Bwrdd;
- Shelley Bosson, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (tan 31/10/2022)
- Iwan Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (o 1/11/2022)
- Louise Wright, Aelod Annibynnol (Undeb Llafur).

Mae cyfarfodydd yn cael eu cofnodi a phenderfyniadau'n cael eu cofnodi'n llawn.

### Tâl Aelodau Annibynnol

Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu ar Dâl Aelodau Annibynnol, ynghyd â deiliadaeth penodiadau. Mae manylion tâl Aelodau Annibynnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, ynghyd â chymaryddion, ar gael yn y Tablau isod.

### Tâl Cyfarwyddwyr

Mae manylion tâl Cyfarwyddwyr ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, ynghyd â chymaryddion, ar gael yn y Tablau isod. Y norm yw bod cyflogau Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr yn cael eu codi yn unol â'r ganran chwyddiant cyflog arferol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn 2022/23, cafodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol godiad cyflog yn unol â chwyddiant, yn unol â Fframwaith Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth hefyd yn adolygu'r amcanion a bennwyd ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol ac yn asesu perfformiad yn erbyn yr amcanion hynny wrth ystyried argymhellion yng nghyswllt codiadau cyflog blynyddol. Dylid nodi nad yw Cyfarwyddwyr Gweithredol ar unrhyw fath o gyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Mae pob contract yn barhaol gyda chyfnod rhybudd o dri mis. Mae'r amodau'n cyd-fynd â'r rhai a osodwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Raglen Ddiwygio'r GIG yn 2009. Yn ystod 2022/23 roedd tri (3) Chyfarwyddwr Dros Dro mewn swydd; Prif Weithredwr Dros Dro, Cyfarwyddwr Dros Dro Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl a Chyfarwyddwr Cyllid, Caffael a VBHC. Mae rhagor o fanylion am benodiadau dros dro ar gael yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Mae'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth werthuso a phennu tâl ar gyfer Cyfarwyddwyr, yn enwedig mewn perthynas â rhyw ac ethnigrwydd o ran lefelau cyflog, yn unol â Fframwaith Llywodraeth Cymru.

# Tabl Datgelu Cyflog a Phensiwn: Cyflogau a Lwfansau

## Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol

### Hawliadau Cyflog a Phensiwn Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr

**Cyfarwyddwyr Gweithredol**

| Enw | Teitl | 2022-23 Cyflog Cyfwerth Blwyddyn Lawn (bandiau o £6,000) £000 | 2022-23 Cyflog (bandiau o £5,000) £000 | 2022-23 Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £00 | 2022-23 Buddion pensiwn £000 | 2022-23 Cyfanswm (bandiau o £6,000) £000 | 2021-22 Cyflog Cyfwerth Blwyddyn Lawn (bandiau o £6,000) £000 | 2021-22 Cyflog (bandiau o £5,000) £000 | 2021-22 Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £00 | 2021-22 Buddion pensiwn £000 | 2021-22 Cyfanswm (bandiau o £6,000) £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Judith Paget | Prif Weithredwr (Tan 31.10.21) | | | | | | 215 - 220 | 125 - 130 | 0 | 54 | 175 - 180 |
| Glyn Jones | Dirprwy Brif Weithredwr (O 05.09.22 Tan 23.09.22) | 205 - 210 | 100 - 105 | 0 | 32 | 135 - 140 | | | | | |
| | Prif Weithredwr Dros Dro (O 01.11.21 Tan 04.09.22) | | | | | | 200 - 205 | 175 - 180 | 0 | 81 | 255 - 260 |
| | Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad / Dirprwy Brif Weithredwr (Tan 31.10.21) | | | | | | 155 - 160 | | | | |
| Nicola Prygodzicz | Prif Weithredwr (O 05.09.22) | 215 - 220 | | | | | | | | | |
| | Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad, Digidol a TG / Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro (O 01.11.21 Tan 04.09.22) | 125 - 130 | 165 - 170 | 12 | 282 | 450 - 455 | 125 - 130 | 120 - 125 | 6 | 10 | 130 - 135 |
| | Cyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG (Tan 31.10.21) | | | | | | 115 - 120 | | | | |
| Dr James Calvert | Cyfarwyddwr Meddygol / Dirprwy Brif Weithredwr (O 24.09.22) | 190 - 195 | 195 - 200 | 0 | 66 | 260 - 265 | | | | | |
| | Cyfarwyddwr Meddygol (Tan 23.09.22) | 185 - 190 | | | | | | 185 - 190 | 0 | 290 | 475 - 480 |
| Robert Holcombe | Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael (O 14.11.22) | 150 - 155 | 155 - 160 | 0 | 200 | 355 - 360 | | | | | |
| | Cyfarwyddwr Cyllid, Caffael a Gofal Iechyd yn Seiliedig ar Werth Dros Dro (O 01.11.21 Tan 13.11.22) | 150 - 155 | | | | | 145 - 150 | 60 - 65 | 0 | 72 | 130 - 135 |
| Chris Dawson-Morris | Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad Dros Dro (O 05.09.22) | 125 - 130 | 75 - 80 | 0 | 15 | 90 - 95 | | | | | |
| Jennifer Winslade | Cyfarwyddwr Nyrsio (O 08.08.22) | 135 - 140 | 90 - 95 | 0 | 59 | 150 - 155 | | | | | |
| Linda Alexander | Cyfarwyddwr Nyrsio (O 25.06.22 Tan 14.08.22) | | 15 - 20 | 0 | 10 | 25 - 30 | | | | | |
| Rhiannon Jones | Cyfarwyddwr Nyrsio (Tan 05.07.22) | | 35 - 40 | 0 | 7 | 40 - 45 | | 135 - 140 | 0 | 60 | 195 - 200 |
| Geraint Evans | Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol (Tan 31.08.21) | | | | | | 135 - 140 | 55 - 60 | 0 | 0 | 55 - 60 |
| Sarah Simmonds | Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol (Tan 22.07.21) | | 140 - 145 | 15 | 72 | 215 - 220 | 135 - 140 | 90 - 95 | 4 | 104 | 195 - 200 |
| Dr Sarah Aitken | Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus a Phartneriaethau Strategol (O 18.01.21 Tan 05.01.23) | 130 - 135 | 95 - 100 | 0 | 0 | 95 - 100 | 125 - 130 | 125 - 130 | 0 | 0 | 125 - 130 |
| | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Cymunedol a Sylfaenol (O 06.12.22 Tan 28.02.22) | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Peter Carr | Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd | | 110 - 115 | 25 | 16 | 130 - 135 | | 110 - 115 | 126 | 45 | 165 - 170 |
| Nick Wood | Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Cymunedol a Sylfaenol (Tan 05.12.21) | | | | | | 145 - 150 | 100 - 105 | 2 | 29 | 130 - 135 |
| Dr Chris O'Connor | Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Cymunedol a Sylfaenol Dros Dro (O 28.02.22) | | 145 - 150 | 0 | 212 | 360 - 365 | 135 - 140 | 10 - 15 | 0 | 4 | 15 - 20 |
| **Cyfarwyddwr Gweithrediadau** | | | | | | | | | | | |
| Claire Birchall | Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Tan 02.05.21) | | | | | | 110 - 115 | 10 - 15 | 0 | 0 | 10 - 15 |
| Leanne Watkins | Cyfarwyddwr Gweithrediadau (O 17.03.22) | | 120 - 125 | 17 | 32 | 155 - 160 | | | | | |
| | Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro (O 12.04.21 Tan 16.03.22) | | | | | | 110 - 115 | 105 - 110 | 39 | 86 | 195 - 200 |
| **Ysgrifennydd y Bwrdd / Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol** | | | | | | | | | | | |
| Richard Howells | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd (Tan 30.11.21) | | | | | | 90 - 95 | 60 - 65 | 0 | 90 | 150 - 155 |
| Rani Dash | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol (O 14.03.22) | | 110 - 115 | 56 | 41 | 155 - 160 | 100 - 105 | 35 - 40 | 18 | 9 | 50 - 55 |
| | Ysgrifennydd y Bwrdd (O 28.11.21 Tan 13.03.22) | | | | | | | | | | |
| **Ymgynghorydd Arbennig i'r Bwrdd** | | | | | | | | | | | |
| Philip Robson | Ymgynghorydd Arbennig i'r Bwrdd | | 15 - 20 | 0 | 0 | 15 - 20 | | 35 - 40 | 0 | 0 | 35 - 40 |
| Chris Koehli | Ymgynghorydd Arbennig i'r Bwrdd (Tan17.07.21) | | | | | | 35 - 40 | 5 - 10 | 0 | 0 | 5 - 10 |
| **Cyfarwyddwyr Anweithredol** | | | | | | | | | | | |
| Ann Lloyd CBE | Cadeirydd | | 65 - 70 | 0 | 0 | 65 - 70 | | 65 - 70 | 0 | 0 | 65 - 70 |
| Emrys Elias | Is-gadeirydd (Tan 30.09.21) | | | | | | 55 - 60 | 25 - 30 | 0 | 0 | 25 - 30 |
| Pippa Britton | Is-gadeirydd Dros Dro (O 18.10.21) | | 55 - 60 | 0 | 0 | 55 - 60 | 55 - 60 | 30 - 35 | 0 | 0 | 30 - 35 |
| | Aelod Annibynnol (Cymunedol) (Tan 17.10.21) | | | | | | 15 - 20 | | | | |
| Katija Dew | Aelod Annibynnol (Trydydd Sector/Gwirfoddol) | | 15 - 20 | 0 | 0 | 15 - 20 | | 15 - 20 | 0 | 0 | 15 - 20 |
| Prof. Helen Sweetland | Aelod Annibynnol (Prifysgol) | | 0 | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Richard Clark | Aelod Annibynnol (Awdurdod Lleol) | | 15 - 20 | 0 | 0 | 15 - 20 | | 15 - 20 | 0 | 0 | 15 - 20 |
| Paul Deneen | Aelod Annibynnol (Cymunedol) | | 15 - 20 | 0 | 0 | 15 - 20 | | 15 - 20 | 0 | 0 | 15 - 20 |
| Shelley Bosson | Aelod Annibynnol (Cymunedol) | | 15 - 20 | 0 | 0 | 15 - 20 | | 15 - 20 | 0 | 0 | 15 - 20 |
| Dafydd Vaughan | Aelod Annibynnol (Digidol) (O 09.05.22) | 15 - 20 | 10 - 15 | 0 | 0 | 10 - 15 | | | | | |
| Iwan Jones | Aelod Annibynnol (Cyllid) (O 04.04.22) | 15 - 20 | 15 - 20 | 0 | 0 | 15 - 20 | | | | | |
| Louise Wright | Aelod Annibynnol (Undeb Llafur) | | 0 | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Keith Sutcliffe | Aelod Annibynnol Cyswllt (Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid) (Tan 30.11.22) | | 0 | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | 2022-23 | | 2021-22 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyflog | Cymhareb | Cyflog | Cymhareb |
| Band o Gyfanswm Cydnabyddiaeth Ariannol y Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf £000 | 215 - 220 | | 200 - 205 | |
| Cyflog y 25ain ganran £ | 26,282 | 8.3 | 24,883 | 8.1 |
| Cyflog canolrifol £ | 33,428 | 6.5 | 32,008 | 6.3 |
| Cyflog y 75ain ganran £ | 43,078 | 5.0 | 41,837 | 4.8 |

Mae cyflog wedi cael ei gofnodi fel cyflog gros, sydd cyn didynnu unrhyw gynlluniau aberthu cyflog. Yn ystod 2022-23, cafodd £7k o gyflog Nicola Prygezicz ei aberthu mewn perthynas â'r cynllun car prydles, cafodd Jennifer Winslade lai na £1k wedi'i aberthu mewn perthynas â phensiynau, cafodd Sarah Simmonds £8k wedi'i aberthu mewn perthynas â'r cynllun car prydles a llai na £1k wedi'i aberthu mewn perthynas â phensiynau. Cafodd Leanne Watkins £11k wedi'i aberthu mewn perthynas â'r cynllun car prydles a llai na £1k mewn perthynas â'r cynllun aberthu seiclo i'r gwaith, a chafodd Rani Dash £7k wedi'i aberthu fel rhan o'r cynllun car prydles.

Mae swydd Cynghorydd Arbennig i'r Bwrdd wedi cael ei datgelu gan yr ystyriwyd ei bod yn dylanwadu ar benderfyniadau'r bwrdd.

Cyfrifir swm y buddion pensiwn ar gyfer y flwyddyn sy'n cyfrannu at un cyfanswm gan ddefnyddio dull tebyg i'r un a ddefnyddir i gael gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth ac mae'n seiliedig ar wybodaeth a geir gan Asiantaeth Pensiynau BSA y GIG.

Cyfrifir gwerth buddion pensiwn fel a ganlyn:
(cynnydd real mewn pensiwn* x20) (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) – (cyfraniadau a wneir gan yr aelod)
*ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn

Nid yw hwn yn swm sydd wedi cael ei dalu i unigolyn gan y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn, mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau yng nghyflog person, p'un a ydynt yn dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn ai peidio o'u cyflog a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i dalu dau gyn brif weithredwr sydd ar secondiad i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Mae Andrew Goodall wedi cael secondiad ers 8 Mehefin 2014 ac mae Judith Paget ar secondiad ers 1 Tachwedd 2021. Datgelir manylion y taliadau a dderbyniwyd gan yr unigolion hyn yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru, ac ad-delir costau cyflogaeth y Bwrdd Iechyd. Y band cyflog sydd wedi'i gynnwys ar gyfer Andrew Goodall yw £215,000 i £220,000 (£215,000 i £220,000 2021-22) ac ar gyfer Judith Paget mae'n £215,000 i £220,000 (£85,000 i £90,000 2021-22).

**Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol parhad**

**Hawliadau Cyflog a Phensiwn Buddion Pension Uwch Reolwyr**

| Enw | Teitl | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oedran pensiwn (bandiau £2,500) £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad pensiwn ar oed pensiwn (bandiau £2,500) £000 | Cyfanswm croniad y pensiwn ar oed pensiwn ar 31 Mawrth 2023 (bandiau £5,00) £000 | Cyfandaliad ar oed pensiwn mewn perthynas â chroniad pensiwn ar 31 Mawrth 2023 (bandiau £5,000) £000 | Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2023 £000 | Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2022 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod £000 | Cyfraniad cyflogwr i bensiwn rhanddeiliad £00 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Glyn Jones | Dirprwy Brif Weithredwr (O 05.09.22 Tan 23.09.22)<br>Prif Weithredwr Dros Dro (O 01.11.21 Tan 04.09.22)<br>Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad / Dirprwy Brif Weithredwr (Tan 31.10.21) | 0.0 - 2.5 | 0.0 | 35 - 40 | 0 | 569 | 474 | 24 | 0 |
| Nicola Prygodzicz | Prif Weithredwr (O 05.09.22)<br>Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad, Digidol a TG / Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro (O 01.11.21 Tan 04.09.22)<br>Cyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG (Tan 31.10.21) | 12.5 - 15.0 | 30.0 - 32.5 | 60 - 65 | 135 - 140 | 1175 | 874 | 253 | 0 |
| Dr James Calvert | Cyfarwyddwr Meddygol / Dirprwy Brif Weithredwr (O 24.09.22)<br>Cyfarwyddwr Meddygol (Tan 23.09.22) | 2.5 - 5.0 | 0.0 - 2.5 | 75 - 80 | 170 - 175 | 1589 | 1440 | 77 | 0 |
| Robert Holcombe | Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael (O 14.11.22)<br>Cyfarwyddwr Cyllid, Caffael a Gofal Iechyd yn Seiliedig ar Werth Dros Dro (O 01.11.21 Tan 13.11.22) | 10.0 - 12.5 | 20.0 - 22.5 | 50 - 55 | 105 - 110 | 965 | 735 | 186 | 0 |
| Chris Dawson-Morris | Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad Dros Dro (O 05.09.22) | 0.0 - 2.5 | 0.0 | 5 - 10 | 0 | 78 | 55 | 2 | 0 |
| Jennifer Winslade | Cyfarwyddwr Nyrsio (O 08.08.22) | 2.5 - 5.0 | 2.5 - 5.0 | 55 - 60 | 110 - 115 | 1088 | 948 | 60 | 0 |
| Linda Alexander | Cyfarwyddwr Nyrsio (O 25.06.22 Tan 14.08.22) | 0.0 - 2.5 | 0.0 - 2.5 | 35 - 40 | 105 - 110 | 864 | 746 | 12 | 0 |
| Rhiannon Jones | Cyfarwyddwr Nyrsio (Tan 05.07.22) | 0.0 - 2.5 | 0.0 - 2.5 | 65 - 70 | 190 - 195 | 0 | 1336 | 0 | 0 |
| Sarah Simmonds | Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol (Tan 31.08.21) | 2.5 - 5.0 | 5.0 - 7.5 | 30 - 35 | 50 - 55 | 479 | 396 | 52 | 0 |
| Peter Carr | Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd | 0.0 - 2.5 | (2.5) - 0.0 | 40 - 45 | 85 - 90 | 753 | 700 | 17 | 0 |
| Dr Chris O'Connor | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Cymunedol a Sylfaenol (O 06.12.22 Tan 28.02.22) | 10.0 - 12.5 | 20.0 - 22.5 | 50 - 55 | 100 - 105 | 909 | 683 | 184 | 0 |
| Leanne Watkins | Cyfarwyddwr Gweithrediadau (O 17.03.22)<br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro (O 12.04.21 Tan 16.03.22) | 0.0 - 2.5 | 0.0 - 2.5 | 40 - 45 | 80 - 85 | 671 | 612 | 26 | 0 |
| Rani Dash | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol (O 14.03.22)<br>Ysgrifennydd y Bwrdd (O 28.11.21 Tan 13.03.22) | 2.5 - 5.0 | 0.0 - 2.5 | 20 - 25 | 35 - 40 | 299 | 256 | 21 | 0 |

**Nid yw Sarah Aitken wedi cyfrannu at Gynllun Pensiwn y GIG yn ystod 2022-23.**

**Mae Rhiannon Jones wedi ymddeol, felly nid oes CETV ar gael.**

**Gan nad yw Aelodau Anweithredol yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol bensiynadwy, ni fydd unrhyw gofnodion mewn perthynas â phensiynau ar gyfer aelodau Anweithredol.**

**Caiff ffigyrau CETV eu cyfrifo gan ddefnyddio'r arweiniad ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus di-nawdd a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023. Cyhoeddodd Trysorlys EF ddiweddariad i'r arweiniad ar 27 Ebrill 2023; bydd yr arweiniad hwn yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifol ffigyrau CETV 2023-24.**

## Lwfans blynyddol treth pensiynau – Trefniadau Talu'r Cynllun 2019/20

Yn unol â Chyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gefnogi amgylchiadau lle mae rheolau treth pensiynau yn effeithio ar staff clinigol sydd eisiau gweithio oriau ychwanegol, ac wedi penderfynu:

- gall staff clinigol sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG ac sydd, o ganlyniad i waith a wnaed yn ystod blwyddyn dreth 2019-20, yn wynebu tâl treth ar dwf eu buddion pensiwn GIG, ddewis cael y tâl hwn wedi'i dalu gan Gynllun Pensiwn y GIG, gyda'u pensiwn yn cael ei leihau ar ôl ymddeol.

Bydd Llywodraeth Cymru, ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn talu swm cyfatebol i'r aelodau sy'n dewis ad-dalu eu pensiwn ar ôl ymddeol, gan sicrhau eu bod yn cael eu digolledu'n llawn am effaith y didyniad.

Bydd y cynllun hwn yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i Adran Bensiwn Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG, y gweinyddwyr ar ran hawlwyr Cymru.

Mae gan staff clinigol tan 31 Mawrth 2022 i ddewis y cynllun hwn a'r gallu i wneud newidiadau hyd at 31 Gorffennaf 2026.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnwys darpariaeth Tâl Cynllun o £141,451 (fel yr hysbyswyd gan Lywodraeth Cymru) yn y cyfrifon hyn.

## Perthynas Tâl

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr/cyflogai sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a thâl 25ain canradd, canolrif a 75ain canradd gweithlu'r sefydliad.

Yn 2022-23, cafodd 15 (2021-22, 7) o weithwyr dâl sy'n uwch na'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf.

Roedd y tâl ar gyfer yr holl staff yn amrywio o £14k i £416k (2021-22, £19k i £338k).

Mae'r ystod staff i gyd yn cynnwys cyfarwyddwyr (gan gynnwys y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf) ac nid yw'n cynnwys buddion pensiwn pob gweithiwr.

| | | 2022-23 | 2022-23 | 2022-23 | | 2021-22 | 2021-22 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfanswm tâl a buddion** | | **Prif Weithredwr** | **Gweithiwr** | **Cymhareb** | | **Prif Weithredwr** | **Gweithiwr** | **Cymhareb** |
| | Cymhareb gyflog y 25ain ganran | **215 - 220** | **26** | **8.3** | | 200 - 205 | 25 | 8.1 |
| | Cyflog canolrifol | **215 - 220** | **33** | **6.5** | | 200 - 205 | 32 | 6.3 |
| | Cymhareb gyflog y 75ain ganran | **215 - 220** | **43** | **5.0** | | 200 - 205 | 42 | 4.8 |
| **Cydran cyflog cyfanswm y tâl a buddion** | | | | | | | | |
| | Cymhareb gyflog y 25ain ganran | **215 - 220** | **26** | | | 200 - 205 | 25 | |
| | Cyflog canolrifol | **215 - 220** | **33** | | | 200 - 205 | 32 | |
| | Cymhareb gyflog y 75ain ganran | **215 - 220** | **43** | | | 200 - 205 | 42 | |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm tâl a buddion** | | **Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf** | **Gweithiwr** | **Cymhareb** | | Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf | Gweithiwr | Cymhareb |
| | Cymhareb gyflog y 25ain ganran | **215 - 220** | **26** | **8.3** | | 200 - 205 | 25 | 8.1 |
| | Cyflog canolrifol | **215 - 220** | **33** | **6.5** | | 200 - 205 | 32 | 6.3 |
| | Cymhareb gyflog y 75ain ganran | **215 - 220** | **43** | **5.0** | | 200 - 205 | 42 | 4.8 |
| **Cydran cyflog cyfanswm y tâl a buddion** | | | | | | | | |
| | Cymhareb gyflog y 25ain ganran | **215 - 220** | **26** | | | 200 - 205 | 25 | |
| | Cyflog canolrifol | **215 - 220** | **33** | | | 200 - 205 | 32 | |
| | Cymhareb gyflog y 75ain ganran | **215 - 220** | **43** | | | 200 - 205 | 42 | |

## Crynodeb o'r flwyddyn ariannol

Bu cynnydd yn y gymhareb cyflog a briodolir i'r cynnydd yn y cyflog i'r prif weithredwr/cyfarwyddwr cyflogedig uchaf, sy'n fwy na'r cynnydd yng nghyflog canolrifol y gweithwyr.

Mae'r gymhareb cyflog canolrifol ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol yn gyson â'r polisïau tâl, gwobrwyo a chynnydd ar gyfer gweithwyr yr endid cyfan.

| **9.6.2 Newidiadau Canrannol** | | **2021-22 i 2022-23** | 2020-21 i 2021-22 |
|---|---|---|---|
| Newid % o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â'r Prif Weithredwr | | **%** | **%** |
| | Cyflog a lwfansau | **7** | (2) |
| | Tâl a bonwsau perfformiad | **0** | 0 |
| Newid % o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf | | | |
| | Cyflog a lwfansau | **7** | (2) |
| | Tâl a bonwsau perfformiad | **0** | 0 |
| Newid % Cymedrol o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas ag arian gweithwyr yn gyffredinol | | | |
| | Cyflog a lwfansau | **5** | **5** |
| | Tâl a bonwsau perfformiad | **0** | **0** |

# ADRODDIAD STAFF

## Niferoedd Staff

9.2 Nifer cyfartalog o weithwyr

| | Staff Parhaol | Staff ar Secondiad Mewnol | Staff Asiant-aeth | Arbenigwr Dan Hyffordd-iant (SLE) | Staff Banc Cydweith-iol | Arall | Cyfanswm | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
| Gweinyddol, clerigol a bwrdd | 2,677 | 20 | 30 | 0 | 0 | 0 | 2,727 | 2,582 |
| Meddygol a deintyddol | 758 | 6 | 82 | 393 | 0 | 20 | 1,259 | 1,234 |
| Nyrsio, bydwreigiaeth gofrestredig | 3,736 | 7 | 248 | 0 | 0 | 0 | 3,991 | 4,051 |
| Proffesiynol, Gwyddonol, a thechnolegol | 460 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 462 | 436 |
| Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol | 2,668 | 0 | 209 | 0 | 0 | 0 | 2,877 | 2,792 |
| Proffesiynau Perthynol i Iechyd | 802 | 0 | 27 | 0 | 0 | 0 | 829 | 804 |
| Gwyddonwyr Gofal Iechyd | 230 | 4 | 11 | 0 | 0 | 0 | 245 | 243 |
| Ystadau ac Ategol | 975 | 0 | 171 | 0 | 0 | 0 | 1,146 | 1,145 |
| Myfyrwyr | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 4 |
| **Cyfanswm** | 12,316 | 37 | 780 | 393 | 0 | 20 | 13,546 | 13,291 |

Priodolir y rhesymeg dros newidiadau yn y niferoedd Nyrsio Cofrestredig i gyfraddau trosiant uwch a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol, na recriwtiwyd yn llawn iddynt yn 2022/23. Roedd y trosiant uwch yn gysylltiedig â chynnydd mewn ymddeoliadau ar ôl Covid-19 oherwydd y proffil gweithlu sy’n heneiddio mewn meysydd fel nyrsio oedolion, iechyd meddwl a meysydd ymarfer nyrsio ardal. Bu cynnydd cyffredinol mewn trosiant i 10.2% o’r hyn sy’n drosiant arferol ym maes Nyrsio a Bydwreigiaeth o 9.0%.

O ran cynnydd gweinyddol, mae’r cynnydd hwn wedi cael ei nodi gyda chynnydd cyffredinol ar draws y Bwrdd Iechyd sy’n gysylltiedig â phrentisiaethau, cynnydd mewn cymorth amserlennu, cymorth gweinyddol ar gyfer gwelliannau i wasanaethau fel TGCh a gwybodeg a gwasanaeth Covid 19 penodol fel Profi, Olrhain, Diogelu a brechu torfol, rheoli rhaglenni, ailstrwythuro adrannol, gweithredu e-systemau, gweithredu rhaglenni rhanbarthol a chyllid RIFT.

## Cyfansoddiad Staff

Mae’r tabl uchod yn rhoi dadansoddiad o nifer y staff fesul disgyblaeth a grŵp proffesiynol yn y Bwrdd Iechyd.

Mae’r dadansoddiad o’r rhywiau ar gyfer pob grŵp staff ar 31 Mawrth 2023 dros y dudalen:

| | 2022-2023 | | | 2021-2022 | | | 2020-2021 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfarwyddwyr** | **WTE** | **%** | **Cyfarwyddwyr** | **WTE** | **%** | **Cyfarwyddwyr** | **WTE** | **%** |
| **Benywaidd** | 5 | 10127 | 80.06% | 4.78 | 9722.1 | 79.27% | 5.78 | 9762.8 | 79.29% |
| **Gwrywaidd** | 6 | 2521.5 | 19.94% | 6 | 2543.1 | 20.73% | 5 | 2549.2 | 20.71% |
| **Cyfanswm** | **11** | **12648.50** | | **10.78** | **12265.20** | | **10.78** | **12312** | |

Bydd cyfanswm nifer y staff fesul disgyblaeth yn wahanol i'r niferoedd staff a ddangosir yn y tabl dadansoddiad rhywedd gan fod y ffigurau rhywedd yn seiliedig ar bwynt amser ar 31 Mawrth 2023, tra bo'r niferoedd staff fesul disgyblaeth yn cynrychioli'r cyfartaledd dros gyfnod o 52 wythnos o staff mewn swydd.

## Data Absenoldeb oherwydd Salwch

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi monitro absenoldeb mewn gwahanol gategorïau fel y nodir yn yr adran hon.

Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2022/2023 yw 6.74%, cynnydd ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch o 6.30% yn 2021/2022, oedd yn ostyngiad bach o'r flwyddyn flaenorol o 6.7% yn 2020/2021. Roedd absenoldeb salwch yn parhau i fod yn uwch na 6% am bob mis, ac eithrio mis Mawrth 2023, a ostyngodd i 5.94%. Rhagfyr 2022 gofnododd y ffigur uchaf o ran absenoldeb oherwydd salwch sef 7.83%. Roedd 0.82% o'r salwch oherwydd Covid 19.

Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae'r diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul unigolyn wedi cynyddu ychydig o un flwyddyn i'r llall. Yn 2021/2022, y diwrnodau salwch a gollwyd ar gyfartaledd oedd 17.2 fesul gweithiwr unigol, a gynyddodd i 18 diwrnod yn 2022/23.

Mae'r tabl isod yn darparu data tueddiadau absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y Bwrdd Iechyd dros yr wyth mlynedd diwethaf.

| Sickness Absence | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Days Lost (Short Term <28 days) | 61261 | 53097 | 60406 | 54759 | 68229 | 60411 | 79761 | 98573 |
| Days Lost (Long Term >28 days) | 144562 | 147711 | 153345 | 162684 | 194289 | 188778 | 203781 | 205131 |
| Total Days Lost | 205823 | 200808 | 213751 | 217443 | 262518 | 249189 | 283542 | 303704 |
| Total Staff Years | 902 | 880 | 937 | 954 | 1156 | 1093 | 1249 | 1350 |
| Average Working Days Lost | 14.7 | 14.2 | 15.2 | 15.2 | 15.2 | 16 | 17.2 | 18 |
| Total staff employed in period (headcount) | 14020 | 14155 | 10412 | 14334 | 14835 | 15528 | 15863 | 16245 |
| Total staff employed with no absence (headcount) | 4919 | 5803 | 4848 | 5016 | 5402 | 6055 | 5710 | 5035 |
| Percentage staff with no sick | 40% | 41% | 37% | 35% | 36% | 39% | 36% | 31% |

## Gwaharddiad Meddygol

Mae gwaharddiad meddygol yn derm sy’n cael ei ddefnyddio i gofnodi’r staff hynny sydd wedi gorfod hunanynysu am nifer o resymau, er enghraifft, aelod o’r aelwyd sydd â symptomau Covid-19, cyswllt drwy’r gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu, neu’n cael ei ystyried yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol, ac felly’n gorfod gwarchod am ddau gyfnod gwahanol o amser o ganlyniad i gyngor Llywodraeth Cymru.

Mae’r amrywiad cyffredin o Covid-19 a’r cyfraddau uchel o imiwnedd yn y boblogaeth wedi golygu bod Covid-19 yn haint llai difrifol ar hyn o bryd. Mae hyn wedi arwain at ddiwygio canllawiau profi Llywodraeth Cymru i adlewyrchu’r newid hwn. O 01 Ebrill 2023 ymlaen, nid yw profion rheolaidd ar gyfer yr holl staff yn ofyniad mwyach, a fydd yn arwain at ostyngiad pellach yn nifer y staff sy’n cael eu gwahardd yn feddygol o’r gweithle.

Mae’r tabl isod yn dangos sut roedd y pandemig wedi effeithio ar bresenoldeb yn gyffredinol, gyda 10,952 diwrnod arall wedi’u colli oherwydd bod staff wedi gorfod cael eu gwahardd yn feddygol, sy’n llawer is na 2021/22:

| Absenoldeb oherwydd Salwch | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiau wedi’u Colli (Tymor Byr <28 diwrnod) | 61261 | 53097 | 60406 | 54759 | 68229 | 60411 | 79761 | 98573 |
| Dyddiau wedi’u Colli (Tymor Hwy >28 diwrnod) | 144562 | 147711 | 153345 | 162684 | 194289 | 188778 | 203781 | 205131 |
| Cyfanswm y Dyddiau wedi’u Colli | 205823 | 200808 | 213751 | 217443 | 262518 | 249189 | 283542 | 303704 |
| Cyfanswm Blynyddoedd Staff | 902 | 880 | 937 | 954 | 1156 | 1093 | 1249 | 1350 |
| Diwrnodau Gwaith wedi'u Colli ar Gyfartaledd | 14.7 | 14.2 | 15.2 | 15.2 | 15.2 | 16 | 17.2 | 18 |
| Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod cyfnod (nifer) | 14020 | 14155 | 10412 | 14334 | 14835 | 15528 | 15863 | 16245 |
| Cyfanswm y staff a gyflogwyd heb absenoldeb (nifer) | 4919 | 5803 | 4848 | 5016 | 5402 | 6055 | 5710 | 5035 |
| Canran y staff heb ddyddiau salwch | 40% | 41% | 37% | 35% | 36% | 39% | 36% | 31% |

Mae gwaharddiad meddygol yn ychwanegu 0.7 diwrnod arall ar gyfartaledd fesul gweithiwr unigol at absenoldeb cyffredinol. Mae’r diwrnodau absenoldeb cyfartalog cyffredinol a gollir fesul gweithiwr wedi aros yr un fath â 2021/22. Fodd bynnag, mae’r diwrnodau a gollwyd yn is o ran gwaharddiad meddygol, gan arwain at gyfanswm o 314,656 o ddiwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch a/neu waharddiad meddygol.

**Polisïau Staff**

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan amrywiaeth o bolisïau staff ar waith, sy’n cael eu datblygu mewn partneriaeth â staff a chydweithwyr undebau llafur. Asesir pob polisi drwy Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau bod pob polisi yn deg ac nad yw’n trin unigolion neu grwpiau sydd â nodwedd warchodedig yn llai ffafriol yn anfwriadol. Mae hyn yn cynnwys:

- rhoi ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am gyflogaeth a wneir gan bersonau anabl neu nodweddion gwarchodedig eraill, gan ystyried eu doniau a’u galluoedd penodol;
- parhau i gyflogi a threfnu hyfforddiant priodol i gyflogeion, sydd wedi dod yn bersonau anabl yn ystod y cyfnod pan oeddent yn cael eu cyflogi gan y cwmni;
- fel arall ar gyfer hyfforddi, datblygu gyrfa a hyrwyddo pobl anabl a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd.

Rhwng 01 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, cafodd un polisi ‘Mynediad at Bensiwn y GIG a Chanllawiau Ail-ymgysylltu’ ei ystyried gan y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth. Ar ben hynny, cafodd polisi newydd sy’n dilyn cyngor ac arweiniad ar sail Cymru gyfan mewn perthynas â phensiynau, h.y. Polisi Taliadau Amgen Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr, ei ystyried gan y Pwyllgor yn gynharach yn 2022 a’i gymhwyso o fis Ebrill 2022 ymlaen.

**Materion Cysylltiadau Gweithwyr**

Mae manylion nifer yr achosion disgyblu rhwng 01 Mawrth 2022 a 31 Mawrth 2023 wedi’u nodi isod:

| Achosion Disgyblu | Diswyddiadau | Apeliadau | Tribiwnlysoedd Cyflogaeth |
|---|---|---|---|
| 41 | 14 | 3 | 7 |

Mae’r gweithgaredd uchod yn dangos gostyngiad o dros 60% mewn achosion disgyblu o’i gymharu â’r cyfnod blaenorol o ddeuddeg mis.

**Talu i Gyfarwyddwyr Blaenorol**

Nid oes unrhyw daliadau wedi'u gwneud i unrhyw berson nad oedd yn gyfarwyddwr ar yr adeg y gwnaed y taliad, ond a oedd wedi bod yn gyfarwyddwr ar y Bwrdd Iechyd o'r blaen.

## Gwariant ar Ymgynghoriaeth

| Gwariant Ymgynghoriaeth | 2022-23 | |
|---|---|---|
| Nodyn 3.3. o'r prif Gyfrifon | | |
| **Ymgynghorydd** | **Manylion** | **£000** |
| Attain Health Management Services Ltd | Sylfaenol Cymunedol ac IM – Cymorth Cyfalaf Strategol – Cam 1 | 87 |
| Castor Business Consulting Ltd | Ffioedd Ymgynghoriaeth a godwyd mewn perthynas â CCH PF | 12 |
| Deloitte LLP | Cyngor Treth | 1 |
| Ernst & Young LLP | Adolygiadau TAW mewn perthynas â chydymffurfiaeth | 19 |
| Figure & Consultancy Services Ltd | IM - Datblygu, hwyluso a gweithredu - ffioedd a godwyd yn is na'r hyn a amcangyfrifwyd yn 2021 | -8 |
| Hugh Irwin Associates Ltd | Sylfaenol Cymunedol ac IM – Cymorth Cyfalaf Strategol – Cam 1 | 86 |
| In-Form Solutions Ltd | Cyngor Masnachol 2021-22 ffioedd a godwyd yn llai na'r hyn a amcangyfrifwyd yn 2021-22 | -5 |
| Oxford Brookes Enterprises Ltd | Sylfaenol Cymunedol ac IM – Cymorth Cyfalaf Strategol – Cam 1 | 7 |
| Sirius Partners | Sylfaenol Cymunedol ac IM – Cymorth Cyfalaf Strategol – Cam 1 | 45 |
| Supportive Care UK Ltd | Cymorth i'r gwasanaeth gofal lliniarol arbenigol | 82 |
| Synbiotix Solutions Ltd | Ymgynghoriaeth arlwyo – i adolygu allbwn | 1 |
| | | |
| | | |
| **CYFANSWM** | | 327 |

## Sicrwydd Treth ar gyfer Swyddi oddi ar y gyflogres

**Tabl 1: Ar gyfer yr holl ymgysylltiadau oddi ar Gyflogres ar 31 Mawrth 2023, am dros £245 y diwrnod**

| | |
|---|---|
| Tabl 1: Ar gyfer yr holl ymgysylltiadau oddi ar Gyflogres ar 31 Mawrth 2023, am dros £245 y diwrnod | 5 |
| O'r rheiny, y nifer sydd wedi bodoli: | |
| Am lai na blwyddyn ar adeg yr adroddiad | 1 |
| Rhwng un a dwy flynedd ar adeg yr adroddiad | 2 |
| Rhwng dwy a thair blynedd ar adeg yr adroddiad | 1 |
| Rhwng tair a phedair blynedd ar adeg yr adroddiad | 0 |
| Am bedair blynedd neu fwy ar adeg yr adroddiad | 1 |

**Tabl 2: Ar gyfer yr holl ymgysylltiadau oddi ar Gyflogres newydd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, am dros £245 y diwrnod**

| | Number |
|---|---|
| Nifer yr ymgysylltiadau newydd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 | 3 |
| O'r rheiny… | 0 |
| Nifer a aseswyd wedi'u dal gan IR35 | 0 |
| Nifer a aseswyd heb eu dal gan IR35 | 0 |
| | |
| Nifer a ymgysylltwyd yn uniongyrchol (drwy gontract i adran) ac sydd ar y gyflogres adrannol | 0 |
| Nifer yr ymgysylltiadau wedi'u hailasesu at ddibenion cysondeb/sicrwydd dros y flwyddyn | 0 |
| Nifer yr ymgysylltiadau a newidiwyd i statws IR35 ar ôl adolygiad cysondeb | 0 |

**Atodiad 1 (parhau) Tabl 3: Ar gyfer unrhyw ymgysylltiadau oddi ar gyflogres o aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr ymgysylltiadau oddi ar gyflogres ar gyfer aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol.** | |
| **Nifer yr unigolion sydd wedi'u hystyried yn "aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigwr hwn gynnwys ymgysylltiadau cyflogres ac oddi ar gyflogres.** | 12 |

## Pecynnau Ymadael a Thaliadau Diswyddo

**9.5 Adrodd am gynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael**

| Band cost pecynnau ymadael (gan gynnwys unrhyw elfen o dâl arbennig) | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | Nifer yr ymadawiadau lle mae taliadau arbennig wedi'u gwneud | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2022-23 | 2022-23 | 2022-23 | 2021-22 |
| | Rhifau cyfan yn unig | Rhifau cyfan yn unig | Rhifau cyfan yn unig | Rhifau cyfan yn unig | Rhifau cyfan yn unig |
| Llai na £10,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £10,000 i £25,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £25,000 i £50,000 | 0 | 1 | 1 | 0 | 2 |
| £50,000 i £100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| £100,000 i £150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £150,000 i £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mwy na £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | 0 | 1 | 1 | 0 | 3 |

| Band cost pecynnau ymadael (gan gynnwys unrhyw elfen o dâl arbennig) | Cost diswyddiadau gorfodol | Cost ymadawiadau eraill | Cyfanswm cost pecynnau ymadael | Cost elfen arbennig gan gynnwys pecynnau ymadael | Cyfanswm cost pecynnau ymadael |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2022-23 | 2022-23 | 2022-23 | 2021-22 |
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Llai na £10,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £10,000 i £25,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £25,000 i £50,000 | 0 | 32,197 | 32,197 | 0 | 85,839 |
| £50,000 i £100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 76,771 |
| £100,000 i £150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £150,000 i £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mwy na £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | 0 | 32,197 | 32,197 | 0 | 162,610 |

| **Costau ymadael a delir yn ystod y flwyddyn ymadael** | Cyfanswm a delir y flwyddyn | Cyfanswm a delir y flwyddyn |
|---|---|---|
| | 2022-23 | 2021-22 |
| | £ | £ |
| Costau ymadael a delir y flwyddyn | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | 0 | 0 |

Talwyd costau diswyddo a chostau gadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol y GIG (VERS). Lle bo'r BILl wedi cytuno ag ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan y BILl ac nid gan Gynllun Pensiynau'r GIG. Caiff costau ymddeol oherwydd salwch eu talu gan Gynllun Pensiynau'r GIG ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo VERS yn 2022/23.

Gofyniad ychwanegol yn unol â FReM
Talwyd £194,807 o gostau ymadael yn 2022-23, yn ymwneud â 3 achos yn 2021/22 ac 1 achos yn 2022/23, y flwyddyn ymadael (£0 - 2021-22).

Atodiad 4

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru

# 2022/23

## Rheoleidd-dra Gwariant

Rheoleidd-dra Gwariant yw'r gofyniad i ymdrin â phob eitem o wariant a derbynebau yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n eu hawdurdodi, unrhyw awdurdod dirprwyedig perthnasol a rheolau Cyfrifyddu'r Llywodraeth.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn sicrhau bod yr arian a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru wedi'i wario at y dibenion a fwriadwyd gan Weinidogion Cymru a bod yr adnoddau a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru i'w defnyddio wedi'u defnyddio at y dibenion yr awdurdodwyd y defnydd.

Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd yw'r Swyddog Atebol ac mae'n sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â gofynion deddfwriaethol a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Trysorlys. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r Prif Weithredwr:

- lynu wrth y cyfarwyddiadau cyfrifyddu a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a defnyddio polisïau cyfrifyddu priodol yn gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu perthnasol wedi cael eu dilyn a'u datgelu ac egluro unrhyw wyriadau o bwys oddi wrthynt; a'u
- paratoi ar sail busnes hyfyw ar y rhagdybiaeth y bydd gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu.

## Ffioedd a thaliadau

Pan fydd y Bwrdd Iechyd yn ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd yn cael incwm i dalu am ei gostau a fydd yn gwrthbwyso gwariant a adroddir o dan feysydd rhaglen. Mae Incwm Amrywiol i'w weld yn Nodyn 4 Cyfrifon Blynyddol 2022/23. Wrth godi tâl am y gweithgarwch hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â'r gofynion dyrannu costau a chodi tâl a nodir yng nghanllawiau Trysorlys EM.

Ysgwyddodd y Bwrdd Iechyd at £0.421m o gostau ar gyfer darparu'r archwiliad statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Rheoli arian cyhoeddus

Dyma'r Datganiad gofynnol ar gyfer Deiliaid Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus fel y cyfeirir ato yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr. Yn unol â chyrff eraill y GIG yng Nghymru, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu cyfarwyddiadau ariannol sefydlog sy'n gorfodi'r egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau Trysorlys EF 'Rheoli Arian Cyhoeddus' sy'n nodi'r prif egwyddorion ar gyfer delio ag adnoddau yn sector cyhoeddus y DU. O ganlyniad, dylai'r Bwrdd Iechyd fod wedi cydymffurfio â gofynion dyrannu costau a chodi tâl y canllawiau hyn. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cael gwybod am unrhyw achosion lle nad yw hyn wedi cael ei wneud.

**Rhwymedigaethau Digwyddiadol Gwahanol**

Cyflwynwyd y datgeliad hwn am y tro cyntaf yn 2015-16. Mae'n dangos y rhwymedigaethau digwyddiadol hynny yr ystyrir eu bod yn eithriadol o wahanol ac nad ydynt wedi cael eu datgelu o'r blaen yn y nodyn rhwymedigaethau digwyddiadol arferol yn y cyfrifon. Mae'n ymwneud ag 11 achos esgeulustod meddygol yn 2022/23 (2 achos esgeulustod meddygol ac 1 achos niwed personol yn 2021/22) ac mae'n cael ei adrodd yn Nodyn 21.2 i'r prif gyfrifon.

Mae cost rhwymedigaethau digwyddiadol gwahanol yn cynnwys 11 achos esgeulustod meddygol yn 2022/23 (2 achos esgeulustod meddygol ac 1 achos niwed personol yn 2021-22). Os bydd yr achosion hyn yn mynd rhagddynt, bydd y rhan fwyaf o'r costau, sy'n fwy na'r £25k yr achos y gellir ei briodoli i'r Bwrdd Iechyd, yn cael eu hadennill gan Gronfa Risg Cymru.

Nicola Prygodzicz
**Nicola Prygodzicz**
**Y Prif Weithredwr** **Dyddiad: 19 Gorffennaf 2023**

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD ANNIBYNNOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I'R SENEDD

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian a'r Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig.
Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi cael ei ddefnyddio i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol y mae'r DU wedi'u mabwysiadu fel y maent wedi cael eu dehongli a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol yn:
- rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 31 Mawrth 2023 ac o'i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- maent wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed yno gan Weinidogion Cymru.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ac eithrio'r mater a ddisgrifir yn adran *Sail y Farn Amodol ar Reoleidd-dra* fy adroddiad, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Sail y Farn Amodol ar Reoleidd-dra

Rwyf wedi rhoi fy marn ar gysondeb datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan oherwydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi torri ei derfyn adnoddau drwy wario £36.348 miliwn dros y swm y cafodd ei awdurdodi i'w wario yn y cyfnod tair blynedd 2020-2021 i 2022-2023. Mae'r gwariant hwn yn wariant afreolaidd.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn fy Adroddiad ar dudalen 165.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn cael eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau’n annibynnol ar y Bwrdd yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’m harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i’m barn.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i’r casgliad bod defnyddio’r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi’i wneud, nid wyf wedi canfod unrhyw ansicrwydd o bwys sy’n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol nac ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu’r corff i barhau i fabwysiadu’r sail cyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o’r adeg pan awdurdodir cyhoeddi’r datganiadau ariannol.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau’r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae sail cyfrifyddu busnes hyfyw ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cael ei mabwysiadu wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy’n mynnu bod endidau’n mabwysiadu’r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi’r datganiadau ariannol lle’r oedd yn rhagweld y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau yn y dyfodol.

### Gwybodaeth Arall

Mae’r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio’r datganiadau ariannol a’m hadroddiad archwilio. Y Prif Weithredwr sy’n gyfrifol am y wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ac eithrio i’r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad o ran sicrwydd ynghylch hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw’r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â’r datganiadau ariannol neu’r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw’n ymddangos fel arall ei bod yn cael ei chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys, mae’n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi ei wneud, yn casglu bod yna gamddatgan arwyddocaol yn y wybodaeth arall yma, mae’n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i’w adrodd arno mewn perthynas â hynny.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed yno gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yno o dan gyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru; a
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr adran Perfformiad a rhannau eraill yr Adroddiad Atebolrwydd na archwiliwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a dealltwriaeth o'r Bwrdd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Perfformiad a'r rhannau eraill o'r Adroddiad Atebolrwydd na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol nad ydynt wedi'u harchwilio.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, ac yr wyf yn adrodd i chi, os, yn fy marn i:

- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw, neu nad oes ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd wedi'i harchwilio yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF neu Weinidogion Cymru ynghylch taliadau a thrafodion eraill yn cael ei datgelu;
- nad yw rhai o'r taliadau a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF yn cael eu datgelu neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethiant yn adlewyrchu cydymffurfiaeth a chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu digonol
- paratoi datganiadau ariannol ac adroddiad blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;

- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a’r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau cysondeb trafodion ariannol;
- rheolaethau mewnol y mae’r Cyfarwyddwyr a’r Prif Weithredwr yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu’r Bwrdd Iechyd i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo’n berthnasol, faterion sy’n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai fod y Cyfarwyddwyr a’r Prif Weithredwr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau’r archwilydd am yr archwiliad o ddatganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol nad yw’r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy’n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw’n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn arwyddocaol os, yn unigol neu’n gyfun, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hynny.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy’n dylunio gweithdrefnau yn unol â’m cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau’n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Bwrdd Iechyd a’r rheini sy’n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy’n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sy’n ymwneud â’r canlynol:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a’r
    - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy’n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon,

nodais y potensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: postio cyfnodolion anarferol, amcangyfrifon, darpariaethau, a chroniadau â llaw;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;
- Cael dealltwriaeth o gysylltiadau partïon cysylltiedig

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:
- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiad â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi rheolwyr, y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a chynghorwyr cyfreithiol am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Rwyf hefyd wedi cyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio ac wedi bod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi hefyd gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu mewn perthynas â, ymysg materion eraill, cwmpas cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, yn cynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol o ran rheolaeth fewnol y byddaf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad.

**Adroddiad**

Gweler fy Adroddiad ar dudalennau 165

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad 25 Gorffennaf 2023

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

## ADRODDIAD YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R SENEDD

### Cyflwyniad

O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004, rwyf yn gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd). Rwy'n adrodd ar y datganiadau ariannol hyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 er mwyn tynnu sylw at ddau fater allweddol ar gyfer fy archwiliad. Y rhain yw'r methiant yn erbyn y ddyletswydd ariannol gyntaf a chymhwyster canlyniadol fy marn ar 'reoleidd-dra'. Nid wyf wedi cymhwyso fy marn 'gwir a theg' mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion hyn.

### Dyletswyddau ariannol

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd gyflawni dwy ddyletswydd ariannol statudol – a elwir yn ddyletswydd ariannol gyntaf a'r ail ddyletswyddau ariannol.

Ar gyfer 2022-23, methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni'r ddyletswydd ariannol gyntaf.

### Methiant y ddyletswydd ariannol gyntaf

Mae'r **ddyletswydd ariannol gyntaf** yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i Fyrddau Iechyd drwy ganiatáu iddynt fantoli eu hincwm â'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd. Y cyfnod tair blynedd sy'n cael ei fesur o dan y ddyletswydd hon eleni yw 2020-21 i 2022-23.

Fel y dangosir yn Nodyn 2.1 y Datganiadau Ariannol, ni reolodd y Bwrdd Iechyd ei wariant refeniw o fewn ei ddyraniad adnoddau dros y cyfnod tair blynedd hwn, gan fynd £36.348 miliwn dros ei derfyn adnoddau refeniw cronnus o £4,789.223 miliwn.

Lle nad yw Bwrdd Iechyd yn mantoli ei lyfrau dros gyfnod treigl o dair blynedd, mae unrhyw wariant dros y dyraniad adnoddau (h.y. terfyn gwario) ar gyfer y tair blynedd hynny yn fwy nag awdurdod y Bwrdd Iechyd i wario ac felly mae'n 'afreolaidd'. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n ofynnol i mi gymhwyso fy 'marn ar reolaidd-dra' ni waeth beth yw gwerth y gwariant gormodol.

**Adrian Crompton**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Dyddiad 25 Gorffennaf 2023**

**Atodiad Un**

## Geirfa

| A | | |
|---|---|---|
| BIPAB – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | A&E - Adran Damweiniau ac Achosion Brys | ACV – Gwerth Blynyddol y Contract |
| AGP – Gweithdrefnau Cynhyrchu Aerosol | AVLOS – Hyd Cyfartalog yr Arhosiad | ABCHC - ABCHC – Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan |
| AMD – Dirywiad Macwlaidd sy'n Gysylltiedig ag Oedran | | |
| **C** | | |
| CEO - Y Prif Weithredwr | CHC - Cyngor Iechyd Cymuned | COSO - Pwyllgor Cyrff Noddi Comisiwn Treadway |
| CBE – Cadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | CYP - Plant a Phobl Ifanc | CMO - Prif Swyddog Meddygol |
| COTE – Gofal yr Henoed | CONCCO –Pryder – Mynegiant o Anfodlonrwydd Cleifion (Cod DATIX) | CAD – Gofal ar ôl Marwolaeth |
| CRL – Terfyn Adnoddau Cyfalaf | | |
| CCA – Deddf Argyfyngau Sifil Posibl | | |
| **D** | | |
| DATIX – system rheoli digwyddiadau / pryderon | DNA - Heb Fynychu | DFL – Arweinydd Ffliw Adrannol |
| **E** | | |
| EASC - Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys | EMS - System Rheoli Amgylcheddol | eLGH – Ysbyty Cyffredinol Lleol Uwch |
| EoLC - Cyfeillion Diwedd Oes | ED - Adran Achosion Brys | EHEW - Archwiliad Iechyd Llygaid Cymru |
| ESR – Cofnod Staff Electronig | EOL – Diwedd Oes | |

| | | |
|---|---|---|
| **F** | | |
| FReM – Llawlyfr Adrodd Ariannol | | |
| **G** | | |
| GMS – Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol | GP – Meddyg Teulu | GS - Datganiad Llywodraethiant |
| GUH - Ysbyty Athrofaol y Faenor | GDPR – Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol | GDP – Ymarferydd Deintyddol Cyffredinol |
| GARTH – Celfyddydau mewn Iechyd Gwent | GAVO – Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent | GDAS - Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent |
| GURT – Siwt efelychu oedran | GWICES – Gwasanaeth Offer Cymunedol Integredig Gwent Gyfan | |
| **H** | | |
| HPF - Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol. | HCSW - Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd | EF – Ei Fawrhydi |
| HCS – Safonau Iechyd a Gofal | AaGIC - Addysg a Gwella Iechyd Cymru | HCC - Carsinoma Hepato-Cellaidd |
| AaGIC - Addysg a Gwella Iechyd Cymru | HCAI - Haint Cysylltiedig â Gofal Iechyd | HPV - Anwedd Hydrogen Perocsid |
| HFrEF – Methiant y Galon gyda Ffracsiwn Alldafliad Is | | |
| **I** | | |
| TG – Technoleg Gwybodaeth | IMTP - Cynllun Tymor Canolig Integredig | ICF - Y Gronfa Gofal Integredig |
| ISO – Sefydliad Rhyngwladol er Safoni | ICO - Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | TGCh – Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| IPBS- Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol Dwys | Iceberg– darlun gweledol o sut mae gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu darparu i blant | IPC – Atal a Rheoli Heintiau |
| IFRS - Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol | | |
| **J** | | |

| | | |
|---|---|---|
| JCVI – Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu | | |
| **L** | | |
| LMC – Pwyllgor Meddygol Lleol | BILl – Bwrdd Iechyd Lleol | LNC – Pwyllgor Negodi Lleol |
| LES – Gwasanaeth Ychwanegol Lleol | LFD – Dyfais Llif Unffordd | LPS - Trefniadau Amddiffyn Rhyddid |
| **M** | | |
| MpMRI – delweddu adnoddau magnetig amlbaramedrig | MSK - Cyhyrysgerbydol | MDT – Tîm Amlddisgyblaethol |
| Myst – Fy nhîm cymorth | MIU - Uned Mân Anafiadau | MAU – Uned Asesu Meddygol |
| MHLD – Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | MCA – Deddf Galluedd Meddyliol | MRSA - Staffylococws awrëws sy'n gwrthsefyll Methisilin |
| MELO – Gwefan Adnoddau Iechyd Meddwl | | |
| **N** | | |
| NCN – Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth | GIG – Gwasanaeth Iechyd Gwladol | NEST – fframwaith strategol ar gyfer darparu gwasanaeth llesiant i blant – sy’n disgrifio’r hyn sydd ei angen ar bob plentyn i ffynnu a’r hyn sydd ei angen ar y systemau sy’n ymwneud â phlant hefyd.<br>N- Meithrin<br>E- Empathi<br>S - Cefnogaeth<br>T – Oedolyn Dibynadwy. |
| NHH – Ysbyty Neville Hall | NWSSP - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru | |
| **O** | | |
| OD – Datblygu Sefydliadol | OOH – Tu Allan i Oriau | OAK - Opsiynau, Cyngor a Gwybodaeth |
| OT - Therapi Galwedigaethol | | |

| | | |
|---|---|---|
| **P** | | |
| PSB - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | PQSOC - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion | POCU – Uned Gofal ar ôl Llawdriniaeth |
| PHW - Iechyd Cyhoeddus Cymru | PCR – Adweithiau Cadwyn Polymeras | POCT – Profion Pwynt Gofal |
| PIFU - Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf | PROMS – Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion | PPE – Cyfarpar Diogelu Personol |
| PWP - Ymarferwyr Lles Seicolegol | PCMHSS - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol | PREMS – Mesur Profiad a Adroddir gan Glaf |
| PoC – Prawf o Gysyniad | PLO – Swyddog Cyswllt Cleifion | PTR – Gweithio i Wella |
| PSOW - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | PA – Cydymaith Meddygol | PADR – Adolygiad Datblygiad Arfarniad Personol |
| PTSD – Anhwylder Straen Wedi Trawma | PCC – Gofal sy'n Canolbwyntio ar y Claf | |
| **R** | | |
| RGH – Ysbyty Brenhinol Gwent | RCS – Coleg Brenhinol y Llawfeddygon | RATS - Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth |
| RTT – Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth | RPB - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | RIIV - Ymchwil, Gwella, Arloesi a Gwerth |
| RITA - Cymorth Technoleg Rhyngweithiol Hel Atgofion | RCP – Coleg Brenhinol y Meddygon | RIF – Cronfa Integreiddio Rhanbarthol |
| **S** | | |
| SIRO – Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth | SoS – Sylw yn ôl Symptomau | SRG - Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid |
| SC2HU – Uned Cam yn Nes at Adref | SAR – Cais Gwrthrych am Wybodaeth | SPACE - datblygu un pwynt mynediad ar gyfer plant ac oedolion ifanc |
| SI – Digwyddiad Difrifol | | |
| **T** | | |
| TUPF - Fforwm Partneriaeth Undebau Llafur | TVA - Cynghrair Gwirfoddolwyr Torfaen | |
| **U** | | |

| | | |
|---|---|---|
| UPC - Gofal Sylfaenol Brys | UDA - Unedau o Weithgarwch Deintyddol | |
| | | |
| **V** | | |
| VERS – Cynllun gadael swydd yn gynnar o wirfodd | VBHC – Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth | |

| | | |
|---|---|---|
| **W** | | |
| **WASPI – Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru** | LlC - Llywodraeth Cymru | WHC - Cylchlythyr Iechyd Cymru |
| **WHSSC - Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru** | WPAS - System Gweinyddu Cleifion Cymru | WTE – Cyfwerth ag Amser Llawn |
| **WHO - Sefydliad Iechyd y Byd** | | |
| **Y** | | |
| **YAB – Ysbyty Aneurin Bevan** | YYF – Ysbyty Ystrad Fawr | |